
Clywch

Adroddiad Archwiliad Comisiynydd Plant Cymru
o honiadau o gam-drin plant yn rhywiol mewn ysgol

"Dim ond plant ysgol ydym"

Disgybl 3 (1991)

Gellir cael copïau pellach o'r adroddiad hwn o:

Comisiynydd Plant Cymru

Tŷ Ystumllwynarth
Llys y Siarter
Ffordd Phoenix
Llansamlet
Abertawe
SA7 9FS
Rhif ffôn: 01792 765600
Rhif ffacs: 01792 765601

Maenor Penrhos
Oak Drive
Bae Colwyn
Conwy
LL29 7YW
Rhif ffôn: 01492 523333
Rhif ffacs: 01492 523336

Ebost cyffredinol: post@complantcymru.org.uk
Gwefan: www.complantcymru.org.uk

Cyhoeddwyd gan: Comisiynydd Plant Cymru, Mehefin 2004

Tabl Cynnwys

Pennod	Teitl	Tudalen
	Rhagair	3
1	Cyflwyniad	5
2	Canfyddiadau Ffeithiol	11
3	Mr John Arwyn Owen	15
4	Mr Edwin Roberts	23
5	Mr David Matthews	49
6	Mr Graham Dunne	61
7	Mr George Askey	65
8	Awdurdod Addysg Lleol Cyngor Sir Morgannwg Ganol	67
9	Ymchwiliad yr Heddlu	71
10	Rhybuddion Cynnar	77
11	Staff Ysgol Gyfun Rhydfelen	83
12	Miss Theda Williams	91
13	Mr Peter Davies	105
14	Llywodraethwyr Ysgol Gyfun Rhydfelen	111
15	Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru	123
16	Ar ôl Ysgol Gyfun Rhydfelen	141
17	Pam Fi Duw?	145
18	Pwyllgor Amddiffyn Plant Rhondda Cynon Taf - Adolygiad Achos Difrifol	155
19	Rhieni'r Plant	163
20	Plant Ysgol Gyfun Rhydfelen	171
21	Argymhellion	183
22	Cronoleg	191

Cyfeiriadau ac Atodiadau

Atodiad 1	Tystysgrif Dirmyg a dogfennaeth atodol	217
Atodiad 2	Adroddiad Mr Edwin Roberts, Cyfarwyddwr Addysg i Llywodraethwyr Ysgol Gyfun Rhydfelen 5 Chwefror 1991	249
Atodiad 3	Esboniad o Restr 99	251
Atodiad 4	Adroddiad Uwch Staff Ysgol Gyfun Rhydfelen Ionawr 1991	255
Atodiad 5	Cyfeiriadau at dystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r Ymchwiliad	261
Atodiad 6	Llyfryddiaeth	277

Rhagair

Ni all unrhyw un a glywodd y dystiolaeth a glywais i yn fy Ymchwiliad amau, â didwylledd, fod Mr John Owen yn euog o weithredoedd o anweddustra rhywiol difrifol yn erbyn rhai disgyblion yn Ysgol Gyfun Rhydfelen. Mae'r dystiolaeth a glywais wedi dangos i Mr Owen, yn ôl pwysau tebygolrwydd, gam-drin disgyblion yn ei ofal yn rhywiol dros nifer o flynyddoedd.

Yn ôl Cylch Gorchwyl fy Ymchwiliad, nid yw'n ofynnol i mi fynd ymhellach, ond credaf fod fy nghanfyddiad cyffredinol yn angenrheidiol i bwysleisio difrifoldeb yr amgylchiadau a archwiliwyd gennyf a'r canlyniadau ar gyfer ei ddioddefwyr, ynghyd â'r cyfrifoldeb dwys y mae'n rhaid i'r rheini a wnaeth lai na'u dyletswydd ei ddwyn.

Nodir sail y canfyddiad uchod ym Mhennod 2: Canfyddiadau Ffeithiol.

Credaf y bydd y canfyddiad uchod hefyd yn gymorth i roi'r grym priodol i'r argymhellion a wnaeth.



Peter Clarke
Comisiynydd Plant Cymru
Mehefin 2004

Pennod 1

Cyflwyniad

- 1.1 Dyma'r Ymchwiliad cyntaf a gynhaliwyd yn unol â'm pwerau fel y'u nodir yn Neddf Safonau Gofal 2000, Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 a'r Rheoliadau a wnaed o dan y Deddfau hynny.
- 1.2 Cylch Gorchwyl fy Ymchwiliad oedd:
 - (i) archwilio datganiadau gan gyn-ddisgyblion John Arwyn Owen ac eraill i gadarnhau p'un a ymchwiliwyd i unrhyw faterion a ddylai fod wedi peri pryder yn unol ag arfer da a chanllawiau a oedd ar gael ar y pryd, nodi unrhyw wersi i'w dysgu o'r modd yr ymchwiliwyd i unrhyw faterion o'r fath ac ystyried p'un a yw'r canllawiau, gweithdrefnau a'r polisiau cyfredol yn ddigonol yng ngoleuni'r hyn a allai fod wedi digwydd
 - (ii) archwilio i ba raddau yr oedd plant ac eraill yn teimlo eu bod yn gallu rhannu eu pryderon gydag oedolion priodol a ph'un a oedd anogaeth i wneud hynny a gwerthuso'r trefniadau cyfredol yn y cyd-destun hwnnw
 - (iii) ystyried adroddiad Pwyllgor Adolygu Achosion Difrifol Pwyllgor Amddiffyn Plant Rhondda Cynon Taf
 - (iv) archwilio arferion a gweithdrefnau diogel ar gyfer gweithio gyda phlant yn y celfyddydau perfformio yng ngoleuni yr hyn a allai fod wedi digwydd yn yr achos hwn.
- 1.3 Diben fy Ymchwiliad oedd cynnal ymchwiliad teg a thrwyadl i'r mater hwn mewn ffordd a fydd yn diogelu ac yn hyrwyddo hawliau a lles plant.
- 1.4 Cynhaliwyd fy Ymchwiliad mewn ffordd anffurfiol i'r graddau yr oedd yn gyson â thegwch ac effeithlonrwydd. Fe'i cynhaliwyd mewn modd sensitif a rhoddwyd sylw dyledus i'r ffaith na allai person marw herio unrhyw wybodaeth neu ddatganiad.
- 1.5 Cynhaliwyd yr Ymchwiliad yn gyhoeddus ac arhosodd y tystion a ddiogelwyd gan Ddeddf (Newid) Troseddau Rhywiol 1992 yn ddiennw.
- 1.6 Yn 2001, cyhuddwyd y diweddar Mr Owen o droseddau difrifol yn erbyn plant: dau gyhuddiad o ymosod yn anwedus, dau gyhuddiad o ymgais i sodomeiddio ac un cyhuddiad o sodomiaeth.

- 1.7 Ychydig cyn i'r achos ddod gerbron Llys y Goron yng Nghaerdydd, bu i Mr Owen ladd ei hun. Nid penderfynu ar wirionedd unrhyw honiadau o gamdriniaeth rywiol gan Mr Owen oedd diben pennaf fy Ymchwiliad. Yn hytrach ei ddiben oedd archwilio p'un a weithredodd y rheini a oedd â chyfrifoldeb priodol ar yr honiadau a'r rhybuddion mewn modd digonol, a nodi argymhellion a allai ddiogelu plant yn well yn y dyfodol.
- 1.8 Yn ystod yr Ymchwiliad derbyniais dystiolaeth ysgrifenedig gan saith ar hugain o dystion a thystiolaeth ysgrifenedig a llafar gan chwe deg a saith o dystion eraill. Diolchaf i bob un ohonynt am eu tystiolaeth.
- 1.9 Darparwyd dogfennau cyfredol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, UCAC, Mr Hywel Jeffreys, cyn-bennaeth dros dro Ysgol Gyfun Rhydfelen, Mrs Phillips, rhiant cyn-ddisgybl ac ystad y diweddar Mr Owen. Mae, wrth gwrs, nifer o awdurdodau olynol i hen Gyngor Sir Morgannwg Ganol. At ddibenion y mater hwn, yr awdurdod olynol perthnasol yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Darparwyd saith deg pedwar o ddatganiadau gan Heddlu De Cymru a gymerwyd yn ystod eu hymchwiliad hwy yn 2001. I gyd, ystyriwyd rhyw 6,721 o dudalennau o dystiolaeth gennyf. Diolchaf i'r rheini a enwir am eu cydweithrediad parod. Heb y dystiolaeth hon, buasai wedi bod yn anodd tu hwnt i ganfod beth a ddigwyddodd.
- 1.10 Mae unrhyw ganfyddiadau a wnaif yn seiliedig ar y dystiolaeth a glywyd yn gyhoeddus ac a oedd yn agored i'w herio. Cynhaliodd Pwyllgor Amddiffyn Plant Rhondda Cynon Taf Adolygiad Achos Difrifol yn ystod cyfnod fy Ymchwiliad. Mae'r Adolygiad hwnnw wedi bod o gymorth i mi wrth lunio fy argymhellion.
- 1.11 Cynhaliwyd fy Ymchwiliad yn gyhoeddus am gyfnod o dri deg saith o ddiwrnodau. Ar ddau achlysur, bu'n rhaid gohirio'r Ymchwiliad tra bu Heddlu De Cymru yn cynnal ymchwiliadau troseddol o ganlyniad i dystiolaeth a gyflwynwyd i mi. Yn sgîl hyn gohiriwyd yr Ymchwiliad am gyfnod hwy nag ymchwiliadau'r heddlu gan nad oedd pob un o'r cynrychiolwyr cyfreithiol ar gael er mwyn ailagor yr Ymchwiliad ar unwaith. O ganlyniad cymerodd yr Ymchwiliad gryn dipyn yn fwy o amser nag y buaswn wedi dymuno, ond nid oedd modd osgoi hyn.
- 1.12 Bu cydweithrediad y cynrychiolwyr cyfreithiol a oedd yn bresennol yn gymorth mawr i sicrhau bod fy Ymchwiliad wedi'i gynnal yn briodol ac ar y cyfan cafwyd adroddiadau cywir o'r achos gan y cyfryngau. Diolchaf iddynt am hynny.
- 1.13 Dechreuodd fy Ymchwiliad ar sail model ymchwiliol. Fodd bynnag, yn gynnar yn yr achos, gwnaed cyhuddiadau gan dyst yn erbyn Mr Owen ac er tegwch, bu i mi ganiatáu croesholi. Erbyn hyn roedd pedwar cyn-ddisgybl, dau lywodraethwr a thair mam i gyn-ddisgyblion wedi rhoi tystiolaeth. Aeth yr

Ymchwiliad yn ei flaen wedi hynny mewn dull mwy gwrthwynebus, ond gan ystyried arfer gorau a chanllawiau o ran tystion bregus. Yna cafwyd tystiolaeth gan bum deg wyth o dystion pellach. Derbyniwyd y newid hwn mewn gweithdrefn gan bob un o'r cynrychiolwyr cyfreithiol ar y pryd. Ni feirniadwyd y modd y cynhaliwyd yr Ymchwiliad yn y cyd-destun hwn gan unrhyw dyst na chynrychiolydd cyfreithiol. Rwyf yn gwbl fodlon i bob person a chorff a fu'n agored i feirniadaeth gael pob cyfle i ymdrin â'r pwyntiau a wnaed yn eu herbyn, o ran tystiolaeth ac o ran cyflwyniadau.

1.14 Drwy gydol fy Ymchwiliad, rwyf wedi ceisio sicrhau bod pob un o'r partïon wedi deall cynnydd priodol yr Ymchwiliad a bod iddo natur dryloyw. Roeddwn yn ymwybodol bod llawer o bobl wedi honni i faterion gael eu celu yn y gorffennol. Cynhaliais fy Ymchwiliad heb gael fy nylanwadu gan unrhyw beth heblaw'r gyfraith, gan gynnwys egwyddorion cyfiawnder naturiol a'r dystiolaeth a oedd ar gael i mi. Rwyf wedi adolygu'r dystiolaeth ac wedi'i defnyddio i lunio fy nghasgliadau.

1.15 Yn fy "Natganiad Gweithdrefn" a ddarparwyd i bartïon â diddordeb ar ddechrau'r Ymchwiliad hwn, nodais:

"Bydd yr Ymchwiliad yn un ymchwiliol yn hytrach na dyfarniadol ac ni fydd yn ymwneud ag atebolrwydd sifil na throseddol....."

Bu felly ers y dechrau ac mae'n parhau i fod felly. Nid fy swyddogaeth i yw llunio dyfarniadau ynghylch unrhyw un sy'n fyw neu'n farw yn yr ystyr o'u cosbi'n sifil nac yn droseddol. Fodd bynnag, yng nghyd-destun yr hyn a ganfyddaf sydd wedi digwydd yma, mae ymchwiliad, o anghenraid, yn cynnwys nodi ar bwy y mae'r cyfrifoldeb fel mater o ffaith.

1.16 Mae'n bwysig iawn cofio i'm Datganiad Gweithdrefn hefyd gynnwys:

"Byddaf yn ystyried rolau a chyfrifoldebau ystod eang o gyrff gan gynnwys awdurdodau addysg lleol, cyrff llywodraethu ysgolion...a CBAC a phawb arall a fu â phlant yn eu gofal tra buont yn ymwneud â'r diweddar John Arwyn Owen."

Nid yw'r pwyslais i'w weld yn y gwreiddiol ond ymddengys i mi ei fod yn werth ei ychwanegu yn awr.

Diben fy Ymchwiliad ar hyd yr amser oedd nodi ar bwy yr oedd y cyfrifoldeb fel mater o ffaith ac roedd yn rhaid iddo fod felly. Nid yw'n ymwneud â llunio barn foesol neu bennu cosb sifil neu droseddol ac nid dyna a fu'n ymwneud ag ef. Yn anochel roedd y broses o ymchwilio i bwy a oedd yn gyfrifol yn cynnwys beirniadaeth ar rai partïon gan eraill. Buaswn yn methu â chyflawni fy nyletswydd pe na baem yn ceisio datrys yr anghydfodau a gododd o ran pwy oedd â chyfrifoldeb rhwng y Swyddog Addysgol Rhanbarthol ar y pryd,

Mr Matthews, Cadeirydd y Llywodraethwyr, Mr Richards a'r Cyfarwyddwr Addysg, Mr Roberts er enghraifft. Gofynnwyd i mi wneud hyn, i bob pwrpas, gan bob un ohonynt ac roeddent oll wedi'u cynrychioli. Buaswn yn methu â chyflawni fy nyletswydd mewn modd hyd yn oed yn fwy difrifol petawn i nawr yn methu â nodi ar bwy yr oedd y cyfrifoldeb dros yr hyn a aeth o'i le i'r graddau y mae'r dystiolaeth, yn fy meddwl i, yn cadarnhau hynny yn amlwg.

1.17 Nododd fy Natganiad Gweithdrefn yn glir:

"Ar ddiwedd yr Ymchwiliad hwn byddaf yn cyflwyno adroddiad yn nodi fy nghanfyddiadau, fy nghasgliadau ac unrhyw argymhellion."

Unwaith eto, nid yw'r pwyslais yn y gwreiddiol ond ymddengys ei bod yn werth ei ychwanegu yn awr. Ni ragwelais, ar ddechrau'r Ymchwiliad hwn, y byddai'r dystiolaeth y buaswn yn ei chlywed yn datgelu ymddygiad o'r fath gan Mr Matthews a Mr Roberts yn enwedig, fel ag y gwnaeth. Ni allwn fod wedi gwneud hynny. Fodd bynnag, rhagwelais y byddent, o bosibl, yn agored i feirniadaeth ac am y rheswm hwnnw bu i mi sicrhau eu bod yn ymwybodol y gallent, o bosibl, gael eu beirniadu a'u bod wedi'u cynrychioli gan gwnsleriaid. Rwyf yn gwbl fodlon nad ydynt yn cael eu trin yn annheg mewn unrhyw ffordd. Ni allaf ymatal rhag llunio canfyddiadau a chasgliadau ar sail y dystiolaeth a glywais, oherwydd byddai gweithredu yn y modd hwnnw yn debygol o achosi eraill i lunio barn anffafriol yng nghyd-destun Mr Matthews a Mr Roberts. Fy nyletswydd yw nodi'r hyn a aeth o'i le yn glir heb ofn na ffafriaeth a dyna a fu fy nyletswydd ar hyd yr amser.

1.18 Yn y cyd-destun hwn roedd ymyrraeth hwyr ac annoeth y Cynghorydd Jeff Jones, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chadeirydd CBAC yn anffodus. Teimlais y bu'n rhaid i mi weithredu'n gyhoeddus yng nghyd-destun y mater hwnnw gan ei fod yn hanfodol i onestrywydd fy Swydd a'm Hymchwiliad ddangos nad wyf yn agored i ddylanwad amhriodol gan unrhyw ffynhonnell. Mae fy Nhystysgrif Dirmyg a'r ddogfennaeth ategol yn Atodiad 1.

1.19 Hoffwn gofnodi fy niolch i dîm yr Ymchwiliad, y Clerc i'r Ymchwiliad, Miss Maria Battle ac i Mr Nicholas Cooke CF, Cwnsler yr Ymchwiliad, am eu gwaith.

1.20 Hwyrach y bydd rhai yn ystyried yr iaith a ddefnyddir mewn rhai rhannau o'm hadroddiad fel iaith emosiynol. Mae dau reswm dros hyn. Yn gyntaf, mae natur y deunydd y bu'n rhaid i mi ymdrin ag ef – honiadau o gam-drin plant dros yr hir dymor ac ymateb annigonol i hynny – yn gwneud hynny'n anochel. Yn ail, nid dyma'r tro cyntaf y bu'n rhaid cyhoeddi adroddiad cyhoeddus ar ymatebion annigonol i arwyddion y gallai plant fod yn cael eu cam-drin. I mi, mae hynny'n dynodi ei bod bellach yn amser defnyddio iaith rymus.

- 1.21 Efallai y bydd rhai hefyd yn gofyn sut y bu modd i mi gysoni fy rôl fel eiriolwr dros blant a'r rôl o gynnal yr Ymchwiliad hwn. Mae'r ateb yn gymharol syml. Dim ond Ymchwiliad teg a fyddai wedi gwasanaethu buddiannau plant. Dyna oedd fy nod. Pan fo gwrthdaro tybiedig posibl rhwng hawliau plant a thegwch i'r rheini yr oedd fy Ymchwiliad yn effeithio arnynt yn uniongyrchol, y realiti yw mai tegwch fydd drechaf a sicrheais hynny.
- 1.22 Hyderaf y gweithredir ar fy argymhellion. Gobeithiaf y bydd yn rhoi rhyw ychydig o gysur i'r rheini yr effeithiwyd arnynt fwyaf, pan yn blant, gan y digwyddiadau hynny y seiliwyd fy Ymchwiliad arnynt y bydd y cyfryw argymhellion yn gymorth i leihau'r risg i blant gael eu cam-drin yn y dyfodol.

Pennod 2

Canfyddiadau Ffeithiol

- 2.1 Mae'r graddau y mae'n bosibl, angenrheidiol neu'n ddoeth i mi wneud canfyddiadau ffeithiol ar sail y dystiolaeth a archwiliwyd gennyf yn fy Ymchwiliad yn fater pwysig. Yn ystod cyfnod cyflwyno'r argymhellion terfynol cyflwynodd Mr Goldwater, cynrychiolydd ystad y diweddar Mr Owen, achos effeithiol a grymus pam na ddylwn wneud hynny. Ni wnaeth unrhyw bartïon eraill argymhellion tebyg ac yn wir mae'n amlwg bod llunio canfyddiadau ffeithiol ynghylch nifer o agweddau ar yr hyn yr ymchwiliais iddynt, yn hanfodol.
- 2.2 Nododd Mr Goldwater nifer o seiliau i'w haeriad yn ei argymhellion terfynol i'm Hymchwiliad. Derbyniaf ei argymhelliad y byddai llunio canfyddiadau ffeithiol ynghylch honiadau o ddigwyddiadau penodol ar adegau penodol a oedd yn ymwneud â Mr Owen yn amhriodol oni cheir tystiolaeth ategol rymus. Mae'n amlwg na fu'n bosibl i Mr Goldwater dderbyn cyfarwyddiadau gan ei glient nad oedd mewn sefyllfa i herio'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan ei gyhuddwyr. Credaf fod yr argymhelliad hwn ynghyd ag argymhellion eraill gan Mr Goldwater o ran canfyddiadau ffeithiol penodol yn rymus a dim ond pan fo'n ofynnol o ran fy Nghylch Gorchwyl ac yr ategir hynny gan bwysau'r dystiolaeth a nodir gennyf yn y penodau perthnasol, y byddaf yn llunio canfyddiadau ffeithiol.
- 2.3 Fodd bynnag, aeth Mr Goldwater ymhellach ac yn ei argymhelliad olaf awgryma nad oedd fy Nghylch Gorchwyl yn caniatáu i mi lunio canfyddiadau ffeithiol mwy cyffredinol nac yn ei gwneud yn ofynnol i mi wneud hynny:

"Rydym yn dadlau y gall digwyddiad honedig fod yn fater i beri pryder ac yn un sy'n haeddu ymchwiliad priodol heb brofi i'r digwyddiad neu'r achos hwnnw ddigwydd. Y mater y dywedwn i chi ganolbwyntio arno, Gomisiynydd, yw'r modd yr ymchwiliwyd i'r materion hyn, i bwy y trosglwyddwyd gwybodaeth, yr hyn a wnaethpwyd â'r dystiolaeth honno, i bwy y soniwyd wrthynt am y materion, p'un a wnaed ymholiadau priodol i'r materion a ph'un a gyfwelwyd yn briodol â'r plant mewn modd a oedd yn eu hannog i fynegi a rhannu'u pryderon".

"Argymhellwn mai pwysigrwydd eilradd sydd i'r mater o ran p'un a oedd y cwynion yn wir, ac argymhellwn y byddai yr un mor bwysig i gynnal ymchwiliad priodol i ymdrin â'r holl faterion y cyfeiriais atynt ychydig yn ôl, hyd yn oed pe canfyddid wedyn i'r cwynion hynny fod yn anwir, yn ddi-sail neu'n ddigyfiawnhad. Nid oes angen i chi wneud canfyddiadau penodol am y modd y dywedir i'r diweddar John Owen weithredu i gadarnhau pa wersi sydd angen eu dysgu...".

"Gallwn weld, wrth gwrs, y byddai'n afresymol mynd ymlaen ar y sail na ddigwyddodd unrhyw beth anweddaidd o bosibl. Nid wyf yn awgrymu hynny, rwyf eisoes wedi addef yn fy argymhellion ysgrifenedig bod y cwynion a wnaed ym 1991 ac yn dilyn hynny yn 2001, yn faterion sy'n peri pryder ac y gallwch fynd ymlaen oddi yno i gyflwyno argymhellion am y modd y dylid ymchwilio i gwynion o'r fath a'r modd y gellid osgoi cwynion o'r fath yn y dyfodol a dywedwn nad oes angen ymarferiad canfyddiad ffeithiol ar y mater hwnnw"¹.

- 2.4 Credaf fod camddealltwriaeth wrth wraidd dadl Mr Goldwater ac egluraf fy resymau dros hynny drwy edrych ar fy Nghylch Gorchwyl cyntaf sef:

"Archwilio datganiadau gan gyn-ddisgyblion John Arwyn Owen ac eraill i gadarnhau p'un a ymchwiliwyd i unrhyw faterion a ddylai fod wedi peri pryder yn unol ag arfer da a chanllawiau a oedd ar gael ar y pryd, nodi unrhyw wersi i'w dysgu o'r modd yr ymchwiliwyd i unrhyw faterion o'r fath ac ystyried p'un a yw'r canllawiau, gweithdrefnau a'r polisiau cyfredol yn ddigonol yng ngoleuni'r hyn a allai fod wedi digwydd".

- 2.5 "Archwilio datganiadau gan...":

Yn gyntaf, yn y cyd-destun hwn, dylid dehongli'r gair 'archwilio' fel berf sy'n deillio o'r gair 'Archwiliad' a ddefnyddir yn Neddf Safonau Gofal 2000 i ddisgrifio'r Ymchwiliad y mae gennyf bwerau i'w gynnal ac yr wyf wedi'i gynnal. Ni ddylid dehongli hyn i olygu darllen neu fwrw golwg dros y datganiadau ar ffurf ddogfennol yn unig. Nid yw ychwaith yn fy nghyfyngu i 'gwynion a wnaed ym 1991 ac yn dilyn hynny yn 2001' fel yr awgrymodd Mr Goldwater. Yn wir nid yw'n cyfyngu mewn unrhyw ffordd ar ba bryd y gellid bod wedi gwneud y datganiadau hyn. Dim ond yn ystod fy Ymchwiliad y gwnaed rhai honiadau ar ffurf datganiadau (fel arall nid yw dibenion ei gynnal yn eglur) ac mae'n gwbl briodol i mi ystyried y rhain.

- 2.6 "cadarnhau p'un a ymchwiliwyd i unrhyw faterion a ddylai fod wedi peri pryder, yn unol ag arfer da ac arweiniad...".

Ni ellir yn rhesymol ddehongli cadarnhau "p'un a ymchwiliwyd i unrhyw faterion a ddylai fod wedi peri pryder yn unol ag, ac yn y blaen" fel rhywbeth a oedd yn fy nghyfyngu i ganolbwyntio ar "y modd yr ymchwiliwyd i'r materion hyn" fel yr argymhellir gan Mr Goldwater. Mae hefyd yn caniatáu i mi gadarnhau p'un a ymchwiliwyd i'r cyfryw faterion o gwbl. (Gyda bodolaeth ymchwiliad yn rhagamod i'w gynnal yn briodol). Yn wir, mae'n rhoi cyfrifoldeb arnaf i wneud hynny.

- 2.7 Yn y modd hwn, fe'm galluogir (a gellid dadlau bod gofyniad arnaf) i gadarnhau p'un a yw'r materion a ddygwyd ger fy mron fel tystiolaeth yn rhan o "unrhyw faterion, a ddylai fod wedi peri pryder" ynghyd â pha faterion a ddygwyd ger fy

mron fel tystiolaeth sy'n rhan o "unrhyw faterion a ddylai fod wedi peri pryder". Mae cam-drin plant yn rhywiol yn fater o'r fath. Felly, mae'n gwbl briodol i mi geisio cadarnhau p'un a ddigwyddodd camdriniaeth rywiol er mwyn "nodi materion a ddylai fod wedi peri pryder", a thrwy hynny, fynd ymlaen i geisio canfod y modd yr ymchwiliwyd i'r materion hynny, os yr ymchwiliwyd iddynt o gwbl. Buasai'n anodd i mi fynd ymlaen yn unol â'm Cylch Gorchwyl petawn yn gwneud fel arall.

- 2.8 Credaf y rhoddir pwysau ychwanegol i'm dehongliad gan y ffaith bod y Cylch Gorchwyl yn nodi y byddaf yn "ystyried p'un a yw'r canllawiau, y gweithdrefnau a'r polisiau cyfredol yn ddigonol yn ngoleuni'r hyn a allai fod wedi digwydd".
- 2.9 Yn groes i argymhellion Mr Goldwater, credaf fod Cylch Gorchwyl fy Ymchwiliad yn caniatáu i mi lunio 'canfyddiadau ffeithiol' o ran honiadau o gamdriniaeth rywiol ac i raddau yn ei gwneud yn ofynnol i mi lunio'r cyfryw ganfyddiadau.
- 2.10 Prin yw'r achlysuron y lluniau ganfyddiadau yn fy Adroddiad a chyfyngedig hefyd yw graddau'r canfyddiadau hynny. Mae pwyntiau eraill Mr Goldwater yn fy argyhoeddi i gymryd cryn ofal wrth lunio canfyddiadau ffeithiol ac rwyf ond wedi gwneud hynny pan fo'n gwbl angenrheidiol i mi weithredu yn unol â'm Cylch Gorchwyl.
- 2.11 Wrth lunio fy nghanfyddiadau ffeithiol cedwais mewn cof benderfyniad Re H [1996] (Minoriaid)(Camdriniaeth Rywiol-Safon y Prawf) A.C.563 sef mai safon briodol y prawf yw pwysau'r tebygolrwydd a pho fwyaf difrifol yw'r honiad neu po fwyaf annhebygol gynhenid y bo'r honiad, y mwyaf argyhoeddiadol y mae'n rhaid i'r dystiolaeth fod i ategu canfyddiad. Fy ymagwedd at y broses oedd gosod baich y prawf ar y sawl a oedd yn ceisio canfyddiad penodol.

Pennod 3

Mr John Arwyn Owen

- 3.1 Yn y Bennod hon ni fyddaf yn llunio canfyddiadau ffeithiol manwl ynghylch honiadau penodol o gamdriniaeth. Fy niben yma yw rhoi disgrifiad o Mr Owen fel y dangosir gan y dystiolaeth ger fy mron.
- 3.2 Bydd hyn yn ymwneud â chanfyddiadau ffeithiol ynghylch ymddygiad Mr Owen fel athro. I'r graddau yr wyf yn feirniadol ohono, credaf fod cyfiawnhad dros hynny yn unol â phwysau'r dystiolaeth. Byddaf yn disgrifio patrwm ymddygiad dyn a ddefnyddiodd ei safle fel athro fel modd i gam-drin plant yn rhywiol, yn emosiynol ac yn gorfforol. Hyderaf y gallaf drwy hynny ychwanegu at ein dealltwriaeth o'r ffordd y mae dynion o'r fath yn ymddwyn ac o ganlyniad ein galluogi i amddiffyn ein plant a'n pobl ifanc yn well.
- 3.3 Er mwyn dangos difrifoldeb yr honiadau a wnaed gan gyn-ddisgyblion yn erbyn Mr Owen, fe'u rhestraf isod:
- treisio; treisio rhefrol; sodomiaeth; ymgais i sodomeiddio; ymosod yn anwedus gan gynnwys cyfathrach eneuol a mastyrbio; ymosod.
- 3.4 Cwblhaodd Mr Owen ei hyfforddiant fel athro yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin ym mis Mehefin 1973. Bu yntau'n ddisgybl, ac yn swyddog, yn Ysgol Gyfun Rhydfelen. Clywais un honiad achlust iddo ar yr adeg honno, gymryd diddordeb anarferol wrth fonitro p'un a oedd merched yn cydymffurfio â rheolau'r ysgol yn ymwneud â dillad isaf a "bod ganddo ddiddordeb mwy na'r cyffredin mewn llenyddiaeth anllad"¹, ond nid oes materion eraill i'w nodi.
- 3.5 Ym mis Mehefin 1974 cwblhaodd ei radd Baglor mewn Addysg yng Ngholeg y Drindod, ac ym mis Medi y flwyddyn honno dechreuodd ar ei swydd ddysgu gyntaf yn Ysgol Gyfun Rhydfelen fel athro addysg grefyddol.
- 3.6 Nid yw'n glir o'r cofnodion pa bryd y daeth yn athro drama, ond ym 1978 cafodd Mr Owen ddyrchafiad ac ym mis Mai 1981 fe'i dyrchafwyd i statws uwch athro². Ym 1987 fe'i penodwyd fel dirprwy Bennaeth dros dro, tra roedd Mr Hywel Jeffreys, y dirprwy Bennaeth, ar secondiad am ddwy flynedd. Gwyddom fod Mr Owen yn athro yn yr adran ddrama pan gyrhaeddodd Mr Peter Davies fel Pennaeth yr adran honno ym 1983.
- 3.7 Ym 1989 dychwelodd Mr Owen i statws uwch athro, a thalwyd iddo'r lwfans uchaf posibl a delir i athrawon o'r fath ar yr adeg honno.

- 3.8 Ym 1990, cafodd Mr Owen ei benodi yn Bennaeth Blynyddoedd 2 a 3 yn yr ysgol fel rhan o broses o ad-drefnu cyfrifoldebau uwch staff.

Argraffiadau Cyntaf

- 3.9 Mr Owen oedd yr athro a arweiniai'r gwaith o drefnu'r Cwrs Haf, sef cwrs pontio preswyl yn Ysgol Gyfun Rhydfelen ar gyfer disgyblion a oedd yn dod i'r ysgol o'r ysgolion cynradd a oedd yn bwydo'r ysgol. Roedd hefyd yn ymwneud â rhywfaint o waith allanol yn yr ysgolion bwydo hynny i baratoi'r disgyblion ar gyfer y trosglwyddiad.
- 3.10 Rhoddodd ymron i bob tyst a fu'n ddisgybl ddisgrifiad tebyg o'r argraff gyntaf a wnaeth Mr Owen arnynt. Yn gyson, fe'i disgrifiwyd fel person pwerus ac awdurdodol, gyda charisma a phresenoldeb sylweddol: "Petai'n cerdded i mewn i ystafell, wyddoch chi, roedd ganddo bresenoldeb, roedd rhywbeth yn ei gylch"³. I'r disgyblion roedd Mr Owen yn ddyn mawr ac iddynt hwy roedd ei statws a'i awdurdod wedi'u hamlygu gan flaen metel ar ei esgidiau a'r ffaith ei fod ar adegau yn gwisgo gwn ddu. Roedd y rhan fwyaf o'r disgyblion a nifer o'r rhieni yn credu mai ef oedd Pennaeth yr Adran Ddrama pan nad oedd hyn yn wir. Roedd rhai disgyblion yn credu mai ef oedd y Pennaeth.
- 3.11 Yn Ysgol Gyfun Rhydfelen, trefnwyd y disgyblion yn ôl llys, er mwyn cymryd rhan mewn chwaraeon neu gystadlaethau'r ysgol, megis eisteddfodau. Roedd Mr Owen yn gysylltiedig â Llys Gruffydd. Ef a ddewisai lys y disgyblion a dywedodd llawer o'r disgyblion y byddai'n dethol y disgyblion hynny yr oedd yn credu iddynt feddu ar rywfaint o dalent ym maes drama ar gyfer Llys Gruffydd. Byddai nifer o'r rheini a ddewiswyd yn y modd hwn yn honni iddo eu cam-drin yn ddiweddarach yn eu gyrfaedd ysgol. Nid dyma'r unig ffordd y deuai disgyblion yn ffefrynnau i Mr Owen, daeth eraill yn gysylltiedig â'i grŵp drama yn ddiweddarach.
- 3.12 Roedd profiad disgyblion o bŵer Mr Owen yn brofiad cadarnhaol a negyddol. I rai, y teimlad cyntaf oedd ofn. I'r rhan fwyaf a roddodd dystiolaeth "roedd yn ddyn i'w ofni a'i barchu"⁴, roedd yn "ddymunol ac yn llym"⁵.
- 3.13 Roedd y briodwedd liwgar ac allblyg hon wedi'i chwyddo yng ngolwg y disgyblion gan enw da Mr Owen drwy'r ysgol a thu allan iddi fel arbenigwr ym maes drama. Roedd ei reolaeth de facto dros yr adran ddrama yn rhan o'i ddylanwad helaeth; "ar y pryd roeddwn yn gwbl ymwybodol o statws John yng ngolwg eraill y tu allan i ysgol Gymraeg Rhydfelen"⁶.
- 3.14 Disgrifiodd llawer o'r cyn-ddisgyblion y ffaith eu bod am ddenu ei sylw. "Ers dechrau yn yr ysgol roeddwn am ei blesio ac nid oedd yn rhywun yr oeddwn am ei groesi"⁷.

Y Dethol Rai

- 3.15 Cafwyd disgrifiad gan ymron i bob un o'r cyn-ddisgyblion, a llawer o'r athrawon a roddodd dystiolaeth o'r modd y ffurfiodd grŵp drama Mr Owen griw dethol. Honnir i'r criw dethol hwn gael ei alw'n "Johnny lickers"⁸ gan ddisgyblion eraill a "drama poofs"⁹ gan rai o'r athrawon eraill.
- 3.16 Bu i'r disgyblion o fewn y criw dethol hwn brofi ystod fwy cymhleth o deimladau na'r rheini a amlinellir yn 3.12 a 3.14 uchod.
- 3.17 Ar y naill law, gwnaeth Mr Owen iddynt deimlo fel "y dethol rai"¹⁰. Gwnaed i'r rheini yn y criw dethol "deimlo'n arbennig...yn ddiolchgar iawn, iawn"¹¹. Byddai Mr Owen weithiau'n cefnogi 'ei' ddisgyblion petaent mewn trafferth gydag athrawon eraill. Byddai'n defnyddio'r iaith a ddefnyddid ganddynt hwy yn wahanol i'r staff eraill a byddai'n dod "yn un ohonynt hwy"¹².

Roedd yn caniatáu i'r criw dethol hwn ddefnyddio'i enw cyntaf a "byddai'n dweud pethau amharchus ynglŷn ag aelodau eraill o'r staff...ef oedd yr unig athro erioed i ymddwyn yn y fath fodd"¹³. Roedd yr amarch hwn wedi'i anelu at gyd athrawon – gan gynnwys yr athrawon eraill mwyaf blaenllaw yn yr ysgol. Cyfeiriai at y Pennaeth, Mr Dafydd Jones, fel "Shad" (The Shadow), gan iddo ddweud nad oedd byth yno, ac yn ôl un disgybl "roedd yn portreadu Hywel Jeffreys fel twpsyn, Phil Ellis fel pregethwr ynyfud ac Eirlys Pritchard Jones fel yr ast o uffern"¹⁴. Roedd yr effaith yn amlwg "oherwydd ein hamarch ni tuag at awdurdod a'r ffaith bod John yn rhannu'r amarch hwnnw roedd rhywun yn closio fwy fwy ato, gan fynd yn fwy o gyfaill iddo"¹⁵.

- 3.18 Y teimlad ymhlith y disgyblion oedd bod Mr Owen "ar eu hochr hwy" ac yn awyddus i fod yn gyfaill i unrhyw un a oedd yn "rhan o griw"¹⁶.

Aelodau'r criw dethol fyddai'n cael y rhannau gorau yng nghynhyrchiadau'r ysgol, cymorth gwirioneddol i ddatblygu eu talent a chysylltiadau a chyfleoedd yn y gymuned ddrama ehangach. Nid oes amheuaeth y gallai Mr Owen fod yn gwmni da ac yn ysbrydoliaeth. Fodd bynnag, roedd ochr arall i'r agwedd orgyfarwydd a'r "person cyfeillgar, hapus a llon"¹⁷.

- 3.19 "Petaech yn pechu mewn unrhyw ffordd caech eich diarddel yn llwyr, roedd yn ddinistriol"¹⁸. Gyda'r geiriau hyn nododd un cyn-ddisgybl brofiad arall a gafodd y bobl ifanc o Mr Owen. Tystiodd tyst ar ôl tyst, gan gynnwys athrawon a fu'n agos i Mr Owen, fel Miss Theda Williams, i'r modd y gallai fod "yn ormesol"¹⁹. "Gwelais sut y byddai John Owen yn 'diarddel' pobl o'i griw o ffefrynnau. Byddai'n 'esgymuno' disgyblion o'r criw dethol hwn"²⁰. Roedd y tramgwyddau a allai arwain at hyn yn amrywio.

- 3.20 Roedd Mr Owen yn llym iawn wrth orfodi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn unig yn yr ysgol. Gwnaed i'r disgyblion yn y criw dethol "deimlo fel mai ni oedd ar flaen y gad o ran diwylliant Cymru, ar flaen y gad o ran yr iaith Gymraeg, ni oedd y dethol rai"²¹. I'r rheini a ddaliwyd yn siarad Saesneg, nid oedd amheuaeth ynghylch barn Mr Owen, "dywedodd wrthyf...o ganlyniad i'r hyn a wnes, roedd fy rhagolygon yn yr ysgol wedi pylu. Wedyn dywedodd wrthyf y byddai'n fy ngwahardd o grwpiau a chynhyrchiadau drama'r ysgol...dywedodd wrthyf i mi ei fradychu ef a Chymru"²². Dywedir na wnaeth Mr Owen fyth siarad eto ag un disgybl a dorrodd y rheol hon.
- 3.21 Dywedodd Mr Owen wrth un disgybl chweched dosbarth nad oedd diben iddo ddychwelyd i'r ysgol gan nad oedd yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn dilyn hyn, gwaharddwyd y disgybl hwn o'r ysgol gan Mr Owen i bob pwrpas²³.
- 3.22 Un arall o reolau Mr Owen oedd na ddylai bechgyn a merched yn ei grŵp gynnal perthynas â'i gilydd. "Roedd ganddo reol gyffredinol na ddylai'r disgyblion (bechgyn a merched) fod mewn perthynas â'i gilydd gan y byddai hyn yn tynnu oddi ar y gwaith"²⁴. Nodwyd llawer o enghreifftiau mewn tystiolaeth ynghylch gorfodi'r rheol hon a'r graddau y byddai'r disgyblion yn cuddio unrhyw berthynas rhagddo. Cofiai un disgybl i Mr Owen ofyn iddi p'un a oedd yn "cael rhyw"²⁵ gyda disgybl arall. Pan wrthododd un disgybl roi'r gorau i'r berthynas "roedd yn gwbl amlwg na châi yr un ffafiaeth wedyn"²⁶ a daeth y ddau bartner yn destun gwawd parhaus.
- 3.23 Byddai Mr Owen yn dangos ei bŵer dros rai disgyblion i ddisgyblion eraill: "Fe'i gwelais yn digio gyda disgyblion eraill. Byddai'n dweud wrthyf 'gwylia hyn' ac actio'n ddig iawn. O fewn dwy funud, roedd y disgybl yn crio, a buasai'n dweud wrtho am 'fynd allan' ac yna buasai'n dod nôl a gofyn i mi beth roeddwn i'n ei feddwl o'i berfformiad"²⁷.
- 3.24 Roedd y disgyblion yn ymwybodol "ei fod (Mr Owen) yn ei gwneud yn glir beth y gallai ei gynnig i chi a'r hyn yr oedd gennych i'w golli"²⁸. Disgrifiodd nifer o ddisgyblion y modd y daethant i'w garu a'i ofni, gan ddisgrifio awydd cryf iawn i blesio Mr Owen, tra'n byw mewn ofn o golli ei ffafiaeth ar yr un pryd: "Wyddwn i ddim o un funud i'r nesaf beth yr oedd yn mynd i'w wneud. Un funud byddai'n fy nghanmol a'r funud nesaf byddai'n fy nilorni"²⁹.
- 3.25 Mae llawer o ddisgyblion yn disgrifio eilunaddoli Mr Owen, gan ei weld fel mentor a hyd yn oed fel "tad benthug"³⁰. Ond "byddai'n chwarae gemau â'ch meddwl, gan adael i chi wybod bod perygl bob amser o gael eich diarddel o'r criw dethol. Defnyddiai flacmel emosynol drwy'r amser, gan fygwth rhoi rhannau allweddol mewn dramâu i fechgyn eraill"³¹. I'r aelodau o'r criw dethol, roedd cael eu gwrthod gan Mr Owen yn drychinebus, "Roedd yn ergyd fawr i mi

fy mod wedi'i siomi. Teimlais yn ddiwerth ac ni allwn fwyta. Nid oeddwn am siarad â neb"³².

- 3.26 Effaith ymddygiad Mr Owen oedd i'r disgyblion deimlo (o edrych yn ôl) fel petaent "wedi'u cyflyru ganddo"³³ ac roedd un yn teimlo "erbyn i mi gyrraedd y bumed flwyddyn roeddwn i yng nghledr ei law"³⁴. Roedd y dymuniad cryf hwn i blesio a'r ofn o gael eu gwrthod yn gysylltiedig ag elfen amlwg arall o berthynas Mr Owen â phlant sef y modd yr oedd yn dysgu drama.

Drama Mr Owen

- 3.27 Roedd enw da gan Mr Owen ym myd y ddrama Gymraeg ac aeth llawer o'i ddisgyblion, er nad pob un o bell ffordd, ymlaen i yrfa lwyddiannus yn y celfyddydau dramatig.
- 3.28 Roedd dwy nodwedd arwyddocaol iawn i'w ddysgu yn Ysgol Gyfun Rhydfelen, mewn cyd-destun emosiynol fel y disgrifir uchod – sef y defnydd dwys a phwerus o actio method a diddordeb mewn rhyw. Yr oedd hyn nid yn unig yn gwbl amlwg i'r disgyblion "roedd yn crybwyll rhyw yn aml iawn, gymaint felly nes iddo ddod yn jôc ymhlith y dosbarth"³⁵ ond roedd hefyd yn destun gwrthdaro rhwng Mr Owen a rhai o arholwyr CBAC (gweler Pennod 15: Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru). Disgrifiodd disgybl arall y modd yr oedd "popeth a wnaethom yn ymdroi o amgylch rhyw, os nad oedd yno, buasai'n dod o hyd iddo yn bendant"³⁶.
- 3.29 I lawer o ddisgyblion a oedd yn ymwneud â drama "gallai ei wersi fod yn ysbrydoledig i berson yn ei ardegau. Roedd ymdeimlad enfawr o ryddid, roedd yno regi a rhyw. Fel pobl ifanc hormonaidd, roedd yn rhyddhaol, yn wych ac yn ysbrydoledig iawn"³⁷.
- 3.30 Byddai Mr Owen yn dewis y testunau i'w hastudio gan gynhyrchu ei ddehongliad ei hun er mwyn i'r plant ei actio. Yn ddiau byddai thema rywiol amlwg ynghlwm wrth y dehongliad hwn, hyd yn oed os nad oedd yn y testun gwreiddiol.
- 3.31 Roedd Mr Owen yn annog, yn mynnu y dylai disgyblion fod yn barod i 'gymryd risgiau' yn eu gwaith drama, i archwilio ffiniau personol a chymdeithasol. Gwnâi ddefnydd helaeth o 'impros' h.y. gwaith byrfyfyr yng nghyd-destun actio method³⁸. "Byddai John bob amser yn sôn am ymestyn eich hun fel actor...rhoi cynnig ar bethau newydd. Ac wrth gwrs roedd y pethau newydd oll yn ymwneud â'm rhywioldeb"³⁹.
- 3.32 Disgrifiodd y disgyblion y modd y gofynnwyd yn aml iddynt ffugio gweithgaredd rhywiol, ac maent yn honni y byddai gofyn iddynt weithiau ymgymryd â hynny

fel rhan o'r ymarferion drama pan nad oedd unrhyw athro arall yn bresennol heblaw Mr Owen. Roedd annog disgybl benywaidd i fastyrbio disgybl gwrywaidd mewn ymarfer yn honiad a arweiniodd at ei ymddiswyddiad⁴⁰.

- 3.33 Disgrifiodd un disgybl, ym 1991, y modd yr oedd ofn arni i ddangos embaras pan ddywedodd Mr Owen wrthi "Wn i ddim pa mor bell y gelli di fynd, ond cawn weld" rhag ofn y byddai'n ei galw'n amhroffesiynol⁴¹.
- 3.34 Yn ôl ei gyfaddefiad ei hun, cafodd Mr Owen ddau fachgen tair ar ddeg oed i ddawnsio'n noeth yn ystod ymarfer arall, mewn dawns a ddisgrifiwyd gan rai tystion a oedd yn "ffugio sodomiaeth"^{41a}.
- 3.35 Dywedwyd i Mr Owen annog disgyblion i beidio â dweud wrth eraill, yn enwedig eu rhieni, am yr hyn yr oeddent yn ei wneud yn y sesiynau drama ymarferol "dywedodd John wrthyf i mi beidio â dweud wrth Mam a Dad am na fuasent yn deall"⁴².
- 3.36 Os oedd sesiynau ymarferol ac ymarferion gyda disgyblion eraill yn bresennol yn torri ffiniau, yn y sesiynau unigol gyda Mr Owen yr honnir i'r gamdriniaeth fwyaf difrifol ddigwydd.
- 3.37 Disgrifiodd cyn-ddisgyblion i'w sesiynau un-i-un ddigwydd yn yr ysgol, yng nghartref Mr Owen, yn ei gar ac mewn lleoliadau amrywiol eraill.

O dan gochl ymestyn ystod a sgiliau'r disgyblion, byddai Mr Owen yn rhoi rôl iddynt a'u hannog i actio elfennau rhywiol y rôl honno gydag ef. Disgrifiodd un disgybl y modd yr oedd ganddo "ofn gwirioneddol gwrthod gwneud yr hyn y gofynnai i mi ei wneud oherwydd fy mod am barhau i astudio drama yn yr ysgol ac roeddwn yn ymddiried yn llwyr ynddo"⁴³. Nododd un arall "roedd hyn yn ymwneud â chael gwared ar dabw ac y byddai hyn yn fy ngwneud yn well actor. Dyna'r ffordd y byddai'n fy nghael i wneud pethau heb gwestiwn"⁴⁴.

- 3.38 Disgrifiodd y disgyblion hynny nad oedd am gydymffurfio â chyfeiriad dramatig Mr Owen y modd y byddai'n eu swcro i ddechrau ac yna'n eu bygwth drwy ddweud wrthynt am dyfu i fyny, neu ddweud bod y gweithgareddau rhywiol hyn yn "gwbl angenrheidiol"⁴⁵ i wella'u doniau dramatig. Daeth rhai disgyblion o hyd i'r dewrder clodwiw i wrthod. Mân rannau y byddent hwy wedyn yn eu cael yn y ddrama.

Casgliadau

- 3.39 Bu'n bosibl i Mr Owen arfer dylanwad absoliwt dros ddisgyblion a oedd yn ymwneud â drama yn Ysgol Gyfun Rhydfelen. Buasai'n dewis disgyblion penodol, naill ai pan fyddent yn dechrau'r ysgol neu'n ddiweddarach gan wneud iddynt deimlo'n arbennig fel unigolion ac fel aelodau o'i grŵp.
- 3.40 Byddai ei hoff ddisgyblion yn cael rhannau da mewn dramâu yn yr ysgol a thu allan, byddai rhai yn derbyn anrhegion "arferai brynu pethau i mi, cardiau bach"⁴⁶ neu'r 'rhodd' o gael ei sylw arbennig. Byddai eraill yn mynd gydag ef ar deithiau i'r theatr. Ef yn aml fyddai'n talu amdanynt.
- 3.41 Roedd y disgyblion am gael ei gefnogaeth, yn dyheu am gymeradwyaeth ganddo. Roedd ei anghymeradwyaeth yn rhywbeth i'w ofni ac yn fygythiad parhaus. Roedd ei enw da a'i lwyddiant ym myd y ddrama yn rhoi hygredded i'w honiadau i'r disgyblion ynghylch yr hyn yr oedd yn angenrheidiol iddynt ei wneud os byddent am lwyddo. Bu'n bosibl iddo gael ei adnabod fel y llwybr i'w datblygiad. Fel y dywedodd un disgybl "byddai John Owen yn dod o hyd i ddisgyblion ifanc iawn ac yn eu paratoi hyd at bwynt lle byddent yn ddibynnol arno"⁴⁷.
- 3.42 Aeth y tu hwnt i berthynas arferol athro/disgybl mewn nifer fawr o ffyrdd, gan ysgogi teyrngarwch a'i gwneud yn llai eglur i blant pa bryd yr oedd ffiniau rhywiol yn cael eu torri. Dywedodd llawer o'r rheini a oedd yn honni camdriniaeth mai dim ond nawr y maent wedi sylweddoli bod yr hyn a oedd yn digwydd yn gyfystyr â chamdriniaeth. "Roedd fel petai car wedi bwrw wal, gallwn weld beth oedd wedi digwydd"⁴⁸.
- 3.43 Roedd gwahaniaeth barn ynghylch p'un a oedd dawn Mr Owen ym myd y ddrama yn fwy na'r cyffredin. Mae llwyddiant gyrfaedd rhai o'i gyn-ddisgyblion wedi hynny yn awgrymu sgil wirioneddol wrth ddatblygu talent. Fodd bynnag, fel y cytunodd un o'r disgyblion hyn "nid yw bod yn berson sy'n cam-drin plant yn anghyson â bod yn berson dawnus iawn"⁴⁹.

Pennod 4

Mr Edwin Roberts

- 4.1 Mr Edwin Roberts oedd Cyfarwyddwr Addysg awdurdod addysg lleol Cyngor Sir Morgannwg Ganol o 1987 hyd 1994. Yn yr awdurdod addysg lleol hwnnw roedd tua 400 o ysgolion. Roedd gan yr awdurdod addysg lleol rai cannoedd o staff a thua 5000 o athrawon gyda chyllideb o ryw £240 miliwn. Roedd rhyw 90,000 o ddisgyblion a 150,000 o rieni yn ogystal â cholegau addysg bellach a gwasanaethau eraill.
- 4.2 Yn rhinwedd ei swydd fel Cyfarwyddwr Addysg, roedd Mr Roberts yn gyfrifol am reoli'r ysgolion yn uniongyrchol o 1987 hyd 1988 pan gyflwynwyd Rheoli Ysgolion yn Lleol (RhYLI) gan Ddeddf Diwygio Addysg 1988. Drwy RhYLI trosglwyddwyd nifer o gyfrifoldebau a fu yn nwylo'r awdurdodau addysg lleol i lywodraethwyr ysgolion. Yn ôl datganiad Mr Roberts ei hun i'r Ymchwiliad, cyflwynwyd RhYLI yn llawn yn yr awdurdod addysg lleol o fis Ebrill 1990 (er y derbynir ei bod yn bosibl i Ysgol Gyfun Rhydfelen fod yn ysgol beilot o'r flwyddyn flaenorol). Felly mae'n wir dweud at ddibenion yr Ymchwiliad hwn mai llywodraethwyr Ysgol Gyfun Rhydfelen oedd yn gyfreithiol gyfrifol am gyflogi, diswyddo a disgyblu staff ar adeg bwysicaf Cyfarwyddiaeth Mr Roberts (1991). (Ymdrinnir yn fanylach â'r materion hyn ym Mhennod 14: Llywodraethwyr Ysgol Gyfun Rhydfelen.) Nid oedd gan yr awdurdod addysg lleol unrhyw bwerau cyfarwyddol dros lywodraethwyr, o dan RhYLI, er y gallai'r Cyfarwyddwr Addysg barhau i gynnig cyngor iddynt a byddai wedi parhau i fod yn ffigwr pwerus.
- 4.3 Chwaraeodd Mr Roberts ran allweddol yn nigwyddiadau 1991 pan gafwyd cyfle amlwg i ymchwilio'n drwyadl i weithgareddau Mr Owen yn sgîl y ffaith i un o'i staff dderbyn datganiadau gan y plant yn Ysgol Gyfun Rhydfelen. Rhoddodd Mr Roberts dystiolaeth ynghylch ystod o ddigwyddiadau a materion a arweiniodd at golli'r cyfle hwnnw. At ddibenion fy Ymchwiliad, byddaf yn canolbwyntio ar y materion pwysicaf yn fy marn i:
- (i) cadw gwybodaeth hanfodol yn ôl oddi wrth lywodraethwyr Ysgol Gyfun Rhydfelen
 - (ii) ei wybodaeth ynghylch yr honiadau a oedd yn natganiadau'r plant
 - (iii) rôl Mr Roberts yn ymddiswyddiad Mr Owen
 - (iv) ymchwiliad yr heddlu ym 1991

- (v) diffyg unrhyw gamau disgyblu yn erbyn Mr Owen yn dilyn ei ymddiswyddiad ond cyn diwedd ei gyflogaeth.
- 4.4 Wrth ystyried gweithredoedd Mr Roberts yn nigwyddiadau arwyddocâol 1991, mae hefyd yn bwysig deall ei rôl a'i gyfrifoldebau ef ac eraill o ran amddiffyn plant. Bu Adolygiad Achos Difrifol Pwyllgor Amddiffyn Plant Rhondda Cynon Taf o gymorth wrth nodi'r polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith ar yr adeg berthnasol.
- 4.5 Roedd gweithdrefnau cam-drin plant ac amddiffyn plant ar waith yn yr awdurdod addysg lleol ond roedd amwysedd o ran sefyllfa pan fyddai honiad yn cael ei wneud ynghylch rhywun a gyflogwyd gan yr awdurdod addysg lleol. Mewn amgylchiadau o'r fath roedd gweithdrefnau perthnasol 1990 yn argymhell cyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol, ac yna nodwyd hefyd y dylid "atal unrhyw ymchwiliad a chyflwyno'r wybodaeth i'r awdurdod priodol...h.y. y Swyddog Addysg Rhanbarthol... er mwyn i weithdrefnau mewnol yr Adran/Awdurdod hwnnw ymdrin â'r mater".
- 4.6 Yn ei hargymhellion ysgrifenedig i grynhoi, dywedodd Ms Crowley CF a oedd yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, "Nid ydym o'r farn mai bwriad y cam gweithredu gwahanol hwn oedd dileu'r angen am gyfeiriad priodol i'r gwasanaethau cymdeithasol ond yn hytrach fe'i bwriadwyd i ehangu'r ymchwiliad i gynnwys y posibilrwydd o gael proses ddisgyblu o fewn y cyddestun cyflogaeth er mwyn i'r ddwy broses gydredeg"¹. Derbyniaf yr argymhelliad hwnnw ond rwyf hefyd o'r farn y gellid bod wedi datgan bwriad o'r fath mewn modd mwy eglur. Gwrthodaf unrhyw awgrym y gallai'r amwysedd hwn gynnig esgus digonol i beidio â chyfeirio'r achos at y gwasanaethau cymdeithasol a/neu'r heddlu pan oedd y mater dan sylw yn ymwneud â honiadau i droseddau gael eu cyflawni yn erbyn plant.
- 4.7 Nid oedd gweithdrefnau 1990 yn disodli cyfrifoldeb staff awdurdod addysg lleol i gofnodi pryderon amddiffyn plant drwy systemau amddiffyn plant yr awdurdod addysg lleol unwaith y tynnwyd eu sylw atynt. Rhoddwyd cyfrifoldeb yr awdurdod addysg lleol dros y mater hwn i Mr Peter Williams, Cyfarwyddwr Addysg Cynorthwyol yn ystod y cyfnod perthnasol.
- 4.8 Nid oedd llywodraethwyr Ysgol Gyfun Rhydfelen yn rhan o'r systemau amddiffyn plant a oedd ar waith ar y pryd am nad oeddent wedi derbyn canllawiau ym maes amddiffyn plant, ni wnaethant fynychu cyfarfodydd Pwyllgor Amddiffyn Plant yr Ardal neu'r Rhanbarth ac ni chawsant unrhyw hyfforddiant.
- 4.9 Gellid dadlau mai gan y llywodraethwyr yr oedd cyfrifoldeb cyffredinol neu gyfrifoldeb rheoli dros y staff addysgu oedd â dyletswyddau amddiffyn plant amlwg, ond mae'r dystiolaeth a glywais wedi dangos na wnaethpwyd hyn yn glir iddynt ar yr adeg berthnasol. Yn ôl tystiolaeth Mr Roberts ei hun, nid oedd ganddynt God Ymarfer hyd yn oed ym 1991 ar gyfer materion disgyblu, a oedd yn amlwg yn gyfrifoldeb iddynt.

- 4.10 Nodir cyfrifoldeb y staff addysgu dros faterion amddiffyn plant yn gliriach ym Mhennod 11: Staff Ysgol Gyfun Rhydfelen. Cyfeiriaf at hyn yn awr er mwyn gosod y cefndir ar gyfer gwerthuso gweithredoedd Mr Roberts yn ystod 1991. Fel Cyfarwyddwr Addysg, roedd gan Mr Roberts, a'i holl staff o ran hynny, gyfrifoldebau dros amddiffyn plant. Fel Cyfarwyddwr Addysg roedd ganddo hefyd gyfrifoldeb dros sicrhau bod pob swyddog yn ei adran yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau yn y cyd-destun hwn. Yn ei dystiolaeth cadarnhaodd Mr Roberts y dylai pob swyddog awdurdod addysg lleol, erbyn 1991, fod wedi bod yn ymwybodol o'i ddyletswydd/o'i dyletswydd i roi gwybod am unrhyw bryderon amddiffyn plant drwy gyfrwng y gweithdrefnau amddiffyn plant². Nid effeithiodd yr amwysedd a fodolai yn y gweithdrefnau hynny a grybwyllwyd yn 4.5 uchod ar ei ddealltwriaeth o'r angen i gyfeirio pryderon amddiffyn plant ac, fel y nodwyd, roedd systemau ar waith y dylid bod wedi'u defnyddio i gyfeirio materion at Mr Williams.

Gweithredoedd Mr Edwin Roberts ym 1991

Dal gwybodaeth yn ôl oddi wrth y Llywodraethwyr

- 4.11 Rhoddodd Mr Roberts dystiolaeth iddo glywed gyntaf am gŵyn yn erbyn Mr Owen gan ei Ddirprwy, Mr George Askey. Dywedwyd wrtho i Mr Askey gael ei alw i'r ysgol gan y Pennaeth (y Pennaeth dros dro, mewn gwirionedd, Mr Jeffreys) a bod Mr David Matthews, y Swyddog Addysg Rhanbarthol wedi mynd ato gyda Mr Askey. Roedd Mr John Albert Evans, Ymgynghorydd y Gymraeg gyda'r awdurdod addysg lleol, oedd â gofal bugeiliol dros ysgolion cyfun Cymraeg, gan gynnwys Ysgol Gyfun Rhydfelen, eisoes yn bresennol yn yr ysgol. Roedd hefyd yn ymwybodol o'r ffaith y cysylltwyd â Mr Graham Dunne, swyddog personél yr awdurdod addysg lleol.
- 4.12 Derbyniodd Mr Roberts mai hwn oedd yr achos mawr cyntaf ers cyflwyno RhYLI. Cytunodd i gysylltu â chadeirydd y llywodraethwyr, Mr (bellach y Barnwr) Richards at ddau ddiben:
- (i) egluro mai cyfrifoldeb y llywodraethwyr oedd ymdrin â'r mater
 - (ii) cynnig "pob cymorth" a sicrhau bod clerics y llywodraethwyr (Mr Matthews) ar gael i'r llywodraethwyr at y diben hwnnw.
- 4.13 Ni allaf ddod o hyd i union ddyddiad sgwrs Mr Roberts â Mr Askey, ond mae'n rhaid ei fod wedi'i chynnal ar ôl 11 Ionawr 1991 pan y gwyddom i Mr Askey fynychu cyfarfod yn Ysgol Gyfun Rhydfelen gyda Mr Matthews. Amcangyfrif y Barnwr Richards o ddyddiad galwad ffôn Mr Roberts iddo oedd tua 15 Ionawr 1991.

- 4.14 Felly daeth 'cynnig' Mr Roberts o roi gwasanaethau Mr Matthews ar ôl i Mr Matthews roi gwybod i'r staff addysgu mai ef oedd yn arwain yr ymchwiliad ac ar ôl iddo ddechrau ailgyfweld â'r plant yn yr ysgol ar 11 Ionawr 1991³.
- 4.15 Mae gwrthdaro uniongyrchol o ran tystiolaeth ynghylch y sgwrs ffôn a ddigwyddodd rhwng Mr Roberts a'r Barnwr Richards ar, neu oddeutu, 15 Ionawr 1991. Mae'r gwahaniaethau o ran cynnwys y sgwrs o bwysigrwydd mawr i'm Hymchwiliad, oherwydd i benderfyniadau a wnaed ar yr adeg hon gael effaith dyngedfennol ar ddigwyddiadau dilynol a lles y plant dan sylw.
- 4.16 Mynnodd y Barnwr Richards i Mr Roberts ddweud y bu cwyn gan riant ac "y byddai'r cyngor yn ymchwilio iddi" ac "na ddylai'r llywodraethwyr geisio cynnal unrhyw fath o ymchwiliad eu hunain"⁴.
- 4.17 Dywedodd Mr Roberts, ar sawl achlysur iddo gynghori cadeirydd y llywodraethwyr mai eu cyfrifoldeb hwy oedd y mater⁵.
- 4.18 Yn ôl pwysau tebygolrwydd ac am y rhesymau canlynol, dof i'r casgliad mai adroddiad y Barnwr Richards sy'n gywir:
- (i) Mae Mr Matthews yn cyfaddef (gweler Pennod 5: Mr David Matthews) mai ef oedd yng ngofal yr ymchwiliad; cynhaliodd gyfweiliadau â'r disgyblion a chred mai ef a fyddai wedi 'erlyn' yn y gwrandawriad disgyblu⁶. Roedd hefyd wedi dal gwybodaeth yn ôl oddi wrth y llywodraethwyr yn gyson.
 - (ii) Dywed Mr Jeffreys i Mr Askey ddweud wrtho yn y cyfarfod (cyn sgwrs ffôn Mr Roberts â'r Barnwr Richards) yn Ysgol Gyfun Rhydfelen ar 11 Ionawr 1991 mai "David Matthews fyddai'n cymryd cyfrifoldeb dros yr ymchwiliad ac y byddai'n adrodd yn ôl i'r Cyfarwyddwr"⁷. Ceir tystiolaeth ddogfennol sy'n agos at fod yn gyfredol o blaid yr honiad hwn yn y ffeil a baratowyd gan Mr Jeffreys ar gyfer Mr Matthews, lle nodir i Mr Matthews "ymgydryd â'r mater"⁸ ar 11.15am ddydd lau 10 Ionawr 1991 ac ategwyd hyn ddydd Gwener 11 Ionawr 1991.
 - (iii) Mae prinder tystiolaeth o gyngor gan Mr Roberts neu unrhyw un arall i'r Barnwr Richards neu unrhyw un arall ynghylch y modd y dylai'r llywodraethwyr ymdrin â'r mater hwn. Petai'n wir i Mr Roberts ei gwneud yn glir i'r Barnwr Richards mai'r llywodraethwyr ddylai fod yn gyfrifol buaswn wedi disgwyl i dystiolaeth o'r cyngor perthnasol a roddwyd fod yn glir, yn amlwg ac wedi'i hadlewyrchu yn y dogfennau. Nid oedd.
- 4.19 Ddydd Gwener 11 Ionawr 1991, cynhaliodd Mr Matthews gyfweiliadau â thri disgybl gyda'r bwriad o gynnal cyfweiliadau â thri arall ar 14 Ionawr a dau

ddisgybl ar 15 Ionawr 1991⁹. Mae hyn oll yn dynodi bod Swyddog Addysg Rhanbarthol yr awdurdod addysg lleol wedi ymgymryd â'r mater de facto ac mae hyn yn awgrymu i mi y byddai Mr Askey wedi hysbysu Mr Roberts o'r ffaith hon cyn y sgwrs gyda'r Barnwr Richards.

- 4.20 Mynnodd Mr Roberts mewn tystiolaeth mai cyfrifoldeb y llywodraethwyr oedd y mater ac mai cyfrifoldeb Mr Jeffreys oedd ymchwilio iddo. Nododd mai ei fwriad oedd sicrhau cydymffurfiaeth â RhYLI ac i fod o gymorth.
- 4.21 Nid yw'r haeriadau hyn yn gydnaws â'r ffaith iddo chwarae rhan uniongyrchol yn y mater; gyda phenderfyniad Mr Askey i gymryd rheolaeth gyffredinol dros yr ymchwiliad (ac i roi'r cyfrifoldeb i gyd i Mr Matthews) a chydag ymddygiad dilynol Mr Matthews. Nid ydynt ychwaith yn gyson â'r rhan y chwaraeodd Mr Roberts yn ddiweddarach.
- 4.22 Fel y nodir yn 4.18 dof felly i'r casgliad bod tystiolaeth y Barnwr Richards yn gyson â'r dystiolaeth arall sydd ar gael mewn sawl ffordd yn wahanol i dystiolaeth Mr Roberts. Dof i'r casgliad yn ôl pwysau tebygolrwydd bod Mr Roberts wedi cynghori'r Barnwr Richards na ddylai'r llywodraethwyr ymdrin â'r achos yn ystod y sgwrs ffôn ar, neu oddeutu, 15 Ionawr 1991. Gallai'r Barnwr Richards fod wedi mynnu cael copi o'r llythyr o gŵyn ond o gofio'r cyngor a gafodd gan Mr Roberts, nid yw'n syndod i mi iddo beidio â gwneud hynny.
- 4.23 Roedd yr ymddygiad hwn yn gwbl groes i'r gweithdrefnau a oedd ar waith o dan RhYLI yr oedd Mr Roberts yn honni iddo geisio cydymffurfio â hwy. Roedd hyn ynghyd â'r gorchymyn a roddodd Mr Matthews i staff yr ysgol beidio â chyfathrebu â'r llywodraethwyr ynglŷn â'r mater¹⁰, a gwrthodiad yr awdurdod addysg lleol hyd yn oed i roi gwybod i'r llywodraethwyr beth oedd natur yr honiadau yn erbyn Mr Owen, i bob pwrpas, yn atal y posibilrwydd y gallai'r llywodraethwyr weithredu yn unol â'u cyfrifoldebau cyfreithiol.
- 4.24 Yn ei dystiolaeth lafar, cyfaddefodd Mr Roberts i'r llywodraethwyr gael eu gosod mewn cyfyng gyngor oherwydd y gwrthodwyd rhoi gwybod iddynt beth oedd natur yr honiadau yn erbyn Mr Owen. Fodd bynnag, roedd ei dystiolaeth yn anghyson iawn ynghylch y mater hwn¹¹ a derbyniodd nad oedd cyfiawnhad i'r ffaith y cadwyd gwybodaeth oddi wrth y llywodraethwyr o ran natur yr honiadau, er na ddylai'r dystiolaeth¹² fod wedi bod ar gael i'r llywodraethwyr.
- 4.25 Mae'r Barnwr Richards yn haeru i Mr Roberts ddweud wrtho yn yr alwad ffôn ar, neu oddeutu, 15 Ionawr 1991 "nad oedd mewn sefyllfa i ddatgelu natur na manylion yr honiadau" ac y "byddai'n rhaid cael is-bwyllgor disgyblu (o'r llywodraethwyr)¹³.

- 4.26 Credaf fod adroddiad y Barnwr Richards yn gywir. O dan y gweithdrefnau disgyblu, gallai fod yn bwysig i'r llywodraethwyr wybod natur yr honiadau cyn iddynt fedru penderfynu p'un a oeddent yn ddigon difrifol i warantu is-bwyllgor disgyblu (cafodd hyn fodd bynnag ei ragatal wrth i Mr Owen gael ei atal o'i swydd). Hyd yn oed wedyn, ni allai fod unrhyw reswm da dros beidio â rhoi gwybod iddynt beth oedd natur yr honiadau a phob rheswm da dros roi gwybod iddynt. Mae'r penderfyniad na ddylai'r llywodraethwyr, am unrhyw reswm da, wybod hyd yn oed natur yr honiadau yn erbyn Mr Owen yn codi amheuaeth mai greddf ac ymagwedd Mr Roberts o'r cychwyn cyntaf oedd mai atal y wybodaeth oedd orau.
- 4.27 Ategwyd y cyngor anghywir hwn yn gryf gan Mr Matthews ac nid yn unig yr oedd hyn yn atal y llywodraethwyr rhag gweithredu'n briodol ar y pryd, ond roedd hefyd yn eu gadael mewn sefyllfa lle nad oedd ganddynt y wybodaeth sylfaenol i ystyried adroddiad ysgrifenedig, llofnodedig, diweddarach Mr Roberts iddynt (gweler Atodiad 2), nac ychwaith, y trefniadau ar gyfer derbyn ymddiswyddiad Mr Owen a'r ffaith na chymerwyd camau pellach.
- 4.28 Roedd Mr Roberts yn anghywir i roi cyngor o'r fath neu i barhau i'w roi. Ar un pwynt yn ei dystiolaeth, dywedodd, hyd yn oed, y byddai wedi atal Mr Matthews rhag sôn wrtho ef am y dystiolaeth rhag ofyn y byddai'n rhaid iddo ef, Mr Roberts, chwarae rhan wrth gynghori'r llywodraethwyr¹⁴. Mae'n amhosibl cysoni rhesymu o'r fath â'r ffaith i Mr Matthews, yn ôl pob tebyg, gymryd datganiadau gan y plant a chynghori'r llywodraethwyr fel eu clerc.
- 4.29 Wrth gael ei groesholi gan Mr Michael Jones, a oedd yn cynrychioli'r llywodraethwyr, derbyniodd Mr Roberts nad oedd unrhyw beth i'w atal ef, na Mr Matthews, rhag sôn wrth y llywodraethwyr am natur yr honiadau¹⁵. Cyfaddefodd wedyn y gallai fod wedi dweud hyn wrth Mr Matthews pan ysgrifennodd Mr Matthews ato ar 28 Chwefror 1991 ar ran y llywodraethwyr yn nodi'r anhawster yr oedd ganddynt gan nad oeddent yn gwybod beth oedd natur yr honiadau.
- 4.30 Rhoddodd Mr Roberts gyngor cwbl groes wrth siarad â'r Barnwr Richards ynglŷn ag ail lythyr cwyn Mrs Phillips dyddiedig 4 Chwefror 1991.
- 4.31 Ar yr adeg hon, haerodd "dywedais wrth y Cadeirydd ei bod yn ymddangos fel pe bai llawer mwy o sylwedd ynddo na'r llythyr cyntaf ac fy mod o'r farn y dylid ei gyflwyno i'r corff llywodraethu"¹⁶. Os na allai'r llythyr cwyn cyntaf gan Mrs Phillips, neu amlinelliad o'r honiadau ynddo o leiaf, gael ei gyflwyno i'r llywodraethwyr oherwydd bod Mr Roberts o'r farn anghywir y byddai'n peryglu gallu'r llywodraethwyr i ymdrin â'r mater yn briodol, pam felly y gwnaeth Mr Roberts gynghori y gallai ei hail lythyr gael ei gyflwyno iddynt yn llawn ymron yn union ar ôl ei dderbyn? Ond odid yn ei feddwl y buasai'r un anhawster posibl yn bodoli.

- 4.32 Nid yw Mr Roberts yn rhoi unrhyw eglurhad dros hyn a theimlaf reidrwydd i gasglu bod awydd ar ei ran i osgoi pa feirniadaeth bynnag a ragwelai ar adeg fy Ymchwiliad yn sail, rannol o leiaf, i'w dystiolaeth ynglŷn â'r mater hwn.
- 4.33 Roedd y canlyniadau i'r llywodraethwyr, yr athrawon, y rhieni ac, yn bwysicaf oll, y plant, yn sgîl yr ymdrech barhaus a llwyddiannus hon gan Mr Roberts a Mr Matthews i wrthod rhoi gwybodaeth hanfodol i'r llywodraethwyr yn ddifrifol iawn. Fodd bynnag, cododd Mr Matthews bryderon y llywodraethwyr gyda Mr Roberts yn y pen draw (gweler Pennod 5: Mr David Matthews).
- 4.34 Fel y Cyfarwyddwr Addysg, dylai Mr Roberts fod wedi cynnig gwell cyngor i'r llywodraethwyr. Roedd hyn yn arbennig o bwysig am ei fod wedi penderfynu o'i ben a'i bastwn ei hun i ymyrryd mewn ffyrdd a oedd yn groes i'r gyfraith a oedd yn ymwneud â RhYLI ar y pryd ac i'r gweithdrefnau disgyblu.

Gwybodaeth am yr honiadau a wnaed gan blant yn Ysgol Gyfun Rhydfelen

- 4.35 Dywedodd Mr Roberts nad oedd yn ymwybodol o natur ddifrifol yr honiadau a wnaed gan ddisgyblion yn Ysgol Gyfun Rhydfelen. Derbyniodd y gallai fod wedi gofyn i Mr Matthews roi'r wybodaeth honno iddo ar unrhyw adeg ar ôl 10 Ionawr 1991 pan roddwyd y wybodaeth i Mr Matthews gan Mr Jeffreys. Roedd Mr Roberts yn derbyn bod gwybodaeth o'r fath ar gael iddo¹⁷.
- 4.36 Mewn tystiolaeth, dywedodd Mr Roberts i'w wybodaeth wirioneddol o'r honiadau yn erbyn Mr Owen a darddai o lythyr cyntaf Mrs Phillips, ddeillio o'r brîff a gafodd gan Mr Dunne¹⁸. Dywedwyd wrtho, meddai, ar lefel gyffredinol, am yr honiadau hyn yn fuan ar ôl i'r llythyr hwnnw gyrraedd.
- 4.37 Yn rhan gyntaf ei dystiolaeth i'm Hymchwiliad, awgrymodd Mr Roberts mai ystyr hyn oedd ei fod ond yn ymwybodol o'r honiadau yn llythyr cyntaf Mrs Phillips a oedd yn ymwneud â dulliau addysgu a dehongliad dramatig. Awgrymai nad oedd yr honiadau hyn yn ddigon difrifol i warantu cyfeiriad at y Pwyllgor Ardal Amddiffyn Plant.
- 4.38 Disgrifiodd, i gychwyn, yr honiadau yr oedd yn ymwybodol ohonynt fel "honiad, a oedd yn ei hanfod yn gymharol amhendiant, bod dulliau addysgu anaddas yn cael eu defnyddio"¹⁹ ac "ein barn ni ar y llythyr cwyn, oedd mai rhybudd, rhybudd llafar, i gadw at addysgu drama brif ffrwd fyddai'r canlyniad tebygol". Roedd hyn yn anghyson â'r penderfyniad ar unwaith i atal Mr Owen o'i swydd.

- 4.39 Fodd bynnag, wrth gael ei groesholi gan Mr Hywel James, a oedd yn cynrychioli'r cyn-ddisgyblion a'u teuluoedd, cytunodd Mr Roberts ei fod yn gwybod ar y pryd fod Mrs Phillips yn honni "y cyflwynir naws rywiol amlwg i ymron i bob agwedd ar ddrama" ac y "gofynnwyd i fechgyn dynnu amdanynt yn yr hyn a elwid yn ymarferion", yn ogystal â'r ffaith bod "golygfeydd o drais rhywiol, mae'n debyg, yn un o hoff nodweddion ei ddramâu"²⁰.
- 4.40 Yn ei dystiolaeth, dywedodd Mr Roberts i ddechrau hefyd nad oedd yn ymwybodol bod Mr Matthews yn cymryd datganiadau gan blant yn yr ysgol²¹ ym 1991, pan ddywedodd Mr Askey wrtho gyntaf am y digwyddiadau yn Ysgol Gyfun Rhydfelen. Pan ofynnwyd iddo'n ddiweddarach wrth iddo gael ei groesholi gan Mr James, dywedodd i Mr Askey ddweud wrtho ar y pryd bod Mr Matthews wedi bod yn cymryd datganiadau yn yr ysgol²².
- 4.41 Mae tystiolaeth ddogfennol yn cadarnhau gwybodaeth am y ffaith i Mr Matthews gymryd datganiadau yn yr ystyr ei fod yn sicr yn ymwybodol o hynny erbyn 13 Chwefror 1991 gan iddo ysgrifennu at un o'r athrawon yn yr ysgol (sef un o gefnogwyr Mr Owen) gan nodi ei fod "yn gwbl fodlon â'r modd y cymerodd y Swyddog Addysg Rhanbarthol y datganiadau"²³. Roedd hyn yn gamarweiniol oherwydd i Mr Roberts ddweud na wyddai sut yr oedd y datganiadau yn cael eu cymryd²⁴. Mae hon yn enghraifft o duedd Mr Roberts i ganiatáu i ohebiaeth a oedd â'r nod o leddfu pryderon, fynd allan o dan ei enw ef heb unrhyw ymdrech ar ei ran i'w alluogi i bwysu a mesur pa mor gywir oedd yr ohebiaeth honno.
- 4.42 Credaf ei bod yn rhesymol casglu bod Mr Roberts yn ymwybodol, o gyfnod cynnar iawn, o'r ffaith i ddatganiadau gael eu cymryd gan blant yn Ysgol Gyfun Rhydfelen. Yr wyf yn ansicr o ran yr hyn a wyddai, os o gwbl, ynghylch cynnwys y datganiadau hynny ar y pryd, er bod tystiolaeth gan Mr Dunne yn awgrymu bod ganddo rywffaint o wybodaeth amdanynt. Nododd Mr Roberts hefyd i Mr Matthews ddweud wrtho ym mis Chwefror 1991, nad oedd y dystiolaeth "yn cyfateb"²⁵ a bod "y dystiolaeth yn gwbl gyferbyniol"²⁵. Ni allai hyn gyfeirio at lythyr Mrs Phillips yn unig. Ystyriaf driniaeth Mr Matthews o ddatganiadau'r plant ym Mhennod 5: Mr David Matthews.
- 4.43 Gwyddai Mr Roberts i ddatganiadau gael eu cymryd. Pe credir ei dystiolaeth, nid aeth i'r drafferth o ddarganfod, hyd yn oed yn gyffredinol, yr hyn a ddywedodd y plant. Dylai Mr Roberts fod wedi gofyn i Mr Matthews neu Mr Dunne, neu Mr Askey am fwy o fanylion o'r math o honiadau o leiaf, yr oedd y plant yn eu gwneud. Dylai fod wedi gwneud hyn cyn gwneud datganiadau awdurdodol yn y wasg, mewn llythyron at gefnogwyr Mr Owen a chyn ei gyfarfod personol â Mr Owen a'i adroddiad i'r llywodraethwyr. Mae'r ffaith iddo beidio â gwneud hyn yn fethiant truenus. Petai wedi cymryd y camau mwyaf sylfaenol buasai wedi dod i wybod manylion, ei hun, a fyddai neu a ddylai fod wedi'i ysgogi i gyfeirio'r honiadau drwy'r gweithdrefnau amddiffyn plant.

- 4.44 Dwysaodd Mr Roberts y methiant hwn drwy ysgrifennu rhai llythyron a llofnodi llawer mwy a oedd yn haeru yn gyson ac yn anghywir mai dim ond un gŵyn a dderbyniwyd (ynglŷn â dulliau dysgu). Yn ôl ei adroddiad ef ei hun ni ddangosydd unrhyw ddiddordeb yn y dystiolaeth bwysicaf, sef tystiolaeth y plant, y dystiolaeth uniongyrchol hanfodol o'r hyn a allai fod yn digwydd.
- 4.45 At hynny, rhoddodd arweiniad ar ffurf memorandwm o ran y modd y dylid ymdrin â phob ymholiad. Byddai'r rheini a fyddai'n ymholi oll yn cael eu camarwain – "Derbyniwyd un llythyr cwyn yn ymwneud â dulliau dysgu Mr Owen. Derbyniwyd sawl llythyr o gefnogaeth"²⁶ – yn ôl cyfarwyddiadau penodol Mr Roberts.
- 4.46 Yn yr un modd roedd adroddiad Mr Roberts i'r llywodraethwyr yn Ysgol Gyfun Rhydfelen dyddiedig 5 Chwefror 1991 hefyd yn gamarweiniol. Rhoddodd wybod, yn ysgrifenedig, i'r llywodraethwyr y "derbyniwyd cwyn gan riant yn ymwneud â dulliau dysgu Mr Owen. Derbyniwyd llythyron o gefnogaeth hefyd...cefais gyfarfod â Mr Owen yn bersonol...Pan gadarnhaodd ei fwriad i ymddiswyddo cytunais i siarad â Chadeirydd y Llywodraethwyr i sicrhau na fyddai unrhyw ymgais i barhau ag ymchwiliad disgyblu yn dilyn ymddiswyddiad Mr Owen...Argymhellaf na ddylid cymryd camau pellach a rhoddir gwybod i'r achwynydd yn unol â hynny"²⁷. Gwelir yr adroddiad llawn yn Atodiad 2. Nid yw'n cynnwys unrhyw grynodedeb o'r hyn a ddywedwyd gan y plant neu'r uwch staff.
- 4.47 Rwyf mewn cyfyng gyngor o ran pa argymhellion i'w gwneud yn y cyd-destun hwn gan y bu gweithredoedd ac esgeulustod Mr Roberts mor anghyson â'r hyn a dybiais a oedd y safonau ymddygiad mwyaf sylfaenol ar gyfer pob swyddog cyhoeddus, llai byth ar gyfer Cyfarwyddwr Addysg. Roedd hyn yr un mor wir ym 1991 ag ydyw heddiw. Gallai'r canlynol fod yn arweiniad defnyddiol er mai dim ond ymddygiad Mr Roberts sy'n fy arwain i gredu bod angen ei roi i swyddogion cyhoeddus:
- (i) os ydych yn ymyrryd mewn mater, dylid gwneud ymholiadau i gadarnhau'r ffeithiau
 - (ii) peidiwch ag ysgrifennu llythyron sy'n honni eich bod yn gwybod y ffeithiau pan nad ydych yn eu gwybod
 - (iii) darllenwch llythyron a dogfennau cyn eu llofnodi a'u dosbarthu yn eich enw chi
 - (iv) peidiwch â dibynnu ar y person y gwneir cwyn amdano fel ffynhonnell bwysig o wybodaeth ynghylch natur y cwynion yn enwedig pan wyddoch fod gan bobl yn eich adran chi wybodaeth amdano.

Gallwn ychwanegu mwy ond credaf fod y neges sylfaenol yn glir. Mae cyfrifoldeb personol dros ohebiaeth yn gysyniad gwerthfawr iawn. Gallai ymagwedd Mr Roberts, a grynoir yn y modd hwn: 'rwyf yn derbyn cyfrifoldeb

dros y llythyr hwn ond ni wyddwn mewn gwirionedd beth oedd ynddo' fod yn ddeniadol i swyddogion a hyd yn oed i wleidyddion ond nid yw'n dderbyniol.

- 4.48 Petai Mr Roberts hyd yn oed wedi dangos yr awydd lleiaf i gydymffurfio â pharagraff 4.47 (i) uchod buasai wedi cyfeirio'r achos yn y modd priodol i'r asiantaethau amddiffyn plant.
- 4.49 Credaf i ganlyniadau gweithrediadau a diffyg gweithrediadau Mr Roberts fod yn ddifrifol. Fe'u nodaf fel rhan o'm casgliadau cyffredinol yn y bennod hon.
- 4.50 Rwyf wedi priodoli'r cyfrifoldeb i Mr Roberts ac wedi canolbwyntio fy meirniadaeth arno oherwydd mai ef oedd y Cyfarwyddwr Addysg ac oherwydd iddo ddewis cymryd rhan flaenllaw iawn, yn gyhoeddus ac yn breifat, yn y digwyddiadau ar ddechrau 1991. Ef oedd yr uwch swyddog pennaf a fu'n uniongyrchol gysylltiedig â hyn ac roedd ganddo awdurdod llawn, fel y cydnabyddia, dros eraill y gellir eu beirniadu yn deg hefyd.
- 4.51 Er y gallai eraill hefyd fod wedi gweithredu'n wahanol, roedd gan Mr Roberts y pŵer a'r gallu i gael gafael ar wybodaeth a allai fod wedi esgor ar ganlyniadau cwbl wahanol i'r digwyddiadau yn Ysgol Gyfun Rhydfelen ym 1991. Felly pan feirniadodd ef Mr Matthews (a hynny'n iawn, yn y pen draw, ar ôl oedi) am beidio â throsglwyddo mwy o wybodaeth iddo am ddatganiadau'r plant²⁸, mae'r feirniadaeth a nodaf yn parhau yn berthnasol iddo. Gallai fod wedi mynnu cael gwybod am hyn ar yr adeg hon neu gallai o leiaf fod wedi gwneud rhywfaint o ymdrech i gael gwybod.
- 4.52 Dof hefyd i'r casgliad nad oedd ei ddull o resymu, wrth iddo haeru y gallai fod wedi peryglu rôl bosibl yn y dyfodol fel cynghorydd i'r llywodraethwyr petai'n gwybod mwy, yn argyhoeddedig o gwbl. Mae Mr Roberts ei hun yn pwysleisio'n barhaus y ffaith y byddai penderfyniadau disgyblu wedi cael eu gwneud gan is-bwyllgorau priodol y llywodraethwyr. Gallai fod wedi bod yn bosibl iddo wybod am y cwynion i gyd a pharhau i roi cyngor yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r llywodraethwyr yn unig. Mae ei dystiolaeth ar y pwynt hwn ymron yn gyfystyr â dweud y byddai'r clerc i'r ynadon wedi'i wahardd rhag cynghori'r fainc petai'n gwybod y cyhuddiadau neu'r dystiolaeth. Mae hynny'n afresymol.

Ymagwedd Mr Edwin Roberts i'r Heddlu

- 4.53 Rhydd Mr Roberts dri phrif reswm pam nad aeth at yr heddlu ar unwaith ym mis Ionawr 1991 pan roddodd Mr Dunne wybod iddo am gynnwys llythyr Mrs Phillips yn fuan ar ôl i'w adran ei dderbyn:
- (i) oherwydd nad oedd gwybodaeth ganddo am ddatganiadau'r plant
 - (ii) oherwydd mai honiadau cyffredinol ynghylch dulliau dysgu Mr Owen yn unig oedd yn llythyr Mrs Phillips (na ddarllenodd)

- (iii) oherwydd fe'i hystyrid yng nghyd-destun ystyriaethau disgyblu yn hytrach nag ystyriaethau amddiffyn plant.
- 4.54 Cytunodd Mr Roberts yn ei dystiolaeth ei fod yn ymwybodol iawn ar y pryd y dylai unrhyw bryderon amddiffyn plant gael eu cyfeirio ar unwaith i'r heddlu neu i awdurdodau perthnasol eraill²⁹. Dywedodd hyn ag arddeliad, ac felly mae'n dilyn nad yw rheswm (iii) uchod yn argyhoeddiadol.
- 4.55 Ni allaf gasglu, yn ôl pwysau tebygolrwydd, fod gan Mr Roberts wybodaeth ar y pryd ynghylch manylion llawn datganiadau'r plant. Ailadroddaf, wrth basio, fod ganddo bŵer i gael gafael ar y wybodaeth honno ac y dylai fod wedi arfer y pŵer hwnnw cyn gweithredu. Gallai fod wedi gofyn i Mr Matthews neu aelodau eraill o'i staff am amlinelliad manwl o'r honiadau a oedd yn cael eu gwneud a dylai fod wedi gofyn amdano.
- 4.56 Wrth roi tystiolaeth i'r Ymchwiliad, dywedodd Mr Roberts mai Mr Dunne a roddodd y briff iddo ar gynnwys llythyr cyntaf Mrs Phillips a dim ond "barn gyffredinol o'r cwynion"³⁰ ydoedd ac na ddarllenodd y llythyr ei hun.
- 4.57 Fel y nodwyd ynghynt, wrth i Mr James ei groesholi, cyfaddefodd ei fod yn ymwybodol ar y pryd bod llythyr cyntaf Mrs Phillips yn cynnwys honiadau bod "golygfeydd o drais rhywiol, mae'n debyg, yn un o hoff nodweddion ei ddramâu (Mr Owen)", "y cyflwynir naws rywiol amlwg i ymron i bob agwedd ar ddrama" ac y "gofynnwyd i fechgyn dynnu amdanynt yn yr hyn a elwid yn ymarferion"³¹.
- 4.58 Er iddo fod yn ymwybodol o hyn a honiadau eraill ac iddo fod yn ymwybodol bod Mr Matthews yn cymryd datganiadau gan blant yn yr ysgol, dywedodd Mr Roberts na fu iddo ofyn am wybodaeth bellach, nac ychwaith iddo gyfeirio unrhyw beth at yr heddlu na'r gwasanaethau cymdeithasol.
- 4.59 Rwyf o'r farn y dylai fod wedi gwneud y ddeubeth a phetai wedi gwneud hynny buasai hyn wedi esgor ar ganlyniad tra gwahanol a mwy priodol i'r digwyddiadau.
- 4.60 Roedd yr ail lythyr a anfonwyd gan Mrs Phillips, a ysgrifennodd ar 4 Chwefror 1991, ac a dderbyniwyd gan gadeirydd y llywodraethwyr, y Barnwr Richards, yn gyfle arall i Mr Roberts fod wedi cyfeirio'r achos.
- 4.61 Mae'n werth nodi i'r llythyr hwn gael ei ysgrifennu ar ôl i delerau ymddiswyddo gael eu negodi rhwng Mr Roberts a Mr Owen. Yn wir, adroddiadau yn y cyfryngau yn seiliedig ar ddatganiad Mr Roberts i'r cyfryngau³² yn cyhoeddi ymddiswyddiad Mr Owen a ysgogodd Mrs Phillips i'w ysgrifennu.
- 4.62 Y tro cyntaf i Mr Roberts wybod am ail lythyr Mrs Phillips oedd yn ystod galwad ffôn gan y Barnwr Richards ar 6 Chwefror 1991, pan ddarllenodd y Barnwr

Richards ran helaeth o'r ail lythyr iddo. Cydnabu Mr Roberts fod ganddo syniad da iawn o gynnwys y llythyr.

- 4.63 Yn wir, datganodd mewn tystiolaeth fod yr ail lythyr hwn yn fwy penodol o ran yr honiadau ynddo a bod yr honiadau ynghylch "sgrïpt bornograffig" yn benodol ac y bu gofyn i'r plant "eu hactio" yn ddigon iddo³³
- (i) argymell ar lafar i'r Barnwr Richards y dylai'r llythyr fynd at y llywodraethwyr
 - (ii) teimlo y dylai ef (Mr Roberts) fynd at yr heddlu a'u gwneud yn ymwybodol o gynnwys y llythyr.
- 4.64 Roedd tystiolaeth Mr Roberts o ran y mater hwn yn ddryslyd ac yn gyferbyniol, fel yr oedd mewn cymaint o achosion.
- 4.65 Mae'n bwysig cofio'r ffaith bod Mr Roberts yn gwbl ymwybodol y byddai ei adroddiad ysgrifenedig i'r llywodraethwyr a oedd yn argymell yn gryf "na ddylid cymryd camau pellach" yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r llywodraethwyr y diwrnod canlynol, yn ystod ei sgwrs gyda'r Barnwr Richards ar 6 Chwefror 1991.
- 4.66 Mae'n hunanamlwg petai Mr Roberts yn pryderu cymaint ynghylch cynnwys y llythyr y gallai'n hawdd iawn fod wedi cynghori'r Barnwr Richards y dylai'r llywodraethwyr anwybyddu ei adroddiad, gan fod y gŵyn newydd hon, a oedd yn ei farn ef yn gŵyn fwy difrifol, wedi dod i law.
- 4.67 Ni wnaeth Mr Roberts hyn. Ni thrafferthodd hyd yn oed ddarllen y llythyr ei hun pan ddaeth i law. Pan ofynnwyd iddo, wrth gael ei groesholi gan Mr James, p'un a oedd wedi darllen y llythyr, atebodd Mr Roberts "Naddo, gan i mi ei drosglwyddo yn syth i'r Dirprwy Gyfarwyddwr er mwyn cael cyngor cyfreithiol oherwydd i mi ddeall natur a chynnwys y llythyr drwy sgwrs hir iawn"³⁴.
- 4.68 Yn ogystal â'r ffaith i Mr Roberts fethu â darllen y llythyr, fe ysgrifennodd arno wrth ei gyfeirio at Glerc y Sir "Dim brys mawr...i gyrraedd 30 Ebrill a dyddiad yr ymddiswyddiad"³⁵, mewn ymateb i sylwadau ysgrifenedig y Barnwr Richards ar y llythyr at sylw Mr Roberts "i'w ddarllen a gweithredu arno".
- 4.69 Honnodd Mr Roberts wrth roi tystiolaeth fod hwn yn sylw coeglyd, gan fod y cais am gyngor cyfreithiol gan y Barnwr Richards mor gyffredinol. Yn wir, nid oes tystiolaeth i gais am gyngor cyfreithiol gael ei wneud o gwbl ac mae'r Barnwr Richards yn gwadu i gais o'r fath gael ei wneud.
- 4.70 Dof i'r casgliad mai ymgais oedd hon i 'gladdu' ail lythyr Mrs Phillips neu, fel y disgrifiodd un cynrychiolydd cyfreithiol, ymgais "i'w anwybyddu gan obeithio yr âi'n angof"³⁶. Yn sicr nid gweithred rhywun a oedd yn ddigon pryderus ynghylch

yr ail lythyr i fynd at yr heddlu ym mis Mawrth 1991 mohono, fel yr honnir gan Mr Roberts.

- 4.71 Pa un bynnag, mae ail lythyr Mrs Phillips yn cynnwys llai, yn hytrach na mwy, o honiadau penodol na'i llythyr cyntaf.
- 4.72 Hefyd, petai Mr Roberts mor bryderus, ar sail trosedd (anlladrwydd) bosibl ac amddiffyn plant (plant yn cael eu gorfodi i actio'r sgriptiau) pam na roddodd wybod naill ai i'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu ar unwaith? Roedd cyfrifoldeb arno i wneud hyn ac roedd yn ymwybodol o'i ddyletswydd fel yr ailadroddodd yn ei dystiolaeth i'r Ymchwiliad. Nid oes tystiolaeth i'r gwasanaethau cymdeithasol gael eu cynnwys erioed a dim ond rhyw bum wythnos yn ddiweddarach y daeth yr heddlu yn rhan o'r achos (gweler Pennod 9: Ymchwiliad yr Heddlu). Dylai o leiaf fod wedi gofyn i Mr Matthews am y dystiolaeth a oedd ganddo, yn enwedig gan fod ail lythyr Mrs Phillips yn cyfeirio at gryn dipyn o dystiolaeth.
- 4.73 Wrth honni iddo gynghori cadeirydd y llywodraethwyr i fynd â'r llythyr at y llywodraethwyr mae Mr Roberts hefyd yn wynebu problem arall. Oherwydd, os na allai llythyr cyntaf Mrs Phillips fynd atynt oherwydd y gallai beryglu 'trefn briodol' y gweithdrefnau disgyblu, sut gallai'r ail lythyr fynd atynt? I bob pwrpas mae tystiolaeth Mr Roberts yn awgrymu y dylai llythyr arall fod wedi mynd gyda'i adroddiad dyddiedig 5 Chwefror 1991 lle y dywed na all y llywodraethwyr weld y dystiolaeth a gasglwyd yn erbyn Mr Owen, gyda'r llythyr hwnnw yn datgelu beth y gallai peth o'r dystiolaeth fod. Nid wyf o'r farn bod hyn yn gredadwy.
- 4.74 At hynny, mae camau dilynol eraill Mr Roberts yn anghyson â rhywun a oedd yn bryderus iawn ynghylch cynnwys ail lythyr Mrs Phillips. Ar 12 Chwefror 1991 anfonwyd sawl lythyr gan Mr Roberts at bobl a oedd wedi ysgrifennu i gefnogi Mr Owen. Ymdriniaf â'r llythyron hyn yn ddiweddarach (gweler isod), ond mae'n berthnasol nodi yn y fan hon bod llythyron Mr Roberts, yn ddiethriad, yn gyson â'r hyn a gofnodir yn ei adroddiad ysgrifenedig i'r llywodraethwyr. Mae'n amlwg mai eu bwriad yw lleddfu'r honiadau yn erbyn Mr Owen. Mewn un llythyr aiff mor bell â dweud "Unwaith y bydd athro wedi ymddiswyddo, nid yw'n arferol i'r Corff Llywodraethu barhau â phwyllgor ymchwil, a gobeithiaf mai dyma a fydd yn wir yn yr achos hwn"³⁷ (fy mhwyslais i). Mae'r geiriau hyn yn gwbl annirnadwy os oedd Mr Roberts yn wirioneddol o'r farn i ail lythyr Mrs Phillips ei ysgogi i feddwl y dylai'r llywodraethwyr fod wedi cymryd camau disgyblu ac y dylai yntau fynd at yr heddlu. Ni allaf dderbyn nad oedd Mr Roberts yn ymwybodol o gynnwys y llythyron a aeth allan yn ei enw ef.
- 4.75 Mae'n anodd gweld sut y gallai'r llywodraethwyr fod wedi parhau gyda gwrandawriad disgyblu o ystyried i Mr Roberts wneud addewid i Mr Owen na fuaesent yn gwneud hynny. Yn ôl y gyfraith, nid oedd y llywodraethwyr yn cael

eu rhagwahardd rhag ceisio cynnal gwrandawriad disgyblu, ond roeddent yn teimlo, yn wir eu bod yn cael eu hatal rhag gwneud hynny gan gyngor Mr Roberts. Petai'r llywodraethwyr wedi parhau ar y trywydd hwn – a fyddai wedi bod yn anodd dros ben o ystyried yr hyn a gasglaf oedd ymddygiad Mr Roberts – byddai gan Mr Owen ddadleuon cryf yng nghyd-destun estopel o ganlyniad i ymddygiad Mr Roberts.

- 4.76 Ni allaf ganfod unrhyw dystiolaeth gryf i awgrymu i ail lythyr Mrs Phillips effeithio ar Mr Roberts yn y fath fodd ag y disgrifia nawr a chanfyddaf dystiolaeth sylweddol i awgrymu i'r gwrthwyneb.
- 4.77 Y mater sy'n weddill felly yw p'un a aeth Mr Roberts at yr heddlu o'i wirfodd ac os felly, beth oedd ei resymau dros wneud hynny. Ni cheir tystiolaeth glir, ar wahân i'w dystiolaeth ef ei hun, iddo fynd at yr heddlu o'i wirfodd ac mae ei dystiolaeth yn anfoddhaol fel y nodir gennyf. Ysgrifennodd at Glerc y Sir yn gofyn am gyngor cyn ei gyfweiliad â'r heddlu ar 26 Mawrth 1991³⁸. Mae Mr Roberts yn haeru iddo fynd at yr heddlu ar ôl iddo ddarllen cofnodion cyfarfod y llywodraethwyr dyddiedig 8 Mawrth 1991³⁹ pan sylweddolodd nad oeddent yn bwriadu gweithredu mewn ymateb i ail lythyr Mrs Phillips. Dywedodd iddo felly fynd at yr heddlu a'u bod wedi cyfweld ag ef ar 26 Mawrth 1991⁴⁰.
- 4.78 Dywed na fu iddo ofyn i unrhyw aelod o'i staff ei hun am friff ymlaen llaw ac na fu iddo ymgynghori â Mr Matthews (sef ffaith nodedig), ac na fu iddo ychwaith fynd â llythyr Mrs Phillips gydag ef⁴¹. Roedd y rhain yn anweithiau difrifol o gofio ei honiadau ynghylch pwysigrwydd ail lythyr Mrs Phillips.
- 4.79 Nodir canlyniadau ymchwiliad yr heddlu yn llythyr Mr Roberts at y Barnwr Richards a'i femorandwm at Mr Matthews, ill dau ar 22 Mawrth 1991. Dywedodd wrthynt "mae'n bosibl i gamau posibl y llywodraethwyr gael eu disodli gan ymyrraeth yr heddlu"⁴².
- 4.80 Dywed wrth Mr Matthews: "Mae agwedd newydd bellach, sef ymyrraeth yr heddlu. Ym mhob achos blaenorol mae corff llywodraethu wedi gohirio unrhyw gamau disgyblu hyd nes y cwblheir ymchwiliadau'r heddlu"⁴³. (Gweler argymhelliad (20) Syr Ronald Waterhouse yn ei adroddiad 'Ar Goll mewn Gofal').
- 4.81 Ar 24 Mai 1991, ysgrifennodd Mr Roberts at y Barnwr Richards i'w hysbysu "nad yw'r heddlu yn bwriadu cymryd unrhyw gamau yn ymwneud â'r gŵyn a dderbyniwyd yn erbyn Mr John Owen...fy nghyngor i'r llywodraethwyr oedd y dylent ohirio unrhyw gamau hyd nes bod yr heddlu wedi penderfynu p'un a oedd achos troseddol yn y cyd-destun hwn. Oherwydd y disgwylir i'r hysbysiad hwn gael ei dderbyn ar ôl ymadawriad Mr Owen o'r awdurdod addysg lleol, nid oes angen i'r llywodraethwyr gymryd unrhyw gamau pellach ac mae'r mater bellach wedi'i ddwyn i'w derfyn"⁴⁴. Nid ysgrifennodd "hwyrach na fyddwch yn

awyddus i gymryd unrhyw gamau pellach a hwyrach y byddwch yn dymuno cau eich ffeiliau ar y mater". Roedd termau Mr Roberts yn gyfarwyddol yn hytrach nag yn gynghorol.

- 4.82 Dof i'r casgliad bod tystiolaeth Mr Roberts yn anfoddhaol iawn yng nghydestun y materion hyn. Dof hefyd i'r casgliad, yn ôl pwysau tebygolrwydd, nad effeithiodd ail lythyr Mrs Phillips ar Mr Roberts yn y fath fodd ag yr honnir ganddo bellach. Rwyf yn ansicr p'un a aeth at yr heddlu ohono'i hun ym mis Mawrth 1991. Os mai dyna oedd yr achos credaf ei bod yn debycach mai oherwydd iddo glywed i Mrs Phillips gwyno wrthynt eisoes a'u bod yn bwriadu cyfweld â Mr Matthews. Mae'n bosibl mai er mwyn parhau â'i strategaeth o gadw pethau'n dawel yr aeth Mr Roberts at yr heddlu gan ei fod yn bryderus o bosibl ynghylch camau Mrs Phillips.
- 4.83 Dof i'r casgliad i ymchwiliad yr heddlu gael ei lesteirio, yn arbennig, gan fethiant Mr Roberts a Mr Matthews i rannu gwybodaeth fel y dylent fod wedi gwneud. (Gweler Pennod 9: Ymchwiliad yr Heddlu).

Gohebiaeth a blaenoriaethau cymharol Mr Edwin Roberts

- 4.84 Yn ôl ei gyfaddefiad ei hun, ni wnaeth Mr Roberts unrhyw ymdrech i ganfod beth yr oedd y plant yn ei ddweud, er ei fod yn amlwg yn ymwybodol bod aelod o'i staff ei hun, sef Mr Matthews, wedi cymryd datganiadau ganddynt. Os yw hyn yn iawn, mae'r ffaith iddo deimlo y gallai ymdrin â'r heddlu o dan amgylchiadau o'r fath yn annealladwy.
- 4.85 Yn ei lythyron i gefnogwyr Mr Owen, cyfeiria at y ffaith "bod y cyfryngau yn weithredol iawn ac ymddengys fod ganddynt wybodaeth fanwl iawn o'r honiadau a wnaed yn erbyn Mr Owen"⁴⁵ ac mewn llythyr arall "Ymddengys bellach fod y cyfryngau wedi cael gafael ar fanylion yr honiadau"⁴⁶.
- 4.86 Wrth roi tystiolaeth, tra'n cael ei holi gan Gwnsler yr Ymchwiliad, gwadodd Mr Roberts ei fod yn gwybod ar y pryd am elfennau gwahanol o adroddiadau'r wasg a gyflwynwyd iddo. Roedd yr adroddiadau hyn yn cynnwys honiadau manwl a phenodol.
- 4.87 Dyfynnwyd Mr Roberts ei hun mewn un o'r erthyglau hyn ac rwyf yn ei chael yn anodd iawn derbyn ei adroddiad sef na wyddai unrhyw beth am eu cynnwys. Yn arbennig, enwir un disgybl gan ddweud bod disgwyl iddi ffugio gweithred rywiol gyda chyd-ddisgybl.
- 4.88 Oni ddylai hyn fod wedi arwain Mr Roberts at ofyn am fanylion datganiadau'r plant; nid felly yn ôl Mr Roberts.

- 4.89 Mynegaf fy syndod na fu i unrhyw un yn yr adran addysg nac yn wir y gwasanaethau cymdeithasol godi unrhyw faterion gyda'r Cyfarwyddwr Addysg ar y pryd (18 Chwefror 1991) o ddarllen yr adroddiadau helaeth yn y wasg a awgrymai fod materion amddiffyn plant yn amlwg ynghlwm wrth yr achos.
- 4.90 Fodd bynnag, fy mhrif ddiben yw amlygu'r ffaith na fu i weithredoedd Mr Roberts ddangos mewn unrhyw ffordd ei fod o'r farn bod datganiadau'r plant yn bwysig.
- 4.91 Fel y dywedais, llofnododd Mr Roberts lythyron manwl ac wedi'u personoli yn aml, mewn ymateb i'r rheini a gefnogai Mr Owen, ond nid anfonwyd cydnabyddiaeth hyd yn oed i'r achwynwyr, megis mam Disgybl T (a ddywedodd yn ei llythyr na ddylid caniatáu i Mr Owen ddysgu plant byth eto). Ar frig ei llythyr hi yn llawysgrifen Mr Askey mae'r geiriau "ddim i'w gynnwys fel tystiolaeth"⁴⁷. Ni dderbyniodd Mrs Phillips ymateb ychwaith gan Mr Roberts er y gwyddai ef fod Mrs Phillips yn ymwybodol mai ef oedd yn gyfrifol am ymdrin â'r mater. Yn bwysicach fyth, ni roddwyd unrhyw wybodaeth nac unrhyw ystyriaeth o gwbl gan Mr Roberts i'r disgyblion hynny a ddangosodd ddewrder drwy roi datganiadau.
- 4.92 O ystyried gweithredoedd Mr Roberts ym 1991 a'i dystiolaeth i'm Hymchwiliad, credaf ei bod yn rhesymol awgrymu iddo ystyried nad oedd datganiadau'r plant yn bwysig, nad oedd yr achwynwyr yn haeddu ymateb; ond ei fod yn ystyried bod hawl gan gefnogwyr Mr Owen i ymatebion wedi'u personoli, a hynny i amrywiol raddau.

Adroddiad Mr Edwin Roberts i'r Llywodraethwyr yn Ysgol Gyfun Rhydfelen 5 Chwefror 1991

- 4.93 Chwaraeodd adroddiad Mr Roberts rôl bwysig yn y modd y gweithredodd y llywodraethwyr ym 1991. Roedd yn ddatganiad awdurdodol, a ysgrifennwyd ac a lofnodwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ac yn tueddu'n gryf at ddull penodol o weithredu.
- 4.94 Er gwaethaf ymdrechion gan Mr Roberts, wrth roi tystiolaeth, i fwrw amheuaeth ar union faint ei gyfraniad i'r gwaith o baratoi'r adroddiad, mae'r ffaith i gopi a lofnodwyd gan Mr Roberts gael ei gyflwyno i'm Hymchwiliad gan lywodraethwr, Mr Bryant, yn profi fod gan Mr Roberts gyfrifoldeb uniongyrchol a phersonol dros ei gynnwys⁴⁸.
- 4.95 Roedd yr adroddiad yn cynnwys nifer o gamgymeriadau, nifer o ddatganiadau camarweiniol a deunydd arall nad yw'n gydnaws â pheth o'r dystiolaeth a roddodd Mr Roberts i'm Hymchwiliad.

- 4.96 Roedd ei adroddiad yn lleihau effaith yr honiadau a'r dystiolaeth a fodolai yn erbyn Mr Owen. Gan gyfeirio at un llythyr o gŵyn yn unig, cadarnhaodd i'r "drefn safonol gael ei dilyn drwy gasglu datganiadau gan y disgyblion". Derbyniodd Mr Roberts na wyddai unrhyw beth ynglŷn â'r modd y casglwyd y datganiadau nac ynglŷn â'u cynnwys. Nododd i'w swyddogion gyfsweld â Mr Owen pan nad oedd hyn yn wir⁴⁹.
- 4.97 Rhoddodd yr adroddiad gyngor camarweiniol hefyd o ran y gweithdrefnau disgyblu a oedd mewn grym ar y pryd. Nododd mai'r "drefn arferol"⁵⁰ oedd sefydlu is-bwyllgor disgyblu ac atal Mr Owen o'i swydd, ond mewn gwirionedd dim ond pan fyddai'r cyhuddiadau'n ddigon difrifol i fynnu'r cyfryw gamau yr oedd angen trefn o'r fath. Drwy gamarwain y llywodraethwyr yn y modd hwn, roedd Mr Roberts yn cyfleu'r argraff mai honiadau dibwys oeddent. Roedd hyn, yn ei dro, yn ei gwneud yn llawer mwy tebygol y byddai'r llywodraethwyr yn derbyn y fargen a darodd gyda Mr Owen.
- 4.98 Nododd yr adroddiad delerau'r fargen, gan hysbysu'r llywodraethwyr iddo gyfarfod yn bersonol â Mr Owen ac ysgrifennu at gadeirydd y llywodraethwyr, gan argymhell "cadarnhad na fyddai unrhyw ymdrech yn cael ei gwneud i fwrw ati i gynnal gwrandawriad is-bwyllgor"⁵¹.
- 4.99 Nododd Mr Roberts hefyd "pa un bynnag, buasai'n anodd iawn mynnu bod unrhyw aelod o staff yn ymddangos gerbron is-bwyllgor o'r llywodraethwyr ar ôl iddo ymddiswyddo"⁵². Er bod hyn yn wir, nid oedd y ffaith y byddai aelod o staff efallai'n dewis peidio ag ymddangos gerbron yr is-bwyllgor yn atal y posibilrwydd y byddai cyhuddiadau'n cael eu gwneud ac i'r llywodraethwyr fwrw ati i gynnal gwrandawriad disgyblu hyd at y pwynt pan ddaeth cyflogaeth Mr Owen i ben. Nid oedd cyfeiriad at Restr 99⁵³, y rhestr o bobl a gaiff eu hatal rhag gweithio gyda phlant ac a esbonnir yn llawn yn Atodiad 3, yr angen i lunio cyhuddiadau fel rhaganghenraid i'w gynnwys ar y rhestr honno nac asesiad o p'un a allai'r honiadau a wnaed yn erbyn Mr Owen gyfiawnhau gweithredu yn y fath fodd.
- 4.100 Wrth gyflwyno hyn i'r llywodraethwyr, rhoddodd Mr Roberts yr argraff y buasai'n anodd iawn dilyn unrhyw drywydd arall a oedd yn wahanol i'w awgrymiadau pan nad oedd hyn yn wir. Methodd hefyd â nodi unrhyw reswm pam y gellid cyfiawnhau gweithredu ar ôl i rywun ymddiswyddo.
- 4.101 Haerodd Mr Roberts wedyn "bydd y llywodraethwyr yn deall mai dim ond yr is-bwyllgor disgyblu a all weld dogfennau achos yn unol â'r cod disgyblu ac mai dim ond yn ystod gwrandawriad y byddai'r ddogfennaeth hon ar gael".

- 4.102 Wrth gael ei groesholi gan Mrs Crowley CF, gofynnwyd i Mr Roberts nodi ym mha le y gwelir hyn yn y gweithdrefnau disgyblu ar y pryd. Methodd Mr Roberts â gwneud hynny⁵⁴. Nid yw'n ymddangos ynddynt.
- 4.103 Methodd Mr Roberts â rhoi unrhyw gyngor ar bolisïau neu weithdrefnau amddiffyn plant. Roedd ei gyngor yn cadarnhau'r argraff anghywir a gafodd y llywodraethwyr na allent gael gwybod am yr honiadau yn erbyn Mr Owen. Rhoddodd cadeirydd y llywodraethwyr, y Barnwr Richards, ynghyd â chyn lywodraethwyr eraill, dystiolaeth o ran pwysau'r ddogfen hon a'r dylanwad a gafodd ar weithredoedd y llywodraethwyr ar y pryd.
- 4.104 Cyfaddefodd Mr Roberts, wrth roi tystiolaeth, i'r achos disgyblu gael ei atal ar ei argymhelliad ef⁵⁵. Derbyniodd Mr Roberts hefyd ei fod eisoes yn rhagweld y byddai'r llywodraethwyr yn dilyn ei gyngor cyn cyflwyno ei adroddiad hyd yn oed, gan iddo ryddhau datganiad i'r cyfryngau cyn 4 Chwefror 1991, yn dweud bod Mr Owen wedi ymddiswyddo. Rhoddodd hefyd gyfarwyddiadau i Mr Dunne, ar ryw adeg, i "dderbyn ymddiswyddiad Mr Owen a hynny'n weithredol ar unwaith ond i drefnu i'w gyflog gael ei dalu hyd at 30 Ebrill 1991"⁵⁶.
- 4.105 O gofio natur wallus a charmarweiniol ei adroddiad, yr effaith a gafodd ar y digwyddiadau a thybiaeth Mr Roberts o gydymffurfiaeth y llywodraethwyr fel yr amlinellir uchod, mae'n berthnasol ceisio canfod beth oedd pwrpas Mr Roberts wrth ei ysgrifennu a sicrhau y câi ei gyflwyno i'r llywodraethwyr.
- 4.106 Wrth roi tystiolaeth, nododd Mr Roberts ei fod yn cynnig cyngor a chymorth "i'w helpu (y llywodraethwyr) i hwyluso eu camau"⁵⁷. Rwyf yn ei chael yn anodd gweld sut y byddai adroddiad 5 Chwefror 1991 o gymorth i'r llywodraethwyr, yn wir roedd yn rhwystr amlwg iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau. Yn fwy na hynny, bu'n gyfrifol am eu camarwain yn ddifrifol mewn rhai agweddau hanfodol.
- 4.107 Fodd bynnag, mae'n gwbl gyson â gweithredoedd rhywun sy'n ceisio sicrhau y rhoddir telerau cytundeb neu ddêl ar waith.
- 4.108 Er mwyn i'r cytundeb a wnaed rhwng Mr Roberts a Mr Owen gael ei weithredu roedd angen dwyn perswâd ar y llywodraethwyr i weithredu yn y modd yr argymhellai Mr Roberts yn gryf yn ei adroddiad.
- 4.109 Credaf, yn ôl pwysau tebygolrwydd mai dyma oedd prif bwrpas Mr Roberts wrth ysgrifennu'r adroddiad i'r llywodraethwyr. Mae'r deunydd sydd ar gael fel y'i hadolygwyd uchod yn ategu'n gryf y casgliad yn y cyd-destun hwn, bod Mr Roberts yn credu y gallai reoli'r hyn y byddai'r llywodraethwyr yn ei wneud ac iddo fynd ati i wneud hynny'n llwyddiannus.

Ymddiswyddiad Mr John Owen

- 4.110 Roedd ymddiswyddiad Mr Owen ym 1991 yn ddigwyddiad arwyddocaol. Roedd yn arbennig o arwyddocaol gan i'r awdurdod addysg lleol ymrwymo na fyddai'n wynebu cyhuddiadau disgyblu petai'n ymddiswyddo. Gwireddwyd yr ymrwymiad hwn.
- 4.111 Fel y bu roedd hyn yn golygu nad ystyriwyd yr honiadau a wnaed gan y plant gan is-bwyllgor(au) disgyblu perthnasol y llywodraethwyr.
- 4.112 Byddai hyn wedi galluogi i'r dystiolaeth o gam-drin plant a gasglwyd drwy gyfrwng datganiadau gan blant a gymerwyd gan uwch athrawon yn Ysgol Gyfun Rhydfelen a chan Mr Matthews gael ei gwerthuso yn ôl pwysau tebygolrwydd yn hytrach na'r safon droseddol fwy manwl sef y tu hwnt i bob amheuaeth resymol.
- 4.113 Yn absenoldeb unrhyw gyfranogiad gan y gwasanaethau cymdeithasol, pan benderfynodd Gwasanaeth Eryl y Goron i beidio ag erlyn Mr Owen ar gyhuddiadau troseddol, roedd telerau'r 'ddêl' ymddiswyddo yn golygu na ellid ymchwilio i ymddygiad Mr Owen mewn unrhyw ffordd arall ac na ellid cymryd camau priodol yn sgîl hynny.
- 4.114 Dywedodd Mr Roberts wrth fy Ymchwiliad iddo glywed gan Mr Dunne fod Mr Owen yn bwriadu ymddiswyddo ar ôl i Mr Dunne gyfarfod â dau swyddog o UCAC, undeb yr athrawon, yn Neuadd y Sir yng Nghaerdydd. Mae'r dystiolaeth a roddwyd yn awgrymu i'r cyfarfod hwn gael ei gynnal ar 15 Ionawr 1991.
- 4.115 Nid oedd Mr Roberts yn bresennol yn y cyfarfod, ond mae dealltwriaeth o'r hyn a ddigwyddodd yno yn hanfodol o ran y rhan y mae'n ei chwarae yn ei adroddiad ar ei ymagwedd tuag at Mr Owen.
- 4.116 Dim ond dau adroddiad a roddwyd i'r Ymchwiliad ar y cyfarfod hwn yn Neuadd y Sir; y cyntaf gan Mr Graham Dunne, y swyddog personél yn yr awdurdod addysg lleol a'r ail gan Ms Siân Morgan Ellis, a oedd yn un o swyddogion lleol UCAC (Ysgrifennydd y Sir) ar y pryd.
- 4.117 Mae'r ddau dyst yn cytuno bod trydydd person yn bresennol yn y cyfarfod sef Mr Wyn James, Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC, sydd bellach wedi marw. Fel arall mae eu tystiolaeth bron yn llwyr yn wrthgyferbyniol.
- 4.118 Nid oedd Mr Dunne yn credu bod Ms Ellis yn y cyfarfod o gwbl, er iddo gofio i ddyn o UCAC fod yno gyda "chyfenw dwbl"⁵⁸. Roedd Ms Ellis yn sicr ei bod yn bresennol yn y cyfarfod, a dywedodd fod pobl yn rhoi cysylltnod rhwng ei henwau mewn camgymeriad weithiau.

- 4.119 Yn ôl pwysau tebygolrwydd, credaf nad yw Mr Dunne yn gywir yn y cyd-destun hwn a bod Ms Ellis yn bresennol yn y cyfarfod. Creodd argraff arnaf ei bod yn dyst dibynadwy, â chof da. Mae'n annhebygol iddi wneud camgymeriad ac rwyf yn gwbl sicr na fuasai yn ceisio fy nghamarwain i. Dywedodd mai achos prin oedd achos Mr Owen yng nghyd-destun ei gwaith fel un o swyddogion UCAC a bod hyn yn ei wneud yn fwy cofiadwy⁵⁹.
- 4.120 Mae tystiolaeth y ddau dyst hwn o ran yr hyn a ddigwyddodd yn y cyfarfod yn wrthgyferbyniol iawn.
- 4.121 Dywedodd Mr Dunne, yn ei ddatganiad cyntaf i mi, iddo adael y ffeil o dystiolaeth ar y bwrdd a mynd i wneud coffi i'r ddau westai er mwyn iddynt allu darllen y dystiolaeth a gasglwyd yn erbyn Mr Owen. Wrth ddychwelyd, dywedodd y ddau wrtho y byddai Mr Owen yn ymddiswyddo. Ar sawl achlysur dywedodd na ddosbarthwyd copïau o'r dystiolaeth⁶⁰.
- 4.122 Mae Ms Ellis yn gwrthod yr adroddiad hwn yn llwyr. Dywedodd i Mr Dunne roi copïau teipiedig o'r dystiolaeth iddynt, gan gynnwys datganiadau'r plant, ar ddechrau'r cyfarfod⁶¹. At hynny, dywedodd "ni wnaethom drafod y syniad y dylai John ymddiswyddo"⁶².
- 4.123 Nododd mai dim ond newydd weld y dystiolaeth am y tro cyntaf yr oeddent ac y buasai angen iddynt ei thrafod gyda Mr Owen (cytunodd y ddau dyst na wnaed unrhyw alwadau ffôn yn ystod y cyfarfod). Dywed Ms Ellis iddi hi a Mr James drafod sut y byddai angen iddynt ystyried y dystiolaeth yn ofalus cyn cynghori Mr Owen. Dywed hefyd na thrafodwyd mater ymddiswyddo o gwbl gyda Mr Dunne. Ymddengys i mi mai dyma fyddai'r ffordd briodol a thebygol i swyddogion o'r fath weithredu.
- 4.124 Mae'n anodd gennyf dderbyn fersiwn Mr Dunne o'r digwyddiadau. Wrth gael ei groesholi, cytunodd y "gallai fod wedi" darparu copïau o ddatganiadau fel y disgrifiodd Ms Ellis⁶³.
- 4.125 Rhoddodd Mr Dunne hefyd dystiolaeth gryf fwy nag unwaith nad oedd "achos cryf iawn yn ei erbyn"⁶⁴ a'i fod yn credu y gallai Mr Owen ddadlau mai dim ond dulliau dysgu yr oedd yr achos yn ymwneud â hwy ac "na fyddai'n cael ei gosbi"⁶⁵. Os mai dyna oedd yr achos mae'n anodd deall sut y byddai dau swyddog profiadol o UCAC yn haeru y byddai Mr Owen yn ymddiswyddo pan oedd yr achos yn ei erbyn mor wan ac nad oeddent wedi cael cyfle i drafod yr achos gydag ef.
- 4.126 Awgrymodd Mr Dunne iddo gael yr argraff ar y pryd eu bod yn gwybod bod Mr Owen eisoes wedi penderfynu ymddiswyddo pan ddaethant i'r cyfarfod. Mae Ms Ellis yn dadlau'n groes gan ddweud mai'r tro cyntaf iddi glywed am y penderfyniad hwnnw oedd ar 24 Ionawr 1991 (union ddyddiad llythyr ymddiswyddo Mr Owen) mewn galwad ffôn gan Mr James.

4.127 Wrth lunio canfyddiad ffeithiol ar y mater p'un a roddodd swyddogion UCAC wybod i Mr Dunne fod Mr Owen yn ymddiswyddo yn y cyfarfod ar 15 Ionawr 1991, rwyf yn ffafrio tystiolaeth Ms Ellis am y rhesymau canlynol:

- (i) Roedd atgofion Ms Ellis o'r cyfarfod yn ymddangos yn glir ac yn gyson
- (ii) Ni allaf weld unrhyw reswm pam y byddai Ms Ellis am roi adroddiad anghywir o'r cyfarfod, nac unrhyw reswm pam y buasai'n esgus rhoi adroddiad clir i mi petai ei chof yn aneglur
- (iii) Parhaodd Ms Ellis yn argyhoeddiadol wrth gael ei chroesholi
- (iv) Roedd adroddiad Ms Ellis yn gyson â'r hyn y gellid ei ddisgwyl yn rhesymol gan ymddygiad swyddogion undeb llafur cyfrifol.

Ar y sail hon ac yn unol â phwysau tebygolrwydd, dof i'r casgliad na chafodd Mr Dunne ei hysbysu o unrhyw fwriad ar ran Mr Owen i ymddiswyddo mewn cyfarfod yn Neuadd y Sir ar 15 Ionawr 1991.

4.128 Mae'n dilyn felly na allai Mr Roberts fod wedi cael ei hysbysu yn y fath fodd yn dilyn y cyfarfod hwn oni wnaeth Mr Dunne ei gamarwain yn fwriadol neu iddo gael gwybod am fwriad Mr Owen i ymddiswyddo drwy ddull gwahanol i'r hyn a ddywed. Mae hyn yn bwrw peth amheuaeth ar adroddiad Mr Roberts o'r rhesymau dros y cyfarfod rhyngddo a Mr Owen ar 23 Ionawr 1991 a'r hyn a drafodwyd yn y cyfarfod hwnnw. Manylaf ar y materion hynny isod.

4.129 Cyn gwneud hyn, hoffwn nodi fy mraw o ran y modd yr oedd y ffeil dystiolaeth ar gael i swyddogion UCAC yn y cyfarfod. Ar y pryd, nid oedd unrhyw gyhuddiadau wedi'u gwneud ac roedd y datganiadau yn parhau i gael eu cymryd gan y plant. Y drefn gywir fyddai rhoi'r dystiolaeth a oedd yn ymwneud â'r cyhuddiadau i Mr Owen a'i gynrychiolydd mewn da bryd iddo baratoi ei amddiffyniad i'w gyflwyno i'r is-bwyllgor disgyblu priodol.

4.130 Drwy ddarparu'r dystiolaeth ar yr adeg y gwnaeth, gallai Mr Dunne fod wedi peryglu'r broses disgyblu. Roedd ymddygiad o'r fath yn ddealladwy yng nghydestun diwylliant Cyngor Sir Morgannwg Ganol y rhoddodd ef a Mr Roberts fanylion yn ei gylch. Byddaf yn rhoi sylwadau ar y diwylliant hwnnw yn nes ymlaen (gweler Pennod 8: Awdurdod Addysg Lleol Cyngor Sir Morgannwg Ganol), ond gallai penderfyniad Mr Owen i ymddiswyddo yn gynnar fod wedi cael ei ysgogi gan wybodaeth am y dystiolaeth yn ei erbyn. Roedd hyn, yn ei dro, yn golygu na ellid rhoi enw Mr Owen ar Restr 99.

4.131 Mae'n werth nodi hefyd ei bod yn ymddangos i undeb llafur Mr Owen, UCAC, weithredu'n gwbl briodol ar ran ei aelod, er i'r ffeil a ddarparwyd gan UCAC i'm

Hymchwiliad ddangos bod ganddo gopiâu o ddogfennau na ddylid bod wedi eu rhoi i'r Undeb, o leiaf ar yr adeg y cawsant eu rhoi.

- 4.132 Os nad oedd Mr Roberts yn ymwybodol o fwriad Mr Owen i ymddiswyddo cyn eu cyfarfod ar 23 Ionawr 1991, yna mae'n annhebygol bod ei ddisgrifiad i'm Hymchwiliad o'r rhesymau dros y cyfarfod yn gywir.
- 4.133 Mae'n bosibl bod Mr Roberts yn ymwybodol o fwriad o'r fath i ymddiswyddo drwy ryw ffordd arall rhwng 15 a 23 Ionawr 1991. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth i awgrymu hyn ac mae Mr Roberts ei hun yn nodi mai ei sgwrs gyda Mr Dunne ar ôl y cyfarfod â swyddogion UCAC yn Neuadd Sir Cyngor Sir Morgannwg Ganol ar 15 Ionawr 1991 oedd ffynhonnell y wybodaeth hon. Dywed hefyd iddo ffonio Mr James, Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC, i egluro hyn cyn ei gyfarfod â Mr Owen⁶⁶.
- 4.134 Rhoddodd Mr Roberts nifer o resymau gwahanol dros y cyfarfod gyda Mr Owen ar 23 Ionawr 1991 – nid oedd y rhesymau yn gyson yn ystod cyfnod ei dystiolaeth. Roeddent fel a ganlyn:
- (i) sicrhau bod Mr Owen yn ymwybodol o'r 'Cod Ymarfer' ar gyfer gweithdrefnau disgyblu a'i hawliau yn unol â hwy (yn enwedig yr hawl i gael gwrandawriad teg) ac nad oedd pwysau ar Mr Owen i ymddiswyddo⁶⁷
 - (ii) sicrhau bod Mr Owen yn gwybod nad oedd ei ymddiswyddiad yn golygu sicrwydd y byddai hyn yn atal camau disgyblu rhag cael eu cymryd⁶⁸
 - (iii) cael gwybod beth oedd y cyhuddiadau yn erbyn Mr Owen⁶⁹
 - (iv) cael gwybod y rhesymau dros ymddiswyddiad Mr Owen⁷⁰.
- 4.135 Mae'n werth ailddatgan bod Mr Roberts, drwy gyfarfod â Mr Owen ar yr adeg hon ac yn y modd hwn, yn gweithredu y tu allan i'w bwerau o dan RhYLI. Trefnodd gyfarfod â'r sawl a oedd i wynebu gweithdrefn ddisgyblu gan gyfarfod ag ef heb drafferthu canfod natur unrhyw gyhuddiad neu'r dystiolaeth bosibl a oedd ar gael i gefnogi unrhyw gyhuddiad, heb i gynrychiolwyr undeb neu dystion eraill fod yn bresennol, heb sail gyfreithiol briodol i'w gamau a heb hysbysu'r llywodraethwyr na gofyn am eu caniatâd.
- 4.136 Er gwaethaf hyn, cynhaliwyd y cyfarfod ar 23 Ionawr 1991 a dyddiwyd ymddiswyddiad Mr Owen y diwrnod canlynol, sef 24 Ionawr 1991.
- 4.137 Os ystyriwn y rhesymau a nodir yn 4.134 dylid nodi mai dim ond petai Mr Roberts yn gwybod am fwriad Mr Owen i ymddiswyddo, ac rwyf yn amau hynny, y buasai (ii) a (iv) yn gwneud synnwyr. Hyd yn oed pe wyddai hynny,

buasai fod wedi bod yn fyw diogel ac yn haws iddo gyfleu (i) neu (ii) drwy lythyr neu drwy undeb llafur Mr Owen, neu o leiaf gyda'r undeb llafur yn bresennol. Buasai wedi bod yn ddymunol petai aelod o'i staff ef yn bresennol hefyd. Mae rheswm (iii), y ceisiodd Mr Roberts ei wadu yn ddiweddarach wrth roi tystiolaeth⁷¹, yn anghredadwy mewn gwirionedd.

4.138 Nid oes gennyf dystiolaeth glir i ddangos yr union resymau pam y byddai Mr Roberts yn cyfarfod â Mr Owen ar yr adeg hon, nac ychwaith union gynnwys eu trafodaethau. Fodd bynnag, mewn llythyr a luniwyd yn ofalus at Mrs Nia Wyn Williams, dywedodd iddo fynd i weld Mr Owen "cyn iddo (Mr Owen) gymryd unrhyw benderfyniad yn ymwneud â'i ddyfodol"⁷². (Fy mhwyslais i.)

4.139 Yr hyn sydd yn sicr yw i Mr Owen ysgrifennu ei lythyr ymddiswyddo ar y diwrnod yn dilyn y cyfarfod hwnnw.

4.140 Rhoddodd Ms Ellis, Ysgrifennydd y Sir, UCAC, dystiolaeth yn awgrymu cyfarfod yn y Pentre pan gyflwynodd Mr Owen ei lythyr ymddiswyddo i Mr Roberts a chofiodd i Mr Roberts ddweud na welai "unrhyw reswm i ni drefnu cyfarfod disgyblu" ar ôl derbyn y llythyr⁷³. Mae Ms Ellis yn cofio i'r cyfarfod hwn ddigwydd ar ddydd Gwener. Mae'n debygol felly i hyn ddigwydd ar 25 Ionawr 1991.

4.141 Er bod Mr Dunne a Mr Roberts yn amau iddynt fynychu cyfarfod o'r fath, credaf iddynt wneud hynny a bod tystiolaeth Ms Ellis, yn ôl pwysau tebygolrwydd, yn gywir. Wrth ddod i'r casgliad hwn rwyf wedi ystyried tystiolaeth Mr Emyr Hywel, cynrychiolydd o UCAC, a ddywedodd na fu iddo fynychu cyfarfod lle roedd Mr Owen yn bresennol er i Ms Ellis ddweud ei fod yn bresennol yn y cyfarfod yn y Pentre. Roedd atgofion Mr Hywel yn llai eglur na Ms Ellis ac mae'n well gennyf ei thystiolaeth hi.

4.142 Mae tystiolaeth eilradd o'r hyn y cytunodd Mr Roberts â Mr Owen mewn cyfarfod, yn ei lythyr at gadeirydd y llywodraethwyr, y Barnwr Richards, dyddiedig 29 Ionawr 1991 ac adroddiad Mr Roberts i'r llywodraethwyr dyddiedig 5 Chwefror 1991. Roedd pedair elfen i'r cytundeb hwn:

- (i) Byddai Mr Owen yn ymddiswyddo
- (ii) Ni fyddai'n mynychu'r ysgol
- (iii) Câi ei dalu hyd 30 Mawrth 1991
- (iv) Ni fyddai unrhyw gamau disgyblu

- 4.143 Credaf i Mr Roberts 'daro'r fargen' hon ar 23 Ionawr 1991. Yn ei adroddiad i'r llywodraethwyr dyddiedig 5 Chwefror 1991 nododd yn glir "Siaradais â Chadeirydd y Llywodraethwyr i sicrhau na fyddai ymdrech i barhau â'r ymchwiliad disgyblu yn dilyn ymddiswyddiad Mr Owen"⁷⁴. (Fy mhwyslais i).
- 4.144 Teimlaf reidrwydd i ddod i'r casgliad bod Mr Roberts wedi cysylltu â Mr Owen, heb awdurdod cyfreithiol, gan negodi dël gydag ef yn ôl y telerau a nodaf uchod ac mai dyma oedd prif bwrpas a chanlyniad y cyfarfod ar 23 Ionawr 1991.
- 4.145 Roedd hon yn weithred anghyfrifol ddifrifol ar ran Cyfarwyddwr Addysg ac yn un o'r prif resymau pam na chymerwyd camau priodol ar y pryd i ddiogelu buddiannau plant.

Casgliadau

- 4.146 Yn ôl pwysau tebygolrwydd, credaf mai prif nod Mr Roberts ym 1991 oedd 'taro bargaen' gyda Mr Owen a fyddai, yn ei farn ef, yn golygu cyn lleied o anhawster â phosibl i'r awdurdod addysg lleol ac a fyddai'n achosi'r embaras lleiaf posibl. Ystyriaf p'un a yw 'ymgais i gelu'r gwirionedd' yn ddisgrifiad teg o hyn yn nes ymlaen (gweler Pennod 8: Awdurdod Addysg Cyngor Sir Morgannwg Ganol). Ar ôl 'taro'r fargen' hon gwnaeth bob ymdrech i'w gwireddu. Wrth wneud hynny, gwnaeth gam mawr â'r plant hynny a fu mor ddewr â chwyno a methodd â chydymffurfio â'r gweithdrefnau priodol a oedd mewn grym ar y pryd. Gwnaeth gam â'r athrawon yn Ysgol Gyfun Rhydfelen hefyd, waeth beth oedd eu teimladau anhyddysg ar y mater, gwnaeth gam â rhieni plant yn yr ysgol a lleddfwyd eu pryderon ar gam, cyfaddawdodd sefyllfa'r llywodraethwyr a sicrhodd nad oedd Cyngorwyr Sir Morgannwg Ganol yn ymwybodol o'r hyn a allai fod wedi digwydd. Petaent yn gwerthfawrogi hyn, gosododd Mr Roberts hefyd esiampl amhriodol i'w staff ei hun.
- 4.147 Fel Cyfarwyddwr Addysg, roedd Mr Roberts mewn sefyllfa unigryw i ddylanwadu ar ddigwyddiadau ym 1991, er gwaethaf y ffaith i gyfrifoldebau gael eu trosglwyddo i'r llywodraethwyr o dan RhYLI. Prin oedd ei weithredoedd yn dangos ystyriaeth i'r dull newydd o wahanu cyfrifoldebau o dan RhYLI. Mae'r ffaith iddo geisio dylanwadu ar ddigwyddiadau mewn modd mor benderfynol gan lwyddo i wneud hynny heb ddarganfod union natur yr honiadau yn erbyn Mr Owen yn syfrdanol.
- 4.148 Clywais dystiolaeth gan Mr Dunne ymhlith, eraill o'r diwylliant a fodolai yng Nghyngor Sir Morgannwg Ganol ar y pryd. Yn enwedig agosrwydd y berthynas ag undebau llafur, natur hunan-amddiffynnol yr awdurdod a'r arfer cyffredin o ymateb i ymddiswyddiadau gan staff addysg drwy roi'r gorau i weithdrefnau disgyblu. Mae'n gwbl glir nad yw'r diwylliant hwn yn gydnaws â'r gwaith o

amddiffyn plant a phobl ifanc y mae awdurdodau o'r fath yn gyfrifol amdano. Fodd bynnag, gall fod yn ddiwylliant sy'n ddeniadol i swyddogion ac i aelodau awdurdodau lleol hyd yn oed, gan ei fod yn osgoi embaras proffesiynol a gwleidyddol. Mae'n ddiwylliant y mae'n rhaid ymochel rhagddo.

- 4.149 Ymddengys i Mr Roberts ymgorffori prif elfennau'r diwylliant hwn. Roedd yn ymwybodol o bwysau ac awdurdod ei swydd ond methodd â'u defnyddio er budd plant pan gafodd gyfle unigryw i wneud hynny. Methodd hefyd â gweithredu mewn modd a oedd yn gyson â'r hyn y mae gan blant a'r cyhoedd hawl i'w ddisgwyl gan swyddog cyhoeddus.
- 4.150 Er na weithredodd eraill yn unol â'r gweithdrefnau a oedd mewn grym ar y pryd, neu yn unol â'r hyn y gellid ei ddisgwyl yn rhesymol ganddynt, mae'n rhaid i Mr Roberts ysgwyddo cryn dipyn o'r cyfrifoldeb dros y ffaith na chynhaliwyd ymchwiliad llawn a chywir o'r honiadau yn erbyn Mr Owen ym 1991 ac na chymerwyd camau priodol. Un canlyniad i'w ymddygiad yw'r ffaith nad oedd unrhyw beth yn atal Mr Owen rhag parhau i weithio gyda phlant nac ychwaith i geisio am swydd mewn ysgol arall. Canlyniad arall oedd bod ystod o bobl eraill, yn bennaf y plant a roddodd ddatganiadau, yn teimlo nad ystyriwyd eu pryderon o ddifrif.
- 4.151 Teimlaf reidrwydd i nodi bod ymddygiad Mr Roberts fel tyst ymhell o fod yn foddhaol. Roedd ei dystiolaeth yn rhannol ac ar adegau, yn ddi-ddal. Yn aml, dim ond ar ôl holi parhaus y dywedodd yr holl wir a rhoddodd adroddiadau anghyson a oedd yn gwrth-ddweud ei gilydd. (Gweler paragraff 4.134, er enghraifft.)
- 4.152 Wrth gyflwyno'r sylwadau hyn rwyf wedi bod yn hael wrth ganiatáu'r ffaith i'r digwyddiadau dan sylw ddigwydd dros ddegawd yn ôl a hwyrach bod y cof yn annelwig ar ôl y fath amser. Rwyf hefyd wedi ystyried yr amgylchiadau ar y pryd ac nid wyf wedi caniatáu i ddoethineb trannoeth ddylanwadu ar fy nyfarniad. Os caiff Mr Roberts ei gondemnio, caiff ei gondemnio'n bennaf gan ddogfennaeth gyfredol y cyfnod.
- 4.153 Mae Mr Roberts bellach wedi ymddeol ac ni wnafr unrhyw argymhelliad o'i ran ef. Bydd ei ymddygiad fel Cyfarwyddwr Addysg yn sail i argymhellion a wnafr mewn manau eraill.

Pennod 5

Mr David Matthews

- 5.1 Roedd Mr David Matthews yn Swyddog Addysg Rhanbarthol yn yr awdurdod addysg lleol ym 1991 ar ôl bod yn swyddog addysg bellach yn yr awdurdod hwnnw am bedair blynedd. Ef oedd yn gyfrifol am ranbarth Taf Elái.
- 5.2 Yn rhinwedd y swydd hon gweithredai fel clerch i lywodraethwyr Ysgol Gyfun Rhydfelen. Fe'i galwyd i'r ysgol ddydd lau 10 Ionawr 1991 gan Mr Hywel Jeffreys, y Pennaeth dros dro. Fel y nodwyd ynghynt roedd Mr Evans eisoes yn bresennol yn yr ysgol.
- 5.3 Ar 11 Ionawr 1991, dychwelodd Mr Matthews i'r ysgol gyda Mr Askey, y Dirprwy Gyfarwyddwr Addysg. Yn y cyfarfod dilynol, a gynhwysai Mr Jeffreys, rhoddodd Mr Askey gyfarwyddiadau i Mr Matthews ymgymryd â'r ymchwiliad i honiadau'r disgyblion¹.
- 5.4 Erbyn hyn roedd Mr Jeffreys, Miss Ruth Evans a Mr Roy Davies wedi cymryd datganiadau gan chwe disgybl: Disgybl U, Disgybl 4, Disgybl V, Disgybl D, Disgybl 3 a Disgybl G ar 10 Ionawr 1991. Rwyf yn cadw'r disgyblion yn ddienw drwy gyfeirio at ferched fel rhifau a bechgyn fel llythrennau.
- 5.5 Roedd y disgyblion naill ai wedi ysgrifennu eu datganiadau eu hunain, a gyfieithwyd i Mr Matthews gan yr uwch athrawon neu ysgrifennwyd crynodeb ar y pryd o'r hyn a ddywedwyd gan y disgyblion gan uwch athro. Yn ogystal â hyn, cadwodd Miss Evans², Mr Jeffreys³ a Mr Davies⁴ oll ddyddiaduron.
- 5.6 Mae datganiadau'r plant, yn eu llawysgrifen a dyddiaduron yr athrawon yn parhau hyd heddiw ac fe'u cyflwynwyd yn fy Ymchwiliad gan Mr Jeffreys. Maent yn darparu cofnod cyfredol o'r hyn yr oedd y plant yn ei honni mewn gwirionedd ar y pryd. Maent hefyd yn rhoi sail i'm canfyddiadau o ran gwybodaeth Mr Matthews.
- 5.7 Crynhoaf yr hyn a ddywedodd y disgyblion:
- (i) Rhoddodd Disgybl 4 y gorau i astudio drama deuddydd cyn ei harholiad ymarferol Safon Uwch oherwydd y gorbwyslais ar ryw ym mhob gwerau a thriniaeth annheg Mr Owen o'r disgyblion. Dywedodd "er mwyn cyfarwyddo un olygfa pan fu'n rhaid i Ddisgybl 3 a Disgybl D ffugio gweithred rywiol anfonodd Mr Owen fi y tu ôl i lenni'r ystafell. Clywais Ddisgybl 3 yn gwrthod gwneud yr hyn y gofynnodd Mr Owen iddi ei wneud, sef teimlo corff Disgybl D...er mwyn osgoi cael ei alw'n amhroffesiynol cytunodd Disgybl D i wneud yr hyn y gofynnodd Mr Owen iddo ei wneud sef tynnu ei drowsus"⁵.

- (ii) Roedd Disgybl U wedi gwneud pedwar tymor o'i gwrs drama Safon Uwch yn y chweched dosbarth ac wedi sefyll un arholiad ymarferol a gofynnodd am roi'r gorau i astudio drama gan nodi "y brif broblem oedd y ffaith bod rhyw yn cael ei grybwyll yn ddi-baid ym mhob gwrs...disgwylir i ddisgyblion actio sefyllfaoedd rhywiol...disgwylid i'r ddau gymeriad (a chwaraewyd gan Ddisgybl D a Disgybl G) gyffwrdd â'i gilydd mewn ffordd rywiol. Yn yr ymarfer cyntaf roedd yn rhaid iddynt gyffwrdd â'i gilydd ar eu hwynebau, edrych i lygaid ei gilydd, cusanu a chofleidio⁶ (tanlinellu gwreiddiol).
- (iii) Dywedodd Disgybl G ei fod yn gwybod pam bod Disgybl U yn rhoi'r gorau i ddrama "y cyfeiriad cyson at ryw yn y gwersi a'r arholiad ymarferol"⁷. Disgrifiodd sut y "disgwylid iddynt gyffwrdd â'i gilydd ar eu horganau rhywiol"⁸... "Yn ystod yr ymarfer cyntaf yn ystafelloedd Mr Owen roedd yn rhaid iddynt gyffwrdd â'i gilydd ar eu hwynebau, edrych i lygaid ei gilydd, cusanu a chofleidio"⁹. Dywed Disgybl G "mae Disgybl J yn aros yn nhŷ Mr Owen bob nos Wener"¹⁰. Dywedodd Disgybl G hefyd, heb betruso, fod y berthynas rhwng Mr Owen a Disgybl J yn "full blown job chi'n gwybod, husband and wife job"¹¹ ac roedd "hyn yn hysbys i bawb yn y chweched dosbarth"¹².
- (iv) Dywedodd Disgybl V "roedd yn rhaid i mi a disgybl D berfformio dawns ac roedd yn rhaid i ni wneud y ddawns yn ein dillad isaf ac mewn un o'r ymarferion roedd yn rhaid i ni wneud y ddawns yn noeth"¹³. Roedd yn rhaid i Ddisgybl D berfformio rhan lle roedd yn rhaid iddo ddangos ei hun yn chwarae â'i hun mewn ffordd rywiol o flaen rhywun arall¹⁴. Roedd Disgybl V yn ofni y byddai ei rieni yn darganfod iddo berfformio golygfa yn noeth pan oedd yn y bedwaredd flwyddyn¹⁵.
- (v) Dywedodd Disgybl 3 ei bod hi a Disgybl D wedi gorfod perfformio dawns yn Blodeuwedd yn eu dillad isaf "ac yn un o'r ymarferion bu'n rhaid iddo berfformio'n noeth"¹⁶. "Dros y Nadolig... roedd Disgybl D mewn rhan lle bu'n rhaid iddo ddangos ei hun a chwarae gyda'i hun mewn ffordd rywiol o flaen rhywun"¹⁷. (tanlinellu gwreiddiol) Yn ystod un olygfa yn A Prayer for Wings (atgynhychir y dyfyniad ym Mhennod 15: Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru) "roedd disgwyl i Ddisgybl D dynnu'i drowsus. Roedd yn rhaid i mi gyffwrdd â Disgybl D ac roedd yn rhaid i Ddisgybl D a mi ffugio'r weithred rywiol. Gwrthodais"¹⁸.

5.8 Derbyniwyd datganiad ysgrifenedig arall yn yr ysgol gan Ddisgybl W ar 14 Ionawr 1991:

- (i) Dywedodd Disgybl W pan oedd yn y bumed flwyddyn iddo weld Mr Owen yn cyfarwyddo Disgybl J i dynnu oddi amdano mewn darn allan o 'Equus'. Dywedodd Mr Owen fod angen i Ddisgybl J wneud hyn i gael gradd dda. Dywedodd i Ddisgybl J gael sawl ymarfer ar ben ei hun gyda Mr Owen ac mewn dau ymarfer actiodd Mr Owen ran y ceffyl gyda chymeriad Disgybl J yn

ei farchogaeth ac yn cael orgasm arno. Cofiai pan oedd ef a Disgybl J yn y bedwaredd flwyddyn, ac i Ddisgybl J ei ffonio un noson gan ddweud wrtho am sesiwn byrfyfyr gyda Mr Owen. Roeddent ar eu pen eu hunain yn chwarae gŵr a gwraig, Disgybl J oedd y wraig. "Yn y cymeriad, aeth John Owen yn wyllt a dywedodd Disgybl J iddo gredu bod Mr John Owen yn mynd i'w ladd. Cofiaf i Ddisgybl J feddwl ar ôl ymladd am ychydig, y byddai'n ei dreisio. Credaf i mi gofio Disgybl J yn dweud iddo (Mr Owen) fynegi'r dyhead hwn"¹⁹.

- 5.9 Dof i'r casgliad i'r holl wybodaeth hon gael ei rhoi i Mr Matthews.
- 5.10 Yn ddiaw roedd honiadau'r plant yn ddigonol i warantu i Mr Matthews gyfeirio'r achos ar unwaith i'r heddlu ac i'r gwasanaethau cymdeithasol. Ni allaf ddod o hyd i unrhyw reswm da pam na chyfeiriodd yr achos at y naill na'r llall.
- 5.11 Hwn oedd yr ymchwiliad disgyblu cyntaf o'i fath i Mr Matthews ei gynnal ac ni chafodd oruchwyliaeth na chefnogaeth uniongyrchol wrth ei gynnal. Roedd, fodd bynnag, yn ymwybodol o'r gweithdrefnau disgyblu ac roedd wedi'u cyflwyno i'r llywodraethwyr. Byddaf yn ymdrin â'i wybodaeth a'i ddealltwriaeth o weithdrefnau amddiffyn plant yn nes ymlaen (gweler paragraffau 5.28 – 5.40 isod).
- 5.12 Pe gellid disgwyl i Mr Matthews yn rhesymol weithredu'n ofalus yn y fath amgylchiadau, nid yw tystiolaeth yr athrawon yn ategu hynny. Fe'i disgrifiwyd gan y Pennaeth dros dro, Mr Jeffreys, fel rhywun nad oedd yn "rhannu ei gyfrinachedd â ni o gwbl" ac yn rhywun "a oedd yn gyndyn i ddatgelu unrhyw wybodaeth"²⁰. Dywedodd y dirprwy Bennaeth, Miss Evans, "nid oeddwn yn siwr o'm rôl yn ystod ymchwiliad yr awdurdod addysg lleol. David Matthews oedd yn gofyn y cwestiynau. Cofiaf iddo ddweud mai yno i wrando oeddwn i"²¹.
- 5.13 Aeth Mr Matthews yn ei flaen i ail-gyfweld â Disgybl 3, Disgybl 4 a Disgybl V ar 11 Ionawr 1991. Cofnododd Mr Jeffreys yn ei ddyddiadur: "ailadroddodd y tri disgybl yn union yr hyn a oedd yn eu datganiadau ysgrifenedig y diwrnod blaenorol"²². Bu i Mr Matthews ail-gyfweld â Disgybl U, Disgybl G a Disgybl D hefyd ar 14 Ionawr 1991²³.
- 5.14 Ni ddylai Mr Matthews fod wedi ail-gyfweld â'r plant. Roedd hyn yn peri risg o lygru'r dystiolaeth, nid oedd y plant yn ei adnabod a chynhaliwyd y cyfweiliadau yn Saesneg. Byddai Mr Askey, na chymerodd unrhyw ran weithredol, yn ôl y dystiolaeth a glywais, wedi cael gwybod am yr amgylchiadau hyn.
- 5.15 At ei gilydd, bu i Mr Matthews gyfweld neu ail-gyfweld â deunaw o ddisgyblion gydag athro yn bresennol ac roedd yn yr ysgol am bum niwrnod gwaith²⁴. Ymddengys, yn ôl Miss Evans, y gallai fod wedi cyfweld â'r disgybl a oedd mewn perthynas "full blown husband and wife job" honedig gyda Mr Owen heb i athro fod yn bresennol²⁵. Ymhlith y dystiolaeth a dderbyniwyd gan Mr Matthews

roedd y gân a berfformiwyd yn ystod yr arholiad ymarferol Safon Uwch ar 20 Rhagfyr 1990, ac mae'r holl dystion yn derbyn bod y gân hon yn annerbyniol i blant a phobl ifanc ac fe'i hatgynhyrchir yn llawn ym Mhennod 15: Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru²⁶.

5.16 Tua diwedd ei ymchwiliad, rhoddwyd memorandwm, neu adroddiad, pedair tudalen i Mr Matthews a baratowyd gan y Pennaeth dros dro, Mr Jeffreys, wedi'i lofnodi ganddo ef a'r holl uwch athrawon, sef Miss Evans, Mr Roy Davies, Dr Phil Ellis a Mr Gwyn Pritchard Jones. Mae'r adroddiad pwerus hwn ar gael hyd heddiw ac fe'i hatgynhyrchir yn llawn yn Atodiad 4.

5.17 Ym marn yr uwch staff i gyd roedd achos i'w ateb ar dri chyfrif. Crynhoaf:

1. "Dros gyfnod o flynyddoedd mae Mr Owen wedi camddefnyddio'r penrhyddid a ganiatawyd iddo i sefydlu sylfaen o bŵer sydd wedi'i alluogi i fagu agweddau gormesol sy'n achosi creulondeb meddyliol i nifer fawr o ddisgyblion sydd o'r farn y byddai gwrthwynebu ei safbwyntiau a'i werthodd yn golygu cael eu 'hesgymuno' a wynebu methiant academaidd"²⁷. Ymhlith yr enghreifftiau a roddir mae:

- Cadarnhaodd saith disgybl "sut y gwneir i ddisgyblion fel Disgybl 4 a gollodd ffafriaeth, ddiodef. Oni ddilëir yr anghyfiawnder a deimla, mae'n debygol o golli ei chyfle o ennill lle mewn prifysgol a bydd hyn yn cael effaith seicolegol ddifrifol arni"²⁸.
- "Rhoddwyd tystiolaeth o ddisgyblion yn y drydedd a'r bedwaredd flwyddyn yn cael eu defnyddio i helpu gyda sesiynau ymarferol Safon Uwch a gofynnwyd iddynt ddawnsio'n noeth ac actio teimladau cyfunrywiol"²⁹.
- Cyfeiriadau parhaus at ymweliadau theatr â Llundain, disgyblion yn aros dros nos yn ei gartref, rhoi'r prif rannau mewn cynrychiadau dramatig, marcio traethodau a sesiynau ymarferol mewn modd goddrychol gan danlinellu pŵer dinistriol a llwyr Mr Owen³⁰.
- Roedd chwe phlentyn allan o naw wedi rhoi'r gorau i'r cwrs Safon Uwch³¹.

2. "Bod chwaeth artistig Mr Owen mewn drama yn llawer rhy 'aeddfe'd' i wersi ysgol ac ymarferion chwarae rôl". Ymhlith yr enghreifftiau roedd³²

- "Roedd yn arswydus clywed Disgybl 16 yn tystio i'r modd y gofynnwyd i ferched roi mwgwd dros eu llygaid, gorwedd ar y llawr a'u coesau ar led a'r modd y bu i Mr Owen brocio ei rhannau preifat gyda ffon"

- "Roedd yn peri pryder i glywed sut y gofynnwyd i Ddisgybl 4 aros allan o'r golwg a gwranddo ar Ddisgybl 3 yn gwrthod awgrym Mr Owen y dylai gyffwrdd â rhannau preifat Disgybl D"
- "Yr embaras a fynegwyd gan fechgyn a oedd yn gorfod actio'r olygfa enwog o 'Equus' lle roedd yn rhaid iddynt chwarae rhan gydag un yn ffugio orgasm tra'n eistedd ar gefn y llall"
- "Beth a gyflawnwyd drwy drefnu sesiynau ymarferol mor breifat fel na chaniateid cynulleidfa?"

Rwyf wedi tanlinellu'r darnau uchod sy'n ymddangos iddynt ddatgelu yn glir, yn hytrach nag awgrymu, i droseddau gael eu cyflawni yn erbyn plant. Os rhoddwyd y fath ddeunydd amlwg i Mr Matthews – sef yr hyn a gyfaddefa – ac os oedd dyletswydd arno i wneud rhywbeth yn ei gylch – ac mae'n rhaid bod y ddyletswydd hon arno – ymddengys i mi fod ei fethiant i weithredu yn achos o gamwaith. Hyd yma, ni chymerwyd unrhyw gamau yn ei erbyn yn y cyd-destun hwn. Ni allaf argymhell y dylai methiant o'r fath i weithredu fod yn destun camau erlyn posibl gan fod hyn eisoes yn wir.

3. "Mae ymddygiad proffesiynol Mr Owen ymhell islaw'r safon sy'n ofynnol i gynnal ei hygredd nid yn unig wrth ddysgu dosbarthiadau drama chweched dosbarth ond hefyd o ran y priodoleddau gofal sydd eu hangen i gyflawni ei ddyletswyddau bugeiliol fel Pennaeth Disgyblion y Drydedd Flwyddyn"³³. Roedd yr enghreifftiau yn cynnwys:
 - Nodyn Mr Owen yn cynnig dweud celwydd wrth yr arholwr ar ran Disgybl 4³⁴
 - Honiad Mr Owen iddo gael caniatâd i fod yn absennol o'r ysgol. Gwyddys iddo fynd gyda Disgybl J i'w gyfweiliad yn Llundain³⁵. Pam y gwnaeth hyn?
 - Cynnwys gwersi Mr Owen a'r "pwyslais annormal ar ensyniadau rhywiol" ac o ganlyniad "yr effaith niweidiol ar amgyffrediad y disgybl o'r hyn a oedd yn gyfiawn ac yn anghyfiawn...ymddengys fod y disgyblion gwannaf yn cael eu cyflyru'n raddol i gredu bod sefyllfaoedd chwarae rôl afiach lle roedd cymeriadau yn rhegu, yn gwerthu'u cyrff ac yn cyflawni gweithredoedd rhywiol anfad ac ati yn rhan o fywyd bob dydd"³⁶.

5.18 Gwyddai Mr Matthews, ar ôl derbyn datganiadau'r plant ac adroddiad y Pennaeth dros dro a'r uwch athrawon, fod natur ddifrifol iawn i'r honiadau. Hyd yn oed wedyn, ni chyfeiriodd Mr Matthews y dystiolaeth at yr heddlu na'r gwasanaethau cymdeithasol. Cyn canolbwyntio ymhellach ar hyn – y mater pwysicaf i'm Cylch Gorchwyl – byddaf yn ymdrin â rhan Mr Matthews wrth gadw gwybodaeth hanfodol yn ôl oddi wrth y llywodraethwyr.

Perthynas Mr Matthews â'r Llywodraethwyr

- 5.19 Rhoddodd rhai llywodraethwyr dystiolaeth ynghylch perthynas Mr Matthews â hwy gan ategu atgofion yr athrawon o'i rôl yn yr ymchwiliad. Disgrifiodd Mrs Jones, llywodraethwr ar yr is-bwyllgor disgyblu sut y bu i Mr Matthews ddweud wrth y cyfarfod o'r llywodraethwyr "nad oedd y rhesymau dros yr honiadau na'r rhesymau dros yr ymddiswyddiad yn fusnes i ni" a'i fod yn berson "bombastig, awdurdodus...dyma beth fyddai'n digwydd ac nid ydych yn dilyn unrhyw gamau eraill"³⁷. Dywedodd Mr Clive Henley, llywodraethwr arall, er gwaethaf yr ymdrechion parhaus i gael gafael ar Mr Matthews ar y ffôn "na allai fyth gael gafael ar y dyn, wyddoch chi" ac nad oedd byth yn ffonio nôl³⁸. Roedd y negeseuon y byddai Mr Henley yn eu gadael yn glir sef yr hoffai drafod achos Mr Owen.
- 5.20 Roedd Mr Matthews yn derbyn ym 1991 nad oedd yn teimlo y gallai rannu unrhyw wybodaeth am ei ymchwiliad gyda'r llywodraethwyr. Roedd hwn yn embargo llwyr – methodd â deall y gwahaniaeth rhwng y cyhuddiadau a'r dystiolaeth. Ymddengys fod y dryswch a honnir ganddo yn debyg iawn i'r hyn a fynegwyd gan Mr Roberts. Nid oedd Mr Matthews yn gallu cofio sail ei gamddealltwriaeth. Roedd yn gwadu'r posibilrwydd i Mr Roberts roi cyfarwyddyd o'r fath iddo ac er iddo geisio cyfiawnhau hyn fel rhywbeth a ddaeth yn sgîl adroddiad Mr Roberts i'r llywodraethwyr ar 5 Chwefror 1991, bu'n rhaid iddo dderbyn nad oedd yno. Ni ddywedodd ychwaith i Mr Askey neu Mr Dunne roi cyfarwyddyd iddo yn y cyd-destun hwn. Nid yw ei gyfeiriadau at y 'gweithdrefnau disgyblu' o gymorth gan nad ydynt yn cynnwys unrhyw waharddiad rhag rhannu natur yr honiadau gyda'r llywodraethwyr.
- 5.21 Os yw'n ddirgelwch pam y bu i Mr Matthews weithredu yn y modd hwn, nid oes amheuaeth iddo wneud. Yr unig amser y rhoddodd awgrym i'r llywodraethwyr o'r cyhuddiadau y gallai Mr Owen eu hwynebu oedd wrth ddweud eu bod yn "honiadau difrifol"³⁹. Mae ei lythyr at Mr Roberts dyddiedig 28 Chwefror 1991⁴⁰ yn nodi, yn gywir, bryderon y llywodraethwyr ynghylch y ffaith iddynt gael eu hamddifadu o wybodaeth ac mae'n rhesymol awgrymu nad oedd Mr Matthews ei hun yn teimlo y gallai eu cynorthwyo yn hyn o beth. Nodaf mai dim ond rhyw bythefnos ar ôl i'r llywodraethwyr ofyn iddo wneud hynny yr ysgrifennodd at Mr Roberts.
- 5.22 Roedd y ffaith i Mr Matthews gadw hyd yn oed natur y cyhuddiadau rhag y llywodraethwyr yn ffactor o bwys o ran cyfyngu'n ddybryd ar eu gallu i weithredu'n briodol o dan RHYLI. Er nad oedd gan y llywodraethwyr (y byddaf yn ymdrin â hwy'n fanylach ym Mhennod 14: Llywodraethwyr Ysgol Gyfun Rhydfelen) rôl ffurfiol mewn polisiau amddiffyn plant a oedd mewn grym ar y pryd, rhoddodd y Barnwr Richards dystiolaeth glir y buasai wedi gweithredu'n briodol pe byddai wedi cael gwybod am ddifrifoldeb y cyhuddiadau a oedd yn deillio o'r wybodaeth a oedd gan Mr Matthews⁴¹.

- 5.23 Ni wnaeth Mr Matthews unrhyw ymdrech, yn anffurfiol neu'n ffurfiol, i gyfleu yr hyn a wyddai ynghylch difrifoldeb yr honiadau, hyd yn oed pan ddaeth yn glir nad oedd Mr Owen yn mynd i wynebu unrhyw achos disgyblu. Ystyriaf hyn yn anwaith difrifol.
- 5.24 Pe byddai Mr Matthews wedi haeru ei fod o dan gyfarwyddyd uniongyrchol ei reolwyr na ddylai rannu unrhyw wybodaeth gyda'r llywodraethwyr byddai gennyf rywfaint o gydymdeimlad â'r cyfyng gyngor a wynebai. Ni wnaeth honiad o'r fath.
- 5.25 Rwyf yn ymwybodol mai hwn oedd ei achos disgyblu cyntaf, ac yn ôl ei dystiolaeth ef ei hun a thystiolaeth Mr Dunne a Mr Roberts, ni chafodd gefnogaeth na goruchwyliaeth o ran y modd y'i cynhaliwyd. Hyd yn oed drwy roi ystyriaeth ddyledus i hyn, rwyf yn parhau o'r farn y dylai Mr Matthews fod wedi gofyn am eglurhad o'r sefyllfa mewn modd mwy trylwyr nag a wnaeth (e.e. drwy ymholiad dilynol i'r llythyr at y Cyfarwyddwr dyddiedig 28 Chwefror 1991), yn enwedig pan ddaeth yn amlwg iddo na fyddai ymchwiliad pellach i'r honiadau yn erbyn Mr Owen yn dilyn ei ymddiswyddiad.

Cyfrifoldebau Mr Matthews o dan Weithdrefnau Amddiffyn Plant ym 1991

- 5.26 Pan oedd Mr Matthews yn Ysgol Gyfun Rhydfelen ym mis Ionawr 1991, rhoddwyd copïau iddo, a gyfieithwyd yn benodol ar ei gyfer, o holl ddatganiadau'r disgyblion a gymerwyd gan yr athrawon ynghyd â'r adroddiad a lofnodwyd gan y pump uwch athro ac a baratowyd gan Mr Jeffreys, y Pennaeth dros dro, a gynhaliodd neu a gyfieithodd y cyfweiliadau.
- 5.27 Nid oedd Mr Matthews yn gwadu bod y datganiadau ar gael iddo eu gweld ac yn yr un modd â phawb sydd wedi'u darllen, mae o'r farn y dylent fod wedi arwain at gyfeiriad ar unwaith i'r asiantaethau amddiffyn plant priodol ⁴².
- 5.28 Nid oedd Mr Matthews yn honni erioed iddo fod o dan gyfarwyddyd uniongyrchol i beidio â chyfeirio'r achos at yr asiantaethau amddiffyn plant. Roedd nifer o ffyrdd y gallai fod wedi gwneud hyn:
- (i) drwy uwch ymgynghorydd o'r awdurdod addysg leol neu'r pennaeth gofal bugeiliol yn yr ysgol
 - (ii) drwy'r swyddog amddiffyn plant penodedig yn Neuadd y Sir
 - (iii) drwy ysgrifennu'n uniongyrchol at Mr Askey neu Mr Roberts yn gofyn am gyfeiriad o'r fath
 - (iv) drwy fynd yn uniongyrchol at yr heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol.

Ni chymerodd unrhyw un o'r camau uchod.

5.29 Rhoddodd Mr Matthews amrywiaeth o esboniadau yn ystod ei dystiolaeth o ran pam na fu iddo gyfeirio'r achos:

- (i) oherwydd ei fod yn gweithredu fel clerch i'r llywodraethwyr ac yn casglu dystiolaeth at ddibenion disgyblu yn unig⁴³
- (ii) oherwydd mai ychydig o ganllawiau a fodolai ynglŷn ag amddiffyn plant ym 1991 (ac felly nad oedd ei gyfrifoldebau yn glir iddo drwy hynny)⁴⁴
- (iii) bod yr un wybodaeth ar gael i bobl eraill, sef yr athrawon yn yr ysgol ac uwch swyddogion yr awdurdod addysg lleol (ac felly buasent hwy wedi cyfeirio'r achos)⁴⁵
- (iv) yr oedd yn tybio y byddai'r achos yn cael ei gyfeirio at yr asiantaeth briodol pan fyddai'r achos disgyblu yn cael ei glywed⁴⁶.

5.30 Cadarnhaodd Mr Matthews droeon mai rheswm (i) uchod oedd yr achos yn ystod ei dystiolaeth. Ni chredaf fod y safbwynt hwn yn bosibl. Wrth gael ei holi gan Mrs Crowley CF, a oedd yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, derbyniodd Mr Matthews fod gan bawb yn yr awdurdod addysg lleol gyfrifoldeb dros amddiffyn plant⁴⁷. Nid oedd y ffaith y daeth gwybodaeth berthnasol ac arswydus ato o ganlyniad i ymchwiliad disgyblu yn berthnasol ac nid yw'n berthnasol. Mae ef ei hun yn derbyn petai wedi clywed am honiad i athro dreisio disgybl ar unrhyw adeg y buasai wedi cyfeirio'r achos⁴⁸. Nid oedd cyd-destun y modd y daeth Mr Matthews i wybod am yr honiadau hyn yn ei esgusodi o'i gyfrifoldeb i gyfeirio'r achos at yr asiantaethau amddiffyn plant priodol. Daeth y wybodaeth iddo ef. Mae'n rhaid ei fod yn gwybod nad oedd unrhyw un arall wedi cyfeirio'r achos. Ef oedd y swyddog ymchwilio a fu'n cyfweld â'r plant ac a dderbyniodd adroddiad y staff a oedd yn amlinellu eu pryderon yn fanwl.

5.31 Mae Mr Matthews yn cysylltu rheswm (i) â rheswm (ii) ac, yn gynnar, ailadroddodd sawl gwaith yn ei dystiolaeth eiriau i'r perwyl nad oedd llawer o weithdrefnau mewn grym ar y pryd yn yr awdurdod addysg lleol ac na wyddai lawer amdanynt⁴⁹. Yn gynnar iawn, aeth mor bell â honni nad oedd yn ymwybodol bod gan yr awdurdod addysg lleol uwch swyddog penodedig a oedd yn gyfrifol am amddiffyn plant⁵⁰. Disgrifiodd hefyd y PAPA (Pwyllgor Amddiffyn Plant Ardal) fel yr unig fforwm ar y cyd perthnasol ac nad oedd yn gysylltiedig ag ef⁵¹. Ar un pwynt yn ei dystiolaeth haerodd na ddywedwyd wrtho y dylai gyfeirio unrhyw ddeunydd a awgrymai i blant gael eu cam-drin yn rhywiol, petai'n dod ar ei draws⁵².

- 5.32 Wrth gael ei groesholi gan Mrs Crowley CF, cytunodd Mr Matthews fod polisiau, canllawiau a chylchlythyrau helaeth a manwl mewn bodolaeth ym 1991 yn dilyn cynhyrchu Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 1989 a bod ganddo gopiau ohonynt fel Swyddog Addysg Rhanbarthol⁵³. Derbyniodd hefyd y gwyddai bryd hynny, fel y gŵyr yn awr, fod gan bob swyddog gyfrifoldeb i hysbysu'r awdurdod a'i fod yn ymwybodol mai Mr Williams oedd yr uwch swyddog penodedig o fewn yr awdurdod addysg lleol ar y pryd ym 1991 ar gyfer amddiffyn plant⁵⁴. Roedd rheidrwydd arno hefyd i dderbyn iddo eistedd ar Bwyllgor Amddiffyn Plant Rhanbarthol ym Morgannwg Ganol⁵⁵.
- 5.33 Ni allai Mr Matthews roi unrhyw reswm digonol dros yr anghysonderau yn ei dystiolaeth a'r argraff gamarweiniol y ceisiodd ei chyfleu ar y cychwyn o ran cyflwr y polisiau amddiffyn plant ar y pryd. Credaf i'r Ymchwiliad gadarnhau bod gan Mr Matthews y wybodaeth (datganiadau'r plant), yr awdurdod (yn unol â pholisiau yr oedd yn llwyr ymwybodol ohonynt), a'r modd (gweler 5.28 uchod) i gyfeirio achos amddiffyn plant a bod ganddo gyfrifoldeb amlwg dros wneud hynny. Methodd â gweithredu.
- 5.34 O ran rheswm (iii) Mr Matthews uchod mae'n amlwg nad oedd y ffaith y gallai eraill fod mewn sefyllfa i gyfeirio'r achos yn lleihau cyfrifoldeb a rhwymedigaeth glir Mr Matthews i wneud hynny. Petai Mr Matthews wedi ysgrifennu'n glir at eraill o fewn yr awdurdod addysg lleol yn eu hannog i gyfeirio'r achos hwyrach y buaswn yn llai condemniol o'i ymddygiad nag ydwyf. Ni wnaeth hynny.
- 5.35 O ran ei reswm (iv), os felly pam na chyfeiriodd yr honiadau difrifol am gam-drin ar unwaith pan sylweddolodd na fyddai gwrandawriad disgyblu yn cael ei gynnal?
- 5.36 Rwyf wedi clywed dystiolaeth o wybodaeth gamarweiniol yn cael ei rhoi gan Mr Matthews ar y pryd. Mae Mr Roberts yn cofio'n glir i Mr Matthews ddweud wrtho y byddai'n anodd iawn i'r llywodraethwyr oherwydd "bod cymaint o wrthdaro yn y dystiolaeth...mae'n gwbl gyferbyniol" ac "nad yw'r dystiolaeth yn cyfateb"⁵⁶.
- 5.37 Daeth Mr Jeffreys, yn ei adroddiad cynnar, a ysgrifennwyd rhwng 11 a 13 Ionawr 1991, i'r casgliad bod "yr honiadau yn cael eu hategu gan sawl disgybl"⁵⁷. Ar ôl ystyried datganiadau'r plant a'r ddogfennaeth o'r cyfnod cytunaf â Mr Jeffreys.
- 5.38 Dywedodd Miss Theda Williams, Pennaeth Saesneg yn Ysgol Gyfun Rhydfelen, rywbryd ar ôl i Mr Owen ymddiswyddo "yn ystod sgwrs gyda David Matthews, y Swyddog Addysg Rhanbarthol, dywedodd wrthyf y byddai llu o broblemau eraill yn dod i'r wyneb yn sgîl achos o'r math hwn. Ond yn yr achos hwn, nid oedd wedi canfod unrhyw beth"⁵⁸. Ategwyd hyn hefyd gan Mr Peter Davies, Pennaeth Drama yn Ysgol Gyfun Rhydfelen⁵⁹.

- 5.39 O ystyried yr hyn a wyddai Mr Matthews, rwyf yn synnu iddo ddweud y pethau hyn wrth Mr Roberts, Miss Williams a Mr Davies, ond dof i'r casgliad iddo wneud hynny.
- 5.40 Derbyniodd Mr Matthews lythyr gan Mrs Phillips ar 4 Chwefror 1991 gan ddweud ei bod yn gryf o'r farn y dylai CBAC ddod i wybod am y ffeithiau a oedd yn ymwneud â'r achos ac y dylid rhoi copi iddynt o'r sript y disgwyliwyd i'w merch ei pherfformio yn ei harholiad ymarferol Safon Uwch. Dywedodd ei bod "wedi'u harswydo a'i ffeiddio gan natur bornograffig yr iaith a'r hyn y disgwyliwyd i'r disgyblion ei actio"⁶⁰. Cododd bryderon ynghylch Prif Arholwr Drama Safon Uwch CBAC, Mr Emyr Edwards, gan ofyn "pa fath o actio a iaith aflednais y mae'n eu cymeradwyo pan fydd yn arholi'r perfformiad ym mhreifatrwydd cymharol yr ystafelloedd ymarfer drama Safon Uwch"⁶¹. Nid oes tystiolaeth i Mr Matthews drosglwyddo'r sript na phryderon Mrs Phillips i CBAC.
- 5.41 Dof felly i'r casgliad fod gweithredoedd ac anweithredoedd Mr Matthews ym 1991 yn dangos methiant i weithredu'n gyson â pholisïau a oedd yn gyfredol ar y pryd ac yn codi cwestiynau difrifol am ei farn. Mae ei fethiant truenus i weithredu ar ran y plant mewn gwrthgyferbyniad llwyr â'u dewrder wrth ddod ymlaen ac adrodd eu hanesion.
- 5.42 Petai Mr Matthews wedi cyflawni ei ddyletswydd ar y pryd gellid bod wedi osgoi cryn dipyn o ddiodefaint a gallai'r asiantaethau priodol fod wedi cynnal ymchwiliad priodol.
- 5.43 Achosodd ymddygiad Mr Matthews fel tyst i'm Hymchwiliad gryn bryder i mi hefyd. Drwy ddod i'r casgliad hwn rwyf wedi caniatáu ar gyfer diffygion o ran cof y gall pob un ohonom ddiodefaint ohonynt a'i safle llai pwysig fel Swyddog Addysg Rhanbarthol. Mae'r ffaith nad oedd yn cofio'r ymchwiliad disgyblu cyntaf o bwys iddo ymgymryd ag ef yn cyferbynnu'n amlwg â phrofiadau rhai o'r bobl broffesiynol eraill a oedd yn gysylltiedig â'r achos. Disgrifiodd Miss Evans, y dirprwy Bennaeth, yr effaith arni hi: "Roeddwn yn bresennol pan gyfwelwyd â llawer o'r plant gennym ac ar ôl i'r awdurdod addysg lleol gael ei alw. Byth ers hynny rwyf wedi ceisio anghofio'r hyn a glywais. Cefais fy arswydo. Bûm yn dioddef o bwysedd gwaed uchel wedyn ac effeithiodd yn ddiau ar fy iechyd ond nid yw hyn yn ddim o gymharu â'r hyn a ddiodefodd y plant"⁶².
- Wrth edrych ar dystiolaeth Mr Matthews yn ei chyfanrwydd mae'n anodd osgoi'r casgliad nad oedd yn dymuno cynorthwyo fy Ymchwiliad, ac roedd am osgoi unrhyw feirniadaeth o fethiannau y mae bellach yn ymwybodol ohonynt.
- 5.44 Rwyf wedi dwys ystyried p'un a ddylwn wneud unrhyw argymhelliad penodol o ran ymddygiad Mr Matthews ac rwyf wedi penderfynu na ddylwn wneud.

Cyfngaf fy hun i arsylwi bod methiant gan rywun a oedd â dyletswydd i gyfeirio ymddygiad troseddol yn erbyn plant at yr heddlu a/neu'r gwasanaethau cymdeithasol yn ymddangos i mi fel trosedd o gamwaith. Bu'r penderfyniad o ran p'un a ddylid erlyn mewn achos o'r fath yn fater i'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron ac nid i mi ac mae'n parhau felly.

Gobeithio y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ystyried fy adroddiad a'r dystiolaeth a roddwyd gan Mr Matthews a'r dystiolaeth sy'n ymwneud â Mr Matthews yn ofalus iawn. Gobeithiaf yn fawr nad yw ymddygiad y Cyngorydd Jeff Jones, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y mae Mr Matthews wedi dweud nad yw am gael ei gysylltu ag ef), y cyfeirir ato mewn rhan arall, yn adlewyrchu agwedd yr awdurdod hwnnw tuag at faterion amddiffyn plant. Os ydyw, bydd yn destun pryder i lawer a gymerodd ran yn fy Ymchwiliad gan y byddai'n atgoffa rhywun o'r hyn a barodd i faterion fynd o chwith ym 1991. Gan ddweud hynny, yr hyn sydd gennyf dan sylw yw cymryd safbwynt diysgog heb fynd i'r drafferth o ymglyfarwyddo â'r dystiolaeth sydd ar gael a hwyrach hefyd dueddiad i beidio â rhoi ystyriaeth ddigon difrifol i honiadau a ddaeth yn wreiddiol gan blant.

Pennod 6

Mr Graham Dunne

- 6.1 Bu Mr Graham Dunne yn swyddog personél am 35 o flynyddoedd. Ar yr adeg dan sylw, ym 1991, roedd yn Swyddog Addysg Cynorthwyol yn adran personél yr awdurdod addysg lleol. Yn rhinwedd y swydd honno, roedd ganddo swyddfa wrth ymyl swyddfeydd y Cyfarwyddwr Addysg, Mr Roberts a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Addysg, Mr Askey.
- 6.2 Rhoddodd Mr Dunne dystiolaeth ddefnyddiol iawn ynghylch y diwylliant a fodolai yng Nghyngor Sir Morgannwg Ganol ac yn arbennig yr amharodrwydd i ddiswyddo unrhyw un neu i barhau ag achos disgyblu unwaith yr oedd ymddiswyddiad rhywun wedi'i dderbyn.
- 6.3 Ni chynrychiolwyd Mr Dunne yn gyfreithiol yn fy Ymchwiliad ac fel swyddog personél roedd ei rôl yn gymharol gyfyngedig o gymharu â rôl Mr Roberts, Mr Matthews ac yn ôl pob tebyg, Mr Askey.
- 6.4 Dof i'r casgliad mai cyswllt cyntaf Mr Dunne â digwyddiadau 1991 oedd galwad ffôn gan Mr Askey yn Ysgol Gyfun Rhydfelen ar 11 Ionawr 1991 (er bod y cofnod ar y pryd yn nodi 'Mr Legg'¹, ceir cytundeb cyffredinol mai Mr Dunne ydoedd). Yn ôl pob tebyg diben yr alwad ffôn hon oedd i ofyn cyngor o ran gwahardd Mr Owen o'i swydd gan iddi ddigwydd yn union cyn i Mr Owen gael ei wahardd o'i swydd.
- 6.5 Ni roddodd Mr Askey dystiolaeth lafar i'm Hymchwiliad ond yn ei ddatganiad ysgrifenedig dywedodd "na ddangoswyd unrhyw ddogfennau"² iddo yn y cyfarfod yn Ysgol Gyfun Rhydfelen. Mae hyn yn gwrthdaro ag adroddiad a luniwyd ar y pryd o ddigwyddiadau'r diwrnod gan yr uwch athrawon pan ddisgrifir bod Mr Askey wedi "holi'n ddwys ynghylch agweddau amrywiol ar y gŵyn a fyddai'n cael ei chyflwyno i'r llywodraethwyr"³. Mae hefyd yn gwrthdaro â thystiolaeth Mr Jeffreys; mae'n haeru iddo drafod y datganiadau gyda Mr Matthews yn y cyfarfod ar 11 Ionawr gyda Mr Askey yn bresennol⁴.
- 6.6 Ar sail y dystiolaeth hon, ac yn ôl pwysau tebygolrwydd, dof i'r casgliad bod yn rhaid bod gan Mr Askey ddealltwriaeth resymol o'r prif honiadau pan ffoniodd Mr Dunne ar fore 11 Ionawr 1991 a'i fod wedi ffonio i ofyn cyngor gan arbenigwr personél.
- 6.7 Dof hefyd i'r casgliad y buasai'n rhaid bod cael cyngor o'r fath wedi cynnwys rhyw gyfeiriad at ddirifoldeb yr honiadau a hefyd, yn ôl pob tebyg, rhyw gyfeiriad at fanylion.

- 6.8 Daeth Mr Dunne i gysylltiad nesaf â'r achos drwy dderbyn deunydd a fyddai wedi cael ei ddefnyddio i lunio cyhuddiadau yn erbyn Mr Owen petai'r ymchwiliad wedi cael ei gwblhau. Awgrymodd Mr Dunne y gallai'r wybodaeth hon fod wedi dod oddi wrth Mr Roberts neu Mr Askey ac ar un adeg yn ei dystiolaeth nododd mai ei atgof gorau oedd mai oddi wrth Mr Askey yr oedd wedi dod. Roedd yn bendant nad oedd wedi dod yn uniongyrchol oddi wrth Mr Matthews⁵.
- 6.9 Deallodd Mr Dunne mai ei rôl fyddai gweithredu fel clerc i'r gwrandawriad disgyblu h.y. is-bwyllgor o'r llywodraethwyr. Dywedodd Mr Dunne iddo gasglu ffeil o'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd iddo i'r perwyl hwn ac na ddaeth y wybodaeth yn y ffeil i gyd ato ar unwaith⁶.
- 6.10 Mae archwiliad manwl o gronoleg y digwyddiadau yn y cyfnod a arweiniai at gyfarfod Mr Dunne â swyddogion UCAC ddydd Mawrth 15 Ionawr 1991, yn dangos y gallai holl ddatganiadau gwreiddiol y plant a gymerwyd gan yr uwch staff fod wedi'u cyflwyno iddo erbyn yr adeg honno⁷.
- 6.11 Gallai hefyd fod wedi cael y nodiadau ychwanegol a chofnodion o'r cyfweiliadau a'r ail-gyfweiliadau a gynhaliwyd gan Mr Matthews, ac eithrio rhai Disgybl 16 a Disgybl 17. (Cynhaliwyd y rhain ar yr un pryd â'r cyfarfod â swyddogion UCAC)⁸.
- 6.12 Y tro cyntaf iddo roi tystiolaeth, dywedodd Mr Dunne nad oedd "dim gwaeth"⁹ na disgrifiad Disgybl 16 o'r modd y prociwyd rhannau preifat merched gyda darn o bren yn y dogfennau a welodd. Dywedodd hefyd y "gallai'r" honiad arbennig hwn fod wedi ffurfio rhan o'r dystiolaeth a oedd ganddo ym 1991 ond na fuasai'n "hoffi dweud yn bendant ei fod"¹⁰.
- 6.13 Petai honiad Disgybl 16 wedi ffurfio rhan o'r ffeil dystiolaeth a gyflwynwyd i swyddogion UCAC ar 15 Ionawr 1991, byddai wedi dynodi bod o leiaf un o'r honiadau a wnaed i'r athrawon yn wreiddiol, gan ddisgybl nad oedd Mr Matthews wedi ailgyfweld â hi, wedi cyrraedd Mr Dunne cyn 15 Ionawr 1991 a/neu fod Mr Dunne wedi derbyn y datganiad a lofnodwyd gan yr uwch athrawon (Atodiad 4) a oedd yn cynnwys yr honiad hwn.
- 6.14 Fodd bynnag, ar yr ail dro iddo roi tystiolaeth i'm Hymchwiliad, haerodd Mr Dunne yn fwy pendant nad oedd o'r farn ei fod "yn y papurau a oedd gennyf yn Neuadd y Sir ar y pryd"¹¹.
- 6.15 Er fy mod yn argyhoeddedig, yn ôl pwysau tebygolrwydd, fod gan Mr Dunne rywfaint o ymwybyddiaeth o'r honiadau a wnaed gan y plant, nid yw mor hawdd cadarnhau yn union pa ddogfennau a oedd yn ei ffeil erbyn 15 Ionawr 1991.

- 6.16 Rwyf eisoes wedi ystyried tystiolaeth Mr Dunne o ran y cyfarfod gydag UCAC ym Mhennod 4: Mr Edwin Roberts a dof i'r casgliad mai tystiolaeth Ms Ellis sydd orau gennyf am y rhesymau a nodir ym mharagraffau 4.119 a 4.127.
- 6.17 Disgrifiodd Ms Ellis sut y bu i Mr Dunne roi llungopiâu o'r dystiolaeth ar ei ffeil i Mr James, Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC, gan gynnwys copiâu o ddatganiadau'r plant a'r llythyr cwyn gan riant¹² yn y cyfarfod ar 15 Ionawr 1991. Mae'n rhaid mai llythyr cyntaf Mrs Phillips dyddiedig 9 Ionawr 1991 oedd y llythyr y cyfeirir ato. Mae Ms Ellis yn cofio bod datganiadau'r plant wedi'u teipio. Roedd y datganiadau a gymerwyd a'r cofnodion a wnaed ar y pryd gan yr athrawon yn Ysgol Gyfun Rhydfelen mewn llawysgrifen. Mae'n debygol mai dim ond y datganiadau a gymerwyd gan Mr Matthews a deipiwyd.
- 6.18 Rhoddodd Mr Dunne dystiolaeth nad oedd ganddo "unrhyw ddogfennau a ysgrifennwyd gan neu ddatganiadau a gymerwyd gan blant ysgol"¹³ yn ei ffeil dystiolaeth. Dywed ymhellach "nad oedd unrhyw gŵyn benodol ei fod (Mr Owen) wedi gwneud hyn a'r llall ac arall"¹⁴. Wrth gael ei groesholi cytunodd y "gallai" fod wedi darparu copiâu o'r datganiadau a ddisgrifir gan Ms Ellis¹⁵.

Casgliadau

- 6.19 Dof i'r casgliad fod gan Mr Dunne rywfaint o'r wybodaeth a oedd yn ymwneud â'r honiadau a wnaed yn erbyn Mr Owen gan gynnwys rhywfaint o ddatganiadau'r plant. Nid oes gennyf dystiolaeth fod ganddo bob un o ddatganiadau'r plant, ac mae'n debygol bod yr hyn a oedd ganddo yn llai na'r hyn a roddwyd i Mr Matthews gan uwch staff yr ysgol.
- 6.20 Ni ddangosodd Mr Dunne lawer o ymwybyddiaeth o weithdrefnau amddiffyn plant ar y pryd, ond mae hyn yn ddealladwy o gofio ei swydd. Rhaid ystyried ei weithredoedd gan gofio bod ffigyrau mwy pwerus yn gysylltiedig â'r achos a oedd yn meddu ar wybodaeth lawnach o weithdrefnau amddiffyn plant a chyfrifoldeb clir i weithredu.

Pennod 7

Mr George Askey

- 7.1 Mr Askey oedd y Dirprwy Gyfarwyddwr Addysg yn yr awdurdod addysg lleol ac roedd yn amlwg yn berson allweddol yn nigwyddiadau 1991 sef prif ganolbwynt fy Ymchwiliad. Fodd bynnag, o ganlyniad i salwch difrifol ni allai roi tystiolaeth ar lafar i mi, ac ni fu ei rôl yn y digwyddiadau hyn yn destun archwiliad cyhoeddus. Gan na fu'n bosibl profi tystiolaeth Mr Askey, gallaf ond lunio casgliadau cyfyngedig yn seiliedig yn bennaf ar ddogfennaeth o'r cyfnod.
- 7.2 Darparodd Mr Askey ddatganiad ysgrifenedig i'm Hymchwiliad dyddiedig 28 Ebrill 2003¹ lle mae'n haeru "ni chofiaf fawr ddim am yr holl fater hwn"². Yn arbennig, mae Mr Askey yn gwadu iddo weld llythyr Mrs Phillips dyddiedig 9 Ionawr 1991 gan ddweud nad oedd "yn ymwybodol o fanylion yr honiadau a oedd yn cael eu gwneud yn erbyn Mr Owen"³ ac yn benodol na welodd unrhyw un o ddatganiadau'r plant⁴.
- 7.3 Mae hyn yn gwrthdaro â thystiolaeth y Pennaeth dros dro, Mr Jeffreys, sy'n cofio trafod yr holl dystiolaeth gyda Mr Askey yn y cyfarfod yn yr ysgol ar 11 Ionawr 1991⁵. Nid yw ychwaith yn gyson â'r adroddiad a luniwyd gan yr athrawon ar y pryd lle nodir i "George Askey (Dirprwy Gyfarwyddwr) holi'n ddwys ynghylch agweddau amrywiol ar y gŵyn a fyddai'n cael ei chyflwyno i'r llywodraethwyr a'r meini prawf a fyddai'n cael eu defnyddio o ran y cyngor proffesiynol a fyddai'n cael ei ddarparu gan yr awdurdod addysg lleol i fynd gyda'r gŵyn honno"⁶. Caiff hyn ei ailadrodd mewn man arall yn yr adroddiad lle nodir hefyd i'r "ffeithiau gael eu harchwilio'n ofalus yng nghyd-destun canllawiau gweithrediadol yr awdurdod addysg lleol o ran materion o'r fath"⁷ yn y cyfarfod lle roedd Mr Askey yn bresennol.
- 7.4 Dof i'r casgliad bod y ddogfennaeth o'r cyfnod yn argyhoeddiadol iawn. Dof i'r casgliad bod Mr Askey yn anghywir a bod ganddo rywffaint o wybodaeth am yr honiadau i gyd neu rai ohonynt. Fel Dirprwy Gyfarwyddwr Addysg, aeth Mr Askey i Ysgol Gyfun Rhydfelen ar 11 Ionawr 1991 ar gais cymharol fyr rybudd Mr Matthews, y Swyddog Addysg Rhanbarthol, ac mae'n rhaid ei fod wedi derbyn gwybodaeth am yr hyn a oedd yn mynd rhagddo neu wedi gofyn am y wybodaeth honno.
- 7.5 At hynny, dim ond os oedd gan Mr Askey wybodaeth am yr honiadau i gyd neu rai ohonynt y byddai wedi ffonio'r swyddog personél (Mr Dunne) ac wedi gwahardd athro, Mr Owen, o'i swydd yn bersonol.

- 7.6 Mae'n dilyn y dylai Mr Askey fod wedi cyfeirio'r achos ar unwaith i'r gwasanaethau cymdeithasol neu i'r heddlu, neu y dylai fod wedi cyfarwyddo Mr Matthews i wneud hynny.
- 7.7 Dywedodd Mr Dunne⁸ ei fod yn credu y gallai Mr Askey fod wedi dod â'r papurau yn ôl gydag ef o Ysgol Gyfun Rhydfelen.
- 7.8 Gofynnwyd i Mr Askey gan Mr Roberts, mewn nodyn mewn llawysgrifen ar lythyr gan y Barnwr Richards (Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gyfun Rhydfelen) dyddiedig 6 Chwefror 1991, i gyfeirio ail lythyr Mrs Phillips, dyddiedig 4 Chwefror 1991, at Glerc y Sir am gyngor⁹. Mae'n rhesymol casglu i lythyr Mrs Phillips fod ynghlwm wrth y llythyr hwn, ac os nad oedd, ni fuasai unrhyw beth sylweddol i'w gyfeirio. Yn ei ddatganiad ysgrifenedig dywedodd Mr Askey nad oedd yn cofio gweld y llythyr.
- 7.10 Ar 18 Mawrth 1991, ysgrifennodd mam Disgybl T at y Cyfarwyddwr Addysg Mr Roberts gan nodi "yr wyf yn bryderus iawn na ddylid caniatáu i'r dyn (Mr Owen) fyth ddysgu plant eto"¹⁰. Aeth y llythyr yn ei flaen yn yr un modd, ac ynghlwm wrtho roedd llythyr cwyn gwreiddiol mam Disgybl T ynghylch gwahardd ei mab o Ysgol Gyfun Rhydfelen ym 1988.
- 7.11 Mae nodyn, yn dwyn llythrennau enw Mr Askey, yn rhoi cyfarwyddyd "dim ymateb na'i gynnwys fel tystiolaeth" (ei bwyslais ef). Mae hwn yn amlwg yn ymateb annigonol i gŵyn gan riant. Erbyn Mawrth 1991, roedd yr heddlu yn ymchwilio i Mr Owen, ond nid oedd yr awdurdod addysg lleol yn gwneud hynny (gan y derbyniwyd ymddiswyddiad Mr Owen). Am reswm na allaf ei gadarnhau roedd Mr Askey yn cyfarwyddo darllenydd ei nodyn i beidio â throsglwyddo llythyron mam disgybl T i'r heddlu.

Pennod 8

Diwylliant Awdurdod Addysg Lleol Cyngor Sir Morgannwg Ganol

- 8.1 Clywais gryn dystiolaeth bod diwylliant Cyngor Sir Morgannwg Ganol ar yr adeg dan sylw yn ddiwylliant lle roedd amharodrwydd i gymryd camau disgyblu a phetai'r person yn ymddiswyddo prin, os o gwbl, y parheid â'r camau disgyblu hynny.
- 8.2 Dywedodd Mr Dunne wrth yr Ymchwiliad ei fod yn "beth ofnadwy i'n cynghorwyr â'u cefndir ym maes undebaeth lafur drafod diswyddo rhywun"¹. Roedd yn amlwg bod pwys mawr ar y berthynas â'r undebau llafur, i'r graddau, ys dywed Mr Dunne, "ein bod yn ymfalchïo yn y ffaith nad oeddem yn celu dim rhag yr undeb"².
- 8.3 Ymddengys nad oedd unrhyw amharodrwydd i ddangos y dystiolaeth wirioneddol i'r undeb perthnasol cyn cwblhau'r ymchwiliad a chyn dwyn unrhyw gyhuddiadau. Roedd hyn yn wrthgyferbyniad llwyr i'r agwedd a gymerwyd tuag at y llywodraethwyr na chawsant hyd yn oed amlinelliad bras o'r honiadau, er gwaethaf eu rhwymedigaethau cyfreithiol, pan gawsant eu hannog i dderbyn ymddiswyddiad Mr Owen. Mae'n werth nodi bod ffeil UCAC ar Mr Owen sy'n parhau i oroesi yn fwy cyflawn nag unrhyw ffeil ym meddiant yr awdurdod lleol olynol, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.
- 8.4 Mae'n amlwg bod perthynas dda gyda'r undebau llafur yn bwysig ac y dylid rhoi gwybodaeth i unigolion ynglŷn â'r cyhuddiadau y maent yn eu hwynebu a'r dystiolaeth berthnasol mewn da bryd er mwyn iddynt gyflwyno'u hachos. Ond ni ddylid rhoi amlygrwydd anghyfartal i bwysigrwydd perthynas dda gyda'r undebau llafur dros gynnal gweithdrefnau disgyblu yn briodol a thros gyfrifoldebau amddiffyn plant.
- 8.5 Camgymeriad mwy oedd peidio â rhoi gweithdrefnau amddiffyn plant ar waith yn gynnar iawn gan y byddai hyn wedi arwain at fath gwahanol iawn o ymchwiliad.
- 8.6 Rhan arall y diwylliant hwn oedd y tueddiad a'r arfer sefydledig o roi'r gorau i weithdrefnau disgyblu unwaith y byddai'r person dan sylw wedi cynnig ymddiswyddo. Drwy gytundeb cyffredinol, dyma oedd y norm yn yr awdurdod addysg lleol ar y pryd. Wrth gwrs, yn ôl y gyfraith, dim ond y llywodraethwyr mewn gwirionedd a allai dderbyn ymddiswyddiadau a chyfaddawdu gweithdrefnau disgyblu, ond tresmaswyd ar eu rôl a'u llesteirio gan weithredoedd Mr Matthews a Mr Roberts.

- 8.7 Yn achos Mr Owen, daethpwyd â'r ymchwiliad i ben, ni chyflwynwyd unrhyw gyhuddiadau ac ni roddwyd cyfle hyd yn oed i'r llywodraethwyr adolygu'r hyn a ddigwyddodd ar ôl iddo adael.

Ymddengys yn amlwg i mi ei bod yn rhaidd cwblhau'r ymchwiliad mewn amgylchiadau pan godwyd unrhyw faterion amddiffyn plant fel rhan o ymchwiliad disgyblu.

- 8.8 Petai hyn wedi digwydd ym 1991, gellid bod wedi rhoi enw Mr Owen ar Restr 99 a chyfyngu o leiaf ar ei gyswllt â phlant mewn ysgolion yn y dyfodol. Mae materion eraill yn ymwneud â gweithio gyda phlant y tu allan i faes addysg yr ymdriniaf â hwy ym Mhennod 16: Ar ôl Ysgol Gyfun Rhydfelen a Phennod 17: Pam Fi Duw?

Casgliadau Cyffredinol

- 8.9 Ym 1991 ac ers hynny, bu honiadau ar led yn breifat ac yn gyhoeddus o ymgais i gelu'r gwirionedd yn ymwneud â Mr Owen. Ymatebodd Mrs Phillips i ddatganiad Mr Roberts i'r wasg mor gynnar â 4 Chwefror 1991 gyda phryderon o'r fath.
- 8.10 Dof i'r casgliad mai casgliad o weithredoedd ac anweithredoedd y gellid eu disgrifio'n gywir fel ymgais i gelu'r gwirionedd yn wir oedd gweithredoedd yr awdurdod addysg lleol ym 1991 efallai.
- 8.11 Roedd canlyniadau arwyddocaol iawn i weithredoedd Mr Roberts a Mr Matthews a gyflawnwyd yn erbyn cefndir o'r diwylliant a ddisgrifiwyd uchod:
- (i) I'r plant a fu'n ddigon dewr i ddweud yr hyn y bu modd iddynt ei ddweud. Fe'u gadawyd gyda'r argraff nad oedd pobl wedi eu credu. Arweiniwyd plant eraill, na wnaethant unrhyw honiadau, i gredu nad oedd unrhyw beth o bwys yn yr honiadau. Trowyd plant yn erbyn plant eraill. Dioddefodd rhai yn fawr o ganlyniad i hyn.
 - (ii) I'r rhieni. Gwyddai rhai natur yr hyn y cyhuddwyd Mr Owen ohono, ac eraill ddim. Cadarnhawyd cred cefnogwyr Mr Owen ei fod yn cael ei fictimeiddio gan y llythyron lleddfol, anghywir a chamarweiniol a dderbyniasant gan Mr Roberts a chan yr adroddiadau yn y wasg. Trowyd rhieni yn erbyn rhieni a themlai plant eu bod wedi'u hamddifadu o gefnogaeth y rhieni. Dioddefodd rhai rhieni gryn embaras yn sgîl cyhuddiadau troseddol a'm Hymchwiliad.
 - (iii) I'r athrawon. Dangosodd y grŵp o athrawon a lofnododd yr adroddiad yn Ionawr 1991 gryn ddewrder a phenderfyniad clodwiw. Gwyddent yr hyn y

cyhuddwyd Mr Owen ohono ac fe'u siomwyd yn fawr. Roedd diffyg gweithredu cyfrifol ar ran yr awdurdod addysg lleol wedi llesteirio eu hymdrechion i gefnogi'r disgyblion. Crëwyd yr argraff ar athrawon eraill a oedd yn cefnogi Mr Owen nad oedd fawr o sylwedd yn y cyhuddiadau ac mai Mr Owen oedd y dioddefwr. Trowyd athrawon yn erbyn athrawon a rhai athrawon yn erbyn rhai disgyblion.

- (iv) I'r llywodraethwyr, ni roddwyd unrhyw wybodaeth iddynt a fuasai'n eu galluogi i gyflawni eu cyfrifoldeb cyfreithiol nac ychwaith a fuasai'n eu galluogi i lunio barn ynghylch Mr Owen. Trowyd llywodraethwyr yn erbyn llywodraethwyr. Felly roedd y llywodraethwyr yn gyffredinol yn agored i'r honiadau o fod yn rhan o'r 'ymgais i gelu'r gwirionedd' pan nad oedd ganddynt yn amlwg fawr o syniad o'r hyn a honnwyd hyd yn oed.
- (v) I Mr Owen, a gafodd barhau i fod mewn cyswllt anghyfyngedig â phlant am ddegawd arall, na wynebodd erioed gyhuddiadau disgyblu ac a fwynhaodd gefnogaeth llawer o bobl yn y gymuned.
- (vi) I hyder y cyhoedd mewn gweithdrefnau a luniwyd i amddiffyn plant.

- 8.12 Er fy mod yn priodoli rhywfaint o'r cyfrifoldeb dros y methiant i ymchwilio'n drylwyr i Mr Owen ym 1991 i eraill, yr awdurdod addysg lleol oedd yn bennaf gyfrifol amdano.
- 8.13 Bydd yr argymhellion a wnaif yn seiliedig ar angen i sicrhau bod ein systemau amddiffyn plant yn ddigon cadarn a chynhwysfawr i atal iddynt gael eu peryglu gan unrhyw weithredoedd ar ran swyddogion ag iddynt synnwyr mor wyrddroedig o flaenoriaethau fel y gwelwyd gan Mr Roberts a Mr Matthews.
- 8.14 Dylem oll allu disgwyl llawer gwell, ond er lles ein plant, ni allwn ddibynnu ar y disgwyliad hwnnw yn unig yng ngoleuni'r dystiolaeth a glywais.

Pennod 9

Ymchwiliad yr Heddlu

- 9.1 Ni chysylltodd yr awdurdod addysg lleol â'r heddlu yn Ionawr 1991 pan wnaeth y plant eu honiadau gyntaf.
- 9.2 Y tro cyntaf i'r Ditectif Arolygydd Mears glywed am yr achos oedd pan ddaeth heddwes lifrog, Roy Meredith a oedd yn byw yn y Porth, ato gan ddweud wrtho fod gan ddynes yn y Porth broblemau, ei fod yn achos sensitif iawn ac nad oedd yn mynd i unman gyda'r ysgol¹. Dof i'r casgliad mai oddeutu 15 Mawrth 1991 oedd hyn. Aeth y Ditectif Arolygydd Mears i weld Mrs Phillips. Cofia i rywun arall gysylltu â'r heddlu tua'r un adeg a dywed ei bod yn bosibl mai Mr Matthews ydoedd².
- 9.3 Arweiniwyd yr ymchwiliad gan y Ditectif Arolygydd Mears, a oedd yng ngofal y CID lleol, gyda chymorth ei ddirprwy y Ditectif Ringyll Hywel Thomas a'r Cwnstabl Leanne Bartlett³.
- 9.4 Ystyriwyd yr achos yn un difrifol gan y Ditectif Arolygydd Mears. Dywedodd yn ystod yr ymchwiliad iddo gysylltu'n bennaf â Mr Matthews yn yr awdurdod addysg lleol⁴. Dywedodd y Ditectif Ringyll Thomas, â greddf heddwes hwyrach, mai ei brif bryder drwy gydol yr ymchwiliad oedd "hwyrach nad oeddem yn cael gwybod popeth"⁵.
- 9.5 Dof i'r casgliad y rhwystrwyd ymchwiliad yr heddlu gan fethiant yr awdurdod addysg lleol i rannu'u holl wybodaeth â'r heddlu. Dof i'r casgliad na allai Mr Matthews fod wedi rhannu'r holl wybodaeth a ddaeth i'w feddiant gyda'r heddlu. Ni allaf ddod i unrhyw gasgliad cyffredinol o ran Mr Askey gan na fu iddo ymddangos gerbron fy Ymchwiliad ac na roddwyd ei dystiolaeth ar brawf. Ymdriniaf â Mr Askey a llythyron mam Disgybl T ym Mhennod 7: Mr George Askey. O ran Mr Dunne, nid yw'n glir pa dystiolaeth a ddaeth i'w feddiant mewn gwirionedd er y dof i'r casgliad iddo dderbyn rhywfaint o wybodaeth.
- 9.6 Mr Roberts, y Cyfarwyddwr Addysg ar y pryd, oedd â chyfrifoldeb rheoli cyffredinol dros fethiant yr awdurdod addysg lleol yn y cyd-destun hwn. Mae'n bosibl na fu ganddo ran uniongyrchol wrth sicrhau nad aeth y dystiolaeth berthnasol i'r heddlu. Fodd bynnag, ni wireddwyd ei addewid i'r heddlu y byddai ei adran yn sicrhau bod yr holl dystiolaeth ar gael iddynt. Ar ei gyfaddefiad ef ei hun, ni wnaeth unrhyw ymdrech i weld beth oedd y dystiolaeth yn bersonol, nac ychwaith sicrhau iddi gael ei throsglwyddo i'r heddlu^{5a}. Mae'n syndod nad oes copi o unrhyw lythyr gan yr awdurdod addysg lleol i'r heddlu yn nodi'r hyn a ddarganfuwyd gan yr awdurdod addysg lleol gan nodi manylion

y deunydd yr oedd yn ei drosglwyddo. Yn absenoldeb copi o lythyr o'r fath mae'n anodd casglu i wybodaeth gael ei throsglwyddo mewn modd cynhwysfawr ac effeithiol.

- 9.7 Ar ddiwedd eu hymchwiliad, hyd yn oed gyda'r deunydd cyfyngedig a ddarparwyd iddynt, roedd y Ditectif Arolygydd Mears yn fodlon bod tystiolaeth ddigonol i brofi bod Mr Owen wedi troseddu o dan adran 1 Deddf Anwedduster â Phlant 1961⁶. Trosglwyddwyd y dystiolaeth a gasglwyd gan yr heddlu i Wasanaeth Eryl y Goron. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod yr heddlu wedi hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol. Bryd hynny, yn ôl y Ditectif Arolygydd Mears, dim ond os oedd saith deg y cant neu fwy o bosibilrwydd o sicrhau collfarn y byddai Gwasanaeth Eryl y Goron yn dwyn achos. Mewn ymateb i gwestiwn gan Gwnsler yr Ymchwiliad, Mr Nicholas Cooke CF, cytunodd y Ditectif Arolygydd Mears bod Gwasanaeth Eryl y Goron wedi penderfynu peidio ag erlyn gan nad oedd, yn eu barn hwy, debygolrwydd digonol o sicrhau collfarn o ystyried y posibilrwydd o gyfiawnhad dramatig.⁷ Mae'n anodd gweld sut y gallai Gwasanaeth Eryl y Goron fod wedi dod i gasgliad o'r fath o weld yr holl ddeunydd a oedd ar gael i'r awdurdod addysg lleol.
- 9.8 Roedd cymaint nad oedd yr heddlu na Gwasanaeth Eryl y Goron yn ymwybodol ohono ym 1991, ac roedd hyn yn rhywbeth a arswydodd y ddau swyddog o'r heddlu yn fy Ymchwiliad. Llestairwyd eu hymchwiliad mewn nifer o ffyrdd difrifol:
- (i) Ni fu i Mr Matthews gysylltu â'r heddlu ar unwaith pan gyflwynodd y disgyblion eu honiadau gyntaf ar 10 Ionawr 1991
 - (ii) Ail-gyfwelwyd â Disgyblion 3, 4, V, U, D a G gan Mr Matthews ar 11 Ionawr a 14 Ionawr 1991 ar ôl i'r athrawon gyfweld â hwy
 - (iii) Ni ddarparwyd datganiadau manwl cyntaf y disgyblion a gymerwyd gan yr athrawon⁸ i'r heddlu
 - (iv) Ni roddwyd y nodiadau a wnaed gan yr athrawon o honiadau'r plant a wnaed ym mis Ionawr 1991 i'r heddlu
 - (v) Ni roddwyd yr adroddiad a lofnodwyd gan y Pennaeth dros dro, Mr Jeffreys a'r uwch athrawon, yn crynhoi'r achos yn erbyn Mr Owen i'r heddlu (Atodiad 4)
 - (vi) Nid oedd yr heddlu'n ymwybodol i Mr Owen weld datganiadau'r plant cyn ei gyfweliadau â'r heddlu. Ni roddwyd gwybod iddynt fod Mr Dunne wedi datgelu ei ffeil dystiolaeth i undeb Mr Owen⁹
 - (vii) Ni roddwyd y datganiad gwrthbrofi a baratowyd gan Mr Owen, sy'n parhau i fod ar ffeil gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, i'r heddlu.

Rhoddodd yr awdurdod addysg lleol wybod i'r heddlu am fodolaeth datganiad pwysig gan Mr Owen. Nid oedd yr awdurdod addysg lleol yn fodlon rhyddhau'r datganiad heb ganiatâd cyfreithiwr Mr Owen. Ni roddwyd unrhyw dystiolaeth yn fy Ymchwiliad i ddangos y rhoddwyd caniatâd o'r fath. Roedd y ddogfen yn cynnwys cyfaddefiadau pwysig o ran materion a oedd yn codi pryderon lles plant, er enghraifft, o ran dawns noeth gan ddau fachgen tair ar ddeg oed. Nid oedd angen cymeradwyaeth cyfreithiwr Mr Owen i weithredu mewn ymateb i hynny neu i'w roi i'r heddlu.

(viii) Ni roddwyd llythyr Disgybl J, mewn llawysgrifen yn Gymraeg ac yn Saesneg nac ychwaith y fersiwn a deipiwyd¹¹ i'r heddlu

(ix) Ni roddwyd datganiad Mr Davies yn cynnwys y nodyn lle dywedodd Mr Owen y buasai'n dweud celwydd wrth yr arholwr, i'r heddlu¹².

9.9 Dywedodd swyddogion yr heddlu "yr unig beth a gofiau yn dod o'r ysgol...fe'u disgrifiwyd fel datganiadau...roeddent yn grynodedb pum, chwe, saith llinell mewn gwirionedd"¹³ ac roeddent "yn fyr"¹⁴.

9.10 Cafodd ymchwiliad yr heddlu ei danseilio'n ddifrifol gan fethiant yr awdurdod addysg lleol i rannu gwybodaeth, ac yng ngeiriau'r Ditectif Ringyll Thomas, o ganlyniad roedd yr ymchwiliad "yn anffodus, yn ddiffygiol"¹⁵. Mae'n bosibl mai achos o gamwaith oedd cadw gwybodaeth rhag yr heddlu.

9.11 Ystyriodd y ddau swyddog profiadol o'r heddlu effaith y wybodaeth a gelwyd rhagddynt ar eu hymchwiliad wrth iddynt roi tystiolaeth i'm Hymchwiliad:

(i) Roedd y Ditectif Arolygydd Mears o'r farn bod y deunydd yn natganiadau cyntaf y plant, crynodebau'r athrawon ar y pryd ac adroddiad y Pennaeth dros dro, yn gyfystyr â honiadau o anweddustra difrifol, ymosod ac ymosod yn rhywiol¹⁶

(ii) Cytunodd y Ditectif Arolygydd Thomas â Chwnsler yr Ymchwiliad y buasai Mr Owen, ar ôl cael gwybod yn gynnar am honiadau'r plant, yn gallu ymyrryd â'r ymchwiliad "...os yw'r person sydd o dan amheuaeth yn derbyn gwybodaeth o'r fath, maent yn paratoi eu hamddiffyniad cyn cael eu cyfweld"¹⁷ ac roedd "yn niweidiol tu hwnt oherwydd bod yr atebion wedi cael eu paratoi yn barod, oherwydd eu bod yn gwybod beth fyddai'r honiadau, felly pa bynnag ffordd y byddech yn cyflwyno'r honiad roedd yr ateb eisoes wedi cael ei baratoi ar eich cyfer"¹⁸. Yn ei gyfweiliad â'r heddlu, defnyddiodd Mr Owen gyfiawnhad dramatig yn ei amddiffyniad a chytunodd y Ditectif Arolygydd Mears â Chwnsler yr Ymchwiliad i hyn ddylanwadu ar Wasanaeth Erlyn y Goron¹⁹.

- (iii) I'r plant hynny a wyddai fod eu datganiadau ym meddiant Mr Owen, dywedodd y Ditectif Ringyll Thomas y buasent "mewn sefyllfa amhosibl...dychmygaf y buasai'r pwysau arnynt yn anferth"²⁰ (Rhoddodd Disgybl G dystiolaeth o'r modd y'i hwynebwyd gan Mr Owen gyda'i ddatganiad)
- (iv) Buasai'r datganiad gwrthbrawf wedi dangos i'r heddlu bod Mr Owen yn ymwybodol o fanylion datganiadau'r plant mor gynnar â 31 Ionawr 1991²¹ ac roedd yn cynnwys, er enghraifft, cyfaddefiad i ddau ddisgybl ddawnsio'n noeth iddo pan oeddent yn dair ar ddeg oed²².
- (v) Roedd y Ditectif Arolygydd Mears yn bryderus ar adeg ei ymchwiliad ynglŷn â'r berthynas rhwng Disgybl J a Mr Owen. Roedd o'r farn y byddai datgelu llythron ysgrifenedig Disgybl J yn cefnogi Mr Owen a'r fersiwn a deipiwyd wedi dangos i'r heddlu "gryn dipyn o agosatrwydd a'r ffaith bod Disgybl J yn ei amddiffyn ac y buasai'n dweud celwydd ar ei ran hefyd"²³. Roedd y llythyr a deipiwyd yn debyg iawn i'r sgrïpt a deipiwyd gan Mr Owen a fyddai, yn ôl y Ditectif Arolygydd Mears, wedi arwain yr heddlu i gwestiynu gan bwy y teipiwyd y llythyr a pham²⁴ (Rhoddodd Disgybl J dystiolaeth yn ddiweddarach mai Mr Owen a baratôdd y llythyr teipiedig ar ei ran, roedd wedi'i gopïo ac na fuasai wedi gallu ysgrifennu Cymraeg mor safonol)²⁵.

9.12 Dro ar ôl tro, mewn Ymchwiliad ar ôl Ymchwiliad, rydym yn clywed sut y mae plant wedi'u siomi mewn modd truenus ac weithiau drasig gan fethiant gweithwyr proffesiynol i rannu gwybodaeth. Siomwyd y plant yn Ysgol Gyfun Rhydfelen a roddodd dystiolaeth mewn modd mor ddewr gan yr awdurdod addysg lleol a'u methiant i alw'r heddlu ar unwaith ac yna'u methiant i roi'r holl wybodaeth berthnasol a oedd yn eu meddiant i'r heddlu.

9.13 Mae'r heddlu wedi cynnal adolygiad mewnol o'u hymchwiliad ym 1991. Ni ddatgelwyd hyn yn llawn i mi ac felly ni allaf roi sylwadau arno. Fodd bynnag, llesteiriwyd adolygiad yr heddlu o'u hymchwiliad ym 1991 a'm Hymchwiliad innau gan arfer Heddlu De Cymru o ddinistrio cofnodion ar ôl saith blynedd. Mae hyn yn gwbl amhriodol mewn achosion o gamdriniaeth rywiol honedig. Gwyddom y gall y rheini sy'n cam-drin weithredu dros ddegawdau ac y gall unrhyw wybodaeth hanesyddol a gesglir fod yn bwysig. Mewn gwrthgyferbyniad, mae gofyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf gadw unrhyw ffeil sy'n ymwneud â phlant am isafswm o chwe deg o flynyddoedd ac uchafswm o saith deg pump. Yn ogystal â dinistrio ffeiliau, dinistriwyd llyfrau nodiadau a dyddiaduron yr heddlu. Roedd hyn yn destun pryder i'r Ditectif Arolygydd Mears gan iddo ddweud y buasent wedi bod o gymorth mawr iddo wrth geisio cofio digwyddiadau.

- 9.14 Ysgrifennais at bob Prif Gwnstabl yn Ne Cymru yn ystod fy Ymchwiliad ynghylch cadw cofnodion. Roedd eu hymatebion yn amlygu arfer gwahanol ym mhob heddlu. Rwyf wedi cysylltu ag Ysgrifennydd Ymchwiliad Bichard ac wedi mynegi fy mhryderon. Mae Ymchwiliad Bichard yn asesu effeithiolrwydd dulliau cadw cofnodion cudd-wybodaeth a'r modd y rhennir gwybodaeth yr heddlu ag asiantaethau eraill a bydd yn cyflwyno ei adroddiad i'r Ysgrifennydd Cartref. Bydd yr adroddiad, sy'n debygol o gael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2004, yn gwneud argymhellion o ran arferion yng Nghymru a Lloegr.
- 9.15 Rhoddodd nifer o'r disgyblion, sydd bellach yn oedolion ifanc, dystiolaeth o'r modd yr oeddent yn teimlo rhwystr rhag siarad yn blaen am faterion rhywiol gyda'r heddlu o flaen eu rhieni. Eu pryder yn gyffredinol oedd amddiffyn eu rhieni: "Nid oedd yn hawdd o flaen fy mam oherwydd ei bod yn delio â sioc yr holl beth a hefyd yn delio â'r euogrwydd oherwydd i mi deimlo nad oedd modd i mi ddweud wrthi beth oedd yn mynd ymlaen yno"^{25a}. "Roedd yn fwy o reswm gwadu nag agor fy nghalon oherwydd nid oeddwn am iddynt wybod"²⁶. Yn naturiol mae rhieni am fod yn bresennol i gefnogi ac amddiffyn eu plant, ond hwyrach nad yw'r dybiaeth awtomatig hon mai hwy yw'r gefnogaeth orau, bob amser yn gywir.
- 9.16 Mae Canllawiau'r Swyddfa Gartref 'Achieving Best Evidence in Criminal Proceedings: Guidance for Vulnerable or Intimidated Witnesses, including Children', yn rhoi cyngor ynglŷn â'r modd y dylid cynnal cyfweiliadau â phlant a phobl ifanc, a phwy ddylai fod yn gysylltiedig â hyn. Ceir cydnabyddiaeth ym mharagraff 2.1.1 o'r ddogfen y caiff safbwyntiau a barn plant a phobl ifanc eu hanwybyddu neu eu gwthio i'r ymylon yn aml yn y broses gynllunio ar gyfer y cyfweiliad:
- 'Ble bynnag y bo'n bosibl, dylid ymgynghori â phlant hŷn a phobl ifanc yn arbennig ynghylch materion sy'n briodol i'w hoedran a'u dealltwriaeth a chyfrannu at y broses gynllunio a pharatoi ar gyfer y cyfweiliad (e.e. pryd a ble y cynhelir y cyfweiliad, pwy fydd yn bresennol, pwy fydd yn cynnal y cyfweiliad)'.
- 9.17 Mae'r Canllawiau hefyd yn rhoi sylwadau ar bresenoldeb gofalwr neu riant ar adeg y cyfweiliad gan ddweud bod ymchwil yn awgrymu y gall hyn fod yn ffynhonnell ychwanegol o bwysau os yw'r plentyn yn pryderu y byddant yn clywed manylion annymunol. Mae'r canllawiau yn cynghori'n gryf y dylai'r sawl a fydd yn cynnal cyfweiliadau ganfod barn y plentyn ar gefnogaeth yn y cyfweiliad lle bynnag y bo'n bosibl, fel rhan o broses gynllunio'r cyfweiliad (paragraff 2.3.4).

Argymhelliad

- 9.18 **Mewn unrhyw ymchwiliad amddiffyn plant, argymhellaf y dylid canfod dymuniadau a barn y plentyn ar y modd y cynhelir y cyfweliad, gan gynnwys eu dymuniadau o ran natur y gefnogaeth a fyddai orau ganddynt, mewn modd sensitif a'u cofnodi, gan ffurfio rhan o'r broses o gynllunio'r cyfweliad ac y dylid diwygio Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn unol â hynny o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.**
- 9.19 Mynegodd yr heddlu eu pryder ynghylch y ffaith i athrawon heb hyfforddiant a Mr Matthews gyfweld â'r plant. Mae'n amlwg nad yw hyn yn arfer da a gallai arwain at lygru tystiolaeth ac i dystiolaeth gael ei gollwng. Ategaf eu pryder ac anogaf athrawon, gweithwyr ieuencid ac eraill sy'n gweithio gyda phlant, yng ngeiriau Cwnsler yr Ymchwiliad, y cytunodd y Ditectif Arolygydd Mears â hwy, "Eich dymuniad fyddai hyn, unwaith y bydd y larymau yn seinio, cysylltwch â gweithwyr proffesiynol. I bob pwrpas – cysylltwch â'r heddlu".
- 9.20 Yn dilyn ymchwiliad gan yr heddlu, os bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn penderfynu peidio ag erlyn neu os bydd erlyniad yn aflwyddiannus, ymddengys mai arfer cyfredol yr heddlu yn Ne Cymru yw hysbysu rhieni'r plant ac nid y plant yn uniongyrchol. Dof i'r casgliad hwyrach nad yw hyn o fudd i rai plant.

Argymhelliad

- 9.21 **Argymhellaf y dylai'r heddlu ystyried hysbysu'r plentyn ei hun o ganlyniad ymchwiliad gan yr heddlu bob amser, gan ofalu eu bod yn esbonio'r hyn a ddigwyddodd ac y caiff Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan eu diwygio yn unol â hynny o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.**

Pennod 10

Rhybuddion Cynnar

- 10.1 Yn y rhan hon o'm hadroddiad rwyf yn archwilio'r materion a gododd yn Ysgol Gyfun Rhydfelen a oedd yn ymwneud â Mr Owen yn y cyfnod yn arwain at Ragfyr 1990.
- 10.2 Yn ystod fy Ymchwiliad cyflwynwyd tystiolaeth ger fy mron a awgrymai:
- (i) y bu digwyddiad ym 1983 y dylid bod wedi ymchwilio iddo'n fwy trwyadl ac a allai fod wedi arwain at gymryd camau disgyblu yn erbyn Mr Owen
 - (ii) bod plant wedi cwyno dros nifer o flynyddoedd bod Mr Owen yn eu bwlio
 - (iii) bu digwyddiad ar wahân ym 1988 y dylid bod wedi ymchwilio iddo'n fwy trwyadl hefyd ac a allai fod wedi codi amheuaeth ym meddyliau'r rheini a oedd yn ymwybodol ohono
 - (iv) cafwyd cyfres o ddigwyddiadau, rhwng 1986 a 1991, a oedd yn ymwneud ag arholwyr CBAC a ddylai fod wedi ysgogi ymchwiliad a chymryd camau gweithredu.
- 10.3 Honnwyd hefyd, yn ystod fy Ymchwiliad, fod Pennaeth Ysgol Gyfun Rhydfelen, Mr Dafydd Jones, yn ymwybodol o'r digwyddiadau ac y dylai fod wedi gweithredu'n wahanol. Awgrymwyd hefyd y gallai fod wedi llunio casgliadau pwysig wrth i fwy a mwy o wybodaeth ddod i law.

1983

- 10.4 Ar 12 Tachwedd 1983, aeth Mrs Mary Evans, athrawes brofiadol mewn ysgol arall a chwnstabl cynorthwyol, i ffair ysgol yn Ysgol Gyfun Rhydfelen. Yn ei hadroddiad i mi, disgrifiodd Mrs Evans y modd yr oedd yn ymdrin â phethau yn y gegin pan sylwodd fod aelod o staff y gegin (Peggy Newbury) a adwaenwyd fel 'Anti Peggy' yn edrych yn ofidus.
- 10.5 Tynnodd Mrs Evans 'Anti Peggy' i'r naill ochr a dywedodd 'Anti Peggy' wrthi "iddi ruthro i mewn i ystafell Mr Owen yn Rhydfelen gan nad oedd yn sylweddoli ei fod yno. Pan aeth mewn dywedodd iddi weld Disgybl B yn hanner noeth yn eistedd ar lin Mr Owen. Dywedodd wrthyf (Mrs Evans) iddo sgrechian arni i fynd allan. Gofynnais (Mrs Evans) iddi p'un a oedd wedi dweud wrth unrhyw un a dywedodd wrthyf iddi ddweud wrth y Dirprwy Bennaeth, Mrs Eirlys Pritchard Jones"¹.

10.6 Darparodd Mrs Evans nodyn o'i dyddiadur ar y pryd, a oedd yn gyson â'r sgwrs hon, i'm Hymchwiliad. Wrth roi tystiolaeth, dywedodd i 'Anti Peggy' "dorri i wylo" ar y pryd².

10.7 Dywedodd Mrs Evans fod 'Anti Peggy' wedi disgrifio "hanner isaf y corff (corff Disgybl B) heb ddillad"³.

Cadarnhaodd Mrs Pritchard Jones i 'Anti Peggy' ddod ati ynghylch y mater ym 1983, er iddi gofio'n bendant i'r adroddiad gyfeirio at "Ddisgybl B heb ddillad rhan uchaf y corff"⁴.

10.8 Aeth Mrs Pritchard Jones at Mr Owen a ddywedodd fod "Disgybl B wedi cwmpo ac wedi anafu ei gefn a'i fod ef (Mr Owen) yn edrych arno i weld drosto'i hun a oedd e wedi cael anaf"⁶. Derbyniwyd yr esboniad hwn gan Mrs Pritchard Jones. Byddai'r adroddiad hwn yn ei gwneud yn debygol i Mrs Pritchard Jones wynebu Mr Owen gan dybio mai rhan uchaf corff Disgybl B oedd yn noeth, oherwydd dyna a ddywedwyd wrthi, er nad dyma o bosibl a ddigwyddodd mewn gwirionedd. Dywedodd Mrs Pritchard Jones wrth Mr Owen i wneud yn siwr bod Disgybl B yn mynd at y nyrs ac na ddylai wneud y fath beth yn y dyfodol.

10.9 Rhoddodd Mrs Pritchard Jones dystiolaeth iddi sicrhau ei bod yn siarad â'r Pennaeth, Mr Jones, ar yr un diwrnod "Dywedodd wrtha i am adael y mater gydag e. Gofynnnes iddo rai dyddiau wedyn p'un a oedd wedi delio ag e ac fe sicrhaodd e fi ei fod wedi delio â'r mater"⁵. Dof i'r casgliad bod Mrs Pritchard Jones wedi mynegi ei phryderon ynghylch Mr Owen i'r Pennaeth.

10.10 Dywedodd Mrs Pritchard Jones iddi ddweud wrth 'Anti Peggy' ei bod wedi siarad â'r Pennaeth a bod y Pennaeth yn ymdrin â'r mater. Cadarnhaodd Mrs Evans a Mrs Pritchard Jones i Mrs Evans fynegi ei phryder wrth Mrs Pritchard Jones. Cytunodd y ddwy hefyd i Mrs Pritchard Jones ddweud "bod rhywun yn ymdrin â'r mater"⁷.

10.11 Aeth Mrs Evans hefyd at Mr Owen yn uniongyrchol ynghylch y mater ym mis Mawrth 1984: "Dywedais wrtho i mi glywed sibrydion ei fod ychydig yn rhy agos at y plant a bod yn rhaid iddo fod yn ofalus iawn am ei fod yn hwylio'n rhy agos i'r gwynt"⁸.

10.12 Nid oes tystiolaeth bod yr hyn a ddeilliodd o ganlyniad i'r mater hwn wedi cael ei ddwyn i sylw'r Pennaeth ym 1983. Mae'n bosibl na fu iddo siarad â Mr Owen, neu mae'n bosibl y bu iddo siarad ag ef, gan roi rhyw fath o rybudd anffurfiol iddo. Nid oes tystiolaeth i unrhyw gamau gael eu cofnodi ar ffeil Mr Owen. Cytunodd Mrs Pritchard Jones wrth gael ei holi gan Gwnsler yr Ymchwiliad, Mr Nicholas Cooke CF, yr ymddengys i'r Pennaeth, Mr Jones, ymdrin â'r mater mewn modd cymharol anffurfiol ac ni ddatryswyd yr amheuaeth p'un ai cefn tost neu rywbeth mwy sinistr oedd y mater. Rhoddwyd sicrwydd iddi gan y Pennaeth ei fod wedi ymdrin â'r mater mewn modd a ystyriodd yn briodol.

- 10.13 Cadarnhaodd Mrs Pritchard Jones fod Disgybl B wedi aros yn nhŷ Mr Owen ar ôl y digwyddiad a gofnodwyd gan 'Anti Peggy'. Pan ofynnodd i'r Pennaeth p'un a wyddai am hyn, dywedwyd wrthi ei fod wedi rhoi ei ganiatâd a bod teulu Disgybl B wedi rhoi eu caniatâd hwythau⁹. Yn anffodus ni hysbyswyd rhieni Disgybl B am y digwyddiad ac ni ofynnwyd i Ddisgybl B am ei fersiwn ef o'r hyn a ddigwyddodd¹⁰. Dywedodd Mrs Pritchard Jones fod "nifer o athrawon yn teimlo nad oedd yn ymddygiad priodol (i blentyn fyw gydag athro) yn arbennig am ei fod yn byw ar ei ben ei hun"¹¹.
- 10.14 Gwyddom yn 2001 i Ddisgybl B roi datganiad i'r heddlu, a gadarnhawyd ganddo yn fy Ymchwiliad, yn honni i Mr Owen ymosod arno'n rhywiol ddifrifol dros gyfnod o ddwy i dair blynedd.
- 10.15 Gallaf ond casglu bod yr adroddiad cynnar hwn o ymddygiad rhywiol amhriodol posibl tuag at ddisgybl yn gyfle a fethwyd i gynnal ymchwiliad trwyadl. Gallai ymchwiliad o'r fath fod wedi datgelu digon o wybodaeth i atal y dioddefaint a ddilynodd.
- 10.16 Rwyf yn ymwybodol, ar y pryd, ym 1983, nad oedd ymwybyddiaeth gref o gamdriniaeth rywiol gan weithwyr proffesiynol ac nad oedd y systemau mor gadarn ag oeddent ym 1991. Fodd bynnag, roedd hwn yn gyfle amlwg i ymyrryd. Ni chadwyd cofnod o'r pryder hwn y gellid bod wedi'i ystyried yng ngoleuni honiadau diweddarach.

Bwlio

- 10.17 Dof i'r casgliad bod rhai athrawon, o leiaf, yn derbyn bod Mr Owen yn bwlio disgyblion. Disgrifiodd Mrs Pritchard Jones gwynion bod Mr Owen "yn fwli"¹² a'i fod yn "eitha ymosodol ac yn gallu bod yn gas"¹³. Disgrifiodd Mrs Pritchard Jones y modd yr oedd Mr Owen yn bwlio plant, "yr un mwya cyffredin odd bod e'n gweiddi arnyn nhw, ond mi oedd e hefyd weithiau yn bod yn eiriol gas wrth rai plant, mi oedd e weithiau yn anwybyddu plant...beth ma bwli yn ei neud yw ffindo man gwan a chware arno fe a dyna'n union beth bydde fe'n neud"¹⁴.
- 10.18 Disgrifiodd Mrs Pritchard Jones y modd y byddai plant yn mynd ati ac yn dweud wrthi am fwlio Mr Owen. Byddai'n siarad â Mr Owen ac yn cofnodi eu cwynion yn ei llyfr nodiadau ei hun ac weithiau byddai'n hysbysu'r Pennaeth, Mr Jones. Dywedodd y byddai Mr Jones hefyd yn siarad â Mr Owen¹⁵.
- 10.19 Ceisiodd Mrs Pritchard Jones ac athrawon eraill herio Mr Owen ynghylch y ffaith ei fod yn bwlio disgyblion.

- 10.20 Ni chynhaliwyd unrhyw ymchwiliad ffurfiol erioed i gwynion y plant. Dylid bod wedi herio'r fath ymddygiad yn ffurfiol.
- 10.21 Roedd yn bryder gennyf glywed na fu i'r uwch staff weithiau drafod cwynion gan ddisgyblion neu gan athrawon ynghylch materion sensitif yn ymwneud ag athrawon eraill, fel bwlio, yn eu cyfarfodydd pwyllgor canolog neu y bu iddynt eu trafod heb eu cofnodi¹⁶.
- 10.22 Pan oedd yr awdurdod addysg lleol yn ymchwilio i'r honiadau yn erbyn Mr Owen ym 1991, yn ystod ymchwiliad yr heddlu yn 2001 a'm Hymchwiliad innau yn 2002 ni feddylodd Mrs Pritchard Jones y dylai sôn am y digwyddiadau hyn. Rwyf yn ailadrodd unwaith eto, i bob gweithiwr proffesiynol, bod rhannu gwybodaeth yn hanfodol ym maes amddiffyn plant.

1988

- 10.23 Yn ôl y dystiolaeth a roddwyd gan ei fam, ym 1988 ar ddiwrnod olaf Tymor y Pasg, roedd Disgybl T, disgybl chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Rhydfelen, wedi bod ar ddihun am ran sylweddol o'r nos yn gweithio ar ei gyfraniad i gylchgrawn yr ysgol. Ar ddiwedd y dydd, daeth Disgybl T yn rhan o dric diwedd tymor a oedd yn ymwneud â disgybl arall ac ŵy. Protestiodd Mr Owen wrtho ac ymatebodd y disgybl gyda 'llifeiriant o iaith anllad' lle galwodd Mr Owen yn 'fastard' a 'bugger'. Honnir i Mr Owen, y dirprwy Bennaeth dros dro ar y pryd, ddweud wrth Ddisgybl T na ddylai ddychwelyd i Ysgol Gyfun Rhydfelen.
- 10.24 Yn fuan wedyn derbyniodd mam Disgybl T llythyr gan y Pennaeth yn gofyn iddi ddod i gyfarfod yn yr ysgol. Gwnaeth hyn ar 9 Mehefin 1988 gyda'i gŵr. Roedd yn gyfarfod byr iawn a dywedwyd wrth rieni Disgybl T yn syml nad oedd i ddychwelyd i'r ysgol.
- 10.25 Ysgrifennodd mam Disgybl T llythyr at y Pennaeth, Mr Jones, ar 15 Gorffennaf 1988 gan ofyn iddo roi rhyw ystyriaeth i gefndir ymddygiad ei mab. Rhoddodd hefyd reswm, yr oedd hi'n ymwybodol ohono, dros y ffaith nad oedd yn hoffi Mr Owen gan ddisgrifio 'agwedd awdurdodus, llym' Mr Owen. Cwynodd am ba mor 'ffug' oedd y cyfarfod gan gwestiynu pam nad oedd y Pennaeth hyd yn oed wedi gofyn am ochr Disgybl T o'r stori, er iddo anfon llythyr i ymddiheuro. Dywedodd hefyd "Gallai fod esboniad difrifol a sinistr pam y bu i'r bachgen frwydro gyda'r athro arbennig hwn"¹⁷.
- 10.26 Wrth roi tystiolaeth, dywedodd mam Disgybl T nad oedd yn cyfeirio yma at unrhyw wybodaeth a oedd ganddi ynglŷn â honiadau o gamymddwyn rhywiol gan Mr Owen.

- 10.27 Mae'n gwbl glir i mi y dylai'r Pennaeth, Mr Jones, yn ôl egwyddorion mwyaf sylfaenol cyfiawnder naturiol, fod wedi clywed ochr y disgybl o'r stori, o leiaf. Petai wedi gwneud hynny mae'n bosibl y buasai mwy o wybodaeth wedi dod i'r golwg ynglŷn ag ymddygiad Mr Owen. Ni dderbyniodd mam Disgybl T hyd yn oed ymateb i'w llythyr.
- 10.28 Nid oedd Disgybl T yn teimlo y gallai roi tystiolaeth i'm Hymchwiliad felly nid yw'n bosibl i mi ddod i unrhyw gasgliad ynghylch p'un a oedd ei ddefnydd o'r gair 'bugger' yn unrhyw beth amgenach na'r ffaith mai dyna oedd y rheg cyntaf a ddaeth i'w feddwl. Gwyddom fod sibrydion ar led ers 1974, yn ôl Disgybl X¹⁸.
- 10.29 Credaf fod y digwyddiad hwn yn enghraifft bellach o gyfle a fethwyd i'r awdurdod perthnasol (yn yr achos hwn, y Pennaeth, Mr Jones) fod wedi cynnal ymchwiliad. Petai gweithdrefn gwyno ffurfiol yr oedd pawb yn ei deall, mewn grym ar y pryd, buasai gan fam Disgybl T ryw faint o gyfle i gael yr achos wedi'i unioni. Gwnaf argymhellion ynghylch y mater hwn ym Mhennod 19: Rhieni'r Plant.
- 10.30 At hynny, dim ond yn ddiweddar y rhoddwyd yr hawl i ddisgyblion eu hunain apelio yn erbyn y penderfyniad i wahardd. Hwyrach y buasai gwrandawriad o'r fath, pe'i cynhelid mewn modd sensitif, wedi dod â thystiolaeth bwysig i'r amlwg.
- 10.31 Caiff materion ymddygiad gwael a gwahardd eu trafod fel arfer ar wahân yng nghyd-destun yr angen i gynnal trefn dda yn yr amgylchedd ysgol. Mae angen trefn dda wrth gwrs mewn lleoliad addysgol. Fodd bynnag, hwyrach bod ymddygiad gwael hefyd yn dynodi rhywbeth sy'n digwydd yn yr ysgol (neu'r cartref) a ddylai ysgogi ymchwiliad llawn ac ar fyrder.
- 10.32 Mae'n werth nodi i fam Disgybl T anfon copi o'i llythyr dyddiedig Gorffennaf 1988 at y Cyfarwyddwr Addysg, Mr Roberts, ym mis Mawrth 1991, pan ddaeth honiadau pellach ynglŷn â Mr Owen i'r amlwg yn gyhoeddus. Mewn llythyr cyflwyno mynegodd bryder "na ddylid caniatáu i Mr Owen fyth ddysgu eto"¹⁹. Mae nodyn mewn llawysgrifen (fel y nodir ym Mhennod 7: Mr George Askey) ar y llythyr yn rhoi cyfarwyddyd "Dim ymateb nac i'w gynnwys fel tystiolaeth"¹⁹ wedi'i lofnodi gan briflythrennau enw Mr Askey. Ni dderbyniodd mam Disgybl T ymateb i'w hail lythyr ychwaith. Ystyriaf i ddisgybl T a'i fam gael eu trin yn wael.

Pryderon a Fynegwyd gan Arholwyr CBAC

- 10.33 Yn y cyfnod rhwng 1986 a 1991 derbyniodd Mr Jones, Pennaeth Ysgol Gyfun Rhydfelen, faterion eraill o bryder ynghylch Mr Owen gan rai o arholwyr a swyddogion CBAC.

- 10.34 Ym 1986, aeth un o arholwyr drama allanol CBAC, Ms Daloni Rees, i arholiad drama ymarferol lefel 'O'. Cafodd Ms Rees ei brawychu gymaint gan gynnwys yr hyn a welodd fel y bu iddi atal yr arholiad. Cafodd sioc o weld disgybl 15 neu 16 mlwydd oed yn noeth ac yn ffugio'r weithred rywiol²⁰. Ceisiodd Mr Owen gael Ms Rees i barhau ond dangosodd gryn benderfyniad drwy wrthod â gwneud.
- 10.35 Mynnodd Ms Rees weld y Pennaeth, Mr Jones, ac aeth gyda Mr Owen i swyddfa'r Pennaeth lle rhoddodd wybod iddo am y sefyllfa gan ffonio CBAC i gael arweiniad. Derbyniodd gyfarwyddyd gan un o swyddogion CBAC i'r perwyl y dylai barhau â'r arholiad ymarferol gan y gallai'r disgyblion ddiodeff pe na bai hi'n gwneud hynny. Siaradodd y Pennaeth a Mr Owen â'r swyddog o CBAC hefyd. Dywedwyd wrthi i gyfleu ei phryderon mewn adroddiad ac y buasid yn ymdrin â'r mater. Gwnaeth hynny. Ni dderbyniodd unrhyw adborth gan CBAC²¹.
- 10.36 Ym Mhennod 15: Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru, ymdriniaf â'r ffordd y chwaraeodd CBAC ran yn y digwyddiadau hyn. Fy niben i yma yw dangos bod Pennaeth Ysgol Gyfun Rhydfelen yn gwbl ymwybodol o'r ffaith yr honnwyd i ddisgybl ffugio gweithred rywiol yn noeth yn ystod arholiad ymarferol drama lefel 'O' a oedd yn cael ei arholi'n allanol. Casglaf o hyn ac o'r materion a nodir uchod y cafodd nifer o faterion eu dwyn i sylw'r Pennaeth, Mr Jones, a ddylai fod wedi ysgogi ymchwiliad mwy trylwyr a chamau gweithredu mwy pendant.
- 10.37 Petai hyn wedi digwydd, hwyrach y gellid bod wedi osgoi llawer o'r dioddefaint dilynol. Hefyd petai cofnodion manwl o'r honiadau wedi'u cadw ac wedi'u cyflwyno i'r heddlu ym 1991, mae'n bosibl y byddai'r canlyniad wedi bod yn wahanol iawn.

Pennod 11

Staff Ysgol Gyfun Rhydfelen

1990-1991: Cyn i Mr Matthews ddod i gysylltiad â'r Ysgol

- 11.1 Roedd y digwyddiadau a ysgogodd yr ymchwiliad yn Ysgol Gyfun Rhydfelen, ac atal Mr Owen o'i swydd, yn deillio o gwynion gan ddisgyblion chweched dosbarth i aelodau o staff addysgu Ysgol Gyfun Rhydfelen. Ymdriniaf â'r materion a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â disgyblion ym Mhennod 20: Plant Ysgol Gyfun Rhydfelen.

Yn yr adran hon o'm hadroddiad fy mwriad yw edrych yn fanwl ar ymddygiad y staff addysgu yn yr ysgol, i gadarnhau p'un a wnaethant bopeth y gellid disgwyl yn rhesymol ganddynt er mwyn amddiffyn y plant.

- 11.2 Mae eu hymddygiad yn y cyd-destun hwn yn gymorth i mi lunio'r argymhellion a wnaf. Mae unrhyw feirniadaeth ar unigolion neu grwpiau o staff yma i'm helpu i sicrhau bod ein gweithdrefnau a'n systemau yn ddigon cadarn a chynhwysfawr i wneud yn iawn am unrhyw ddiffygion sydd gennym fel bodau dynol.
- 11.3 Ar 19 Rhagfyr 1990, rhoddodd Disgybl 4 wybod i Mr Roy Davies, Pennaeth y Chweched Dosbarth, ei bod am roi'r gorau i astudio drama. Cydnabyddid mai hwn oedd ei phwnc gorau ac roedd o fewn misoedd i sefyll ei harholiad Safon Uwch¹ ac o fewn dyddiau i'w harholiad drama ymarferol Safon Uwch. Roedd yr esboniad yn cynnwys cwynion ynghylch agwedd fwlio Mr Owen a natur rywiol amlwg testunau drama a sesiynau ymarferol. Rhoddodd Mr Davies wybod i'r Dirprwy Bennaeth Miss Evans, a cheisiwyd pwyso arni i newid ei meddwl "ond roedd yn gwbl ddisymud"². Roedd Disgybl 4 o'r un farn ar 20 Rhagfyr 1990. Rhoddodd Mr Davies wybod i'r Pennaeth dros dro Mr Jeffreys ynglŷn â hyn a chynnwys ei sgwrs â Disgybl 4³. Rhoddodd Mr Davies wybod i Mr Owen am benderfyniad Disgybl 4.

Ymatebodd Mr Owen drwy ddweud i Ddisgybl 4 "orymateb ac roedd yn niwrotig", nad oedd wedi dysgu ei llinellau, roedd yn eiddgeddus o ddisgybl arall a bod ei swydd ar ddydd Sadwrn yn amharu ar ei hastudiaethau⁴. Ar ddiwedd y diwrnod ysgol, cafodd Mr Davies sgwrs hir ar y ffôn gyda Mrs Phillips ac yn ystod y sgwrs hon, rhoddodd Mr Owen nodyn iddo gan ddweud ei fod yn barod i ddweud celwydd wrth yr arholwr ar ran Disgybl 4⁵. Rhoddodd Mrs Phillips wybod i Mr Davies ei bod yn bwriadu mynd â'r mater ymhellach.

- 11.4 Ar 21 Rhagfyr 1990, galwodd Miss Evans gyfarfod o'r tri dirprwy Bennaeth a Mr Davies fel y gallai Mr Davies gofnodi'r sgwrs a gafodd dros y ffôn gyda mam Disgybl 4, Mrs Phillips, a barodd awr a hanner. Cytunwyd yn unfrydol y dylid cyfeirio'r mater at y Pennaeth dros dro ar unwaith. Yn rhesymol, penderfynodd Mr Jeffreys ymdrin â'r mater ar ôl gwyliau'r Nadolig.
- 11.5 Ar 8 Ionawr 1991, aeth Mr Davies unwaith eto at Ddisgybl 4 a ddywedodd wrtho nad oedd yn bwriadu cwblhau ei chwrs drama Safon Uwch. Ar y diwrnod canlynol, gofynnodd Disgybl Safon Uwch arall, Disgybl U, am gael gweld Mr Davies a dywedodd ei fod am roi'r gorau i astudio drama gan nodi'r ffaith mai'r pwyslais gormodol ar ryw oedd ei brif reswm, a rhoddodd gofnod manwl am hyn⁶. Gwelodd Mr Davies Miss Evans ac aethant i weld Mr Jeffreys.
- 11.6 Penderfynodd Mr Jeffreys y byddai ef, gyda Miss Evans a Mr Davies, yn cymryd datganiadau gan nifer o'r plant a chyfarfu â Mrs Phillips ar 9 Ionawr 1991. Cymerwyd datganiadau manwl neu recordiwyd sgysiau gyda saith disgybl i gyd ac fe'u crynhoir ym Mhennod 5: Mr David Matthews.
- 11.7 Gofynnodd Mr Jeffreys i Mrs Phillips gofnodi ei chwyn ar bapur. Ar 10 Ionawr 1991, derbyniodd yr ysgol lythyr cwyn cyntaf Mrs Phillips a thrafodwyd y mater gan Mr Jeffreys, Miss Evans, Mr Davies a Mr Evans a phenderfynwyd galw ar Mr Matthews, y Swyddog Addysg Rhanbarthol. Cyrhaeddodd Mr Matthews, darllenodd y papurau a gasglwyd gan Mr Jeffreys a "chymerodd y mater i'w ddwylo ei hun"⁷.
- 11.8 Bu i'r athrawon hyn yn amlwg weithredu â gonestrwydd a sensitifrwydd tuag at y disgyblion. Mae'n syndod i ryw raddau bod y disgyblion yn barod i rannu gymaint ag y gwnaethant gydag uwch aelodau o'r staff ac mae hyn yn glod iddynt a'u dulliau gweithredu. Er hyn, fel y nodaf mewn man arall, mae'n well i arbenigwyr o'r heddlu gynnal ymchwiliadau o'r fath. Fodd bynnag, fel y bu, gweithredodd yr uwch athrawon yn dda.
- 11.9 Yn wir, roedd gweithredodd yr uwch athrawon yn y cyfnod hwn yn cynrychioli ychydig o oleuni yn y tywyllwch cyffredinol yng nghyd-destun y dystiolaeth a ddygwyd gerbron fy Ymchwiliad. Rwyf yn cymeradwyo eu proffesiynoldeb a'u dewrder moesol ar yr adeg dyngedfennol hon. Gyda doethineb trannoeth, dylid bod wedi galw'r heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol ond roedd yn ofynnol iddynt, yn ôl y gweithdrefnau, gysylltu â'r Swyddog Addysg Rhanbarthol.
- 11.10 Awgrymwyd, ar ran Mr Matthews yn enwedig, y dylai'r Pennaeth dros dro, Mr Jeffreys a'r uwch athrawon a lofnododd yr adroddiad yn Atodiad 4, fod wedi cyfeirio'r materion at yr heddlu a/neu'r gwasanaethau cymdeithasol eu hunain.

Er na fuaswn yn dymuno gweld athrawon yn methu â chyfeirio materion o'r fath mewn amgylchiadau tebyg yn y dyfodol, nid wyf o'r farn bod llawer o sylwedd yn y pwynt hwn, os o gwbl, yng nghyd-destun fy Ymchwiliad. O ystyried y gweithdrefnau a oedd ar waith ar yr adeg berthnasol, roedd cyfrifoldeb clir ar Mr Jeffreys yn benodol i gynnwys yr awdurdod addysg lleol yn y mater. Cyflawnwyd y ddyletswydd honno ac yn sgîl hyn, cymerodd Mr Matthews y mater i'w ddwylo ei hun, fel ag y gwnaeth yn fy marn i. Buasai'n afrealistig disgwyl i Mr Jeffreys gyfeirio'r mater at yr heddlu a/neu'r gwasanaethau cymdeithasol cyn mynd at yr awdurdod addysg lleol ac yr un mor afrealistig disgwyl i Mr Jeffreys, neu unrhyw athro arall, wneud cyfeiriad o'r fath ar ôl i Mr Matthews ei wneud yn glir ei fod yn cymryd cyfrifoldeb dros y mater, fel ag y gwnaeth yn fy marn i.

11.11 Gwrthodaf unrhyw awgrym bod y cyfrifoldeb dros yr hyn a aeth o'i le, sef rhywbeth a briodolaf i ddiffyg gweithredu ar ran Mr Matthews a gweithredoedd Mr Roberts, wedi ei lastwreiddio mewn unrhyw ffordd gan y ffaith bod Mr Jeffreys, neu unrhyw athro arall, wedi methu â gweithredu gan gyfeirio'r mater at yr heddlu a/neu'r gwasanaethau cymdeithasol cyn mynd at yr awdurdod addysg lleol, neu, yn yr un modd, ar ôl i Mr Matthews ddod yn rhan o'r mater. Nid wyf yn ystyried y gallai Mr Jeffreys neu unrhyw athro arall fod wedi rhagweld sut y byddai Mr Matthews a Mr Roberts yn ymdrin â'r mater hwn. At hynny, byddai datganiadau preifat a chyhoeddus Mr Matthews a Mr Roberts, y cyfeirir atynt mewn man arall, wedi peri i Mr Jeffreys a'r athrawon eraill, a oedd yn meddu ar rywfaint o wybodaeth ynghylch yr hyn a ddywedwyd gan y plant, gredu bod yr awdurdod addysg lleol yn ymdrin â'r mater yn y ffordd briodol.

11.12 Fel cynnig cyffredinol, mae'n bwysig at ddibenion amddiffyn plant bod y rheini y cyfeirir cwynion atynt yn teimlo cyfrifoldeb gwirioneddol i ymdrin â'r fath gwynion yn briodol os byddant yn codi materion amddiffyn plant. Ni ddylid gwanhau cyfrifoldeb o'r fath yn ddamcaniaethol neu'n ymarferol gan allu'r rheini y mae cyfrifoldeb arnynt i weithredu i ddweud "Nid fy mai i ydoedd mewn gwirionedd, dylai'r rheini a gyfeiriodd y mater ataf fod wedi gwneud mwy".

Os derbynnir dadl o'r fath i unrhyw raddau perthnasol mae'n bosibl y byddai'n atal pobl rhag mynegi pryderon pwysig rhag ofn y cânt hwythau eu beirniadu am beidio â gwneud digon. Yn aml, gwybodaeth gyfyngedig sydd gan y rheini sy'n mynegi pryderon. Yr hyn sydd ei angen yw system lle bydd y rheini y cyfeirir cwyn atynt yn gweithredu'n gyfrifol, yn rhannu gwybodaeth ac yn llawn sylweddoli eu rhwymedigaethau penodol.

11.13 Cymerodd Mr Jeffreys rôl arweiniol wrth baratoi adroddiad yr uwch staff⁸ a lofnodwyd gan y tri aelod o staff a grybwyllwyd gennyf, ynghyd â Mr Pritchard Jones a Dr Phil Ellis. Lluniwyd y ddogfen bwysig iawn hon, a roddwyd i Mr Matthews, ar ôl cymryd pob un o ddatganiadau'r plant. Roedd yn glir, wedi'i hysgrifennu'n dda ac yn ddiamwys (Atodiad 4).

- 11.14 Cymerodd gryn ddewrder i baratoi a llofnodi'r adroddiad hwn. Disgrifiodd Mr Jeffreys ei deimladau "o'n i'n sylweddoli fod ni'n croesi'r 'Rubicon' wrth roi'r adroddiad yma"⁹.

Cymeradwyaf y staff addysgu a fu'n rhan o'r broses. Roeddent oll yn gydweithwyr i Mr Owen, ac mewn cyswllt proffesiynol a phersonol iddo i amrywiol raddau. Nid oedd Dr Ellis, er enghraifft, wedi cymryd datganiadau na darllen pob un o ddatganiadau'r plant, ond roedd ganddo ddigon o hyder yn ei gydweithwyr i ychwanegu ei lofnod. Cofia Mr Davies iddo fod yn "hapus (ei fod) wedi cyflawni'i ddyletswydd"¹⁰ ar ôl cyfieithu nifer o ddatganiadau'r plant i Mr Matthews.

- 11.15 Wrth ystyried fy argymhellion ni allaf dybio y bydd uwch aelodau o staff mewn ysgol bob amser yn gallu neu'n barod i arddangos ymdeimlad clir o gyfrifoldeb a dewrder moesol a ddangoswyd gan y rheini a lofnododd yr adroddiad hwn.

- 11.16 Mae'n gofyn gryn dipyn gan staff proffesiynol i gymryd camau pendant yn erbyn buddiannau cydweithiwr y mae ei waith yn cael ei ystyried yn werthfawr ganddynt fel arall. Mae RhYLI wedi gosod pwysau mawr ar staff a llywodraethwyr yn hyn o beth.

- 11.17 Roedd pob un o'r pum uwch athro a lofnododd yr adroddiad o dan gyfarwyddyd clir gan Mr Matthews i beidio â thrafod y dystiolaeth y tu allan i'r grŵp. Ni roddodd Mr Matthews wybod i'r un ohonynt am ei ymchwiliad, ac eithrio'r trefniadau dros gymryd datganiadau gan y plant a'r dulliau o wneud hynny.

- 11.18 Mae'n berthnasol gofyn a ddylai unrhyw un a oedd yn rhan o'r ymchwiliad fod wedi rhoi mwy o sylw i anghenion y disgyblion. Mr Jeffreys oedd y Pennaeth dros dro ar y pryd a gallai fod wedi cynnwys swyddog lles addysgol. Dangosodd Mr Jeffreys ymwybyddiaeth glir o'r hyn a ddiodefwyd gan y plant yn ystod ei dystiolaeth lafar, ond roedd hefyd yn onest iawn ynghylch ei ddymuniad ar y pryd i ddychwelyd i normalrwydd cyn gynted â phosibl, yn enwedig yn dilyn ymddiswyddiad Mr Owen.

Dof i'r casgliad y gellid bod wedi gwneud mwy o ymdrech i gefnogi'r disgyblion ac y dylid bod wedi gwneud hynny, yn enwedig y rheini a wnaeth y datganiadau ar y pryd.

- 11.19 Buasai hefyd wedi bod yn ddoeth rhoi syniad o ryw fath i'r disgyblion yn gyffredinol ynghylch yr hyn a oedd yn mynd ymlaen. Roedd y cyfrifoldeb gwirioneddol am hyn yn nwylo'r rheini na pharhaodd â'r ymchwiliad a'r gwrandawriad disgyblu. Heb unrhyw ganfyddiadau ffeithiol, mae'n anodd iawn gweld beth y gallai'r uwch athrawon fod wedi dweud wrth y plant am yr honiadau yn erbyn Mr Owen.

- 11.20 Er ei bod yn amlwg bod y rheini a lofnododd yr adroddiad yn credu'r plant, ni dderbyniodd y plant eu hunain y tawelwch meddwl hwnnw. Gobeithiaf y bydd fy argymhellion yn sicrhau na fydd hynny'n digwydd eto.
- 11.21 Yn yr un modd, gadawyd staff eraill yn yr ysgol yn ddiamddiffyn gan na fu i'r Pennaeth dros dro roi gwybod iddynt ynghylch yr hyn a honnwyd. Mae'n debygol y gallai Mr Jeffreys fod wedi dod o hyd i ffordd o wneud hyn ond dehonglodd orchymyn Mr Matthews i gadw'n dawel mewn modd caeth iawn. Roedd yr amgylchiadau'n anodd i aelodau eraill o'r uwch staff, yn enwedig pan yrrwyd un o'r disgyblion dan sylw o'r ysgol, i bob pwrpas, gyda chanlyniadau dinistriol i'w chynnydd academaidd.
- 11.22 Yn y sefyllfa a oedd ohoni, roedd yn eironig nad oedd gan Mr Matthews unrhyw awdurdod uniongyrchol mewn gwirionedd i roi cyfarwyddiadau i'r Pennaeth dros dro neu'r uwch staff weithredu mewn unrhyw ffordd.
- Mae'n glir y rhoddwyd cymaint o barch i awdurdod tybiedig Mr Matthews a Mr Roberts fel na fu i'r uwch staff dan sylw ddatgelu unrhyw faterion hyd yn oed ar ôl i Mr Owen ymddiswyddo a gadael Ysgol Gyfun Rhydfelen.
- 11.23 Nid aeth Mr Jeffreys at y llywodraethwyr ar ôl i Mr Owen ymddiswyddo er ei fod yn derbyn y byddai wedi bod yn syniad da petaent wedi derbyn rhyw fath o adroddiad. Fel Pennaeth Dros Dro, roedd ganddo gyfrifoldeb i wneud hynny. Fodd bynnag, roedd y trefniadau rheoli llinell arferol wedi'u torri, i bob pwrpas, gan yr awdurdod addysg lleol yn ystod y cyfnod dan sylw. Mr Roberts, y Cyfarwyddwr Addysg, a gyflwynodd adroddiad i'r Llywodraethwyr ac rwyf yn ymdrin â hyn mewn man arall.
- 11.24 Roedd Mr Jeffreys yn amlwg o dan yr argraff bod yn rhaid iddo ufuddhau i gyfarwyddyd gan Mr Matthews a bu iddo ufuddhau i'r rhwymedigaeth honno i'r llythyren olaf. Roedd hyn yn gamgymeriad ar ei ran.
- 11.25 Petai Mr Matthews wedi deliio'n briodol iawn â'r mater fel mater amddiffyn plant, buasai'r gweithdrefnau wedi sicrhau ymchwiliad mwy priodol gyda chanfyddiadau ffeithiol ar safon droseddol a/neu sifil o brawf. Wedyn byddai'r cyfyngder a wynebwyd gan yr uwch athrawon wedi'i osgoi ac ni fyddai eu greddf naturiol a phroffesiynol o amddiffyn a gofalu am y plant wedi'i llesteirio gymaint.
- 11.26 Ar ôl ystyried yr holl feirniadaeth a fu o'r grŵp hwn o athrawon a wnaed yn fy Ymchwiliad a thu allan iddo, dof i'r casgliad i'w camau gweithredu cychwynnol fod yn gymeradwy ac yn gyffredinol gyson â'r polisïau a'r arfer gorau ym maes amddiffyn plant ar y pryd. Roedd y staff hyn yn llawn gofal tuag at y plant gan ymdrechu i'w cefnogi mewn amgylchiadau anodd a dryslyd.

Casgliadau – Staff Ysgol Gyfun Rhydfelen

- 11.27 Yn ddiau nid oedd dulliau rheoli Ysgol Gyfun Rhydfelen gyda'r gorau ar rai adegau a arweinai at ddigwyddiadau 1991. Yn arbennig, Mr Peter Davies oedd pennaeth yr adran ddrama, person na allai fonitro na rheoli gweithgareddau Mr Owen o gwbl. Teimlai'r Pennaeth Adran hwnnw hefyd fod dylanwad Mr Owen gymaint na fyddai unrhyw bryderon y gallasai fod wedi'u mynegi wedi cael eu trin mewn modd effeithiol.
- 11.28 Roedd y Pennaeth, Mr Jones, yn ymwybodol o ddigwyddiadau a ddylai fod wedi codi pryderon difrifol ac ni chymerwyd camau effeithiol ynghynt pan oedd tystiolaeth glir yn awgrymu y dylid bod wedi gwneud hynny.
- 11.29 Roedd gan athrawon eraill yn yr ysgol ryw ymwybyddiaeth o'r digwyddiadau a ddylai fod wedi ysgogi pryder, ond ymddengys na fu i'r wybodaeth honno gael ei rhannu, na'i hystyried fel cyfanwaith gan unrhyw un, tan fy Ymchwiliad i. Ni chymerwyd camau priodol ym 1991. Mae eraill yn fwy cyfrifol am hyn, ond buasai wedi bod yn bosibl i wybodaeth am yr honiadau gael ei rhannu, ar lefel briodol, o fewn y staff ym 1991. Buasai hynny wedi atal llawer ohonynt rhag credu 'nad oedd llawer' yn y cwynion a hwyrach wedi'u harwain at roi'r gefnogaeth briodol i'r plant yr oedd ganddynt ddyletswydd gofal tuag atynt. Yn hytrach, arweiniodd y diffyg gwybodaeth, ynghyd â theyrngarwch proffesiynol cyfeiliornus tuag at gydweithiwr, i rai ohonynt ysgrifennu llythyron i gefnogi Mr Owen ac i ddau athro a nodir mewn man arall ymddwyn yn wael tuag at ddisgyblion a oedd wedi cwyno.
- 11.30 Deallaf fod Ysgol Gyfun Rhydfelen bellach wedi cyflwyno gweithdrefnau, systemau a chanllawiau a fyddai'n ei gwneud yn llawer anoddach i rywun fel Mr Owen weithredu fel y gwnaeth.
- 11.31 Mae cyd-athrawon yn debygol o fod mewn sefyllfa dda i nodi unrhyw ymddygiad amheus gan gydweithwyr tuag at blant. Er mwyn amddiffyn plant yn iawn mewn sefydliadau addysgol ac o'u cwmpas, mae'n hanfodol bod athrawon yn deall patrymau ymddygiad a allai ddynodi cam-drin plant. Gallai'r disgrifiad o gymeriad a gweithredoedd Mr Owen a geir ym Mhennod 3: Mr John Arwyn Owen fod o ddefnydd yn hyn o beth.

Argymhellion

- 11.32 **Argymhellaf y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru a'r DfES gymryd camau i sicrhau bod athrawon yn derbyn gwybodaeth arbenigol yn eu rhaglen hyfforddi cymhwyso proffesiynol ynglŷn â'r modd y mae'r rheini sy'n cam-drin yn gweithredu a bod canfyddiadau'r adroddiad hwn yn ffurfio rhan o'r hyfforddiant hwnnw, ac y dylid gweithredu'r argymhelliad hwn o fewn 2 flynedd i gyhoeddi'r adroddiad hwn.**
- 11.33 **Argymhellaf y dylai awdurdodau addysg lleol a Phwyllgorau Ardal Amddiffyn Plant ystyried sut y gellir darparu hyfforddiant sefydlu, mewnol a glojwi ym maes amddiffyn plant yn rheolaidd.**
- 11.34 Mae'n bosibl hefyd bod athrawon a staff nad ydynt yn addysgu yn teimlo na allant gofnodi pryderon ynghylch cydweithwyr mewn lleoliad mor gyfyngedig a chlos ag ysgol neu sefydliad addysg bellach. Hwyrach eu bod yn pryderu iddynt gofnodi'r peth ac nad ymdriniwyd â'r mater yn briodol.

Argymhellion

- 11.35 **Argymhellaf y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi canllawiau, o fewn 6 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, er mwyn ei gwneud yn ofynnol bod gan lywodraethwyr pob ysgol, boed yn ysgol gymuned, yn cael ei rhedeg â chymorth gwirfoddol, wedi'i rheoli'n wirfoddol, yn ysgol sylfaen neu'n ysgol annibynnol a cholegau addysg bellach, bolisi datgelu cyfrinachau ar waith ac y rhoddir gwybod i'r holl athrawon a staff nad ydynt yn addysgu ynglŷn â'r modd y'i gweithredir.**
- 11.36 **Argymhellaf y dylai pob athro ac aelod o staff nad ydynt yn addysgu, o gael ei benodi mewn unrhyw ysgol neu goleg addysg bellach yng Nghymru, dderbyn cyfarwyddyd ysgrifenedig ac ar lafar ar weithdrefnau datgelu cyfrinachau a'r modd i'w gweithredu. Dylid atgyfnerthu hyn yn rheolaidd wedi hynny.**
- 11.37 Gwnaf argymhellion pellach o ran hyfforddiant athrawon ym Mhennod 19: Rhieni'r Plant a Phennod 20: Plant Ysgol Gyfun Rhydfelen, ac argymhellion o ran cynnal ymchwiliadau a gwrandawiadau disgyblu ym Mhennod 14: Llywodraethwyr Ysgol Gyfun Rhydfelen.
- 11.38 Gwneir argymhellion penodol o ran rôl CBAC wrth gymeradwyo testunau drama a chynnal arholiadau ymarferol ym Mhennod 15: Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru.

Pennod 12

Miss Theda Williams

12.1 Bu Miss Theda Williams yn dysgu Saesneg yn Ysgol Gyfun Rhydfelen am 31 o flynyddoedd gan ddechrau ar ei gyrfa ym mis Medi 1971. Fe'i penodwyd yn Bennaeth yr Adran Saesneg ym 1974, swydd a ddaliodd tan iddi ymddeol oherwydd salwch yn ystod fy Ymchwiliad.

12.2 Mae'n amlwg i Miss Williams newid ei barn yn gyfan gwbl am Mr Owen o ganlyniad i glywed y dystiolaeth a gyflwynwyd i mi. Yn ei datganiad ysgrifenedig cyntaf, a roddwyd ar 31 Mawrth 2002, dywedodd y canlynol am y cyn-ddisgyblion a wnaeth honiadau:

"Yn yr holl flynyddoedd yr wyf wedi eu hadnabod, ni chefais unrhyw argraff o gwbl, naill ai drwy eu hymarweddiad nac yn ystod y llu o sgysiau a gawsom yn ystod y cyfnod hwn, i unrhyw un ohonynt deimlo'n anghyfforddus, yn ofnus, nac o dan fygythiad o gwbl nac yn anniddig mewn unrhyw ffordd yng nghwmni John nac wrth siarad amdano"¹.

Ac am Mr Owen ei hun:

"Roeddem mewn perthynas am flynyddoedd lawer ac roeddem yn parhau i fod yn ffrindiau pennaf tan ei farwolaeth"².

12.3 Ar y diwrnod y rhoddodd dystiolaeth lafar i'r Ymchwiliad (19 Mai 2003), darllenodd Miss Williams ddatganiad wedi ei baratoi lle y dywedodd:

"Dim ond yn ystod yr Ymchwiliad hwn y deuthum i wybod am wir natur y digwyddiadau a arweiniodd at ymddiswyddiad John ym 1991. Maent yn frawychus, yn anfaddeuol ac ni ellir eu hamddiffyn. Dros y flwyddyn ddiwethaf cefais fy mriфо a'm dadrithio droeon ynglŷn â John ac yn awr derbyniaf fod maint y dystiolaeth yn ei erbyn yn aruthrol. Bu'n rhaid i mi gyfaddef i mi fy hun bod y person yr oeddwn yn ei ystyried fel fy nghyfaiлл pennaf am 27 o flynyddoedd ac a roddodd gymaint i mi, yn ddieithryn i mi mewn sawl ystyr ac i minnau, hefyd, gael fy nhwylo ganddo"³.

12.4 Ac eithrio'r honiad a gyffredinolwyd ei bod yn cefnogi Mr Owen, beirniadwyd Miss Williams gan rai a bu'n destun yr honiadau penodol canlynol sy'n berthnasol i Gylch Gorchwyl fy Ymchwiliad. Awgrymwyd iddi:

- (i) fod yn dyst i nifer o agweddau ar ymddygiad Mr Owen a ddylai fod wedi codi pryderon difrifol am les disgyblion, ac iddi wybod am rai ohonynt, a dywedwyd y dylai fod wedi gweithredu mewn ymateb iddynt
 - (ii) rhoi copïau o ddatganiadau'r plant i Mr Owen ac iddi chwarae rhan uniongyrchol yn y dasg o baratoi ei ddogfen wrthbrawf
 - (iii) ymddwyn ym amhriodol tuag at rai disgyblion, gan gynnwys ymosod ar rai a gwrthod siarad â hwy ac eraill.
- 12.5 Yn ei thystiolaeth dywedodd Miss Williams mai'r tro cyntaf iddi glywed am gwynion yn erbyn Mr Owen oedd ychydig cyn 11 Ionawr 1991 pan ddywedodd wrthi y cafwyd cwyn gan riant wedi iddo roi ffræe i ferch am nad oedd wedi dysgu ei llinellau ar gyfer ei harholiad ymarferol Safon Uwch⁴. Ar 11 Ionawr 1991 dywedodd wrthi iddo gael ei atal o'i swydd.
- 12.6 O ran 12.4 (i) uchod, gwnaed honiadau fod Miss Williams wedi bod yn dyst, neu fod ganddi wybodaeth uniongyrchol am:
- (i) Mr Owen yn bwlio ac yn brawychu disgyblion yn gyffredinol
 - (ii) ymddygiad amhriodol (yn cynnwys noethni, efelychu cyfathrach rywiol a chanu cân anwedus) mewn sesiynau ac arholiadau drama ymarferol
 - (iii) disgybl yn aros dros nos mewn ystafell gyda Mr Owen ar daith i Lundain
 - (iv) disgyblion yn aros ar eu pen eu hunain gyda Mr Owen yn ei gartref.
- 12.7 Cytunodd Miss Williams yn ei thystiolaeth lafar (ond nid yn ei datganiad gwreiddiol) fod Mr Owen yn "hynod o rymus...gallai fod yn ormesol"⁵ a dywedodd y gallai "ddeall y gallai rhai pobl ei ofni"⁶, ac "yn sicr gallai fod yn fwli"⁷. Fodd bynnag, dywedodd hefyd iddi ei herio am hyn ar brydiau ac nad oedd yr ymddygiad y bu hi'n dyst iddo yn ddigon difrifol i gyfiawnhau cymryd camau pellach. "Nid oedd arwyddion clir o gwbl"⁸.
- Gwadodd Miss Williams ei bod yn cofio honiad penodol i Mr Owen gerdded i mewn i'w dosbarth ar un achlysur a sarhau Disgybl 1 yn ei gŵydd.
- 12.8 Dof i'r casgliad i Miss Williams fod yn dyst i batrwm cyffredinol o ymddygiad tuag at ddisgyblion gan Mr Owen a ddylai fod wedi peri iddi rannu ei phryderon ag uwch staff. Mae hi ei hun yn haeru fod gan Mr Owen "lawer gormod o ddylanwad"⁹ dros y disgyblion, ac yr arferai fod yn blentynnaidd iawn, y "byddai'n ffræo gyda disgyblion"¹⁰ a'i fod "yn abl iawn i ddal dig"¹¹. Yn gyffredinol, cydnabu y "dylai fod wedi cael ei ffrwyno"¹².

- 12.9 Roedd y cyfleoedd a gafodd i godi pryderon yn llai na chyfleoedd pobl eraill yn hyn o beth. Roedd hyn oherwydd bod Miss Williams yn Bennaeth ar adran wahanol o fewn yr ysgol ac mae'n rhaid bod eraill wedi bod yn dyst i fwy o ddigwyddiadau a gydnabuwyd yn gyffredinol fel elfen o fwlio yn ymddygiad Mr Owen tuag at blant. Serch hynny, mae angen nodi y dylai pob aelod o staff mewn ysgol sicrhau mai eu dyletswydd o ofal tuag at y plant ddylai fod flaenaf yn eu meddyliau, hyd yn oed os yw'r sawl sy'n destun pryder yn gyfaill personol yn ogystal â chydweithiwr proffesiynol. Byddai Mr Owen yn fwy tebygol o fod wedi cael ei 'ffrwyno' pe bai rhagor o athrawon wedi rhannu eu pryderon amdano. Ymdriniaf ym Mhennod 11: Staff Ysgol Gyfun Rhydfelen, â sut y gellid helpu athrawon i ddefnyddio gweithdrefnau 'datgelu cyfrinachau' a sut i'w gweithredu.
- 12.10 O ran ymddygiad amhriodol mewn sesiynau ac arholiadau drama ymarferol, mae Miss Williams yn cydnabod iddi fynychu nifer ohonynt (5 neu 6) ar gyfer arholiadau Safon Uwch. Mae'n werth nodi nad oedd Miss Williams yn gwneud y gwaith hwn fel rhan uniongyrchol o'i dyletswydd fel Pennaeth yr Adran Saesneg, ond oherwydd, meddai, ei dymuniad i gefnogi disgyblion.
- 12.11 Gwadodd Miss Williams yn barhaus iddi weld unrhywbeth amhriodol yn digwydd ar unrhyw achlysur a gwadodd yn benodol iddi fod yn dyst i noethni, lled-noethni neu gynnwys dramatig or-rywiol. Rhoddodd sawl tyst dystiolaeth ei bod yn bresennol mewn sesiwn ymarferol benodol o 'Blodeuwedd' lle y perfformiwyd dawns yn ystod egwyl a oedd yn cynnwys lled-noethni neu noethni. Dof i'r casgliad ym Mhennod 15: Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru i'r ddawns hon gael ei pherfformio gan blant a oedd yn gwisgo rhywfaint o ddillad.
- 12.12 Gwadodd Miss Williams iddi fod yn bresennol, gan nodi fel tystiolaeth y ffaith i hyn ddigwydd yn ystod cyfnod rhwng 13 Tachwedd 1989 a Medi 1990 pan oedd ar gyfnod salwch o ganlyniad i broblem ddifrifol gyda'i chefn. Fodd bynnag, derbyniodd iddi fynychu cyfarfod cwricwlwm yn yr ysgol ym mis Gorffennaf 1990¹³.
- Dof i'r casgliad, ar sail pwysau tebygolrwydd, mai cofnod y cyn-ddisgyblion yw'r cofnod mwyaf cywir a bod Miss Williams yn bresennol yn arholiad ymarferol Disgybl 5. Credaf fod atgof Miss Williams yn anghywir yn y cyswllt hwn.
- 12.13 Fodd bynnag nid yw'r ffaith iddi fod yn bresennol yn yr arholiad ymarferol o anghenraid yn golygu iddi fod yn dyst i'r ddawns lled-noeth. Rhoddwyd tystiolaeth a awgrymodd fod cryn dipyn o ddryswch yn yr arholiadau hyn, gydag unigolion yn symud i mewn ac allan o'r ystafell ac ni chlywais unrhyw dystiolaeth gref i Miss Williams fod yn dyst i'r ddawns.
- 12.14 Nododd Miss Williams hefyd na wyddai am y problemau a gafodd yr adran ddrama gyda sgriptiau ac arholiadau ymarferol gan CBAC. Dof i'r casgliad fod hyn yn debygol gan ei bod mewn adran cwbl wahanol. Efallai fod ei

chyfeillgarwch clos gyda Mr Owen yn awgrymu y gallai fod wedi rhannu hyn gyda hi, ond nid oes tystiolaeth iddo wneud hynny. Mae'n amlwg y byddai'n annhebygol o wneud hynny os oedd yn ceisio celu gwybodaeth oddi wrth Miss Williams ac mae yr un mor amlwg bod hyn yn rhywbeth a wnaeth yn bendant.

- 12.15 O ran 12.6 (iv), derbyniodd Miss Williams fod ganddi gryn dipyn o wybodaeth am ddisgyblion yn aros dros nos, ar eu pen eu hunain, gyda Mr Owen. Gwyddom fod rhai o'r disgyblion dan sylw yn honni i ymosodiadau rhywiol difrifol ddigwydd ar rai o'r achlysuron hyn.
- 12.16 Nododd Miss Williams yn ei thystiolaeth ei bod yn cofio un daith i Lundain gyda Mr Owen, dau ddisgybl (Disgybl 7 a Disgybl A) a hithau. Cofiai mai dim ond dwy ystafell a archebwyd ac iddi hi rannu ystafell gyda Disgybl 7 ac i Mr Owen rannu ystafell gyda Disgybl A¹⁴. Honnodd yr olaf bod hwn yn achlysur lle y cafodd ei gam-drin yn rhywiol ac i Mr Owen fynd ag ef i sinema bornograffig yn Soho ar ôl gweld y ddrama y trefnwyd y daith ar ei chyfer. Honnir ymhellach i Miss Williams fynd gyda Mr Owen a disgybl i siop ryw. Nid wyf wedi fy modloni i Miss Williams fynd gyda Mr Owen a disgybl i siop ryw. Ymddengys i mi fod ymddygiad o'r fath yn anghyson gyda barn ac ymddygiad cyffredinol Miss Williams ac nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael yn ddigon i gefnogi canfyddiad yn erbyn y cefndir hwnnw.
- 12.17 Gwadodd Miss Williams ei bod yn gwybod am y daith i Soho, nac i unrhyw beth amheus ddigwydd a allai fod wedi awgrymu camdriniaeth. (Byddai wedi bod yn bosibl i'r daith i Soho fod wedi digwydd heb yn wybod iddi). Dywedodd y byddai, gyda doethineb drannoeth, yn cynghori athrawon newydd i beidio â rhoi eu hunain yn y fath sefyllfa.
- 12.18 Cydnabu Miss Williams hefyd ei bod yn ymwybodol o deithiau pan fyddai Mr Owen yn mynd i Lundain gyda disgyblion eraill ar ei ben ei hun. Nododd bod y trefniadau cysgu yn fwy priodol ar y teithiau eraill yr aeth arnynt pan ddefnyddiwyd hosteli ieuenctid¹⁵. Dywedodd nad oedd yn ymwybodol o'r trefniadau cysgu ar y teithiau na fu iddi eu mynychu ac nad ystyriodd fod dim yn rhyfedd ynghylch y ffaith bod Mr Owen yn trefnu teithiau o'r fath¹⁶. Cydnabu, o edrych yn ôl, fod hyn yn rhoi'r bobl ifanc hynny mewn sefyllfa o risg. Ar yr amser perthnasol, nid oedd Miss Williams wedi derbyn unrhyw hyfforddiant amddiffyn plant.

12.19 Nododd Miss Williams ei bod yn ymwybodol fod Disgybl B yn aros dros nos gyda Mr Owen yn ei dŷ heb neb arall yn bresennol am gyfnod o amser. Dywedodd nad oedd o'r farn fod hyn yn nodedig nac yn destun pryder ar y pryd, gan ychwanegu ei bod yn ymwybodol o amgylchiadau teuluol anodd Disgybl B gan mai hi oedd Athrawes Ddosbarth brawd Disgybl B¹⁷. (Honna Disgybl B iddo gael ei gam-drin yn ddifrifol iawn gan Mr Owen am gyfnod o rhwng dwy a thair blynedd). Yn y cyd-destun hwn, roedd Miss Williams yn credu bod Mr Owen yn rhoi sylw arbennig iddo fel "rhan o'i addysg"¹⁸. Cydnabu "o edrych yn ôl, gallaf weld bod rheswm arall"¹⁹. Efallai fod angen i athrawon fod yn fwy ymwybodol y bydd pobl sy'n cam-drin yn aml yn dewis y rhai gydag amgylchiadau teuluol 'anodd' a'u targedu i'w cam-drin, gan fanteisio ar eu cythrwfl emosiynol.

Roedd hi hefyd yn ymwybodol fod gan Mr Owen ffotograff maint poster o Ddisgybl C ar y wal yn ei ystafell fyw. Unwaith eto, dywedodd Miss Williams nad oedd hyn yn destun pryder iddi ar y pryd.

12.20 Cydnabu hefyd ei bod yn ymwybodol i Ddisgybl D aros gyda Mr Owen yng nghartref un o berthnasau'r athro hwnnw tra'n mynychu'r Eisteddfod yn Llanrwst²⁰. Dywedodd, fodd bynnag, nad oedd yn ymwybodol iddynt rannu'r un ystafell wely.

12.21 Er mwyn ystyried a ddylai'r amgylchiadau pan arhosodd disgyblion gyda Mr Owen fod wedi codi amheuan dybryd ym meddwl Miss Williams credaf ei bod yn angenrheidiol imi ganfod ffaith ynghylch gweithredoedd Mr Owen.

12.22 Rwyf wedi osgoi gwneud hynny yn y rhan fwyaf o'm hadroddiad gan fy mod wedi fy narbwylllo i raddau helaeth gan resymeg rymus Cwnsler ystad Mr Owen, Mr Goldwater, a gyflwynwyd yn ei argymhelliad terfynol. Mae'n gywir i nodi nad oes angen cyffredinol i mi wneud canfyddiadau ffeithiol penodol am honiadau o gam-drin yn erbyn ei glient.

12.23 Fodd bynnag, ar yr achlysur hwn, credaf ei bod yn angenrheidiol ac yn rhesymol i wneud hynny yn y ffordd y'i gwnaf ac i'r graddau y'i gwnaf. Yn unol â'm Cylch Gorchwyl, ceisiaf sefydlu p'un a wnaed popeth y gellid bod wedi ei wneud i amddiffyn plant ar y pryd a chyflwynaf argymhellion i wella diogelwch plant yn y dyfodol.

12.24 Wrth ystyried p'un a ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol i Miss Williams fod yn fwy pryderus ynghylch y trefniadau cysgu a amlinellais, mae angen i mi lunio rhai casgliadau am yr hyn a ddigwyddodd.

12.25 Os, yn yr achos hwn, na luniaf unrhyw gasgliadau, ni allaf werthuso'n llawn resymoldeb gweithredoedd Miss Williams. Yn gryno, oni phenderfynaf a fu i Mr Owen wneud unrhyw beth anghyfiawn ac, os felly, beth a wnaeth yn anghyfiawn ar yr achlysuron hyn, mae'n anodd asesu i ba raddau y dylai amheuan fod wedi codi ym meddwl Miss Williams. Ar bob adeg, ni ddylid tybio unrhyw beth yn erbyn Mr Owen oni phofir hynny. At hynny, onid oes cefndir o ymddygiad y gellir ei feirniadu gan Mr Owen, byddai gwneud argymhelliad yn ymddangos yn ddi-alw-amdano.

- 12.26 Am y rhesymau hyn ac ar y sail gyffredinol a nodir ym Mhennod 2: Canfyddiadau Ffeithiol, nodaf ar sail pwysau tebygolrwydd i Mr Owen gam-drin o leiaf rai o'r disgyblion yn rhywiol, ar rai achlysuron pan oeddent yn aros dros nos gydag ef. Seiliaf y canfyddiad hwn ar dystiolaeth y cyn-ddisgyblion eu hunain a'r ffordd y bu iddynt ymddwyn wrth gael eu croesholi.
- 12.27 Dof i'r casgliad hefyd ei bod yn syndod nad oedd Miss Williams yn fwy ymwybodol ar y pryd o'r peryglon a oedd yn gysylltiedig â'r achosion hyn o aros dros nos. Wedi dweud hynny, roedd oedolion eraill yn gwybod am rai ohonynt hefyd ac yn ôl pob tebyg yr un mor ddibryder. Fel cyfaill agos a chydweithwraig i Mr Owen, cafodd Miss Williams fwy o gyfle na'r rhan fwyaf o bobl i lunio amheuan am ymddygiad Mr Owen.
- 12.28 Fodd bynnag, derbynnir yn gyffredinol bod y rhai sy'n cam-drin plant yn aml yn gallu twyllo eu cyfeillion pennaf hyd yn oed a chredaf, fel y gwna hithau nawr, i Mr Owen dwyllo Miss Williams. Er bod doethineb trannoeth yn caniatáu i ni ddweud bod y patrwm hwn o aros dros nos yn amlwg yn rheswm cryf dros amau Mr Owen (yn arbennig o'i ystyried yng nghyd-destun yr agweddau eraill ar ei ymddygiad), credaf fod Miss Williams yn dweud y gwir wrth ddweud nad oedd yn ei amau.
- 12.29 Credaf y dylai disgyblion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol a theithiau ysgol gael eu monitro a'u rheoleiddio'n fanylach nag y gwnaed gyda gweithgareddau a theithiau oedd yn gysylltiedig â Mr Owen, ond nid wyf am wahardd unrhyw gyswllt allgyrsiol yn fwy nag sydd ei angen er budd diogelwch disgyblion. Gallai gwneud hynny atal yn ddifrifol ac yn ddiangen y cymorth aruthrol y mae rhai athrawon yn ei roi y tu allan i oriau ysgol a byddai hyn yn groes i'm dibenion cyfreithlon.
- 12.30 Rhaid i mi arfer barn mewn perthynas â'r pethau hynny er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng y gofyniad i amddiffyn ar un llaw a diogelu cyswllt allgyrsiol rhwng athrawon a disgyblion ar y llaw arall.
- 12.31 O ran 12.4 (ii), haerodd Miss Williams yn bendant ac yn gyson na chwaraeodd unrhyw ran yn y broses o alluogi Mr Owen i gael gafael ar y datganiadau a wnaed gan y plant. Yr unig dystiolaeth yr wyf wedi ei chlywed a awgrymodd iddi fod yn gysylltiedig â hyn mewn unrhyw fodd oedd tystiolaeth Disgybl G. Honnodd pan aeth i weld Mr Owen, fwy na thebyg ddau ddiwrnod ar ôl rhoi ei ddatganiad i Mr Matthews, bod gan yr athro gopïau o bob un o ddatganiadau'r plant a dywedodd Mr Owen i Miss Williams wneud copïau o'r holl ddatganiadau iddo eu darllen²¹.

Dywedodd Disgybl G hefyd yn ei dystiolaeth ei fod yn credu y gallai Miss Williams fod wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod hwn a ddigwyddodd yn nhŷ Mr Owen. Pwysleisiodd nad oedd yn siŵr.

- 12.32 Credaf y gellir ymdrin yn gyflym â'r mater hwn. Rhoddodd Miss Williams dystiolaeth glir i Mr Owen ei gyrru i Ynys Môn nos Fawrth 15 Ionawr 1991 gan iddi dderbyn y newyddion trist am farwolaeth ei thad. Dywedodd iddi aros yno tan y dydd Mawrth canlynol, 22 Ionawr 1991. Roedd Disgybl G wedi rhoi ei ddatganiad i Mr Matthews ar fore 14 Ionawr 1991 yn ogystal â dau ddisgybl arall.
- 12.33 Er y byddai wedi bod yn bosibl i Miss Williams, efallai, fod wedi cael copïau o ddatganiadau cychwynnol chwe disgybl a oedd yn cynnwys cofnod o'r cyfnod o sgwrs gyda Disgybl G, ni chlywais unrhyw dystiolaeth iddi wneud hynny. Mae'n llai tebygol y gallai fod wedi gwneud yr un peth yn achos y tri disgybl y cyfwelodd Mr Matthews â hwy ddydd Llun 14 Ionawr 1991, gan gynnwys Disgybl G. Mae'n rhaid bod sawl disgybl wedi cael eu cyfweld ar ôl iddi fynd i'r Gogledd. Felly ni fyddai Miss Williams wedi gallu rhoi set gyflawn o ddatganiadau i Mr Owen mewn pryd ar gyfer ei gyfarfod â Disgybl G.
- 12.34 Fodd bynnag, dim ond yr achlust a briodolir i Mr Owen oedd yn awgrymu mai Miss Williams oedd ffynhonnell y deunydd hwn. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth iddo ddweud hyn wrth Ddisgybl G, ond hwyrach fod Mr Owen wedi dweud celwydd.
- 12.35 Yn ei thystiolaeth, dywedodd Miss Williams mai'r tro cyntaf iddi ddod yn ymwybodol o elfennau o ddatganiadau'r plant oedd ar ddydd Llun 21 Ionawr 1991, yn ystod sgwrs dros y ffôn gyda Mr Owen. Deallodd fod y datganiadau wedi'u rhoi iddo "i baratoi ei amddiffyniad"²². Dywedodd hefyd iddo ddangos rhai o'r datganiadau iddi pan ddychwelodd o'r Gogledd ar 22 Ionawr 1991²³.
- 12.36 Dywedodd Miss Williams hefyd i Ddisgybl G ddod ati beth amser ar ôl i Mr Owen ei herio gyda'i ddatganiad a mynegodd ei anhapusrwydd ynghylch yr hyn a ddywedodd. Cynghorodd Miss Williams ef i fynd at y Pennaeth.
- 12.37 Dof i'r casgliad ei bod yn annhebygol mai Miss Williams oedd ffynhonnell copïau Mr Owen o ddatganiadau'r bobl ifanc. Roedd ffynonellau posibl eraill oedd â mynediad haws iddynt, yn cynnwys Mr Matthews, Mr Askey, Mr Dunne ac UCAC. Mae'n bosibl bod ffynonellau eraill posibl na allaf eu canfod.
- 12.38 Casglaf ymhellach nad oedd yn wir iddi fod yn bresennol yn y cyfarfod 'herio' rhwng Mr Owen a Disgybl G. Dywed y disgybl i'r cyfarfod hwn ddigwydd ar 16 neu 17 Ionawr 1991 fwy na thebyg ac yn sicr ar ryw adeg yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben 19 Ionawr 1991. Roedd Miss Williams yn y Gogledd drwy gydol y cyfnod hwn. Derbyniaf ei chofnod gan y byddai'n annhebygol na fyddai'n dweud y gwir am fater mor sensitif ac roedd yn argyhoeddiadol ynghylch y manylion.

12.39 Mae'r agwedd arall ar yr honiad a nodir yn 12.4(ii) uchod yn ymwneud â'r rhan y gallai Miss Williams o bosibl fod wedi'i chwarae yn y dasg o baratoi dogfen hirfaith a gynhyrchwyd gan Mr Owen lle mae'n rhoi ymatebion manwl i gwynion a wnaed yn ei erbyn ym 1991²⁴. Ni chaiff y cwynion eu hunain eu hatgynhyrchu'n llawn ond cânt eu crynhoi gan yr awdur, Mr Owen, er mantais iddo ef ei hun. Er enghraifft, mae cwyn Disgybl 16 sef "gofynnwyd i ferched roi mwgwd dros eu llygaid, gorwedd ar y llawr a'u coesau ar led a bu i Mr Owen brocio eu rhannau preifat gyda ffon"²⁵ yn ymddangos fel "Dywed Disgybl 16 i mi ei chyffwrdd â ffon"²⁶, sy'n gŵyn cwbl wahanol a llai difrifol.

Cefais y ddogfen wrthbrawf o ddwy ffynhonnell; teulu a chyfeillion Mr Owen a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Nid oedd y fersiwn cyntaf yn cynnwys copi o'r gân a berfformiwyd yn ystod arholiad ymarferol Safon Uwch a dderbyniwyd gan bob tyst yn fy Ymchwiliad fel cân cwbl anaddas ar gyfer plant a phobl ifanc, ond fe'i cynhwyswyd yn y fersiwn arall.

12.40 Y dystiolaeth sy'n awgrymu mai Miss Williams o bosibl a deipiodd ddogfen wrthbrawf Mr Owen yw ei thebygrwydd o ran ffurf-deip, diwyg teipio, a'r modd y'i geiriwyd i ddogfen y cydnabu Miss Williams iddi ei chynhyrchu, sef llythyr dyddiedig 3 Chwefror 1991 at Mr Roberts wedi ei lofnodi gan Miss Williams a rhai athrawon eraill a oedd yn cefnogi Mr Owen.

Ymddengys fod ffurf-deip y ddwy ddogfen yn debyg i berson amhrofiadol, ac mae Miss Williams yn cydnabod y gallai Mr Owen fod wedi defnyddio ei phrosesydd geiriau ym 1991, gan ei fod wedi aros yn ei fflat ar sawl achlysur.

12.41 Yn ystod fy Ymchwiliad, amlygwyd y gwrthgyferbyniad amlwg rhwng teipio Mr Owen a welwyd mewn copi o ddyfyniad o'r ddrama 'A Prayer for Wings', a diwyg a theipio cymwys iawn ei ddogfen wrthbrawf gan Mr James. Roedd yn bwynt da a dof i'r casgliad ei bod yn annhebygol i Mr Owen deipio'r gwrthbrawf ei hun, er gwaethaf sylwadau Miss Williams am fanteision prosesydd geiriau o gymharu â theipiadur.

12.42 Mae tebygrwydd arwyddocaol rhwng y llythyr at Mr Roberts dyddiedig 3 Chwefror 1991, y mae Miss Williams yn cydnabod iddi ei deipio a gwrthbrawf Mr Owen. Mae cyd-ddigwyddiad cryf o fylchu a defnydd cyffredin o danlinellu geiriau er mwyn eu pwysleisio, yn amlwg. Yn ei thystiolaeth lafar, nododd Miss Williams o ran bylchu paragraffau "byddai tebygrwydd mawr rhwng llawer iawn o destunau"²⁷.

12.43 Mae defnydd cyffredin ac efallai anarferol o iaith yn y ddwy ddogfen hefyd yn awgrymu mai'r un yw'r awdur. Yn arbennig, y defnydd o'r gair 'moliant' yn y ddwy ddogfen ac 'uned dosbarth chwech'.

Cynigiodd Miss Williams hefyd dystiolaeth pam ei bod yn annhebygol mai hi oedd teipydd nac awdur gwrthbrawf Mr Owen pan ddywedodd, yn ddigymell "Hoffwn nodi un peth, roeddwn yn edrych arni eto yn ystod yr egwyl a sylwais iddo roi coma cyn 'a' - ni fyddai unrhyw athrawes Saesneg yn gwneud hynny"²⁸.

- 12.44 Yn anffodus i Miss Williams roedd Cwnsler yr Ymchwiliad, Mr Nicholas Cooke CF, yn gallu nodi'n gyflym iddi ar ddau achlysur wneud yn union hynny yn ei llythyr yn cefnogi Mr Owen dyddiedig 3 Chwefror 1991.

Yr wyf wedi fy modloni na allai Mr Owen fod wedi teipio'r gwrthbrawf ei hun. Dim ond i rywun a oedd yn agos iawn ato y byddai wedi gofyn am gymorth. Nid oes dewis tebygol arall i gyflawni rôl o'r fath ac eithrio Miss Williams.

- 12.45 Dof i'r casgliad i Miss Williams deipio'r ddogfen wrthbrawf ond ni ddof i'r casgliad ei bod yn gwybod am y gân a gynhwyswyd yn y fersiwn a ddarparwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Byddai'n gwbl gyson ag ymddygiad Mr Owen mewn cyd-destunau eraill iddo wyrdroi a lleihau'r honiadau yn ei erbyn er mwyn cael cymorth Miss Williams i baratoi'r dogfennau i helpu ei achos.

- 12.46 Gan droi at 12.4(iii), mae dwy agwedd ar yr honiad i Miss Williams ymosod ar bobl ifanc yn yr ysgol a/neu ymddwyn yn amhriodol tuag atynt.

- 12.47 Honnodd Disgybl 3, yn ystod y cyfnod yn dilyn ymddiswyddiad Mr Owen, i Miss Williams daro i mewn iddi yn fwriadol yng nghoridor yr ysgol ar ddau achlysur gwahanol a'i bod, ar achlysur arall, wedi cau drws yn ei hwyneb²⁹. Yn ei thystiolaeth, disgrifiodd Disgybl 3 y rhan o'r ysgol lle y digwyddodd yr 'hergwd i'r ysgwydd' honedig. Cwynodd am hyn ar y pryd, wrth Mr Davies³⁰. Roedd Disgybl 3 wedi gwneud datganiad yn gynharach a oedd yn cynnwys honiadau yn erbyn Mr Owen.

- 12.48 Dywed cofnod yn nyddiadur parhaus Mrs Phillips o ddigwyddiadau ar 22 Chwefror 1991 "Mae Theda Williams - Pennaeth yr Adran Saesneg ac sy'n gyfeillgar iawn gyda John Owen - yn fictimeiddio Disgybl 3. Daeth Disgybl 4 adref o'r ysgol a dweud yr un peth - mae hi hefyd yn fictimeiddio Disgybl 4. O ganlyniad trefnodd Roy Davies i Ddisgybl 4 ond mynychu'r gwersi sydd ei hangen arni ar gyfer ei harholiadau Safon Uwch yn unig"³¹.

- 12.49 Cydnabu Miss Williams i Mr Matthews ddweud wrthi bod cwyn wedi cael ei gwneud (er na ddywedodd wrthi am beth oedd y gŵyn) ac i Mr Matthews a'r Pennaeth, Mr Jones, 'siarad â hi' amdani ar ôl i Ddisgybl 3 adael yr ysgol.

- 12.50 Mae cefnogaeth ddogfennol i'r ffaith y gwnaed cwyn ar ffurf cofnodion o gyfarfod y llywodraethwyr. Gwadodd Miss Williams yr honiadau yn bendant ar y pryd a gwnaeth hynny yn ei thystiolaeth i'm Hymchwiliad. Roedd Disgybl 3 yr un mor sicr i'r achosion hyn ddigwydd fel y bu iddi eu disgrifio. Derbyniodd Miss Williams yn ei thystiolaeth ei bod wedi gwylltio ar y pryd, ond nid gyda'r disgyblion³². Tystiodd y ddwy ochr i'w perthynas dda cyn i Mr Owen ymddiswyddo, dywedodd Disgybl 3, "roeddwn yn ei hoffi'n fawr iawn, roedd pawb yn hoff o Theda Williams"³³. Dywedodd Miss Williams am Ddisgybl 3 "Roeddwn yn cyd-dynnu'n dda gyda hi"³⁴.
- 12.51 Wrth ddod i gasgliad ar y mater hwn, caf fy nylanwadu gan y nodweddion canlynol yn nhystiolaeth Disgybl 3:
- (i) roedd ganddi berthynas dda gyda Miss Williams cyn 1991 a chydabu hynny
 - (ii) cwynodd am y digwyddiadau ar y pryd, er nad oedd datgelu hynny yn hawdd iddi
 - (iii) nid oedd ganddi unrhyw gymhelliad credadwy arall dros godi ei chwyn yn 1991 a'i hailadrodd ers hynny, ar wahân i'r rheswm i'r pethau hyn ddigwydd
 - (iv) rhoddodd adroddiadau a oedd yn gyson, yn fanwl ac yn argyhoeddiadol o ran amser a lleoliad y digwyddiadau a'r modd y bu iddynt ddigwydd
 - (v) glynodd at ei chofnod argyhoeddiadol pan gafodd ei chroesholi.
- 12.52 Dof i'r casgliad ar sail yr uchod ac ar sail pwysau tebygolrwydd i Miss Williams ymddwyn yn amhriodol ac yn fygythiol tuag at Ddisgybl 3 ym 1991.
- 12.53 Gwnaeth Disgybl 4 honiadau tebyg yn erbyn Miss Williams gan ddweud iddi gael 'hergwd i'w hysgwydd', ei chicio (yn ysgafn) wrth ddod oddi ar y bws ysgol un bore ac i Miss Williams gau drws yr ystafell athrawon yn ei hwyneb. Honnodd hefyd bod ymddygiad cyffredinol Miss Williams yn elyniaethus ac yn fygythiol tuag ati³⁵.
- Yn ei hail ddatganiad i'r heddlu ar 22 Mai 2002, dywedodd Disgybl 4 i ddisgybl arall, mewn sgwrs, gyfeirio at ddigwyddiad pan honnwyd i Miss Williams daro Disgybl 4 yn ei hwyneb. Yn ei datganiad i'r heddlu, dywedodd Disgybl 4 nad oedd yn cofio'r digwyddiad hwn ac ailadroddodd hyn i'r Ymchwiliad. Dof i'r casgliad na fu i'r achos hwn o daro Disgybl 4 yn ei hwyneb ddigwydd ac roedd Disgybl 4 yn gyson ac yn onest yn ei chyfeiriadau ato.
- 12.54 Cafodd Disgybl 4 ei herio wrth roi dystiolaeth ynghylch y ffaith na chwynodd ar y pryd, nac yn ystod yr ymchwiliad ym 1991. Ymatebodd drwy ddweud ei bod am anghofio amdano ac na chafodd ei holi am y digwyddiad. Dywedodd ei bod

yn credu fod Mr (Roy) Davies yn ymwybodol o hyn ar y pryd. Mae nodiadau o'r cyfnod yn nyddiadur mam Disgybl 4 yn cadarnhau i Ddisgybl 4 ddweud wrthi bod Miss Williams yn 'ei fictimeiddio'³⁶.

12.55 Gwadodd Miss Williams yr honiadau hyn, gan ddweud yn ei thystiolaeth "nad oedd yn adnabod Disgybl 4"³⁷, na fu erioed yn rhan o'r digwyddiadau honedig a nodi nad oedd yn gŵyn a ddygwyd i'w sylw ar y pryd. Derbyniodd pan gafodd ei holi y byddai wedi gwybod enw Mrs Phillips, mam Disgybl 4, o adroddiadau yn y Daily Mirror a amlygodd ei rhan yn ymddiswyddiad Mr Owen³⁸.

12.56 Wrth ddod i gasgliad ar ymddygiad Miss Williams tuag at Ddisgybl 4, ystyriaf yn benodol y canlynol:

- (i) fel Disgybl 3, rhoddodd Disgybl 4 adroddiadau manwl ac argyhoeddiadol o amseroedd a lleoliadau'r digwyddiadau a'r modd y bu iddynt ddigwydd
- (ii) bod tebygrwydd yn yr adroddiadau o ran y ffordd yr honnwyd i Miss Williams ymddwyn tuag at Ddisgybl 4 a Disgybl 3
- (iii) fy mod yn nodi rhai achosion lle mae tystiolaeth yn naill yn ategu tystiolaeth y llall ond nid oes unrhyw dystiolaeth, na rheswm clir, i Ddisgybl 4 ddweud celwydd, nac i gydgyllwynio gyda Disgybl 3
- (iv) bod rhywfaint o gefnogaeth o'r cyfnod yn nyddiadur Mrs Phillips ar gyfer y gosodiad i Ddisgybl 4 ddweud wrthi ei bod yn cael ei bygwth ar y pryd. Ni fyddai'n bosibl i'r deunydd hwnnw fod wedi'i greu yn ddiweddar
- (v) bod adroddiad Disgybl 4 yn argyhoeddiadol tra'n cael ei chroesholi.

12.57 Dof i'r casgliad, ar sail yr uchod a phwysau tebygolrwydd, i Miss Williams ymddwyn yn amhriodol ac yn fygythiol tuag at Ddisgybl 4.

12.58 Er y byddai'n ddealladwy, ar lefel ddynol, i Miss Williams fod wedi teimlo dicter tuag at y disgyblion a oedd, yn ei barn hi, yn gyfrifol am y ffaith i Mr Owen gael ei atal o'i swydd ym 1991, mae'n gwbl annerbyniol iddi fod wedi ymddwyn fel y gwnaeth. Achosodd ei hymddygiad, o leiaf yn rhannol, i Ddisgybl 3 adael Ysgol Gyfun Rhydfelen yn gyfan gwbl. Roedd canlyniadau academaidd a chymdeithasol difrifol i hyn, yn ogystal â'r ffaith iddo achosi dioddefaint emosiynol i Ddisgybl 3.

12.59 Dioddefodd Disgybl 4 yn ddifrifol yn ogystal â'i mam a fu'n dyst i'w hanhapusrwydd.

12.60 Gwnaf argymhellion, ym Mhennod 20: Plant Ysgol Gyfun Rhydfelen, ynghylch y math o wasanaethau y credaf sydd angen eu sefydlu er mwyn cefnogi

disgyblion i sicrhau yr ymatebir i'w pryderon a'u gofid yn gydymdeimladol ac yn sensitif. Hyderaf y bydd trefniadau o'r fath yn atal plant rhag dioddef y math o aflonyddwch a ddaeth i ran y ddwy yma.

- 12.61 Er i Miss Williams gynnig ymddiheuro i ddisgyblion yn gyffredinol yn fy Ymchwiliad, ni chredaf iddi wneud hynny yn uniongyrchol i Ddisgybl 3 a Disgybl 4. Credaf y dylai wneud hynny.

Casgliadau

- 12.62 Cydnabu Miss Williams iddi gefnogi Mr Owen yn frwd drwy gydol y digwyddiadau sy'n brif ffocws i'm Hymchwiliad a hyd nes iddi glywed tystiolaeth ynddo, "gan gredu, fel y gwnaeth llawer o bobl eraill, iddo gael ei drin yn annheg"³⁹.
- 12.63 Mae Miss Williams yn derbyn nad oedd yn gwybod y ffeithiau pan roddodd gefnogaeth i Mr Owen ac y byddai'r ffaith ei bod yn agos at Mr Owen wedi ei gwneud yn annhebygol iawn y byddai disgyblion wedi dod ati gyda'u cwynion⁴⁰.
- 12.64 Ar 3 Chwefror 1991, chwaraeodd Miss Williams ran flaenllaw yn y dasg o baratoi llythyr at Mr Roberts (Cyfarwyddwr Addysg) wedi ei llofnodi ganddi hi, Ms Llinos Jones (Pennaeth yr Ysgol Isaf), Mr Peter Davies (Pennaeth yr Adran Ddrama) a Ms Menna Lewis (Tiwtor Blwyddyn). Cydnabu yn ei thystiolaeth iddi deipio'r llythyr hwn⁴¹.

Ynddo mae'r rhai a'i llofnododd yn cwyno am y ffordd y cafodd y disgyblion eu holi, ymddygiad uwch reolwyr yr ysgol wrth gynnal yr ymchwiliad hwnnw ac absenoldeb unrhyw gŵyn⁴².

- 12.65 Yn ei thystiolaeth, cydnabu Miss Williams "ei fod yn gwbl anghywir"⁴³.
- 12.66 Fel y dangosais, credaf y dylai rhai amheuon fod wedi codi ym meddwl Miss Williams ynglŷn ag ymddygiad Mr Owen ar sail ei gwybodaeth bersonol. Credaf hefyd na ddylai fod wedi lleisio ei barn mor gyhoeddus o'i blaid, o gofio ei chyfrifoldeb i ddarparu gofal i rai o'r disgyblion a wnaeth y cwynion. Yn sicr ni ddylai fod wedi ymddwyn fel y gwnaeth tuag at rai o'r disgyblion.
- 12.67 Mae rhan Miss Williams yn y digwyddiadau yn dangos yn glir beryglon neidio i amddiffyn ffrind neu gydweithiwr proffesiynol yn gyhoeddus pan fydd rhywun yn gwybod hwyrach nad yw'n meddu ar yr holl ffeithiau perthnasol. Mae'n rhesymol nodi y bu i eraill ei amddiffyn yn yr un modd. Fel y dywedodd Miss Williams ei hun:

"Dyweddodd Disgybl 5 yn ei thystiolaeth bod ganddi berthynas agos iawn â Disgybl C, ni wyddai ddim am y gamdriniaeth hon. Gwn fod gan Ddisgybl 7 berthynas agos iawn â Disgybl A, ni wyddai ddim am y gamdriniaeth hon. Gwn fod gan rieni Disgybl J berthynas glos iawn â Disgybl J, ni wyddent ddim am y gamdriniaeth hon. Yr wyf fi yn un o'r llu o bobl na wyddent ddim am y gamdriniaeth hon"⁴⁴.

- 12.68 Gadawyd Miss Williams, yn ogystal ag eraill a ysgrifennodd i gefnogi Mr Owen ym 1991, yn agored i embaras gan i fwy o dystiolaeth ddod i'r amlwg, am na chwblhawyd yr ymchwiliad ar y pryd ac na wnaed unrhyw ganfyddiadau ffeithiol am Mr Owen. Gadawyd athrawon, rhieni, llywodraethwyr, ac yn anad dim, y plant heb wybodaeth am yr holl honiadau nac ychwaith wybodaeth am p'un a oedd yr honiadau yn wir ai peidio.
- 12.69 Cofiai Miss Williams ddau ddigwyddiad yn arbennig a gafodd ddylanwad mawr ar ei barn am Mr Owen a'r ffaith iddi barhau i'w amddiffyn. Yn gyntaf, cofiodd sgwrs rhyngddi hi a Mr Matthews pan ddywedodd: "byddai llu o broblemau eraill yn dod i'r wyneb yn sgîl achos o'r math hwn. Ond yn yr achos hwn, nid oedd wedi canfod unrhyw beth"⁴⁵. O gofio'r hyn yr oedd yn sicr yn ei wybod, mae'n syndod bod Mr Matthews wedi dweud hyn, ond dof i'r casgliad iddo wneud hynny.
- 12.70 Yna ail, roedd yn cofio iddi gael gweld llythyr Mr Roberts at Mrs Nia Wyn Williams, gwraig cyn Bennaeth Ysgol Gyfun Rhydfelen, a oedd "yn ei sicrhau bod ymchwiliad pellach wedi cael ei gynnal a bod yr honiadau yn erbyn John Owen yn ddi-sail"⁴⁶. Mae hyn yn darparu dwy enghraifft glir o'r niwed a wnaed gan Mr Matthews a Mr Roberts a'r niwed a wnaed gan y cyfuniad o ymchwiliad anghyflawn, cyfleu gwybodaeth gamarweiniol ac anfon gohebiaeth gamarweiniol.
- 12.71 Cyhuddwyd Miss Williams o "naïfrwydd sydd y tu hwnt i bob dirnad" yn ystod fy Ymchwiliad⁴⁷. Mae hynny'n mynd yn rhy bell. Dof i'r casgliad y gellid yn rhesymol fod wedi disgwyl iddi ymddiried llai a chwarae rhan llai amlwg wrth amddiffyn Mr Owen ar sail yr hyn a wyddai. Fodd bynnag, mae rhywfaint o liniariad ar gael iddi ar y sail iddi gael ei chamarwain gan sgwrs Mr Matthews a gohebiaeth Mr Roberts ac o bosibl ei ddatganiadau cyhoeddus. Dof i'r casgliad hefyd bod ei hymddygiad tuag at rai disgyblion yn deilwng o gerydd.

Pennod 13

Mr Peter Davies

- 13.1 Penodwyd Mr Peter Davies yn Bennaeth Adran Ddrama Ysgol Gyfun Rhydfelen ym 1983. Dim ond un swydd addysgu arall fu ganddo cyn hynny ac roedd yn 23 oed pan ddechreuodd ar y swydd.
- 13.2 Fel Pennaeth yr Adran Ddrama, yn dechnegol, Mr Davies oedd rheolwr llinell Mr Owen. Fodd bynnag daeth Mr Owen yn Ddirprwy Bennaeth dros dro ym 1987 ac mae'n amlwg mai effaith hynny oedd amddifadu Mr Davies o hyd yn oed awdurdod damcaniaethol drosto.
- 13.3 Yn ystod fy Ymchwiliad gwnaed yr honiadau canlynol yn erbyn Mr Davies:
- (i) iddo fethu â rheoli Mr Owen a thrwy hynny iddo fethu ag amddiffyn disgyblion oedd yn astudio drama
 - (ii) ei fod (neu y dylai fod wedi bod) yn ymwybodol bod Mr Owen yn defnyddio testunau anaddas
 - (iii) ei fod yn ymwybodol, neu y dylai fod wedi bod yn ymwybodol, fod disgyblion yn destun ymddygiad rhywiol amhriodol yn ystod sesiynau ymarferol ac arholiadau drama
 - (iv) ei fod, neu y dylai fod wedi bod, yn ymwybodol y câi plant eu hamlygu i gamdriniaeth bosibl o ganlyniad i aros dros nos gyda Mr Owen neu deithio gydag ef
 - (v) bod ei ymddygiad tuag at ddisgyblion a gwynodd am Mr Owen ym 1991 yn anghyfiawn ac yn debygol o amharu ar yr ymchwiliad a oedd yn cael ei gynnal ar y pryd.
- 13.4 O safbwynt (i) uchod, mae Mr Davies yn cydnabod, yn ddiamod: "ym mhob ffordd John Owen oedd pennaeth yr adran ddrama"¹. O'r dechrau, dywed am Mr Owen "pan ddechreues i yn Rhydfelen, nath e fe'n hollol glir mwy neu lai pwy odd yr un odd yn dreifio yr adran"². Dywed hefyd "wy yn berson eitha addfwyn, o ran personoliaeth, ac, odd o'n chwilio, defnyddio hwnna fel gwendid ynai"².
- 13.5 Roedd Mr Owen hefyd yn arfer "bychanu fi (Mr Davies) o flan y plant"³ ac yn arfer ei fwlio, "O'ni'n cal rhyw row wythnosol da fe am rywbeth o'ni 'di neud"⁴. Roedd yr ymddygiad hwn gan Mr Owen yn rhan o batrwm a oedd yn golygu nad oedd Mr Davies yn gallu ymgymryd â llawer, os nad y rhan fwyaf, o'r

gweithgareddau y byddai rhywun yn disgwyl yn rhesymol i Bennaeth Adran ymgymryd â hwy. Er enghraifft, i ddechrau byddai'n "ceisio dod â pethe mwy clasurol, mwy traddodiadol i fewn"⁵, ond gwrthododd Mr Owen siarad â Mr Davies (ei Bennaeth Adran a'i reolwr llinell) am dri mis oherwydd i Mr Davies gadw gwybodaeth am ddisgybl oddi wrtho.

- 13.6 Dywedodd Mr Davies "oni'n lot rhy ifanc i fod yn Bennaeth Adran, yn erbyn rhywun fel John"⁶. Ni leisiaf farn am hynny, ond mae'n amlwg os penodir athro mor ifanc ac amhrofiadol fel Pennaeth Adran y dylai gael cymorth rheolaidd a'i fentora'n fanwl. Awgrymodd Mr Jeffreys bod yr ysgol yn credu y byddai Mr Owen yn rhoi cymorth i Mr Davies pan benodwyd ef ganddi yn Bennaeth Adran. Mae'n amlwg na ellir rhoi cyfrifoldeb dros sicrhau bod ei reolwr llinell yn cyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol i is-weithiwr.
- 13.7 Roedd Mr Davies yn ymwybodol iawn o'r diffyg cefnogaeth a gafodd, a dywedodd "fase fe'n braf cal rhywun i siarad â nhw"⁷. Nid oedd ganddo ffydd yn y Dirprwy Bennaeth, Mr Jeffreys, a oedd, yn ei farn ef, yn "berson eitha pell" nac yn y Pennaeth Mr Jones, nad oedd yn gallu mynd i'r afael â John Owen, yn ei farn ef.
- 13.8 Derbyniodd Mr Davies fod Mr Owen yn "llwyddo tanseilio yn hygredd i efo plant, achos odd y plant ddim ishe dod ata fi, achos basan nhw'n meddwl baswn i'm yn gallu neud dim byd"⁸. Roedd hyn yn gasgliad rhesymol i'r plant ddod iddo. Mae hefyd yn dangos nad oes arwyddocâd gwirioneddol i'r ffaith bod Mr Davies yn dweud y byddai wedi gweithredu pe bai ganddo dystiolaeth bendant "bod unrhyw beth ofnadwy yn digwydd"⁹ gan i'r amgylchiadau yr oedd yn gweithredu ynddynt atal y tebygolrwydd y byddai plant yn rhoi'r dystiolaeth honno iddo. Atgyfnerthwyd rhesymoldeb canfyddiadau'r plant yn hyn o beth yn llwyr gan ymateb Mr Davies pan fu rhai plant yn ddigon dewr i ddweud wrth oedolion eraill am eu cwynion am Mr Owen.
- 13.9 Creodd Mr Davies argraff gref iawn o w'r ifanc a roddwyd, heb gymorth, mewn sefyllfa lle mai dim ond mewn enw roedd ganddo'r gallu i gyflawni dyletswyddau Pennaeth Adran yn wyneb Mr Owen, a oedd yn berson carismatig, yn fwli ac yn ormesol. Edrychaf ar y cyfrifoldeb dros y sefyllfa honno yn ddiweddarach. Arweiniodd y sefyllfa hon at ganlyniadau arwyddocaol iawn i'r plant. Roedd diffyg rheolaeth llinell effeithiol dros Mr Owen hefyd yn amlwg ac yn hollbwysig yn y ffordd y dewiswyd testunau drama.
- 13.10 O safbwynt 13.3 (ii) uchod, mae'n amlwg na osododd Mr Davies unrhyw gyfyngiadau ar Mr Owen o gwbl o ran y testunau drama a ddewiswyd (er i gamau canmoliaethus rhai arholwyr CBAC beri anghyfleustra iddo fel yr amlinellir ym Mhennod 15: Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru).

Byddai Mr Owen "mwy neu lai yn deud be o'ni'n ei dysgu"¹⁰ yn y gwersi drama yn ôl Mr Davies ac nid oedd yn gallu cael unrhyw ddylanwad. Derbyniodd yn y dystiolaeth y byddai Mr Owen yn rhoi sgriptiau iddo ac y byddai ef (Mr Davies) yn eu trosglwyddo i CBAC eu cymeradwyo heb eu darllen.

- 13.11 Roedd Mr Davies yn ymwybodol y câi iaith gref iawn ei defnyddio mewn rhai sgriptiau ac addasodd rai ohonynt ychydig cyn i un arholiad gael ei gynnal. Yr oedd hefyd yn dibynnu ar y plant eu hunain i ddweud wrth eu rhieni beth yr oeddent yn ei astudio. Mae Mr Davies yn gwadu ei fod yn gwybod, ar y pryd, am 'Gân Disgybl 6'¹¹ a berfformiwyd yn ystod arholiad drama Safon Uwch CBAC ac a dderbyniwyd gan bob tyst fel un cwbl anaddas i blant a phobl ifanc.
- 13.12 Dywedodd Mr Davies hefyd ei fod yn ymwybodol y cafwyd problemau gydag arholwyr CBAC ynglŷn â thestunau a gyflwynwyd ac iddo fynychu swyddfeydd CBAC ynglŷn â hwy ar un achlysur. Fodd bynnag, teimlai fod y pryderon oll yn ymwneud â pha mor gryf oedd yr iaith ac ni pharodd hyn unrhyw bryder mawr iddo¹².
- 13.13 Mae'n amlwg i destunau drama fwy neu lai gael eu dewis gan Mr Owen yn Ysgol Gyfun Rhydfelen ac na fu i Mr Davies arfer ei gyfrifoldebau ynghylch eu cynnwys mewn modd a oedd yn gyson â'r hyn y byddem wedi ei ddisgwyl gan Bennaeth yr Adran Ddrama. Mae hefyd yn amlwg i mi nad oedd gan y plant eu hunain unrhyw ddewis yn y mater hwn ychwaith ac i'r (diffyg) camau a gymerodd Mr Davies roi'r cyfle i Mr Owen osod testunau a oedd yn gyson â'i hoffterau ei hun a thrwy hynny osod y sylfaen ar gyfer ymddygiad amhriodol difrifol yn y sesiynau ymarferol a oedd yn ffurfio rhan o'r addysgu a'r arholiad.
- 13.14 O safbwynt 13.3 (iii) uchod, rhoddodd Mr Davies dystiolaeth yn dweud na fynychodd ymarferion drama a gynhaliwyd gan Mr Owen yn ystod yr amser yr addysgwyd y cwrs, ac o ganlyniad nad oedd yn ymwybodol bod unrhyw beth amhriodol yn digwydd ynddynt. Felly, nid oedd "byth yn gweld y dramâu tan y noson o'nhw'n cael eu perfformio"¹³ oherwydd "dodd Mr Owen ddim yn fath o berson fydde'n croesawu chi mewn i'w wersi fe, beth bynnag"¹⁴. Nid oedd Mr Davies ychwaith yn dyst i "unrhyw waith byrfyfyr yn y gwersi nac yn yr ymarferion".
- 13.15 Honnodd sawl tyst yn fy Ymchwiliad i gamdriniaeth rywiol a chorfforol ddifrifol ddigwydd yn ystod sesiynau ymarferol ac ymarferion drama. Mae'n amlwg i Mr Davies, drwy fethu â chynnal unrhyw wiriadau am yr hyn a gâi ei wneud gan athro yn ei adran ar unrhyw adeg, fethu â chyflawni ei gyfrifoldebau. Gadawyd plant yn agored i gamdriniaeth rywiol ddifrifol o ganlyniad i hynny.
- 13.16 O safbwynt arholiadau ymarferol, dywedodd Mr Davies nad oedd yn "cal mynd i rai ohonyn nhw"¹⁵ ac na welodd ddim yn y rhai a fynychwyd ganddo a oedd yn achos pryder iddo. Efallai ei fod yn syndod i rai pobl nad oedd Pennaeth yr Adran Ddrama yn cael mynd i rai arholiadau yr oedd disgyblion yn ei faes pwnc

yn eu sefyll a rhannaf eu barn. Mae'r ffaith bod Mr Owen wedi llwyddo i 'osod rheol' o'r fath yn arwydd o'r graddau y gwrthdrowyd cydberthnasau awdurdod priodol yn effeithiol yn yr adran ddrama ar y pryd.

- 13.17 Roedd Mr Davies yn cofio mynychu'r arholiad ymarferol lle yr honnir i ddawns lled-noeth neu noeth ddigwydd, ond gwadodd iddo fod yn dyst iddi neu y gwyddai amdani. Yn ei dystiolaeth dywedodd ei fod yn yr ysgol ar y pryd¹⁶.
- 13.18 O safbwynt 13.3 (iv) uchod, gwadodd Mr Davies ei fod yn gwybod am deithiau i nifer fechan o ddisgyblion a drefnwyd gan Mr Owen lle yr honnir i'r cam-drin ddigwydd. Gwadodd hefyd ei fod yn gwybod bod dau ddisgybl fwy neu lai yn treulio amser ar eu pen eu hunain gyda Mr Owen. Ni chlywais unrhyw dystiolaeth a oedd yn groes i'r hyn a ddywedodd.
- 13.19 Cofiai Mr Davies i deithiau gael eu cynnal ar gyfer grwpiau bach ac y byddai Mr Owen yn mynd â'r athrawon eraill adref cyn y disgyblion, gan adael y disgyblion yn agored i gamdriniaeth bosibl wedi hynny¹⁷.
- 13.20 O safbwynt 13.3(v) uchod, roedd Mr Davies yn derbyn ei bod yn amhriodol ac yn amhroffesiynol iddo ymddwyn fel y gwnaeth ar 11 Ionawr 1991 pan bigodd ar rai o'r disgyblion a wnaeth honiadau yn erbyn Mr Owen, gan weiddi arnynt a'u taflu allan o'i ddosbarth¹⁸.
- 13.21 Roedd Mr Davies yn destun camau disgyblu ffurfiol ar ôl hyn, gyda phenderfyniad yn cael ei wneud "nad oedd achos i'w ddisgyblu"¹⁹. Ni allaf farnu a gafodd yr ymchwiliad disgyblu hwnnw ei gynnal yn drylwyr ac yn briodol.
- 13.22 Mae Mr Davies yn cydnabod bod ei ymddygiad yn anghyfiawn ar y pryd ac yn ddi-os yn deall yn well erbyn hyn yr effaith a gafodd ar y disgyblion, ar y pryd ac ers hynny. Yr oedd, yn ei eiriau ei hun yn "beth dwl i'w wneud."²⁰
- 13.23 Mae'n debygol y byddai wedi bod yn arwyddocaol iawn i'r plant ac i'r modd y cynhaliwyd yr ymchwiliad i Mr Owen a oedd yn parhau i fod ymhell o gael ei gwblhau ar y pryd. Gallai ymddygiad Mr Davies fod wedi creu argraff ym meddyliau plant eraill mai dyma'r math o driniaeth y byddent hwy yn ei chael pe baent yn rhannu eu pryderon neu eu cwynion gyda'r rhai oedd yn cynnal yr ymchwiliad. Gallai'r ymddygiad hwn, felly, fod wedi rhwystro'r ymchwiliad yn sylweddol, os yn anfwriadol, gan gynnwys ymchwiliad yr heddlu. Mae hyd yn oed yn bosibl, yn anffodus, i'w weithredodd atal camdriniaeth rywiol ddifrifol rhag cael ei datgelu'n gynnar.
- 13.24 Yn sicr cafodd effaith ddinistriol ar y plant a'i profodd, a nododd un ohonynt mai dyma oedd un o'r prif resymau iddi adael yr ysgol yn gyfan gwbl. Hyd y gwn i nid ymddiheurodd Mr Davies yn uniongyrchol erioed i'r disgybl hwnnw, sefyllfa y gallai ddewis ei hunioni yn awr.

- 13.25 Mae'n amlwg i mi nad oedd Mr Davies yn gweithredu fel Pennaeth yr Adran Ddrama ar yr adeg yr oedd Mr Owen hefyd yn dysgu ynddi. Ni wnaeth gyflawni ei gyfrifoldebau a thrwy hynny dilëwyd rhwystr posibl arall i weithgareddau Mr Owen. Roedd y methiant hwn ar ran Mr Davies yn ffactor pwysig a gyfrannodd at greu amgylchedd i Mr Owen ymddwyn yn y ffordd a wnaeth. Roedd plant yn cael eu cam-drin yn rhywiol o leiaf yn rhannol o ganlyniad i hynny.
- 13.26 Mae terfyn i'r graddau y gellir dal Mr Davies yn gyfrifol am hyn. Dylai uwch reolwyr yn yr ysgol, rhai ohonynt â mwy o reswm nag ef i amau Mr Owen, fod wedi goruchwyllo Mr Davies yn llawer manylach a rhoi llawer mwy o gefnogaeth iddo. Methodd Adroddiad Gwasanaeth Ymgynghorol Morgannwg Ganol ar Ysgol Gyfun Rhydfelen ym 1990 â nodi dim o hyn.
- 13.27 Pan ataliwyd Mr Owen o'i swydd gadawyd Mr Davies yn agored eto, rhoddwyd camargraff iddo o ran natur yr honiadau a dywedodd i Mr Matthews a Mr Jeffreys ei sicrhau nad oedd yr honiadau yn ddifrifol. Arweiniodd y methiant i fabwysiadu ymagwedd amddiffyn plant a chwblhau'r ymchwiliad at ganlyniadau yma hefyd. Ni ddylai Mr Davies fod wedi cael gwybod pa blant oedd yn gwneud cwynion.
- 13.28 Ni ddylai Mr Davies fod wedi ymddwyn fel y gwnaeth tuag at y disgyblion, ac mae honno'n ffaith y mae'n ei chydabod. Mae'n cyfaddef hefyd y bu'n annoeth iawn i lofnodi llythyr yn cefnogi Mr Owen at Mr Roberts, yn arbennig gan mai ychydig iawn o'r ffeithiau a wyddai.
- 13.29 Yr wyf yn falch o weld y dangosyddion a roddwyd i mi sy'n nodi y caiff staff ac yn arbennig staff gyda chyfrifoldebau rheoli eu cefnogi a'u mentora yn fwy effeithiol yn Ysgol Gyfun Rhydfelen nawr nag yn ystod y cyfnod y bu Mr Owen yn gweithio yno.
- 13.30 Mae Mr Davies yn athro hŷn, doethach a mwy profiadol nag yr oedd yn y blynyddoedd yn arwain at ac yn cynnwys 1991. Yr wyf yn sicr na fydd byth eto yn troi ar ddisgyblion o ganlyniad i deyrngarwch cyfeiliornus at gydweithwyr. Fodd bynnag mae'n bwysig i athrawon sylweddoli yn gyffredinol y canlyniadau hynod ddifrifol y gallai ymddwyn yn y fath fodd fod wedi eu cael yn yr achos hwn a'r canlyniadau y gallai fod wedi'u cael mewn achosion eraill pe bai ymddygiad o'r fath yn cael ei ailadrodd gan rywun arall. Bydd ei ddulliau addysgu a rheoli yn y dyfodol yn cael eu llywio gan yr hyn, fel y gŵyr yn awr, a allai fod y tu ôl i gwynion gan blant.

Nid yw'n fater ar gyfer argymhelliad ffurfiol ond awgrymaf hefyd y dylai Mr Davies ymddiheuro'n bersonol i'r disgyblion hynny a brofodd ei ymosodiad geiriol ym 1991, ac nad yw wedi ymddiheuro iddynt hyd yma. Yr wyf yn siŵr y bydd o gymorth iddynt hwy, ac iddo ef, i symud ymlaen.

Pennod 14

Llywodraethwyr Ysgol Gyfun Rhydfelen

Cyfrifoldebau'r Llywodraethwyr yn 1991

- 14.1 Rwyf wedi archwilio cyfrifoldebau'r llywodraethwyr fel y'u nodwyd yn Neddf Addysg 1988 a'r rheoliadau a'r canllawiau sy'n cyd-fynd â hwy. Cyfeiriwyd at y trefniant newydd o gyfrifoldebau yn y Ddeddf fel Rheoli Ysgolion yn Lleol (RhYLI).
- 14.2 Yr agweddau mwyaf perthnasol o RhYLI yw'r rhai sy'n nodi priod gyfrifoldebau'r awdurdod addysg lleol, y llywodraethwyr ac uwch staff yr ysgol mewn perthynas ag amddiffyn plant a materion disgyblu. Cyhoeddodd Cyngor Sir Morgannwg Ganol ganllawiau i lywodraethwyr ym mis Ionawr 1989.
- O dan RhYLI ni roddwyd unrhyw gyfrifoldeb ffurfiol neu benodol dros amddiffyn plant i'r llywodraethwyr. Rhoddwyd cyfrifoldeb dros faterion disgyblu iddynt ac roedd disgwyl iddynt fabwysiadu gweithdrefnau disgyblu. Cyhoeddodd yr awdurdod addysg lleol set 'enghreifftiol' o weithdrefnau o'r fath.
- 14.3 O dan y gweithdrefnau disgyblu hyn, y Pennaeth oedd yn gyfrifol am gynnal ymchwiliadau disgyblu a phanel penodedig (is-bwyllgor) o'r corff llywodraethu oedd yn gyfrifol am glywed achos disgyblu a phenderfynu ar y cyhuddiadau a gyflwynwyd iddo mewn achosion lle yr honnwyd i gamymddygiad difrifol ddigwydd. Gwrandawyd ar apeliadau yn erbyn canfyddiadau ffeithiol, neu yn erbyn camau disgyblu y penderfynwyd arnynt gan y panel cyntaf, gan ail is-bwyllgor gwahanol.
- 14.4 Roedd gan y Pennaeth awdurdod i atal athro o'i swydd pe bai'r cyhuddiadau yn ddigon difrifol i awgrymu camymddwyn difrifol a phe bai'r ffaith y byddai'r athro yn parhau i fod yn bresennol yn yr ysgol yn debygol o achosi problemau. Y Pennaeth oedd i gyflwyno achos yr erlyniad i is-bwyllgor disgyblu'r llywodraethwyr.
- 14.5 O dan RhYLI, ym 1990 a 1991, Swyddog Addysg Rhanbarthol yr awdurdod addysg lleol oedd yn gweithredu fel clerc i'r llywodraethwyr. Gwnaed darpariaeth hefyd i'r Cyfarwyddwr Addysg roi cyngor i'r corff llywodraethu.
- 14.6 Fel y nodwyd yn gynharach nid oedd dim i rwystro'r llywodraethwyr a oedd ar yr is-bwyllgor perthnasol rhag cael gwybod am natur y cyhuddiadau yn erbyn athro cyn gwrandawriad disgyblu.

Mae Cyd-ganllawiau NEOST/Undebau Athrawon, sef Education Staff and Child Protection: Staff Facing an Allegation of Abuse, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2002 yn rhoi canllawiau ar arferion a gweithdrefnau, ond nid oes iddo statws canllaw'r llywodraeth. Dylid adolygu'r canllaw hwn yng ngoleuni'r adroddiad hwn.

- 14.7 Hefyd nid oedd dim i rwystro'r llywodraethwyr rhag cynnal gwrandawriad disgyblu ochr yn ochr ag achos troseddol ac yn sicr dim i'w rhwystro rhag cynnal gwrandawriad yn dilyn penderfyniad yr heddlu neu Wasanaeth Eryln y Goron i beidio â chymryd camau, neu yn dilyn erlyniad troseddol, beth bynnag fo'r canlyniad.

Cymeradwyaf â pharch argymhelliad Syr Ronald Waterhouse yn ei adroddiad 'Ar Goll Mewn Gofal' ynglŷn ag arfer gorau yn y rhyngberthynas rhwng achos troseddol a chymau disgyblu lle y gwneir honiadau o gam-drin plant (gweler Pennod 15: Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru paragraff 15.25). Ni ddylai'r ffaith bod athro wedi ymddiswyddo atal gwrandawriad rhag cael ei gynnal yn ystod y cyfnod rhybudd.

Y Digwyddiadau Gwirioneddol ym 1991

- 14.8 Ym 1991 gweithredodd Mr Jeffreys, y Pennaeth dros dro, yn unol â'r gweithdrefnau gan iddo ofyn am gymorth y Swyddog Addysg Rhanbarthol, Mr Matthews, pan ddaeth honiadau difrifol iawn i'r amlwg yn datgelu materion yn ymwneud ag amddiffyn plant. Wedi i Mr Matthews gael ei gynnwys, bu gwyradau amlwg oddi wrth bolisiau a gweithdrefnau amddiffyn plant a disgyblu (Pennod 5: Mr David Matthews).

Cadeirydd y Llywodraethwyr

- 14.9 Y Barnwr Richards oedd Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gyfun Rhydfelen ym 1991 ac, ar y pryd, roedd yn Fargyfreithiwr, er nad oedd yn gweithio ym maes cyfraith addysg.
- 14.10 Yn ystod fy Ymchwil gwnaed honiadau:
- (i) bod y Barnwr Richards yn gwybod, neu y dylai fod wedi gwybod, am yr honiadau a wnaed am Mr Owen ym 1991
 - (ii) i'r Barnwr Richards fethu â chyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â gweithdrefnau amddiffyn plant a disgyblu ym 1991 ac yn benodol iddo fethu â sicrhau bod y llywodraethwyr yn cynnal gwrandawriad disgyblu i ystyried cyhuddiadau yn erbyn Mr Owen

- (iii) i'r Barnwr Richards ddweud yng nghyfarfod y llywodraethwyr ar 7 Chwefror 1991 pe bai Mr Owen yn ymddiswyddo na châi yr heddlu eu galw i mewn, a phe na bai Mr Owen yn ymddiswyddo, y câi yr heddlu eu galw i mewn.
- 14.11 O safbwynt 14.10 (i) uchod, rhoddodd y Barnwr Richards dystiolaeth glir na chyflwynwyd unrhyw fater o bryder iddo o'r adeg y daeth yn llywodraethwr hyd nes i Mr Roberts, y Cyfarwyddwr Addysg, gysylltu ag ef ddechrau mis Ionawr 1991. Dywedodd Mr Roberts wrtho i gŵyn gael ei gwneud gan riant ac i Mr Owen gael ei atal o'i swydd o ganlyniad i hynny. Dywedodd y byddai'r cyngor yn ymchwilio i'r mater ac "na ddylai'r llywodraethwyr ymdrechu i gynnal unrhyw fath o ymchwiliad eu hunain"¹. Dywedodd y Barnwr Richards i Mr Roberts ddweud wrtho "nad oedd mewn sefyllfa i ddatgelu natur yr honiadau na'r manylion"¹.
- 14.12 Roedd y Barnwr Richards o'r farn bod y gwaharddiad hwn yn anarferol ac fe'i cododd gyda Mr Roberts yn ddiweddarach. Yr wyf eisoes wedi nodi fy mod yn derbyn cofnod y Barnwr Richards o'i alwad ffôn, ar sail y dystiolaeth yr wyf wedi ei chlywed a phwysau tebygolrwydd, o gymharu â chofnod Mr Roberts (Pennod 4: Mr Edwin Roberts).
- 14.13 Felly, cafodd y Barnwr Richards, fel Cadeirydd y Llywodraethwyr, ei atal, fwy neu lai, rhag gwybod beth oedd natur yr honiadau yn erbyn Mr Owen. Yn anad dim, ar yr adeg hon, ni welodd gynnwys llythyr Mrs Phillips dyddiedig 9 Ionawr 1991, nac unrhyw un o ddatganiadau'r plant a gymerwyd gan yr uwch athrawon na Mr Matthews.
- 14.14 Dywedodd y Barnwr Richards yn bendant yn ei dystiolaeth y byddai wedi galw'r heddlu pe bai wedi gweld datganiadau'r plant a gymerwyd ar y pryd. Mynegodd ei syndod na fu i unrhyw un a'u gwelodd alw'r heddlu².
- 14.15 Yng nghyfarfod y llywodraethwyr ar 22 Ionawr 1991, ar ôl y sgwrs gyda Mr Roberts, cyflwynodd Mr Matthews reolau enghreifftiol yr awdurdod addysg lleol ar gyfer gweithdrefnau disgyblu i'r llywodraethwyr ac fe'u mabwysiadwyd. Sefydlwyd dau is-bwyllgor, un gyda chyfrifoldeb dros wrandawiadau disgyblu a'r llall gyda chyfrifoldeb dros apeliadau dilynol. Penderfynwyd ar aelodaeth yr is-bwyllgorau yn ddiddadl a heb bryder ynghylch unrhyw fudd uniongyrchol yr aelodau.
- 14.16 Nid oedd yn hysbys i'r cadeirydd, nac i'r corff llywodraethu cyfan, bod cadeirydd yr is-bwyllgor apêl yn dad i un o'r plant a oedd wedi gwneud honiad difrifol yn erbyn Mr Owen. Mae'r anhawster o gael dau is-bwyllgor at ddibenion disgyblu o fewn corff llywodraethu ysgol a cheisio sicrhau nad oes gan un neu fwy o'r aelodau fudd uniongyrchol yn y mater, yn rhywbeth a drafodaf yn fy nghasgliadau.

- 14.17 Y digwyddiad nesaf o ran y Barnwr Richards oedd galwad gan Mr Roberts yn ei hysbysu bod Mr Owen wedi ymddiswyddo neu wedi cyflwyno llythyr o ymddiswyddiad. Dywedodd Mr Roberts wrth y Barnwr Richards hefyd ei fod yn ystyried derbyn yr ymddiswyddiad. Dywedodd Mr Roberts wrth y Barnwr Richards, er mwyn i'r ymddiswyddiad gael ei dderbyn, bod angen i is-bwyllgor disgyblu'r llywodraethwyr dderbyn y dylai Mr Owen gael ei dalu tan ddiwedd y tymor ac na ddylid cynnal gwrandawriad disgyblu. Nid oedd y Barnwr Richards nac aelodau eraill o'r is-bwyllgor yn fodlon ar hyn gan nad oedd ganddynt unrhyw wybodaeth o hyd am yr honiadau yn erbyn Mr Owen. Roedd pryder bod Mr Owen yn cael ei orfodi i ymddiswyddo.
- 14.18 Rhoddodd y Barnwr Richards dystiolaeth glir i'r ymyriad uniongyrchol hwn ddylanwadu'n fawr iawn arno, gan iddo ddod o du'r Cyfarwyddwr Addysg mewn cyfnod pan nad oedd y rhan fwyaf o lywodraethwyr yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau newydd. Nid oedd unrhyw gyngor manwl ynghylch gwybod natur cyhuddiadau yng 'nghanllawiau'r' awdurdod addysg lleol i lywodraethwyr ar y pryd a phrin y byddent wedi bod o gymorth i'r Barnwr Richards.
- 14.19 Ar y cychwyn, nid oedd un llywodraethwr, Mr Bryant, yn barod i gytuno ar hyn. Cafodd alwad ffôn gan Mr Roberts ac yn dilyn hynny, cytunodd.
- 14.20 Ysgrifennodd Mr Roberts at y Barnwr Richards ar 29 Ionawr 1991³ yn cadarnhau'r trefniadau a'r camau yn gysylltiedig ag ymddiswyddiad Mr Owen. Ymatebodd y Barnwr Richards gan gadarnhau bod y llywodraethwyr yn cytuno i dermau arfaethedig yr ymddiswyddiad. Credaf mai dim ond mewn cyfarfod wedi'i gynnull a'i gofnodi'n briodol lle y gallai pob mater perthnasol fod wedi cael ei ystyried gan bob un o'i aelodau gyda'i gilydd, y dylai'r is-bwyllgor disgyblu fod wedi dod i gytundeb, os o gwbl.
- 14.21 Y digwyddiad mwyaf arwyddocaol i'r Barnwr Richards oedd derbyn ail lythyr gan Mrs Phillips a anfonodd ato ar 4 Chwefror 1991⁴. Bu i'r Barnwr Richards ffonio Mr Roberts a darllen y llythyr iddo. Yr wyf wedi ymdrin â'r rhan a chwaraeodd Mr Roberts yn hyn o beth mewn man arall (gweler Pennod 4: Mr Edwin Roberts).
- 14.22 Mae'r Barnwr Richards yn sicr ei feddwl iddo anfon yr ail lythyr cwyn hwn at Mr Roberts gyda llythyr ganddo ef â'r gair 'personol' arno lle y dywedodd "Amgaeaf 'sript ddrama' Mrs Phillips i chi ei darllen a gweithredu arni."⁵ Anfonwyd hwn ar 6 Chwefror 1991.
- 14.23 Beirniadwyd y cyfeiriad hwn at 'sript ddrama', gan yr ymddengys ei fod yn awgrymu na ddylid cymryd y materion a gâi eu codi yn yr ail lythyr o ddifrif. Yn ei dystiolaeth, priodolodd Mr Richards ei ddefnydd gwreiddiol i Mr Roberts, gan ddweud i'r Cyfarwyddwr Addysg ddefnyddio'r ymadrodd i ddisgrifio llythyr Mrs Phillips pan fu i'r Barnwr Richards ei ddarllen allan iddo yn ystod eu sgwrs dros y ffôn. Â ymhellach, gan ddweud ei fod ef, y Barnwr Richards, o'r farn ei

fod yn sylw dibrisiol ac mai dim ond er mwyn atgoffa Mr Roberts o'r hyn a ddywedodd y bu iddo ei gynnwys⁶.

14.24 Gan i lythyr y Barnwr Richards ofyn hefyd i Mr Roberts "ddarllen a gweithredu" mae'n amlwg nad oedd, mewn gwirionedd, yn diystyru llythyr Mrs Phillips. Roedd y camau a gymerodd yn brydlon ac yn gyson â rhywun a oedd yn teimlo bod y swyddog uchaf yn yr awdurdod addysg lleol yn ymdrin â'r mater. Mae hefyd yn werth cofio na chafodd y Barnwr Richards, yn wahanol i Mr Roberts, gyfle i ddarllen llythyr cyntaf Mrs Phillips. Serch hynny, roedd y disgrifiad o lythyr Mrs Phillips fel "sript ddrama" yn anffodus.

14.25 Aeth y Barnwr Richards hefyd â'r llythyr i gyfarfod yr is-bwyllgor disgyblu ar 7 Chwefror 1991⁷, sydd eto yn dangos ei bryder ynghylch ei gynnwys. Bryd hynny mae hefyd yn credu yn awr iddo weld o leiaf ddyfyniadau o'r ddrama 'A Prayer for Wings'.

Roedd y Barnwr Richards yn ymwybodol, pan dderbyniodd ail lythyr Mrs Phillips dyddiedig 4 Chwefror 1991, ei bod yn credu bod "toreth o dystiolaeth ddamniol" yn erbyn Mr Owen a'i barn y "dylai Pwyllgor Disgyblu Corff Llywodraethu'r Ysgol fynnu gweld yr holl dystiolaeth yn ymwneud â pham y bu i Mr Owen ymddiswyddo"⁸. Fodd bynnag, rhaid pwysu a mesur hyn yn erbyn y ffaith i'r Cyfarwyddwr Addysg ddweud wrtho na ddylai'r llywodraethwyr gynnal ymchwiliad eu hunain ac i'r Barnwr Richards gyfeirio'r llythyr at Mr Roberts i'w "ddarllen a gweithredu" arno ar fyrder.

14.26 O safbwynt 14.10 (iii), sef honiad a wnaed gan Mr Clive Henley, mae hwn yn fater difrifol, gan ei fod yn awgrymu bod gan y Barnwr Richards wybodaeth am yr honiadau yn erbyn Mr Owen a fyddai'n ddigonol iddo ddod i'r casgliad y byddai gan yr heddlu ddiddordeb mewn ymchwilio iddynt.

14.27 Fodd bynnag, er nad oes amheuaeth gennyf fod Mr Henley yn credu i hyn ddigwydd, ni allaf ganfod unrhyw dystiolaeth sy'n cadarnhau hynny. Nid oedd unrhyw lywodraethwr arall a oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn awgrymu iddo ddigwydd, ac nid yw'r cofnodion yn cadarnhau hynny ychwaith. Mae hefyd yn anghyson â gweithredoedd y Barnwr Richards, yn arbennig y cais dilynol i Mr Matthews hysbysu Mr Roberts am yr anawsterau a brofwyd gan y llywodraethwyr o ganlyniad i'r ffaith nad oeddent yn ymwybodol o natur yr honiadau yn erbyn Mr Owen.

14.28 Fel y nodwyd yn gynharach mynegodd y Barnwr Richards ei hun syndod "nad ymateb y rhai a welodd y dystiolaeth (datganiadau'r plant) oedd mynd yn syth at yr heddlu"⁹. Yr unig gasgliad y gallaf ddod iddo yw nad yw atgof Mr Henley yn gywir yn hyn o beth.

Casgliadau - Cadeirydd y Llywodraethwyr

- 14.29 Mewn perthynas â'r honiadau a nodir yn 14.10 uchod, ar sail y dystiolaeth a glywais, dof i'r casgliad nad oedd y Barnwr Richards yn gwybod am y mwyafrif helaeth o'r honiadau a wnaed yn erbyn Mr Owen ym 1991. Ni ellir dadlau y dylai fod wedi gwybod o gofio rôl y llywodraethwyr mewn materion disgyblu ar y pryd. Yn benodol, dylai fod wedi cael gwybod am natur yr honiadau yn erbyn Mr Owen er mwyn iddo allu gweithredu'n briodol a sicrhau y cymerwyd camau priodol eraill.
- 14.30 Yn dechnegol, gallai fod wedi mynnu cael gwybod beth oedd yr honiadau a gallai fod wedi ymgymryd â rheolaeth lawn dros y broses ddisgyblu fel y nodir yn y gweithdrefnau a oedd yn berthnasol ar y pryd yn yr awdurdod addysg lleol.
- 14.31 Fodd bynnag, cafodd y Barnwr Richards ei amddifadu o'r grym i gymryd camau effeithiol yn sgîl gweithredoedd Mr Roberts a Mr Matthews a ymyrodd mor rymus. Gweithredodd y Barnwr Richards ar sail argymhellion cryf y Cyfarwyddwr Addysg a oedd, fe dybiodd yn rhesymol, yn meddu ar yr holl ffeithiau perthnasol. Ni allai fod wedi dirnad nad oedd yr holl ffeithiau perthnasol yn hysbys i Mr Roberts, o gofio cynnwys ac awdurdod ymddangosiadol ei ymyriadau.
- 14.32 Roedd y camau hyn, ac yn fwyaf arwyddocaol y cytundeb y daeth Mr Roberts iddo gyda Mr Owen, yn golygu y byddai wedi bod yn anodd, os nad yn amhosibl, i'r llywodraethwyr gymryd camau priodol ar ffurf gwrandawriad disgyblu ar ôl i ymchwiliad yr heddlu fethu ag arwain at achos troseddol ym 1991.
- 14.33 Cred y Barnwr Richards bellach y byddai fwy na thebyg wedi gweithredu'n wahanol be bai wedi gwybod am y cwynion yn llythyr cyntaf Mrs Phillips dyddiedig 9 Ionawr 1991¹⁰ ac yn sicr pe bai wedi cael gwybod am honiadau'r plant. Roedd Adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg i'r Llywodraethwyr dyddiedig 5 Chwefror 1991 yn arbennig o arwyddocaol yma, gyda'r Barnwr Richards bellach yn dod i'r casgliad "roedd yr adroddiad cwbl camarweiniol hwn, a roddodd i ni, mi gredaf, argraff gwbl anghywir o'r sefyllfa fel ag yr oedd"¹¹.
- 14.34 Felly dof i'r casgliad nad oes gennyf unrhyw sail dros feirniadu'r Barnwr Richards yn sylweddol am ei weithredoedd yn y materion hyn. Yn sgîl gweithredoedd pobl eraill ni chafodd unrhyw gyfle rhesymol i gyflawni'r cyfrifoldeb a oedd yn dechnegol yn gyfrifoldeb iddo ef a'r llywodraethwyr.

Llywodraethwyr Eraill

- 14.35 Yr wyf wedi clywed cryn dystiolaeth o'r rhwyg yn y corff llywodraethu ynghylch atal Mr Owen o'i swydd a'i ymddiswyddiad. Ni fwriadaf dreulio llawer o amser ar hyn yn fy adroddiad.

- 14.36 Mae tystiolaeth gan lywodraethwyr Ysgol Gyfun Rhydfelen ym 1991 yn cefnogi elfennau allweddol fy marn ynghylch y cadeirydd, yn arbennig am y diffyg gwybodaeth a gawsant ac ymyriad grymus y Cyfarwyddwr Addysg.
- 14.37 Mynegodd Mr Clive Henley, Mr Hammett a Mrs Carol Jones oll resyn mawr a theimladau amrywiol o ddieter ynghylch y ffordd y cafodd y plant eu siomi yn sgîl y ffaith nad oedd y llywodraethwyr wedi llwyddo i'w hamddiffyn yn briodol oherwydd i Mr Roberts a Mr Matthews gelu gwybodaeth oddi wrthynt.

Casgliadau - Y Corff Llywodraethu

- 14.38 Mae'r dystiolaeth a glywais wedi dangos bod cryn rwystr i ymdrechion llywodraethwyr Ysgol Gyfun Rhydfelen i gyflawni eu swyddogaeth briodol.
- 14.39 Fodd bynnag, mae peth o'r dystiolaeth hefyd wedi awgrymu y gall fod anawsterau strwythurol neu gynhenid o ran rhoi cyfrifoldeb dros faterion disgyblu a materion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant i lywodraethwyr.
- 14.40 Er y gellid gwneud rhai argymhellion i wella'r trefniadau presennol yn hawdd, nid wyf yn argyhoeddedig y byddai'r rhain yn ddigonol i ymdrin â rhai problemau cynhenid.
- 14.41 Yr wyf yn amau a yw llywodraethwyr ysgol mewn sefyllfa dda i ymdrin â'r broses ddisgyblu, hyd yn oed os cânt wybodaeth lawn am yr honiadau a wneir.
- 14.42 Yr wyf eisoes wedi nodi bod cadeirydd yr is-bwyllgor apeliadau yn dad i un o'r plant dan sylw. Roedd cadeirydd y llywodraethwyr yn rhiant lywodraethwr. Roedd gan rai llywodraethwyr berthynas agos â Mr Owen ac roeddent yn ei gefnogi'n gryf.
- 14.43 O dan RhYLI, mae llywodraethwyr yn debygol o ffurfio cydberthnasau clos gyda'r staff addysgu. Gellid dadlau bod angen iddynt wneud hynny er mwyn cyflawni eu swyddogaethau sylfaenol.
- 14.44 Gall cyflwyno llywodraethwyr sy'n rhieni ac yn athrawon dueddu i greu amgylchiadau lle y mae'n anodd sefydlu is-bwyllgorau at ddibenion disgyblu nad oes ganddynt aelodau sydd naill ai'n perthyn mewn rhyw ffordd i dyst, neu sydd â pherthynas gyda'r aelod o staff dan sylw.
- 14.45 Dylid nodi y gallai hyn yn yr un modd arwain at is-bwyllgor disgyblu sydd â rhagfarn yn erbyn yr athro dan sylw, yn ogystal â rhagfarn o'i blaid. Yn y naill achos a'r llall gellir cyfaddawdu ar allu'r llywodraethwyr i weithredu mewn modd annibynnol a lled-farnwrol.

- 14.46 Yn yr achos sydd ger fy mron, fel mae'n digwydd, yr oedd gan gadeirydd y llywodraethwyr gymwysterau cyfreithiol. Mae'r sefyllfa hon yn annhebygol o fodoli yn y rhan fwyaf o gyrff llywodraethu. Mae gennyf amheuan dybryd y gall y mwyafrif o gyrff llywodraethu gyflawni'r rôl a briodolir iddynt ar hyn o bryd, yn arbennig os yw'r athro dan sylw yn aelod amlwg o'r ysgol neu'r gymuned leol.
- 14.47 Gwirfoddolwyr sy'n eistedd ar gyrff llywodraethu. Caiff eu haelodaeth, eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau eu rheoleiddio gan y gyfraith a chanllawiau. Gall cwynion disgyblu a gweithdrefnau datgelu cyfrinachau roi baich annerbyniol ar y corff hwn o wirfoddolwyr sy'n gofyn iddo arfer barn nad yw o bosibl wedi cael ei hyfforddi i'w rhoi ac nad ydynt yn meddu ar y profiad i'w rhoi. Mae hon yn dasg anodd iawn pan fo'r materion yn ymwneud â Phennaeth neu aelodau o staff amlwg a phwerus. Gall y canlyniadau fod yn faich ar y plant, yr athrawon, y rhieni a'r llywodraethwyr unigol.
- 14.48 Er bod dyletswyddau a chyfrifoldebau perthnasol yr awdurdod addysg lleol a chorff llywodraethu wedi eu diffinio'n glir yn y gyfraith, maent yn llawer mwy cymhleth yn ymarferol. Yn Ysgol Gyfun Rhydfelen a thrwy ysgolion Cymru, rhoddir cryn bwys, os nad y pwys mwyaf, ar gyngor yr awdurdod addysg lleol, yn llygaid corff llywodraethu. Gyda materion cymhleth a sensitif caiff ei ddilyn yn gyffredinol, ond serch hynny, y corff llywodraethu sy'n gyfreithiol gyfrifol am wneud penderfyniadau.
- 14.49 Mae hyn yn hynod o arwyddocaol mewn materion ble mae'r llywodraethwyr yn gweithredu fel rhan o systemau amddiffyn plant, p'un a gaiff y ffaith honno ei chydabod yn llawn mewn gweithdrefnau amddiffyn plant ai peidio. O dan y gweithdrefnau amddiffyn plant presennol gellir gwneud penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen ag allgyfeiriad, gall Gwasanaeth Erlyn y Goron benderfynu peidio ag erlyn neu gall erlyniad fod yn aflwyddiannus. Naill ai ar yr un pryd â'r prosesau hyn, neu wedi iddynt gael eu dilyn, mae'r mater yn ôl yn nwylo'r Pennaeth a'r llywodraethwyr.
- 14.50 Caiff y modd y bydd y Pennaeth a/neu gorff llywodraethu ysgol yn gweithredu mewn achosion o'r fath ganlyniadau pwysig iawn o ran amddiffyn plant. Os bydd y Pennaeth yn penderfynu cyflwyno cyhuddiadau disgyblu a chynnal gwrandawriad yna gellir cofnodi'r cyhuddiadau yn erbyn yr athro o dan Restr 99. Bydd canlyniad tebyg os canfyddir athro yn 'euog' mewn gwrandawriad disgyblu gyda'i safon prawf 'ar sail pwysau tebygolrwydd'.
- 14.51 Os bydd y Pennaeth neu'r llywodraethwyr yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen ag ymchwiliad, neu beidio â chyflwyno cyhuddiadau a/neu gynnal gwrandawriad, yna collir y cyfle hwn.
- 14.52 Yn y ffordd hon caiff Pennaeth a/neu llywodraethwyr ysgol eu rhoi mewn sefyllfa sydd o bosibl â chanlyniadau difrifol iawn o ran amddiffyn plant, er na chaiff eu

gweithredoedd eu hystyried ar hyn o bryd fel rhan o'r amgylchiadau lle mae'r ystod lawn o weithdrefnau amddiffyn plant yn berthnasol.

- 14.53 Os oes amheuaeth ynghylch gallu'r llywodraethwyr i weithredu yn ddigon diduedd, mae hyn hyd yn oed yn fwy tebygol yn achos Pennaeth. Yn yr achos ger fy mron, Pennaeth dros dro oedd yn gyfrifol a bydd hyn yn digwydd mewn ysgolion o bryd i'w gilydd. Mae'n ddigon posibl bod Pennaeth dros dro o'r fath yn gydweithiwr agos, yn gyn gymheiriad, neu hyd yn oed yn gyfaill neu'n elyn i'r athro y gwneir yr honiadau amdano. Gall fod yn anodd gweithredu yn y modd annibynnol sydd ei angen yn yr amgylchiadau hyn lle mae pryderon yn ymwneud ag amddiffyn plant yn ogystal â phryderon lled farnwrol yn codi.
- 14.54 Am y rhesymau a amlinellir uchod, credaf, lle y gwnaed honiadau sy'n codi pryderon ynghylch amddiffyn plant, y dylai camau disgyblu gael eu hintegreiddio'n llawnach i bolisiau a gweithdrefnau amddiffyn plant.
- 14.55 Fel y nodais credaf hefyd nad y llywodraethwyr ysgol/Pennaethiaid sydd yn y sefyllfa orau i ymgymryd â'r swyddogaeth amddiffyn plant bwysig hon. Mewn achosion o'r fath corff arall ddylai wneud y penderfyniadau.
- 14.56 Mae'r gweithdrefnau presennol (Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 4.5.3) yn nodi y dylai'r cyfarfod strategaeth "ystyried yr angen am gamau disgyblu e.e. efallai y bydd angen gofyn i'r cyflogwr atal y person yr amheuir o gam-drin o'i waith". Nid oes canllawiau ar beth i'w wneud, er enghraifft, os na fydd ysgol yn gwneud hynny, ac nid oes systemau er mwyn i'r Pwyllgor Ardal Amddiffyn Plant sicrhau y cynhelir gwrandawriad os cyflwynir cyhuddiadau. Yn hytrach, awgryma'r gweithdrefnau presennol (4.5.4) y dylai asiantaethau amddiffyn plant gynorthwyo gydag unrhyw broses ddisgyblu. O dan RhYLI erys y cyfrifoldeb gyda'r llywodraethwyr/Pennaeth fel yr amlinellais.

Ni chredaf fod gan undebau llafur na'u haelodau unrhyw fwriad o gwbl i amddiffyn pobl sy'n cam-drin plant yn rhywiol. Y broblem yw y gall pryder dealladwy ynghylch honiadau ffug wanhau'r gweithdrefnau a llesteirio ymdrechion i amddiffyn plant. Yr hyn sydd ei angen yw dadl gynhwysol, hyddysg a theg er mwyn nodi'r cydbwysedd priodol rhwng amddiffyn athrawon yn eu cyflogaeth a phlant yn eu hysgolion.

Argymhelliad

- 14.57 **Argymhellaf y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi canllawiau ar sut y dylid ymchwilio i honiadau o gam-drin plant a wneir yn erbyn staff sy'n addysgu a staff nad ydynt yn addysgu o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn. Dylai'r canllawiau ystyried:**

(i) Cyd-ganllawiau NEOST/Undebau Athrawon, sef Education Staff and Child Protection: Staff Facing an Allegation of Abuse

(ii) Practice Guide to Investigating Allegations of Abuse against a Professional or Carer in Relation to Looked After Children

(iii) Gweithdrefnau Amddiffyn Plant PAAP Cymru gyfan

(iv) Canllawiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant'.

14.58 Yr oedd llywodraethwyr Ysgol Gyfun Rhydfelen ym 1991 yn wynebu achos Mr Owen yn fuan iawn ar ôl iddynt gael pwerau disgyblu o dan RhYLI (Deddf Addysg 1998).

14.59 Mae aelodaeth cyrff llywodraethu yn newid yn barhaus, gydag unigolion yn gwasanaethu arnynt am gyfnod cyfyngedig. Mae'n dilyn felly ei bod yn annhebygol y bydd cyrff llywodraethu ysgolion unigol yn gallu cronni'r wybodaeth a'r arbenigedd sydd eu hangen arnynt i gyflawni'r cyfrifoldebau trwm a osodir arnynt gan RhYLI os cânt eu hwynebu ag achos fel un Mr Owen lle mae elfennau amddiffyn plant sylweddol ynghlwm wrtho.

14.60 Sefydlwyd Llywodraethwyr Cymru, sy'n gorff i Gymru gyfan, i helpu i unioni diffygion o'r fath ac mae ei linell gymorth yn ffynhonnell gymorth ddefnyddiol. Fodd bynnag, er fod cael cyngor yn ddefnyddiol, nid yw'n ddigon i sicrhau yr ymdrinnir yn gywir â materion ym mhob achos, ym mhob ysgol.

14.61 Yr wyf o'r farn, ar sail y dystiolaeth gerbron fy Ymchwiliad, y lluo o achosion eraill y mae fy swyddfa wedi ymdrin â hwy ledled Cymru ac achosion eraill a gafodd gyhoeddusrwydd mawr, ynghyd â'r pryderon a godwyd gan undebau llafur, bod angen adolygu'r system bresennol yn drylwyr. Ymddengys i mi fod angen system er mwyn sicrhau:

- (i) y gwneir y penderfyniad ynghylch p'un a ddylid bwrw ymlaen ag ymchwiliad a chyhuddiadau yng nghyd-destun polisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant a thrwy ymgynghori â'r gwasanaethau cymdeithasol
- ii) mai rhywun sydd yn ddigon annibynnol ac yn meddu ar ddigon o arbenigedd i ennyn hyder pob parti ddylai gynnal yr ymchwiliad disgyblu
- iii) bod y terfynau amser ar gyfer ymchwiliadau o'r fath yn glir ac yn deg
- iv) mai corff sy'n annibynnol ac sy'n debygol o ennyn hyder pob parti, ac yn bennaf oll hyder yr athrawon, ddylai fod yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar faterion o'r fath.

Argymhelliad

14.62 Argymhellaf

- (i) y dylai'r cyfrifoldeb dros benderfynu p'un a ddylid cyflwyno cyhuddiadau a chynnal ymchwiliad a gwrandawriad gael ei drosglwyddo i'r awdurdod addysg lleol, oherwydd ei berthynas gydag athrawon, aelodau o'r staff nad ydynt yn addysgu a'i aelodaeth o'r Pwyllgorau Ardal Amddiffyn Plant yng Nghymru.
- (ii) os cychwynnir ymchwiliad, dylai un o swyddogion personél arbenigol yr awdurdod lleol ei gynnal a dylai'r swyddog hwnnw hefyd gyflwyno'r achos oni chyfarwyddir cyfreithiwr neu gwnsler.
- (iii) y dylid sefydlu pedwar tribiwnlys annibynnol newydd, yn cwmpasu pedair rhan o Gymru, wedi eu cadeirio gan berson â chymwysterau cyfreithiol gyda dau aelod arall arnynt, un yn gynrychiolydd undeb llafur athrawon a enwebwyd a'r llall yn llywodraethwr enwebedig i glywed y dystiolaeth ac i lunio canfyddiadau ffeithiol ar sail pwysau tebygolrwydd. Dylai'r rhai sy'n cadeirio tribiwnlysoedd o'r fath gael eu penodi drwy broses sy'n cynnwys undebau llafur athrawon a'r awdurdodau addysg lleol.

14.63 Credaf y bydd trefniadau o'r fath o fudd i bob parti:

- (i) i blant, a fydd yn cael eu hamddiffyn yn well
- (ii) i ysgolion fel cymuned - byddant yn llawer llai tebygol o gael eu hollti gan wrthdaro yn ymwneud â theyrngarwch
- (iii) i Benaethiaid, na fydd gofyn iddynt ymdrin â materion amddiffyn plant cymhleth a materion disgyblu difrifol mwyach
- (iv) i athrawon y gwneir honiadau yn eu herbyn, a fydd yn destun proses deg a chyflym yr ymdrinnir â hi gan unigolion a thribiwnlysoedd annibynnol ac arbenigol
- (v) i rieni, fydd â hyder yn y system.

14.64 Byddai fy argymhelliad yn rhoi'r cyfrifoldeb o benderfynu p'un a ddylid cyflwyno cyhuddiadau a chynnal ymchwiliad a gwrandawriad i awdurdodau addysg lleol. Er gwaethaf y ffaith y dof i'r casgliad yn fy adroddiad mai'r awdurdod addysg lleol oedd yn bennaf ar fai am gamdrafod pethau ym 1991, credaf mai awdurdodau addysg lleol sydd yn y sefyllfa orau o hyd i gyflawni'r rôl. Yn

wahanol i ysgolion unigol, mae ganddynt arbenigwyr personél ac maent yn gyfrifol am ddigon o ysgolion i feithrin profiad ychwanegol yn gymharol gyflym.

- 14.65 Yr wyf yn ymwybodol bod fy argymhellion yma yn ymwneud â diwygio'r trefniadau presennol yn sylweddol, a'u bod yn gofyn am sefydlu pedwar tribiwnlys newydd ac annibynnol.

Yr wyf hefyd yn ymwybodol y bydd diwygiadau o'r fath yn codi pryderon naturiol a phriodol ymysg y partïon â diddordeb, ac y dylid ymdrin â'r rhain yn fwy uniongyrchol a chynhwysfawr na'r hyn sy'n bosibl yn yr adroddiad hwn.

- 14.66 **Argymhellaf y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu grŵp gorchwyl o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, gyda chynrychiolwyr o bob parti â diddordeb yn gyfrifol am gyflwyno cyfres o gynigion i weithredu'r argymhelliad yr wyf wedi ei wneud o ran tribiwnlysoedd disgyblu ysgolion. Dylai'r partïon â diddordeb gynnwys:**

- (i) holl undebau llafur athrawon
- (ii) cynrychiolwyr o blith y llywodraethwyr
- (iii) swyddogion yr awdurdod addysg lleol
- (iv) arbenigwyr amddiffyn plant ac arbenigwyr cyfreithiol
- (v) plant a phobl ifanc
- (vi) cynrychiolwyr o'r Cyngor Addysgu Cyffredinol
- (vii) Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- (viii) yr heddlu.

Ymhlith y materion y dylai'r grŵp gorchwyl eu hystyried mae'r trothwy ar gyfer cyfeiriadau, apeliadau, rheolau tribiwnlys, y cydberthnasau ag ymchwiliadau'r heddlu a chofnodi ymchwiliadau ar ffeiliau athrawon ac aelodau o'r staff nad ydynt yn addysgu.

Pennod 15

Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru (CBAC)

- 15.1 Sefydlwyd CBAC ym 1949 fel cyd-bwyllgor o Awdurdodau Addysg Lleol Cymru. Mae'n gwmni cyfyngedig drwy warant ac yn elusen. Mae ganddo nifer o adrannau, y mwyaf ohonynt yw'r adran arholiadau sy'n gyfrifol am ddarparu arholiadau cyhoeddus mewn bron i ddwy fil o ganolfannau (ei enw torfol ar gyfer ysgolion a cholegau ac ati) yng Nghymru a Lloegr. Mae Prif Weithredwr yn bennaeth arno ac mae'n atebol i Fwrdd y Cyfarwyddwyr. Mae'r Bwrdd yn cynnwys cynghorwyr a enwebwyd gan bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru.
- 15.2 Mae CBAC yn ymdrin â'r mwyafrif o ysgolion a cholegau yng Nghymru. Caiff ei reoleiddio gan ACCAC, sef Awdurdod Cymwysterau Cwricwlwm ac Asesu Cymru. Mae corff arall a adwaenir fel y Cyd Gyngor Cymwysterau yn ystyried materion o ddiddordeb cyffredin i bob bwrdd arholi yng Nghymru a Lloegr. CBAC sy'n pennu'r maes llafur mewn drama, gan gynnwys testunau penodedig.
- 15.3 Mae CBAC yn cyflogi swyddogion proffesiynol sy'n arbenigwyr pwnc. Mae'n defnyddio arholwyr i ymgymryd ag arholiadau ymarferol mewn canolfannau, nad ydynt yn aelodau o staff, ond a gaiff eu dewis o blith cronfa o athrawon profiadol. Penodir y rhain gan swyddogion yn yr adran arholiadau.
- 15.4 Roedd Mr Owen ar bwyllgor llywio CBAC a ddyfeisiodd yr arholiad drama Safon Uwch yng Nghymru. Ar ddechrau'r wythdegau cynrychiolodd athrawon o Forgannwg Ganol hefyd ar bwyllgor pwnc drama CBAC a oedd yn gyfrifol am adolygu arholiadau yn flynyddol. Ar adeg ei ymddiswyddiad o Ysgol Gyfun Rhydfelelen ym 1991 roedd yn arholwr Cymraeg llafar gyda CBAC.
- 15.5 Ar 4 Chwefror 1991 ysgrifennodd Mrs Phillips at Mr Matthews yn dweud ei bod yn credu'n gryf y dylid gwneud CBAC yn ymwybodol o'r ffeithiau yn gysylltiedig â'r achos a rhoi'r sgrïpt y disgwylwyd i'w merch ei pherfformio yn ei harholiad ymarferol Safon Uwch iddynt. Dywedodd ei bod wedi ei "brawychu a'i ffeiddio gan natur bornograffig yr iaith a'r hyn yr oedd disgwyl i'r disgyblion ei actio!"¹. Cododd bryderon ynghylch Prif Arholwr Drama Safon Uwch CBAC, Mr Emyr Edwards, a gofynnodd "pa fath o actio ac iaith anwedus y mae'n eu cymeradwyo pan fo'n arholi perfformiad ym mhreifatrwydd cymharol ystafelloedd ymarfer Safon Uwch"². Nid oes tystiolaeth i Mr Matthews drosglwyddo'r sgrïpt na phryderon Mrs Phillips i CBAC.
- 15.6 Ddau ddiwrnod yn ddiweddarach penderfynodd Mrs Phillips weithredu ar y mater ei hun ac ar 6 Chwefror 1991 ysgrifennodd at Gadeirydd CBAC.

Amgaeodd gopi o sgript 'A Prayer for Wings' a dywedodd sut y bu i'r iaith a gweithredodd penodol y disgwylwyd i'r cymeriadau eu cyflawni, yn arbennig y rhannau a danlinellodd, ffeiddio ei merch a sut y bu i'w merch roi'r gorau i astudio'r pwnc yn gyfan gwbl yn hwyr iawn yn y dydd. Cododd yr un cwestiynau ynghylch yr Arholwr Drama Safon Uwch a dywedodd i'r math hwn o ddeunydd di-chwaeth gael ei ddefnyddio yn yr Adran Ddrama yn Ysgol Gyfun Rhydfelen ers blynnyddoedd. Gofynnodd i Gadeirydd CBAC ymchwilio i'r testunau a osodwyd, a astudiwyd ac a arholwyd ar gyfer arholiadau drama TGAU a Safon Uwch, o leiaf yng nghyd-destun Ysgol Gyfun Rhydfelen³.

- 15.7 Er mwyn dangos pryderon Mrs Phillips a natur y deunydd yr oedd Mr Owen yn gofyn i bobl ifanc ei ymarfer yn Ysgol Gyfun Rhydfelen, atgynhyrchaf y dyfyniad a ddarparwyd gan Mrs Phillips i CBAC:

Dyfyniad o 'A Prayer for Wings'¹⁴

(addasiad John Owen)

Mam: Meddwl glywes i rywun 'na Reet.
 Rita: Dim ond fi mam. Byrnes i Ripple i ti.
 Mam: O gwd.
 Rita: Byt e nawr.
 (Rita'n rhoi'r Ripple i mam)
 Mam: Cyn cino?
 Rita: Go ed.
 MAM YN BYTA'I Ripple
 Rita: (NAILL OCHOR) Dealliff hi byth. Byth. Pwy mor hawdd yw hi i fi 'da'r bois 'ma. 'Awdd. Pedwar ohenyn nhw bore 'ma. Pedwar crwt ar y dol. Fel fi chwel. Ma nhw'n gweud "DERE Â FFÎL REET". Medde fi, "Ffyc off yer dirty bastards". Medde nhw, "COME ON REET WANCO NI OFF". MEDDE FI "Sochi ddigon hen i gal ffycin codiad deche". Wedyn un o nhw'n mynd "TOM yn ... Tom yn un deg naw a ma fe di dod lan ar y ceffyle. Cal winner ife Tom, medde fi. "Gas e winner" medde nhw. Gadel iddo fe shaffto ti gei di fiver. Ar y gair co Tom yn whispran yn y nghlust i, PLIS REET, wysie neud cariad i ti". NEUD CARIAD!!!!!! Elli di gal y bumpunt. PLIS Reet.
 Nagodd neb wedi siarad â fi fel'na o'r blan. So wedes i, wy'n dod nôl mewn awr ac os nagych chi 'ma, dria'i helpu Tomi mas. Wel, jyst â gwlychu'u pans ar y sbot. Gwir yw ddo, so nhw'n gwbody, ond wy'n ffycin fyrjin.
 Cofiwch wy eriod 'di dod a bechgyn nol man 'yn o'r blan. (Tom yn trio DIANC). Ble ti'n mynd. Wy'n dod nawr. TOM NOL I STAFELL RITA Cer mlan. Cer mlan!

Mam: Pwy yw hwnna? Tom Pwy? Un o't dialwed brent 'na yw e neci fa?
 Rita: Ca ben mam.
 Mam: Ife (GWEIDDI) Cer a fe mas yr hwch front.
 Rita: SHYT yp o mam. Y' musnes i yw e.
 Mam: O Rita Rita.
 Rita: (NAILL OCHOR) On i'n gwped sai'n cal epi. Ffili godde dinon.
 Heto'r syniad
 Mam: Yr hwren fach front. Dafla'i di mas o'r ty 'ma.
 Rita: Bydd awel mam. Fydda'i ddim yn hirt.
 (Rita'n gadel mam a lan llofft)
 Mam: Feddylies i riod gwelwn i shwd ddydd. Hwch fach front. Cosbith
 Duw ni. Cewn ni fynd o'r ty 'ma.
 Rita: Come on Tom, paid hido ddi.
 RITA'N DRINGO AR Y GWELY. TOM YN DRINGO AR EI PHEN HI.
 Come on Tomi, nage 'ma'r amser I fod yn shei. Dropa dy bans.
 Rho tam bach o awyr iach i John Thomas.
 Mam: O Arglwydd wy'n dost, wy'n dost.
 (MAM at y radio a chodi'r swn).
 Rita: (GWEIDDI) Come on Tom. All hands on deck.
 (NAILL OCHOR) Dyleni fod wedi gwobod gethe fe ddim mo fe lan.
 Mwy ofan na fi. Still dim ots. Werth mynd trw hwn i gal fiver.
 A wy ffili'i gweld hi'n gwrthod y bwyd bryna'i 'da'r fiver.
 Come on Tom boy. (NAILL OCHOR) Pwar dab. Ishe help llaw
 arno fe.
 (RITA'N lleddfu Tom)
 Dere mlan gwboi, (NAILL OCHOR). A fyrjin fydda' i fyth. ENIWE
 nagon i'n ffansio fe ta beth. Wy'n dal i lico'r syniad o romans.
 O ddim ar y'n ffroc i Tomi.
 (NAILL OCHOR) Diolch i Dduw bod hwnna 'di cwpla.

Er ei fod yn enghraifft o'r math o waith a osodwyd gan Mr Owen, yn yr achos hwn, ni chafodd y gwaith hwn ei berfformio mewn arholiad Safon Uwch gan i Ddisgybl 4 roi'r gorau i astudio drama ddeuddydd cyn ei harholiad ymarferol a gwrthododd Disgybl 3 actio yn y ddrama hon.

- 15.8 Ymatebodd Mr Clayton Heycock, Ysgrifennydd CBAC, i Mrs Phillips ar 21 Chwefror 1991 gan ddweud iddo ofyn i'w gydweithwyr yn yr adran arholiadau i ymchwilio'n llawnach i'r mater⁵.
- 15.9 Ar 13 Mawrth 1991 rhoddodd Mrs Phillips wybodaeth bellach i Mr Heycock. Amgaeodd gân y dywedodd iddi gael ei pherfformio gerbron Prif Arholwr Drama Safon Uwch CBAC, Mr Edwards, fis Rhagfyr 1990. Dywedodd fod gormod o ofn ar y ferch a berfformiodd y gân i wrthod ei chanu ond iddi deimlo euogrydd a chywilydd ers hynny. Bwriodd amheuaeth ar rôl y Prif

Arholwr Drama Safon Uwch a wylodd y perfformiad. Honnodd i arholiadau ymarferol drama Safon Uwch gael eu cynnal yn hwyr gyda'r nos a gobeithiai y byddai ei gwybodaeth ychwanegol yn cynorthwyo ymchwiliad CBAC⁶. Dywedodd Mr Heycock nad yw'n cofio gweld y sript na'r gân. Unwaith eto, er mwyn deall difrifoldeb y deunydd a anfonwyd at CBAC atgynhyrchaf y gân yn llawn:

'Cân Disgybl 6'⁷

Ishte yma'n llonydd
 A'r cyllyll yn fy ngwaed
 Ishte yma'n llonydd
 ffili screchen paid.
 Gorwedd yma'n llonydd
 A ti tu fewn i fi
 Gorwedd yma'n ffaidd
 Pam wnest ti nghyffwrdd i?

Cytgan

Cyllyll yma'n llonydd
 Cyllyll yn fy ngwaed
 Cyllyll yw fy mywyd
 Cyllyll yw fy rhaid.

Ti'n gont ti'n fastard pwdwr
 Blydi ffycin diawl
 Yn cau fy myd yn gornel
 A gwrando 'sda ti ddim hawl
 Fi yr hunan ydwyf
 Fy anian o yw byw
 Heb lyfetheiriau dynion
 heb goc, heb glais, heb glwy.

Rwy'n fam rwy'n un a natur
 Yn rhoddwr byw i'r byd
 A thithe'n ddim ond cala
 A hwnna'n soft i gyd.
 Paid edrych yn dy drachwant
 am dwll i foddi'r blis
 Chwirydd mewn pob difri
 Sa'n well ni iwso'n bys.

- 15.10 Ni fyddai wedi bod angen anfon y gân hon at CBAC cyn yr arholiad gan mai darn cyswllt ydoedd yn hytrach na rhywbeth y bwriadwyd i'w arholi. Yn ôl y dystiolaeth a glywais mae'n amlwg i'r gân hon gael ei pherfformio fel darn cyswllt yng ngwydd Prif Arholwr Drama Safon Uwch CBAC, Mr Edwards, yn ystod arholiad ymarferol Safon Uwch yn Ysgol Gyfun Rhydfelen fis Rhagfyr 1990. Seiliaf fy nghanfyddiad ar dystiolaeth y person ifanc a ganodd y gân, y cerddor ifanc sy'n cofio cyfeilio iddi, rhaglen yr ysgol ar y pryd a'r copi dyddiedig a gadwyd gan Mr Jeffreys. Nid yw Mr Edwards ei hun yn cofio clywed y gân. Credaf ei bod yn warthus i'r gân hon gael ei pherfformio yn ystod arholiad cyhoeddus ac na chymerodd yr arholwr unrhyw gamau.
- 15.11 Dof i'r casgliad i'r ferch ysgol ifanc hon gael ei cham-drin yn sgîl y ffaith y gofynnwyd iddi berfformio'r gân hon.
- 15.12 Ar 15 Mawrth 1991 ymatebodd Mr Heycock i lythyr cyntaf Mrs Phillips⁸. Dywedodd mai mater i'r awdurdod addysg lleol a llywodraethwyr yr ysgol oedd y ffordd y dysgwyd drama ond bod Pwyllgor Arholiadau ac Asesu CBAC wedi cytuno i sefydlu is-bwyllgor i baratoi canllawiau i ysgolion ar ddethol gwaith ar gyfer arholiadau CBAC.
- 15.13 Nid Mr Heycock a ysgrifennodd y llythyr er mai ei lofnod ef sydd arno. Credai iddo fwy na thebyg ei drosglwyddo i'r adran arholiadau^{9&10}. Roedd yn cynnwys gwybodaeth gamarweiniol ac anghywir, sef nad oedd CBAC yn gofyn i gopiau o'r dyfyniadau y bwriadwyd eu perfformio na'u teitlau gael eu hanfon i CBAC ymlaen llaw. Am ba bynnag reswm bu i rywun yn CBAC ddrafftio llythyr i'w lofnodi ganddo a fwriadwyd i greu'r argraff ar Mrs Phillips na fyddai CBAC yn gwybod dim am y dyfyniadau a gâi eu perfformio yn Ysgol Gyfun Rhydfelen ond mewn gwirionedd roedd dyddiad ar gyfer darparu gwybodaeth o'r fath i CBAC. Dof i'r casgliad bod Mrs Phillips a Mr Heycock wedi cael eu camarwain. Mae angen cofio hefyd bod CBAC wedi gallu ysgrifennu'r llythyr hwn er gwaethaf y digwyddiadau a adolygir ym mharagraffau 15.15 i 15.17.
- 15.14 Yn anffodus ymateb swta Mr Haycock i ail lythyr Mrs Phillips a oedd yn amgáu'r gân oedd "Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Mawrth. Nodwyd y cynnwys"¹¹.
- Nid ymchwiliwyd yn drwyadl i'r pryderon a godwyd gan Mrs Phillips. Dof i'r casgliad, yn seiliedig ar dystiolaeth staff Ysgol Gyfun Rhydfelen na chynhaliwyd sesiynau ymarferol Safon Uwch yn hwyr y nos.

Hanes Pryderon Arholwyr CBAC ynghylch Ysgol Gyfun Rhydfelen

- 15.15 Yr hyn na fyddai Mrs Phillips wedi ei wybod ac a ddaeth i'r amlwg dim ond o ganlyniad i'm Hymchwiliad, oedd yr hanes o arholwyr a swyddogion unigol yn codi pryderon difrifol gyda CBAC am y deunydd yr oedd y plant yn gorfod ei berfformio yn Ysgol Gyfun Rhydfelen at ddibenion arholiadau a sut yr oedd swyddogion CBAC ers 1988 yn 'cadw llygad'¹² ar Ysgol Gyfun Rhydfelen, ac ym 1990, sut y bu i'r Uwch Ysgrifennydd Cynorthwyol (TGAU) Mr Brian Evans

ganfod bod y deunydd arholiad TGAU yn Ysgol Gyfun Rhydfelen yn dreisgar ac yn annerbyniol i blant¹³.

- 15.16 O'r pwys mwyaf, nid oedd gan unrhyw swyddog yn CBAC drosolwg o'r pryderon hyn ac ni chawsant eu rhannu gyda'r gwasanaethau cymdeithasol na'r awdurdod addysg lleol. Unwaith eto, ailadroddaf mai un o egwyddorion sylfaenol amddiffyn plant yn effeithiol yw rhannu gwybodaeth. Dof i'r casgliad i CBAC fethu droeon yn hyn o beth, yn fewnol ac yn allanol.
- 15.17 Dof i'r casgliad i'r pethau canlynol ddigwydd cyn 1991 yn CBAC. Cyfeiriaf at lefel 'O' a TGAU fel TGAU.

1986

- (i) Aeth arholwraig CBAC Ms Daloni Rees i Ysgol Gyfun Rhydfelen ar gyfer arholiad TGAU. Nid oedd wedi gweld y sgriptiau ymlaen llaw fel yr oedd yn ofynnol gan CBAC. Cafodd Ms Rees ei chyfarch gan Mr Owen fel a ganlyn "Diolch i Dduw mai chi sydd yma...oherwydd mae gennych feddwl agored, gan eich bod yn gweithio yn y cyfryngau, yn wahanol i'r ffycin wancer bach cul ddaeth yma o'r blaen"¹⁴
- (ii) Roedd Ms Rees o'r farn bod y deunydd yn anaddas i blant o'r oed hwnnw, roedd yn cynnwys geiriau fel "ffwcio" a "cont"¹⁵
- (iii) Yn ystod un perfformiad tynnodd un bachgen ei ddillad ac actio ei fod ar gefn beic modur gan efelychu cyfathrach rywiol. Ataliodd Ms Rees yr arholiad a mynd, gyda Mr Owen, i hysbysu'r Pennaeth, Mr Jones¹⁶
- (iv) Ffoniodd Ms Rees CBAC gan siarad naill ai â Mr Arthur Parker, sef y swyddog pwnc ar y pryd, neu Mr Carter. Dywedwyd wrthi am barhau i arholi. Dywedodd ei bod yn anfodlon ar y sefyllfa a dywedwyd wrthi am roi hynny mewn adroddiad ac y byddai CBAC yn ymdrin â'r mater wedi hynny¹⁷
- (v) Parhaodd Ms Rees i arholi, ysgrifennodd adroddiad ac ni chafodd adborth gan CBAC¹⁸
- (vi) Dywedodd nifer o ddisgyblion wrth Ms Rees yn eu viva nad oedd hawl ganddynt i ddangos y sgriptiau i'w rhieni. Cynhwysodd Ms Rees hyn yn ei hadroddiad¹⁹
- (vii) Roedd Ms Rees o'r farn bod "y plant yn gweithio ar ddeunydd na ddylai fod wedi bod yn agos atynt"²⁰.

1987

- (i) Eisteddodd Mr Malcolm Burnell, Prif Arholwr Drama TGAU, a chyd sylfaenydd arholiadau drama yng Nghymru drwy'r arholiad TGAU yn Ysgol Gyfun Rhydfelen. Wedi ymgynghori â chydweithiwr yr oedd yn ei barchu hysbysodd swyddog pwnc drama CBAC Mr Parker ynghylch y deunydd. Dywedodd fod y cynnwys a'r iaith yn gwbl anaddas i blant ar y lefel honno
- (ii) Dywedodd Mr Burnell i CBAC ymateb drwy holi a fyddai'n cael ei weld fel sensoriaid. Credai i CBAC fod yn wan o ran amddiffyn plant ac roedd yn amharod i ymyrryd yn Ysgol Gyfun Rhydfelen²¹.

1988

- (i) Cwynodd Ms Carys Tudor Williams, arholwraig TGAU ers 1981 wrth Mr Parker am ddeunydd o Ysgol Gyfun Rhydfelen a gyflwynwyd yn hwyr. Edrychodd ar y testun o safbwynt arholwraig a rhiant. Roedd yn pryderu gymaint ynghylch y cynnwys nes iddi golli noson o gwsg. Credai ei fod yn fater a oedd yn ymwneud â lles plant ond dyfarnwyd yn ei herbyn. Cafodd ei hysbysu gan Mr Parker na ellid gwneud dim gan ei bod yn rhy hwyr yn y dydd a bod yr ymgeiswyr wedi dechrau ymarfer ers tro. Dywedodd wrth "y swyddog uchaf yn CBAC" am y deunydd. Ni chlywodd ragor. Dywedodd fod y sgriptiau yn debyg o ran eu natur i'r gân a atgynhyrchwyd uchod²²
- (ii) Siaradodd Mr Burnell â'i ddirprwy, Mrs Carol Clarke, arbenigwraig ym maes amddiffyn plant, am ei bryderon gyda'r deunydd TGAU a dderbyniwyd gan Ysgol Gyfun Rhydfelen. Cadarnhaodd Mrs Clarke ei farn "Cofiaf fod manylion graffig ynglŷn â materion na fyddwn am i unrhyw blentyn ymwneud â hwy"²³
- (iii) Siaradodd Mr Burnell a Mrs Clarke â Mr Parker gan ddweud na ddylai CBAC dderbyn y deunydd. Dywedodd Mr Parker wrthynt iddo siarad â rhywun arall yn CBAC, Mr Mel Jones o bosibl, ac y dylid derbyn y deunydd. Gwrthododd Mr Burnell ei arholi ar y sail y byddai'n rhan o rywbeth anghyfiawn. Cytunodd Mrs Clarke ag ef²³
- (iv) Gofynnodd CBAC i Mr Gwynn Roberts arholi TGAU yn Ysgol Gyfun Rhydfelen. Teimlai fod y sgriptiau, a dderbyniodd yn hwyr, yn amhriodol i blant a bod iaith anllad a themâu rhywiol drwyddynt. Dywedodd na welodd ddeunydd anllad fel hyn erioed o'r blaen mewn unrhyw ysgol arall. Roedd eu cynnwys yn ei frawychu. Credai fod Ysgol Gyfun Rhydfelen yn cael ei thrin yn fwy trugarog nag ysgolion eraill o ran cyflwyno eu sgriptiau yn hwyr oherwydd ei henw da am gynhyrchu gwaith da²⁴

- (v) Gofynnodd Mr Roberts am gael gweld Prif Weithredwr neu Brif Arholwr CBAC. Dywedodd iddo orfod magu cryn ddewrder i gwyno am ysgol cyfrwng Cymraeg flaenllaw. Roedd o'r farn i'w bryderon gael eu gwthio i'r neilltu ar sail y ffaith bod Ysgol Gyfun Rhydfelen yn ysgol dda ac yn cyflawni gwaith da. Dywedodd iddo gael ei drin yn ddirmygus. Pan gododd y pwynt y gallai cyhoeddusrwydd ynghlŷn â'r sgriptiau ac ymateb rhieni achosi embaras i CBAC cytunwyd y gallai atal yr arholiad pan fyddai'r deunydd yn mynd yn amhriodol²⁵
- (vi) Bu i Mr Roberts atal yr arholiad. Fe'i galwyd i weld Mr Owen, a oedd yn Ddirprwy Bennaeth dros dro yn Ysgol Gyfun Rhydfelen ar y pryd. Dywedodd fod Mr Owen yn gandryll, iddo ei geryddu a dweud wrth Mr Roberts y byddai'n sicrhau na fyddai byth yn arholi drama eto²⁶
- (vii) Amlinellodd Mr Roberts ei bryderon dybryd am Ysgol Gyfun Rhydfelen yn ei adroddiad arholwr i CBAC²⁶
- (viii) Nid arholodd Mr Roberts byth eto ar ran CBAC. Ni roddodd CBAC esboniad iddo pam nad oedd angen ei wasanaethau mwyach. Ystyriaf fod CBAC wedi trin Mr Roberts, nad ydynt wedi bod yn barod hyd yn oed i ymddiheuro iddo hyd yma, yn wael. Mae hyn yn ddo'i hun yn anffodus. Yr hyn sydd yn fwy arwyddocaol yw pe baent wedi ymdrin ag ef yn gwrtais ac yn deg, efallai y byddai CBAC wedi sylweddoli bod materion a oedd yn codi pryderon dybryd yn digwydd yn Ysgol Gyfun Rhydfelen ac y byddai wedi gweithredu mewn ymateb yn y modd y dylai fod wedi gweithredu
- (ix) Ar 26 Mai 1988 ysgrifennodd Mr Mel Jones, Ysgrifennydd Arholiadau CBAC, at Bennaeth Ysgol Gyfun Rhydfelen, Mr Jones, yn cydnabod yr amharwyd ar yr ymgeiswyr. Dywedodd y byddai pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau cyfiawnder a gofynnodd i amcangyfrif o'r graddau gael eu cyflwyno. Awgrymodd ymhellach y dylid cynnal cyfarfod rhwng yr ysgol, yr awdurdod addysg lleol a CBAC²⁷
- (x) Ni chafodd y wybodaeth am y pryderon a godwyd gan arholwyr ei rhannu gyda'r Prif Arholwyr Drama TGAU na Safon Uwch. Dylid bod wedi gwneud hyn
- (xi) Derbyniodd Mr Parker yn fy Ymchwiliad, gyda doethineb drannoeth, fod penderfyniad CBAC y dylid parhau gyda'r arholiad yn anghywir a chydabu fod materion lles plant yn gysylltiedig â'r ffaith y gorfodwyd y plant i actio dramâu a oedd, ym marn yr arholwr, yn gwbl amhriodol²⁸.

1989

- (i) Dywedodd Mr Brian Evans, Uwch Ysgrifennydd Cynorthwyol (TGAU), bod

CBAC yn 'cadw llygad' ar Ysgol Gyfun Rhydfelen ond roedd hyn yn gyfyngedig i TGAU. Credai Mr Carter y byddai swyddogion CBAC yn yr adran arholiadau yn gyffredinol yn gwybod am y camau hyn

- (ii) Yn ystod y flwyddyn honno perfformiwyd golygfa o 'Equus' ar gyfer TGAU a oedd yn cynnwys disgybl yn efelychu orgasm ar gefn disgybl arall a oedd yn actio rhan ceffyl^{29a}.

1990

- (i) Rhoddodd swyddog pwnc drama CBAC, Mr Carter y sgriptiau TGAU i Mr Evans, a benderfynodd eu bod yn "annerbyniol at ddibenion arholiadau". Roeddent yn cynnwys "cyfeiriadau at ryw a/neu regfeydd a theimlai CBAC na ellid eu goddef"³⁰. Dywed Mr Evans iddo gydnabod bod y deunydd yn fater oedd yn ymwneud ag amddiffyn plant a dyna oedd un o'i resymau dros ei wrthod. Ffoniodd Bennaeth Ysgol Gyfun Rhydfelen, Mr Jones. Dywedodd yr athro yn yr ysgol a oedd yn gyfrifol am arholiadau, Mr Gwyn Pritchard Jones, na allai'r ysgol dderbyn barn CBAC ac nad oedd ganddo hawl i ymyrryd â'r cwricwlwm³¹
- (ii) Ysgrifennodd Mr Evans at yr ysgol ar 23 Ebrill 1990, yn ei hysbysu bod nifer o'r testunau o natur amhriodol i'w hastudio a'u perfformio, mai bwriad CBAC oedd adolygu'r gweithdrefnau presennol a chyhoeddi canllawiau a gofynnodd am amcangyfrif o'r marciau ar gyfer y sesiynau ymarferol, yn seiliedig ar y gwaith ymarferol a gyflawnwyd dros y ddwy flynedd³²
- (iii) Yn dilyn y llythyr cynhaliwyd cyfarfod rhwng Mr Gwyn Pritchard Jones, Mr Peter Davies, Pennaeth Drama Ysgol Gyfun Rhydfelen a Mr Carter. Gwnaed nodyn o'r cyfarfod hwnnw gan Mr Pritchard Jones rai misoedd yn ddiweddarach, ym mis Ionawr 1991 (ni roddwyd eglurhad yn fy Ymchwiliad ynghylch pam y gwnaed y nodyn mor hwyr), sy'n dweud bod CBAC "yn dweud yn ddigamsyniol na ddylai'r arholwr ar unrhyw gyfrif ganiatáu i'r plant berfformio'r darnau annerbyniol hyn. Roedd y darnau hyn yn cynnwys cyfeiriadau at ryw a/neu regfeydd ac roedd CBAC o'r farn na ellid eu goddef"³³. Nid oedd Mr Pritchard Jones yn ymwybodol o bryderon CBAC ym 1988. Dywedodd ei bod yn bosibl y byddai wedi cymryd camau gwahanol pe bai wedi bod yn ymwybodol ohonynt
- (iv) Yn dilyn y cyfarfod hwnnw cynhaliwyd cyfarfod ar wahân rhwng Mr Edwards, Prif Arholwr Drama Safon Uwch, Mr Mel Jones a Mr Carter. Dywedodd Mr Edwards y cafwyd trafodaethau cyffredinol am bolisi mewn perthynas â chynnwys rhywiol a rhegfeydd, nid trafodaethau penodol am unrhyw gwynion yn ymwneud â deunydd yn Ysgol Gyfun Rhydfelen³⁴. Unwaith eto roedd methiant o ran rhannu gwybodaeth sylfaenol

- (v) Sefydlwyd is-bwyllgor CBAC a chytunwyd y dylid anfon cylchlythyr at bob ysgol a chynnwys brawddeg mewn meysydd llafur yn y dyfodol yn nodi "wrth ddewis darnau i'w perfformio yn y prawf ymarferol ac yn y perfformiad ymarferol, rhaid rhoi ystyriaeth ddyledus i briodolrwydd y deunydd ac oed ac aeddfedrwydd yr ymgeisydd"³⁵
- (vi) Fel gyda phob un o'r cwynion eraill ni chafodd ei hallgyfeirio i'r gwasanaethau cymdeithasol ac ni chysylltwyd ag achwynwyr blaenorol.

1991

- (i) Derbyniwyd y ddau lythyr cwyn gan Mrs Phillips gan gynnwys y gân yr oedd pob un o'r tystion yn derbyn ei bod yn anllad.

15.18 Mae'n anhygoel, er gwaethaf hanes o bryderon a godwyd gan ei arholwyr a'i swyddogion ei hun, i CBAC wneud dim pan dderbyniodd gwynion Mrs Phillips a'r ddwy sgrïpt. Dywedodd pob un o swyddogion ac arholwyr CBAC a roddodd dystiolaeth yn fy Ymchwiliad na wyddent ddim am y llythyrau gan Mrs Phillips ac roeddent o'r farn bod y gân a'r sgrïpt yn warthus. Syfrdanwyd yr Ysgrifennydd Arholiadau ar y pryd, Mr Mel Jones, gan ymateb CBAC.

15.19 Clywais dystiolaeth ynghylch y modd yr ymdriniodd CBAC â phryderon ynglŷn â lles miloedd o blant. Y cwestiwn y mae'n rhaid ei ofyn yw pam nad ymdriniodd CBAC â'r honiadau difrifol iawn hyn yn effeithiol ym 1991? Pam na siaradwyd â Mr Edwards erioed? Pam na chynhaliwyd ymchwiliad mewnol? Pam na rannwyd popeth perthnasol a oedd ym meddiant CBAC ym 1991 gyda'r awdurdod addysg lleol, y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu? Derbyniodd CBAC ei ddiffygion, ond ni chynigiodd eglurhad. Awgrymaf y dylai ymddiheuro i Mrs Phillips am y ffordd ddiystyriol yr ymdriniodd â'i chwynion difrifol ym 1991.

Y Sefyllfa Bresennol yn CBAC

15.20 Rhwng 1986 a 1991 roedd dyletswydd ar swyddogion CBAC i fod yn atebol i'r panel pwnc neu'r pwyllgor arholiadau. Ni welais unrhyw dystiolaeth i'r cwynion difrifol a godwyd droeon gan yr arholwyr a Mrs Phillips ynghylch Ysgol Gyfun Rhydfelen gael eu cofnodi. At hynny ystyriaf fod derbyn llythyrau Mrs Phillips, yn arbennig ym erbyn y cefndir o sylw yn y wasg ac ymchwiliad yr heddlu ym 1991 yn ddigonol i gyfiawnhau cyflwyno adroddiad i'r lefel uchaf o fewn CBAC. Nid oes unrhyw dystiolaeth i hynny gael ei wneud ac, wrth gwrs, ni rannodd CBAC y wybodaeth a oedd yn ei feddiant gyda'r heddlu.

15.21 Cynhaliwyd cyfarfod Strategaeth Ardal Amddiffyn Plant ym mis Mai 2002, yn dilyn honiadau a wnaed gan gyn ddisgyblion Ysgol Gyfun Rhydfelen iddynt

berfformio dawns noeth gerbron y Prif Arholwr Drama Safon Uwch, Mr Emyr Edwards, yn ystod arholiad ymarferol Safon Uwch.

15.22 Ystyriais y dystiolaeth ynghylch y ddawns a berfformiwyd yn ystod arholiad ymarferol Safon Uwch a dof i'r casgliad i'r ddawns ddigwydd ond bod y bechgyn dan sylw yn gwisgo rhywfaint o ddillad. Dof i'm casgliad o gofio'r datganiad a roddodd Disgybl V i athrawon yn Ysgol Gyfun Rhydfelen yn 1991 lle y dywedodd "roedd yn rhaid i mi a disgybl D berfformio dawns ac roedd yn rhaid i ni wneud y ddawns yn ein dillad isaf ac mewn un o'r ymarferion roedd yn rhaid i ni wneud y ddawns yn noeth." Ystyriaf fod y datganiad hwnnw sydd bron o'r cyfnod yn debygol iawn o fod yn gywir.

15.23 Addawodd CBAC na fyddai Mr Edwards yn cynnal arholiadau ymarferol cyn i ymchwiliad yr heddlu gael ei gwblhau. Dywedwyd wrthyf, gan nad oedd arholiadau ymarferol drama Safon Uwch ym mis Mai, Mehefin a Gorffennaf 2002, penderfynodd CBAC nad oedd angen hysbysu Mr Edwards. Pan benderfynwyd nad oedd erlyniad troseddol penderfynodd CBAC beidio â hysbysu Mr Edwards o gwbl ynghylch y mater.

Mae hyn yn gwbl amhriodol. Ni ddylai absenoldeb erlyniad troseddol byth benderfynu ar ganlyniad ymchwiliad amddiffyn plant neu gamau disgyblu nac yn wir, fel gyda CBAC, eu disodli. Unwaith eto, ni chynhaliwyd ymchwiliad mewnol yn CBAC i'r honiadau difrifol ac ni siaradodd CBAC â Mr Edwards.

15.24 Mae ymchwiliadau'r heddlu yn canolbwyntio ar ddarganfod p'un a gyflawnwyd trosedd. Mae angen bodloni Gwasanaeth Erlyn y Goron bod digon o dystiolaeth i sicrhau cyfle realistig o gael collfarn o gofio'r safon prawf troseddol. Ni chaiff ymchwiliad mewnol cyflogwr, nac unrhyw un arall, ei lywodraethu gan gyfraith droseddol a dylid ystyried dystiolaeth ar sail pwysau tebygolrwydd. Mae hyn nid yn unig yn helpu i amddiffyn plant, ond dyma yw'r ymagwedd gyffredinol ym mhob mater cyflogaeth a mater cytundebol arall.

15.25 Cymeradwyaf argymhelliad (20) Syr Ronald Waterhouse yn ei adroddiad 'Ar Goll Mewn Gofal' sef:

"Dylai unrhyw gamau disgyblu sy'n angenrheidiol, yn dilyn cwyn bod plentyn wedi'i gam-drin, gael eu cynnal mor brydlon â phosibl ac ni ddylent aros yn awtomatig am ganlyniad ymchwiliadau cyfatebol gan yr heddlu na'r adroddiad ar unrhyw ymchwiliad arall. Yn y cyd-destun hwn dylid pwysleisio i adrannau personél a phobl eraill sy'n gyfrifol am gynnal camau disgyblu o fewn awdurdodau lleol;

a) nad yw ymchwiliad gan yr heddlu nac unrhyw ymchwiliad annibynnol arall yn penderfynu ar faterion disgyblu;

- b) y gallai camau disgyblu gynnwys materion ehangach na dim ond ystyried a gyflawnwyd trosedd ai peidio;
- c) bod y safon prawf mewn camau disgyblu yn wahanol i'r un a geir mewn gweithrediadau troseddol;
- d) gellir, a dylid, sicrhau bod datganiadau a wneir i'r heddlu gan ddarpar dystion mewn camau disgyblu, gan gynnwys datganiadau gan achwynydd, ar gael i awdurdod lleol i'w defnyddio mewn gweithrediadau o'r fath, os rhoddir caniatâd i hyn gan wneuthurwr y datganiad".

Ar hyn o bryd, nid yw gweithdrefnau disgyblu mewnol CBAC yn berthnasol i arholwyr na chânt eu hystyried yn gyflogeion iddo, er eu bod yn ymddangos fel asiantau iddynt o dan y gyfraith y gallai CBAC fod yn gyfrifol am eu gweithredoedd a'u hanweithiau.

Argymhelliad

15.26 Argymhellaf y dylai CBAC adolygu ei weithdrefnau disgyblu mewnol a'i gontractau gydag arholwyr allanol ar fyrder a sicrhau bod argymhelliad 20 'Ar Goll Mewn Gofal', Syr Ronald Waterhouse yn cael ei ymgorffori ynddynt o fewn 6 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

15.27 Awgrymodd Gwasanaeth Erlyn y Goron nad yw plant yn perfformio'n fyw ar lwyfan yn noeth neu'n perfformio gweithredoedd anllad neu anweddus gerbron cynulleidfa o oedolion ar eiddo preifat yn cyfateb yn daclus ag unrhyw drosedd sydd ar y llyfrau statud yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd.

Er enghraifft, yn bennaf bwriedir i Ddeddf Theatrau 1968 ddiogelu'r cyhoedd rhag perfformiadau anllad yn hytrach na'r cyfranogwyr. Mae Deddf Troseddau Rhywiol 2003 yn cwmpasu achosi neu ysgogi plentyn i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol. Nid yw'n glir sut y byddai bod yn dyst i berfformiad byw p'un ai at ddibenion cyhoeddus, domestig, preifat neu fasnachol yn cael ei erlyn. Mae hyn yn wrthgyferbyniad i'r cyfreithiau sy'n rheoleiddio llwytho pornograffi plant ar y rhyngwrwyd, bod â lluniau anweddus o blant yn eich meddiant neu wyllo a dosbarthu deunydd sinematig.

Efallai y byddai ehangu'r troseddau voyeuriaeth a grëwyd gan adran 67 Deddf Troseddau Rhywiol 2003 yn ffordd syml a phriodol o ddelio gyda'r hyn sy'n ymddangos fel bwloch yn y maes hwn.

Byddaf yn gofyn i Gomisiwn y Gyfraith ymchwilio i'r maes hwn o'r gyfraith gyda'r nod o ddiogelu lles plant.

15.28 Ymddiswyddodd Mr Edwards o CBAC yn ystod fy Ymchwiliad ar 21 Chwefror 2003. Ymhlith ei resymau roedd y ffaith i CBAC fethu â gweithredu ar gwynion Mrs Phillips ym 1991; na roddwyd cyfle iddo glirio ei enw ar y pryd; ac oherwydd treigl amser, nid oedd yn cofio'r arholiad ymarferol dan sylw.

Byddwn wedi argymhell, er gwaethaf ymddiswyddiad Mr Edwards, y dylai CBAC ystyried yr holl dystiolaeth yng nghyd-destun ei addasrwydd i barhau i arholi yn unol â'i weithdrefnau mewnol, ond ni wnaif hynny ar sail ei oedran, ei ymddiswyddiad, y cystudd cyhoeddus y mae eisoes wedi'i ddioddef a'r amser a aeth heibio.

15.29 Yn anghrediniol, ar ddechrau fy Ymchwiliad, nid oedd gan CBAC bolisiau amddiffyn plant na pholisiau gweithio'n ddiogel gyda phlant o hyd ac nid oedd ganddo bolisi o hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol o unrhyw ddigwyddiadau amhriodol mewn arholiadau drama. Cefais fy hysbysu gan CBAC bod pob Corff Dyfarnu yn yr un sefyllfa yn union.

15.30 Ar 19 Chwefror 2003 cyflwynodd CBAC bapur yn fy Ymchwiliad o'r enw 'Gweithio'n ddiogel gyda phlant, canllawiau i arholwyr/canolwyr TAG'. Dyma oedd arweiniad cyntaf CBAC i arholwyr ar amddiffyn plant. Fe'i paratowyd gan Mr Parker, swyddog personél a swyddog drama. Nid ymgynghorwyd o gwbl ag arholwyr, gwasanaethau cymdeithasol nac arbenigwyr ym maes amddiffyn plant. Dywedodd cynrychiolydd cyfreithiol CBAC ei fod o'r farn iddo gael ei baratoi o ganlyniad i'r cyhoeddusrwydd a roddwyd i'm Hymchwiliad!³⁶ Roedd yn ymddangos fel pe bai'n ddim ond ymdrech i greu argraff, a gallai hynny fod yn wir. Dof i'r casgliad fod y papur hwn yn annigonol.

Argymhellion

15.31 **Argymhellaf y dylai CBAC lunio canllawiau, polisiau a gweithdrefnau amddiffyn plant manwl i arholwyr a'i gyflogeion a sicrhau y darperir hyfforddiant priodol o fewn 6 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn. Dylai'r polisi a'r gweithdrefnau gyfeirio at y canlynol:**

- (i) Canllawiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 'Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant' a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan**
- (ii) allgyfeirio i'r gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu**
- (iii) rhannu gwybodaeth**

- (iv) **cofnodi a storio gwybodaeth am bryderon yn ymwneud ag amddiffyn plant**
- (v) **yr angen am rôl cydlynedd amddiffyn plant penodedig a chylch gorchwyl ar ei chyfer**
- (vi) **hyfforddiant amddiffyn plant**
- (vii) **y rhyngberthynas rhwng ymchwiliadau amddiffyn plant a gweithdrefnau disgyblu**
- (viii) **monitro ac adolygu'r trefniadau**
- (ix) **cylchdroi arholwyr**

15.32 **Argymhellaf y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn partneriaeth â'r DfES, ACCAC a'r awdurdodau cwricwlwm ac asesu cymwys cyfatebol yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr, ystyried rôl cyrff arholi ledled y DU o ran trefniadau amddiffyn plant o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.**

15.33 Yn ei gyflwyniadau terfynol amlinellodd CBAC newidiadau a wnaed neu y bwriedir eu gwneud ers i'm Hymchwiliad ddechrau. Roedd y rhain yn cynnwys codi canllawiau maes llafur a pholisïau gweithio'n ddiogel gyda phlant gyda'r Cyd Gyngor Cymwysterau a neilltuo un aelod o staff fel y swyddog amddiffyn plant fydd, ar ôl cael hyfforddiant, yn cymryd trosolwg o unrhyw fater amddiffyn plant a allai godi. Croesawaf y datblygiadau hyn.

15.34 Dywedodd CBAC ar ddiwedd ei gyflwyniadau terfynol mai cyfyngedig fyddai'r cymorth a fyddai'n deillio o unrhyw gamau a gymerir ganddynt ac mai'r ysgolion eu hunain ddylai fod yn bennaf gyfrifol am amddiffyn plant. Dywedaf wrth CBAC bod gennym oll gyfrifoldeb cyfartal dros amddiffyn ein plant a'n pobl ifanc. Rhaid i CBAC werthfawrogi y gallai hyd yn oed gorff sydd ond yn ymdrin â phlant yn uniongyrchol yn achlysurol fod â gwybodaeth yn ei feddiant fyddai'n hollbwysig mewn cyd-destun amddiffyn plant, fel y gwnaeth yn ôl yr hyn a eglurwyd mewn man arall, rhwng tua 1985 a 1991.

15.35 Yn ystod ac ar ôl fy Ymchwiliad ni welais unrhyw dystiolaeth i Fwrdd Cyfarwyddwyr CBAC gael ei hysbysu o hanes hir ac annymunol ei ymwneud â'r mater hwn. Yr wyf yn bryderus ynghylch y sefyllfa honno os oedd hynny'n wir.

Casgliadau

15.36 CBAC yw'r corff arholi mwyaf sy'n gweithredu yng Nghymru gyda chynrychiolwyr etholedig o bob awdurdod lleol ar y Bwrdd. Mae'r dystiolaeth

ger fy mron yn dangos bod diffyg dealltwriaeth lwyr yn gorfforaethol o'i ddyletswyddau amddiffyn plant rhwng tua 1985 i 2003.

- 15.37 Cefais fod agwedd CBAC tuag at weithdrefnau a pholisiau amddiffyn plant yn hunanfodlon ac yn beryglus. Y pryder mwyaf, hyd yn oed nawr, yw yr ymddengys mai prin yw'r gwersi a ddysgwyd mewn gwirionedd.
- 15.38 Roedd cyfleoedd parhaus i CBAC godi pryderon difrifol gydag asiantaethau amddiffyn plant allanol ac efallai atal camdriniaeth. Arweiniodd ei ffocws ar sensoriaeth a'r angen i'r arholiadau fynd yn eu blaen a'i ddiffyg ymwybyddiaeth sylfaenol o faterion amddiffyn plant a'r angen i rannu gwybodaeth, at golli'r cyfleoedd hyn.
- 15.39 Dro ar ôl tro codwyd cwynion gan arholwyr, Ms Rees, Mr Burnell, Mrs Clarke, Ms Carys Tudor Williams a Mr Roberts. Pryderodd y bobl broffesiynol brofiadol hyn yn fawr ynghylch gwneud eu cwynion a chawsant eu trin yn wael. Mae'n amlwg y dylid bod wedi ymchwilio'n drylwyr i bob cwyn a dod i gasgliad arnynt a sicrhau bod y canlyniadau ar gael i gyfeirio atynt yn y dyfodol yng nghyd-destun amddiffyn plant. Roedd angen i'r un pâr o lygaid edrych ar bob cwyn. Ni ddigwyddodd hynny.
- 15.40 Yn yr un modd â chyda'r heddlu, ac i ryw raddau yr awdurdod addysg lleol, llesteiriwyd fy Ymchwiliad gan y ffaith nad oedd CBAC wedi cadw ei gofnodion. Rhoddwyd y dogfennau a oroesodd i mi gan Mrs Phillips a Mr Jeffreys, Pennaeth dros dro Ysgol Gyfun Rhydfelen ym 1991, UCAC a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Daeth gwybodaeth arall i law drwy ymchwiliadau Tîm fy Ymchwiliad.
- 15.41 Mae'n hanfodol bwysig i unrhyw wybodaeth am gŵyn neu ddigwyddiad a allai gwmpasu unrhyw fater sy'n ymwneud ag amddiffyn plant, pa mor fychan bynnag y bo, gael ei chadw am gyfnod hir a'i storio gyda'i gilydd. Mae'n hysbys iawn y gall pobl sy'n cam-drin plant weithredu dros ddegawdau. Gwyddom hefyd fod plant sy'n cael eu cam-drin yn aml yn dod yn oedolion cyn iddynt allu teimlo bod ganddynt rym i wneud i bobl wrando. Wrth geisio amddiffyn plant, gallai cofnodion o ymddygiad camdrinwyr posibl wedi eu casglu gan wahanol bobl fod yn amhrisiadwy. Mae tystiolaeth ddogfennol o'r cyfnod yn hanfodol er mwyn canfod y gwir.
- 15.42 O fewn CBAC roedd adrannau Safon Uwch a TGAU yn gweithredu ar wahân, ac maent yn parhau i weithredu felly, er mai yr un swyddog pwnc yw pennaeth y ddwy adran. Mae'n elfennol lle ceir pryderon am yr un ysgol sy'n cynnwys yr un athrawon ac yn y pen draw yn effeithio ar lawer o'r un plant, y dylid rhannu gwybodaeth glir rhwng yr adrannau.

- 15.43 Dangosodd y dystiolaeth ger fy mron i arholwyr drama TGAU gylchdroi o amgylch ysgolion ac i'r deunydd a gyflwynwyd i CBAC gael ei weld gan nifer o arholwyr. Mewn gwrthgyferbyniad arholwyd drama Safon Uwch gan yr un arholwr drwy gydol y cyfnod perthnasol a byddai'r canolfannau yn ymdrin yn uniongyrchol â'r arholwr hwn ynghylch cynnwys yr arholiad. Mae hyn yn cyflwyno risgiau cynhenid ac argymhellaf y dylid diwygio'r arfer hwn.
- 15.44 Cyflwynodd Ysgol Gyfun Rhydfelen sgrïptiau yn hwyr yn rheolaidd i CBAC. Effaith hyn oedd llesteirio CBAC rhag herio addasrwydd y deunydd. Ymdrinnir â hyn yn fy argymhelliad 15.52. Wrth gwrs, ni ddylai fod wedi cael unrhyw effaith ar gymryd camau pan berfformiwyd deunydd anaddas ac yn wir bu i arholwyr weithredu'n briodol mewn achosion o'r fath.
- 15.45 Roedd gwahaniaeth barn rhwng yr arholwyr a'r swyddogion o ran yr hyn a oedd yn addas i blant ysgol ei berfformio mewn arholiad. Fodd bynnag, roedd cyfoeth o dystiolaeth, yn ôl unrhyw safonau derbyniol, bod deunydd anaddas yn cael ei berfformio mewn arholiadau TGAU a Safon Uwch CBAC yn Ysgol Gyfun Rhydfelen rhwng tua 1985 a 1991.
- 15.46 Clywais dystiolaeth am amharoddrwydd CBAC i gael ei weld fel sensor. Dywedodd Mrs Clarke, Prif Arholwr CBAC, sydd â phrofiad helaeth ym maes drama ac amddiffyn plant, wrth fy Ymchwiliad
- "Nid wyf yn hidio dim am sensoriaeth. Mae gan blant hawl i gael eu hamddiffyn ac mae hyn yn drech nag unrhyw beth arall yn fy marn i. Mae'n rhaid bod plant yno a oedd yn hynod anghyfforddus am ran ohono. Nid yw plant mewn sefyllfa i ddweud nid wyf eisiau gwneud hyn. Mae'n gamddefnydd amlwg o sefyllfa'r athro"³⁷. Cytunaf â'r farn honno.
- 15.47 Disgrifiodd oedolion ifanc sut deimlad oedd gorfod actio'r deunydd hwn pan oeddent yn blant ysgol:
- "roedd yn rhaid i chi atal eich hun rhag teimlo cywilydd, rhag teimlo'n anghyfforddus"³⁸
- 15.48 Aeth rhai ymlaen i fod yn actorion proffesiynol a dywedasant na ofynnwyd iddynt erioed actio golygfeydd o'r fath fel oedolion.
- 15.49 Dylem gofio beth a ddywedodd un person ifanc a oedd yn ddigon cryf i wrthod, a arweiniodd at aberth bersonol fawr, ym 1991
- "dim ond plant ysgol ydym"³⁹.
- 15.50 Mae'n amlwg i mi bod Mr Owen yn defnyddio drama fel cyfrwng i weithgaredd

amhriodol gyda phlant. Un ffordd y cyflawnodd hyn oedd drwy gyflwyno themâu rhywiol yn gyson i destunau, gwersi ymarferol ac arholiadau ymarferol. Ymdriniaf yn fanylach ag effaith uniongyrchol hyn ar y plant ym Mhennod 20: Plant Ysgol Gyfun Rhydfelen.

- 15.51 Mae drama, fel chwaraeon, yn faes a all gyfoethogi bywydau plant a'u profiadau yn fawr, gan fagu eu hyder a rhoi cyfleoedd iddynt. Oherwydd ei natur, y pynciau yr ymchwilir iddynt, y profiad o actio emosiynau a theimladau sensitif, yr ymddiriedaeth a'r berthynas agos rhwng athrawon a disgyblion, mae drama yn faes sydd â'r potensial o adael plant yn agored i gael eu cam-drin. Mae sefydliadau sy'n ymwneud â chwaraeon wedi cydnabod hyn ac wedi cynhyrchu polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr i amddiffyn plant a gweithwyr fel ei gilydd. Rhaid gwneud gwaith tebyg yn awr yng Nghymru er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc ym maes drama a'r celfyddydau perfformio.

Argymhelliad

- 15.52 **Argymhellaf y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn partneriaeth â'r DfES, ACCAC a'r awdurdodau cwricwlwm ac asesu cymwys cyfatebol yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr, ystyried y ffordd yr addysgir ac yr arholir drama mewn ysgolion a cholegau addysg bellach, gyda'r nod o gynhyrchu canllawiau arfer o fewn 2 flynedd i gyhoeddi'r adroddiad hwn a fydd yn cynnwys rhoi ystyriaeth i'r materion canlynol:**
- (i) **dethol testunau drama priodol mewn addysg ac arholiadau**
 - (ii) **cyfranogiad oedolion mewn dramâu ysgol ac arholiadau drama ymarferol**
 - (iii) **addysgu drama yn ddiogel, yn arbennig rôl yr athro mewn sesiynau byrfyfyr ac actio method**
 - (iv) **lleoliadau ac amseroedd ar gyfer arholiadau ac ymarferion drama**
 - (v) **recordio plant a phobl ifanc mewn ymarferion drama ac arholiadau ymarferol ar fideo a'r angen i gael caniatâd y rhieni**
 - (vi) **yr arfer o gynnwys plant iau o fewn sesiynau drama ymarferol disgyblion hŷn**
 - (vii) **monitro sgriptiau a gosod cosbau am sgriptiau a gaiff eu cyflwyno yn hwyr i fyrddau arholi ar gyfer arholiadau ymarferol**

- (viii) canllawiau pendant ynghylch cynnwys ac iaith rywiol, cyswllt corfforol agos a noethni mewn arholiadau a gwersi drama ymarferol**
- (ix) dyletswyddau rheolwyr ysgolion a cholegau wrth fonitro'r ffordd y cedwir at y canllawiau a'r ffordd y cânt eu rhoi ar waith.**

Pennod 16

Ar ôl Ysgol Gyfun Rhydfelen

- 16.1 Yn dilyn ymddiswyddiad Mr Owen yn ystod y cyfnod y cafodd ei atal o Ysgol Gyfun Rhydfelen parhaodd i gael cysylltiad gyda disgyblion o'r ysgol. Rhoddodd wersi gartref i Ddisgybl J¹, y disgybl y dywedodd Disgybl G wrth Mr Matthews, Mr Jeffreys a Mr Davies fod Mr Owen, yn ôl yr honiad, yn cael perthynas "full blown man and wife job" gydag ef.
- 16.2 Parhaodd hefyd i ddysgu Disgybl G a phlant eraill o'r ysgol². Ymddengys na chymerodd yr awdurdod addysg lleol unrhyw gamau i atal Mr Owen rhag parhau i gael cyswllt gyda'r disgyblion.
- 16.3 Ym mis Ebrill 1991, roedd Mr Owen yn rhan o'r tîm cynhyrchu a fu'n ymarfer ac a lwyfannodd fersiwn Cymraeg o'r sioe gerdd 'Godspell' a deithiodd ar hyd a lled Cymru rhwng 6-13 Ebrill 1991 gydag Urdd Gobaith Cymru. Roedd rhyw ugain o bobl ifanc a thîm cynhyrchu o saith ar y daith³.
- 16.4 Ym mis Mai 1991, y mis ar ôl i gyflogaeth Mr Owen ddod i ben yn Ysgol Gyfun Rhydfelen, cynhyrchodd a chyfarwyddodd sioe gerdd roc a lwyfannwyd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Nhaf Elái. Cynhaliwyd yr ymarferion dros sawl mis ac roeddent yn cynnwys wyth deg o ddisgyblion o ysgolion uwchradd Cymraeg yn yr ardal⁴. Mr Matthews oedd y Swyddog Addysg Rhanbarthol yn Nhaf Elái ac roedd wedi gweld yr holl dystiolaeth yn erbyn Mr Owen.
- 16.5 Yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Nhaf Elái, perfformiodd Disgybl J yn "Cwlwm" a gyfarwyddwyd gan Mr Owen. Dywedodd Disgybl J fod gan Mr Owen gyswllt diderfyn ag ef a honnodd i gamdriniaeth ddigwydd yn ystod y cyfnod hwnnw⁵.
- 16.6 Cyfarfu Cyfarwyddwr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd â Mr Owen wedi iddo ddod yn ymwybodol iddo ymddiswyddo o Ysgol Gyfun Rhydfelen a rhoddodd Mr Owen sicrwydd iddo nad oedd dim i fod yn bryderus yn ei gylch⁶.
- 16.7 Ystyriodd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd hefyd sefyllfa Mr Owen mewn cyfarfod ym 1991 a phenderfynwyd, yn niffyg unrhyw gyhuddiadau manwl, y byddai'n annheg cymryd unrhyw gamau⁷.
- 16.8 Nid oedd Cyfarwyddwr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ar y pryd yn cofio derbyn unrhyw ohebiaeth am Mr Owen gan yr awdurdod addysg lleol. Rhoddodd Cyngor Sir Morgannwg Ganol gymorth grant a chefnogaeth sylweddol i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a bu'n rhan o'r trefniadau cynllunio am ddwy flynedd⁸.

- 16.9 Ceir tystiolaeth ysgrifenedig o'r cyfnod fod Mr Roberts yn ymwybodol bod Mr Owen yn gweithio gyda'r Urdd⁹ mewn nodyn o alwad ffôn i'r Cyfarwyddwr Addysg sy'n dweud "wedi siarad â Chyfreithiwr Mr Owen...methu cysylltu â Mr Owen cyn dydd lau gan ei fod i ffwrdd gyda'r Urdd" (nodyn dyddiedig 8 Ebrill 1991).
- 16.10 Pe bai cyhuddiadau wedi cael eu dwyn yn erbyn Mr Owen yna byddai wedi bod yn bosibl o hyd i weithio tuag at ganlyniad a fyddai wedi rhoi ei enw ar Restr 99 (Atodiad 3), hyd yn oed os oedd wedi ceisio ymddiswyddo. Dylai canlyniadau fod wedi deillio o hyn o ran Mr Owen ar ôl hynny, wrth geisio gweithio gyda phlant yn y sector gwirfoddol.
- 16.11 Pan achubir y blaen ar ymchwiliad neu pan fo'n amhendiant neu nad yw'n gofyn am ganlyniad disgyblu, ond ei fod wedi codi pryder o ran amddiffyn plant, nid oes canllawiau, polisi na gweithdrefn bresennol sy'n mynnu y dylid ei gofnodi ar ffeil yr aelod o staff. O ganlyniad, gall sawl ymchwiliad i gwynion fod yn rhai nad ydynt yn arwain at wneud unrhyw gofnod ar ffeil aelod o staff. Ystyrir y gall canlyniadau'r sefyllfa hon fod yn fwy difrifol os bydd yr aelod o staff dan sylw yn derbyn swydd mewn awdurdod addysg lleol arall neu gyda chyflogwr arall, neu'n gweithio gyda phlant yn y sector gwirfoddol. Rwyf wedi argymhell ym mhwynt 14.66 y dylai'r grŵp gorchwyl ystyried cofnodi ymchwiliadau ar ffeiliau staff sy'n addysgu a staff nad ydynt yn addysgu.
- 16.12 Bu'n rhwydd i Mr Owen barhau i allu gweithio gyda phlant er gwaethaf y ffaith i honiadau difrifol o gam-drin gael eu gwneud yn ei erbyn gan blant yn Ysgol Gyfun Rhydfelen ac adroddiad manwl gan uwch staff yr ysgol, a roddwyd i Mr Matthews, a oedd yn nodi, yn eu barn hwy, bod achos i'w ateb. Parhaodd Mr Owen i weithio gyda phlant
- (i) yn ei gartref tra roedd wedi ei atal o'i swydd
 - (ii) yn Urdd Gobaith Cymru tra roedd wedi ei atal o'i swydd ac yn dilyn ei ymddiswyddiad
 - (iii) mewn ysgolion yng Nghymru yn recriwtio plant ar gyfer y gyfres deledu 'Pam Fi Duw?', a ysgrifennodd ac yn y gyfres deledu ei hun, a gafodd ei ffilmio mewn ysgol yn y Rhondda.

Mae angen canllawiau ar fyrder o ran faint o wybodaeth y gellir ei rhannu mewn amgylchiadau lle mae unigolyn wedi bod yn destun honiadau o gam-drin plant ond na wnaed canfyddiadau mewn perthynas â'i ymddygiad. Dylai'r canllawiau hyn ystyried rhannu gwybodaeth gyda'r sector gwirfoddol ac yn wir unrhyw gorff y mae'r unigolyn yn gweithio iddo, boed yn wirfoddol neu am dâl, neu os yw'n bwriadu gweithio gyda phlant. Lle bydd honiadau wedi eu profi mae'n awlwg y bydd angen rhannu gwybodaeth yn gynhwysfawr.

Argymhelliad

- 16.13 **Argymhellaf y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi canllawiau, o fewn 12 mis o gyhoeddi'r adroddiad hwn, ynglyn â pha wybodaeth y gellid ei rhannu lle ceir honiadau o gam-drin plant p'un a wnaed canfyddiadau ai peidio. Dylai canllawiau o'r fath gynnwys pa wybodaeth y gellir ei rhannu gyda'r sector gwirfoddol ac unrhyw gorff arall lle mae gan yr unigolyn gysylltiad â phlant, neu lle y gallai gael cysylltiad â phlant.**

Pennod 17

'Pam Fi Duw ?'

- 17.1 Aeth Mr Owen ymlaen i ysgrifennu 'Pam Fi Duw?', un o'r rhaglenni teledu mwyaf llwyddiannus i gael ei chynhyrchu yng Nghymru yn yr iaith Gymraeg. Fe'i seiliwyd ar ei nofel, 'Pam Fi Duw, Pam Fi?' ac fe'i lleolwyd mewn ysgol ddychmygol ac roedd plant a recriwtiwyd o bob cwr o Gymru yn actio ynddi. Roedd chwe chfres i gyd. Ffilmiwyd y gyfres gyntaf ym 1996, a'r olaf, na chafodd ei darlledu, yn 2001.
- 17.2 Ffilmiwyd y gyfres yn Ysgol y Cymer yn y Rhondda gyda phlant 10 oed neu'n hŷn. Roedd Pennaeth Ysgol Y Cymer, Mrs Eirlys Pritchard Jones, yn adnabod Mr Owen. Cyn hynny bu'n Ddirprwy Bennaeth yn Ysgol Gyfun Rhydfelen a bu iddi ei herio ar ambell achlysur am iddo fwlio plant yn yr ysgol. Hithau hefyd oedd yr athrawes yr aeth 'Anti Peggy' a Mrs Evans ati ym 1983 gyda'r honiad ynghylch Disgybl B yn eistedd ar lin Mr Owen yn hanner noeth (gweler Pennod 10: Rhybuddion Cynnar).
- 17.3 Dywed Mrs Pritchard Jones ei bod yn gwybod pan adawodd Mr Owen Ysgol Gyfun Rhydfelen ym 1991 bod y sefyllfa'n ddifrifol, "Mi oeddwn i wedi casglu o amryw o ffynhonnau bod yna natur rywiol i'r cyhuddiadau yn erbyn John. Mi oeddwn i yn gwbod bod e'n ymwneud â'r ffordd odd e yn trin plant, ac oedd gen i amheuan ynglŷn â'r bwllian eriod"¹.
- 17.4 Roedd Mrs Pritchard Jones o'r farn nad oedd ganddi unrhyw awdurdod i atal ffilmio yn Ysgol Y Cymer. Dywedodd iddi gynghori'r cynhyrchwyr, Mr Geraint Morris a Mr Brian Roberts, i gael caniatâd Cyngor Sir Morgannwg Ganol². Mae Mr Morris wedi marw erbyn hyn ac nid oes gan Mr Roberts unrhyw gof o'r sgwrs hon. Dof i'r casgliad y gallai fod wedi lled awgrymu bod ganddi amheuan ond na roddodd unrhyw wybodaeth fanwl i Mr Morris na Mr Roberts gan na fu collfarn na chanfyddiadau ffeithiol o fewn y broses ddisgyblu³. Cytunodd Mrs Pritchard Jones, pan ofynnwyd iddi gan ei chynrychiolydd cyfreithiol, mai dim ond sibrydion yr oedd wedi eu clywed ond bod Cyngor Sir Morgannwg Ganol yn meddu ar wybodaeth⁴.
- 17.5 Am ba reswm bynnag ni rannodd yr awdurdod addysg lleol y wybodaeth am yr honiadau difrifol o gam-drin plant yn erbyn Mr Owen gyda HTV nac S4C na gyda chynhyrchwyr 'Pam Fi Duw?' er eu bod yn gwybod am honiadau'r plant a'r athrawon a bod y wybodaeth honno yn eu meddiant, ac er y bwriadwyd ffilmio'r gyfres yn un o'i ysgolion. Mae'n gwestiwn gennyf a fyddai'r ffilmio wedi mynd rhagddo neu wedi parhau pe bai manylion yr honiadau wedi cael eu rhannu.

- 17.6 Ni chynhyrchwyd unrhyw dystiolaeth yn fy Ymchwiliad i unrhyw blentyn a berfformiodd yn 'Pam Fi Duw?' gael ei gam-drin.
- 17.7 Dechreuodd Mr Owen fel awdur 'Pam Fi Duw?', er i'w rôl fynd y tu hwnt i'r hyn a ddisgwyliwyd fel arfer gan awdur. Roedd ar y set bob dydd ac yn weithredol iawn o ran cyfarwyddo⁵. O'r cychwyn "roedd yn llawer mwy nag ysgrifennwr sgriptiau, roedd yno'n hyfforddi'r plentyn neu'r person ifanc gyda'u hactio...ac yn amgylchynu ei hun gyda chylch o bobl ifanc"⁶.
- 17.8 Wrth i amser fynd heibio daeth yn gyfarwyddwr yn ogystal ag awdur ac yng ngeiriau un aelod o'r criw, "Roedd yn sefyllfa gwbl unigryw, nid oes yr un gyfres arall y gwn i amdani lle mae un person yn cadw cymaint o reolaeth dros allbwn y gyfres honno"⁷.
- 17.9 O ran dewis y cast, roedd Mr Owen yn mynd o amgylch ysgolion gyda'r cynhyrchydd gan gynnal gweithdai hanner diwrnod ar ddydd Sadwrn i gannoedd o blant⁸.
- 17.10 Clywais dystiolaeth am berthynas Mr Owen gydag actorion sy'n blant a'i gydweithwyr gan sawl tyst a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â chynhyrchu 'Pam Fi Duw?'. Cyfleodd pob tyst eu hawydd i wella arferion yn y cyfryngau er mwyn diogelu plant.

Disgrifiasant Mr Owen fel a ganlyn:

- (i) Roedd gan Mr Owen berthynas ffantastig gyda'r plant⁹
 - (ii) Roedd yn hoffi cael rheolaeth lwyr¹⁰
 - (iii) Roedd ganddo griw dethol o blant, ac roedd elfennau o edmygedd ato ac ofn ohono¹¹
 - (iv) Roedd y plant yn gymysgedd o'i ofni a'i addoli¹²
 - (v) Gallai newid golygfa mewn 10 munud, roedd y sgiliau yn wych¹³
 - (vi) Roedd plant yn cael eu denu ato, roedd yn gwbl garismatig¹⁴.
- 17.11 Clywais am arfer da lle byddai rhieni, ar ddechrau'r gyfres, yn cael eu gwahodd gan y cynhyrchydd i weld ymarfer a rhoddwyd taflen wybodaeth iddynt ynghylch beth fyddai'n digwydd, am ba hyd a ble i fynd os oedd problem. Gellid gwella'r arfer hwn drwy hysbysu plant yn ysgrifenedig ynghylch pwy y gallant fynd ato yn gyfrinachol os oes ganddynt unrhyw bryderon.

17.12 Clywais hefyd honiadau o ddigwyddiadau a achosodd pryder i mi:

- (i) Arhosodd Mr Owen mewn gwesty yn y Rhondda am 60 diwrnod ar ei gost ei hun ar yr un pryd ag yr oedd y plant a'r bobl ifanc o'r cast yn aros yno¹⁵
- (ii) Roedd y plant yn cael nosweithiau hwyr yn ystafell Mr Owen yn y gwesty¹⁶
- (iii) Ffotograff o un o'r bechgyn oedd yn actio yn y gyfres yn "gorwedd i lawr ar fwrdd, yn noeth o'i wasg i lawr, gyda channwyll yn sticio allan o'i ben ôl, gyda John Owen a'r holl blant o'i amgylch" yn cael ei basio o amgylch y criw cynhyrchu¹⁷
- (iv) "Gyrrodd (Mr Owen) un plentyn a oedd yn aelod o'r cast i fyny i Gwrt y Cadno ar ei ben ei hun yn ei gar"¹⁸
- (v) Honiadau o aflonyddwch rhywiol gan gydweithiwr gwrywaidd¹⁹
- (vi) Bod yn hynod aflednais yng ngŵydd plant, gan siarad yn barhaus am bethau rhywiol a gwneud jôcs rhywiol²⁰
- (vii) Bwli mawr ond roedd y plant am ei blesio bob amser²¹
- (viii) Golygfa lle y cafodd bachgen 16 mlwydd oed ei ffilmio'n gwbl noeth, lle nad oedd y sgript yn gofyn iddo fod yn noeth, dim ond Mr Owen, y dyn camera a'r person ffocws oedd yn bresennol, dywedwyd wrth y cyfarwyddwr cynorthwyol cyntaf i adael²²
- (ix) Iaith anweddus, defnyddiodd "F" ac ati yng ngŵydd y plant²³
- (x) Gallai fod yn llym iawn, nid yn unig gyda phobl ifanc, ond gyda phob un ohonom. Cefais fy mwlio, cafodd pob un ohonom ein bwlio²⁴.

17.13 Clywais dystiolaeth gan gyn ddisgyblion Ysgol Gyfun Rhydfelen a oedd wedi honni iddynt gael eu cam-drin ym 1991 ac a welodd Mr Owen gyda'r plant oedd yn actio yn 'Pam Fi Duw?'

- (i) "Roedd plant...yn dweud pa mor wych ydoedd a'i fod yn un ohonom ni...yr oedd yn bopeth yr oeddwn mor gyfarwydd ag ef yn yr ysgol, oherwydd dyna oedd un o'r pethau mwyaf atyniadol amdano...roedd yn gwneud i chi deimlo'n gydradd ag ef ac roeddwn yn gallu gweld bod hyn yn digwydd eto, a oedd yn fy mhoeni, sef bod ganddynt yr un farn ag yr oedd gennym ni amdano."²⁵
- (ii) "Roedd yn achos pryder i mi ei fod ef (Mr Owen) ar ei ben ei hun (yn ei gartref yn ymarfer) gyda pherson ifanc (14 neu 15) mewn sefyllfa

broffesiynol...roedd yn fy atgoffa o ba mor anghyfforddus yr oeddwn yn arfer teimlo wrth weithio gydag ef pan oeddwn yn blentyn"²⁶.

17.14 Clywais dystiolaeth gan gyn-ddisgyblion o Ysgol Gyfun Rhydfelen a honnodd yn ddiweddarach iddynt gael eu cam-drin ac a welodd Mr Owen gyda phlant yn 'Pam Fi Duw?'

- (i) "Cefais fy arswydo. Roedd llwythi o blant yn arfer mynd draw i'w dŷ"²⁷
- (ii) Nid oedd actor a oedd yn fachgen am dreulio amser yn nhŷ Mr Owen. Dywedwyd wrtho "y byddai ei ran yn cael ei chwtoji"²⁸
- (iii) "Y criwiau dethol. Roedd cwlt wedi ffurfio o amgylch John Owen. Roedd...cyloch mewnl o blant, a gadwyd yn agos ato a rhai a gafodd eu cau allan ac nad oeddent mor arbennig o bosibl...nid oeddech am ei groesi ac nid oeddech am symud o'r cyloch mewnl i'r cyloch allanol. Wyddoch chi, fe welais hynny eto. Y math yna o awyrgylch. Roedd fel pa bai wedi adeiladu ei Rydfelen ddychmygol ei hun"²⁹.

Ymchwiliad yr Heddlu a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant yn y Cyfryngau

17.15 Daeth Ms Susan Jeffries (cynhyrhydd cyfresi 4, 5, 6 'Pam Fi Duw?') yn ymwybodol bod yr heddlu yn ymchwilio i Mr Owen ym mis Mai 2001, dair wythnos cyn saethu cyfres olaf 'Pam Fi Duw?'. Dywedodd rheolwyr HTV ac S4C wrth Ms Jeffries am "gario ymlaen yn union fel o'r blaen...cario ymlaen yn union fel pe na bai dim wedi digwydd"³⁰. Roedd yn ymwybodol bod natur yr honiadau yn ymwneud â chamdriniaeth rywio³¹.

17.16 Mewn ysgol neu weithle lle mae gan berson gyswllt â phlant a lle mae'r person yn destun ymchwil gan yr heddlu am honiadau o gam-drin plant cynhelir asesiad risg gan bobl broffesiynol, rhennir gwybodaeth a gwneir penderfyniad ynghylch a ddylid:

- (i) atal y person o'i swydd yn niwtral yn ystod ymchwiliad yr heddlu neu
- (ii) parhau i weithio gan roi camau diogelu ychwanegol ar waith i amddiffyn y plant neu
- (iii) barhau i weithio fel o'r blaen.

17.17 Dywedodd Ms Jeffries mai'r ymagwedd oedd bod Mr Owen yn ddieuog hyd nes y'i profwyd yn euog a'i fod yn decach parhau fel o'r blaen hyd nes eu bod yn

gwybod yn union beth oedd yn digwydd. Nid ymddengys i unrhyw asesiad risg ffurfiol gael ei gynnal. Ni roddwyd unrhyw gamau diogelwch ychwanegol ar waith i amddiffyn y plant.

- 17.18 Credaf fod hyn yn adlewyrchu'r diffyg hyfforddiant, polisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant yn y cyfryngau yn gyffredinol. Canfûm nad oedd unrhyw ganllawiau ffurfiol ar amddiffyn plant, gweithio'n ddiogel gyda phlant na pherson penodedig wedi ei hyfforddi ym maes amddiffyn plant i ymdrin ag unrhyw bryderon ynghylch materion amddiffyn plant neu les plant. Yn amlwg mae'r mesurau hyn yn hanfodol yn arbennig mewn cyfresi fel 'Pam Fi Duw?' lle mae mwyafrif y cast yn blant neu'n bobl ifanc.
- 17.19 Roedd awydd a pharodrwydd gan y tystion hynny o'r cyfryngau a roddodd dystiolaeth yn fy Ymchwiliad i gyflwyno arferion gorau o ran amddiffyn plant i'w hamgylched gwaith. Cyfeiriodd llawer at y gofyniad i ddilyn cwrs iechyd a diogelwch cyn llofnodi unrhyw gontract i wneud rhaglen ac roeddent yn credu ei fod yn syniad da i ddilyn cwrs mewn amddiffyn plant ar yr un pryd³².
- 17.20 Arestwyd Mr Owen ar 13 Medi 2001³³. Cafodd ei atal o'i swydd ar gyflog llawn ac ymgymerodd Ms Jeffries â'i rôl fel cyfarwyddwr.
- 17.21 Awgrymodd yr heddlu y dylai Ms Jeffries ysgrifennu llythyr at y plant yn eu hysbysu y dylent fynd yn uniongyrchol at yr heddlu neu at Ms Jeffries os oeddent am wneud datganiad³⁴.

Canllaw i Reoliadau Plant (Perfformiadau) 1968 a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963

- 17.22 Mae'r gyfraith sy'n rheoleiddio perfformiadau plant yn cael ei chrynhai yn y Canllaw i Reoliadau Plant (Perfformiadau) 1968 a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963. Nod sylfaenol y rheoliadau yw diogelu iechyd, lles ac addysg plant sy'n cymryd rhan mewn perfformiadau. Ymhlith mesurau eraill, mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i drwyddedau gael eu sicrhau er mwyn i blant berfformio ac y darperir gwarchodwyr.

Gwarchodwyr

- 17.23 Yng Nghymru nid yw gwarchodwyr wedi eu cofrestru yn genedlaethol nac yn lleol, ni chânt eu trwyddedu, eu harchwilio na'u gwirio gan yr heddlu ac nid oes gofyn iddynt fod wedi cael eu hyfforddi mewn materion amddiffyn plant. Nid oes dim i atal unrhyw un anaddas rhag cael ei ddefnyddio rywle yng Nghymru heddiw fel gwarchodwr³⁵.

- 17.24 Yn ymarferol mae eu rôl yn canolbwyntio ar wneud y trefniadau ymarferol ar gyfer y plant fel eu hebrwng o'u cartrefi, gwneud yn siŵr eu bod yn bwyta, yn cael egwyl ac nad ydynt yn gweithio gormod o oriau. Bydd gwarchodwyr yn mynd gyda phlant os bydd angen iddynt aros dros nos. Nid oes cyfeiriad penodol yn y Rheoliadau at ddyletswydd i amddiffyn plant rhag cael eu camdrin yn emosiynol, yn gorfforol neu'n rhywiol.
- 17.25 Bu Mr Brian Roberts, cynhyrchydd tair cyfres gyntaf 'Pam Fi Duw?', cyn hynny yn gweithio yn Llundain a hynny'n cynnwys gweithio fel cynhyrchydd cyswllt ar 'The Lion, the Witch and the Wardrobe'. Roedd yn synnu pa mor rhwydd oedd y trefniadau ar gyfer gweithio gyda phlant yng Nghymru o gymharu â Llundain³⁶.
- 17.26 Dywedodd Ms Jeffries, cynhyrchydd tair cyfres olaf 'Pam Fi Duw?', wrthyf y dewisir gwarchodwyr drwy ddibynnu ar argymhellion pob eraill neu enw da neu "am eu bod yn athrawon...mae'n anodd dod o hyd i warchodwyr ac mae'n rhaid i chi ddibynnu ar argymhelliad personol"³⁷.
- 17.27 Ni chlywais dystiolaeth i'r diffyg cofrestru a archwilio gwarchodwyr yn ffurfiol arwain at gam-drin, ond yr wyf o'r farn y byddai rheoleiddio gwarchodwyr yn diogelu rhag camdriniaeth. Mae'r Rheoliadau yn diffinio'r gair 'chaperone' "fel person a gymeradwywyd gan yr awdurdod trwyddedig i arfer gofal a rheolaeth dros y plentyn neu'r plant fydd yn ei gofal"³⁸. Mae'r dystiolaeth sydd ger fy mron yn fy arwain at y casgliad nad yw cymeradwyaeth ystyrllon o'r fath yn gyffredin yng Nghymru, ac y dylai fod yn beth cyffredin.
- 17.28 Mrs Moyra Owen oedd y gwarchodwr yn nhair cyfres gyntaf 'Pam Fi Duw?'. Roedd ganddi flynyddoedd lawer o brofiad yn y rôl ac roedd o'r farn y byddai plant yn elwa pe bai'r Rheoliadau'n cael eu hadolygu. Yn ystod ei 23 mlynedd fel gwarchodwr nid oedd erioed wedi cael unrhyw hyfforddiant ac roedd ei gwybodaeth am y gyfraith sy'n rheoleiddio plant yn gweithio yn y cyfryngau a'i dyletswyddau yn deillio o grynodedeb a ddarparwyd iddi gan ei gŵr a oedd yn gyfarwyddwr³⁹.
- 17.29 Mae'r Rheoliadau yn mynnu na ddylai gwarchodwr fod yn gyfrifol am fwy na 12 o blant. Dyma yw'r uchafswm ond yn ymarferol clywais mai dyma yw'r norm. Disgrifiodd Mrs Owen yr anawsterau o ran gwarchod cymaint o blant "gallai rhai fod ar y set a rhai y tu allan - ble rydych chi'n mynd?"⁴⁰.
- 17.30 Er bod y Rheoliadau yn nodi bod angen gwarchodwr ar blentyn sy'n 16 oed ac sy'n dal i fod mewn addysg llawn amser, clywais dystiolaeth y caiff plentyn ei drin fel oedolyn proffesiynol pan fydd yn cyrraedd 16 oed, fel aelod o Equity. Ymddengys fod y gofal a gânt yn dibynnu ar y cynhyrchydd unigol. Roedd Ms Jeffries o'r farn y gall fod angen gofal o hyd ar bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed a gwnaeth drefniadau ymarferol ar eu cyfer hwy a oedd yn debyg i'r trefniadau a wnaed ar gyfer y plant

ifancach yn 'Pam Fi Duw?'⁴¹. Yr wyf o'r farn y dylai pobl ifanc yn y grŵp oedran 16-18 o leiaf gael person enwebedig sy'n gyfrifol am eu lles.

- 17.31 Rhoddwyd tystiolaeth y byddai gwarchodwyr yn annhebygol o ymyrryd pe na baent yn cymeradwyo golygfa neu ran o olygfa. Ar hyn o bryd nid yw gwarchodwyr yn gweld y sgrïpt ond ystyriaf y gallai gweld copi ohoni eu cynorthwyo yn eu rôl.
- 17.32 Anhawster arall y cyfeiriwyd ato gan Mrs Owen yw y disgwylir i warchodwyr blismona eu cyflogwr mewn rhai ffyrdd⁴².

Trefniadau Trwyddedu

- 17.33 Mae angen trwydded ar blant 16 oed ac sydd mewn addysg llawn amser gan eu hawdurdod addysg lleol er mwyn perfformio. Mae'r Rheoliadau yn nodi'n fanwl sut y dylai'r cwmni cynhyrchu wneud cais i awdurdod addysg lleol y plentyn a rôl yr awdurdod hwnnw.
- 17.34 Yn ôl profiad criw 'Pam Fi Duw?' "Nid oeddwn erioed wedi teimlo bod yr awdurdodau yn dangos unrhyw ddiddordeb yn y trwyddedau - roedd yn rhywbeth yr oedd yn rhaid iddynt ei wneud a rhaid i mi gyfaddef...roedd yn niwsans i ni ac unig bwrpas y drwydded oedd eu rhyddhau o addysg... Mae'r cyfan yn ymwneud â'r oriau a weithir a ph'un a oedd unrhyw waith nos i'w wneud a pha mor hir y treuliodd yn teithio i'r gwaith ac oddi yno"⁴³.
- 17.35 Roedd Mr Brian Roberts o'r farn bod angen ailystyried y trefniadau trwyddedu oherwydd "maent yn amddiffyn plant rhag gweithio oriau hir ond nid ydynt yn mynd i'r afael â'r bygythiad o gamdriniaeth rywiol, emosiynol neu gorfforol"⁴⁴.
- 17.36 Drafftiodd y Rheoliadau pan oedd cryn dipyn yn llai o gwmnïau cynhyrchu yn bodoli ac ar adeg pan oedd llai o ymwybyddiaeth o'r angen i amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin. Dof i'r casgliad bod y Rheoliadau ac arferion awdurdodau addysg lleol yn annigonol yng nghyd-destun amddiffyn plant yn y ffyrdd canlynol:
- (i) Yr unig enw sy'n ymddangos ar y cais am drwydded yw'r cynhyrchydd ar ran pa gwmni bynnag sy'n cynhyrchu'r rhaglen deledu, ond mae'n bosibl mai'r cynhyrchydd fydd â'r lleiaf o gysylltiad â'r plant
 - (ii) Nid oes gofyniad i gwmni cynhyrchu ddarparu rhestr o'r rhai fydd ar y safle neu fydd â chyswllt uniongyrchol â'r plant sy'n rhan o'r cynhyrchiad
 - (iii) Nid oes gofyniad i'r swyddfa cofnodion troseddol gynnal gwiriadau ar bobl sy'n ymwneud â'r cynhyrchiadau y mae actorion sy'n blant yn cymryd rhan

ynddynt, hyd yn oed pan fo'r rhan fwyaf o'r cast, fel yn 'Pam Fi Duw?', yn blant a allai fod yn gweithio gyda'r criw am sawl blwyddyn. Nid oes gan awdurdodau addysg lleol unrhyw bŵer i ofyn i wiriadau gael eu cynnal gan y swyddfa cofnodion troseddol

- (iv) Hefyd nid oes unrhyw ofyniad i roi gwybodaeth i awdurdodau addysg lleol am natur y deunydd y gofynnir i blant a phobl ifanc ei berfformio. Ni ofynnodd unrhyw awdurdod addysg lleol erioed am fanylion ynghylch beth yn union y byddai plentyn yn ei wneud ar 'Pam Fi Duw?'¹⁴⁵
- (v) Ni chlywais unrhyw dystiolaeth i awdurdodau addysg lleol yng Nghymru arolygu setiau yn dilyn trwyddedu. Nid oedd Mrs Owen, gwarchodwr, erioed wedi gweld arolygydd mewn 21 o flynyddoedd. Dywedodd Mr Roberts, y cynhyrchydd, tra'n gweithio ar 'The Lion, the Witch and the Wardrobe' yn Llundain, i AEM a'r ddau gyngor sir a roddodd drwyddedau fod yn arolygu. Roedd o'r farn bod hyn "yn beth da i bob un ohonom. Nid oeddem byth yn gwybod pryd y byddai'r gwiriadau yn digwydd". Yn ôl ei brofiad yng Nghymru "ni welsom neb o gwbl. Nid ymwelodd neb â ni yn ystod 3 blynedd gyfan o 'Pam Fi Duw?'¹⁴⁶. Cydymffurfiwyd â gofynion manwl i gadw cofnodion o'r oriau yr oedd plant yn eu gweithio ar 'Pam Fi Duw?', ond ni chawsant erioed eu harolygu gan awdurdod lleol⁴⁷
- (vi) Mae awdurdod addysg lleol yn hysbysu Pennaeth ysgol plentyn sy'n actio bod trwydded wedi ei chaniatáu ond nid ymgynghorir â'r Pennaeth ymlaen llaw am ei farn ynglŷn â'r effaith bosibl ar y plentyn⁴⁸. Roedd y Rheoliadau yn rhagweld y byddai'r awdurdod addysg lleol yn chwarae rôl llawer mwy rhagweithiol o ran cysylltu â'r Pennaeth a dim ond i roi trwydded ar yr amod na fyddai addysg y plentyn yn dioddef. Clywais nad yw hyn yn digwydd yn ymarferol
- (vii) Dywed y Rheoliadau 'os oes angen i blentyn fyw oddi cartref neu i ffwrdd o'r lle y mae'n byw fel arfer, dim ond mewn lle a gymeradwywyd gan yr awdurdod lleol yn yr ardal y mae'n perfformio ynddi y gall fyw'. Cadarnhaodd Ms Jeffries nad oedd hyn yn digwydd yn ymarferol ac na fu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf erioed gymeradwyo i'r plant aros mewn gwesty yn y Rhondda ac na fyddai wedi gwybod am hynny oni bai i'r cynhyrchydd ei hysbysu'n benodol⁴⁹
- (viii) Nid yw'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i restr gael ei darparu o'r aelodau hynny o'r criw a fydd yn aros gyda'r plant pan fyddant oddi cartref
- (ix) Pan fydd person ifanc yn cyrraedd 16 oed ceir anghysondeb rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae rhai yn mynnu y dylent gael trwydded os ydynt yn parhau i fod mewn addysg llawn amser, ond nid eraill⁵⁰

- (x) Nid wyf yn ymwybodol y caiff awdurdodau addysg lleol eu harolygu i sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau presennol o dan y Rheoliadau
 - (xi) Nid oes unrhyw ofyniad i gwmnïau cynhyrchu feddu ar bolisiâu na gweithdrefnau amddiffyn plant na pherson penodedig sydd wedi cael hyfforddiant ym maes amddiffyn plant cyn rhoi trwydded
 - (xii) Mae arferion yn amrywio o ran p'un a yw oriau gwaith plentyn yn cael eu hystyried fel eu bod yn cynnwys teithio i'w llety ac oddi yno.
- 17.37 Er mwyn diogelu lles plant yng Nghymru tra'n perfformio ar deledu neu'r cyfryngau, mae angen adolygu'r gyfraith ac arferion a'u hystyried o'r newydd yng ngoleuni'r wybodaeth yr ydym wedi ei chasglu am gam-drin plant ac amddiffyn plant yn ystod y deng mlynedd ar hugain ers i'r Rheoliadau ddod i rym.

Argymhellion

- 17.38 **Dylai pob rhan o'r cyfryngau yng Nghymru ymgorffori polisiâu, gweithdrefnau a hyfforddiant amddiffyn plant effeithiol yn eu systemau presennol ac enwebu person penodedig i dderbyn ac ystyried unrhyw bryderon. Dylai gweithdrefnau amddiffyn plant gynnwys arfer da mewn perthynas ag asesu risgiau a gweithdrefnau disgyblu lle y gwneir honiadau o gam-drin plant, ac yn arbennig dylent ymgorffori Argymhelliad (20) Adroddiad Syr Ronald Waterhouse, 'Ar Goll Mewn Gofal', o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.**
- 17.39 **Dylai pob awdurdod addysg lleol gadw cofrestr o warchodwyr y mae eu cofrestriad yn amodol ar gael eu gwirio gan y swyddfa cofnodion troseddol, cael cyfeiriadau boddhaol, hyfforddiant amddiffyn plant sylfaenol a gwybodaeth am eu dyletswyddau cyfreithiol a'u cyfrifoldebau, o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.**
- 17.40 **Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu Rheoliadau Plant (Perfformiadau) 1968 a'r canllawiau iddynt er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau a amlinellir yn fy adroddiad yn y trefniadau presennol ar gyfer diogelu lles plant yng Nghymru wrth berfformio ar deledu neu gyfryngau eraill, o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.**
- 17.41 **Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyhoeddi canllawiau i awdurdodau addysg lleol ar arferion gorau er mwyn cyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau presennol o dan Reoliadau Plant (Perfformiadau) 1968, o fewn 6 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.**

Chapter 18

Pwyllgor Amddiffyn Plant Rhondda Cynon Taf - Adolygiad o Achos Difrifol

- 18.1 Penderfynodd Pwyllgor Amddiffyn Plant Rhondda Cynon Taf (PAP) ar 14 Rhagfyr 2001 i gynnal adolygiad o achos difrifol i'r honiadau o gam-drin rhywiol a wnaed gan bobl ifanc yn erbyn Mr Owen. Gwnaed y penderfyniad hwn ar ôl i mi gyhoeddi fy mwriad i gynnal Ymchwiliad Cyhoeddus ym mis Tachwedd 2001.
- 18.2 Pwrpas cynnal adolygiad o achos yw canfod a oes gwersi i'w dysgu ynglŷn â'r ffordd y mae pobl broffesiynol yn cydweithio i ddiogelu plant¹.
- 18.3 Swyddogaethau a chyfrifoldebau Pwyllgor Ardal Amddiffyn Plant (PAAP) mewn adolygiadau o achosion yw "ystyried a ddylid cynnal adolygiad pan fo plentyn wedi bod yn destun camdriniaeth rywiol hynod ddifrifol a bod yr achos yn codi pryderon ynghylch gweithio rhyng-asiantaethol i amddiffyn plant"².
- 18.4 Cylch Gorchwyl adolygiad achos PAP Rhondda Cynon Taf oedd:
- (i) p'un a ddilynwyd y gweithdrefnau amddiffyn plant neu weithdrefnau perthnasol eraill a oedd ar waith rhwng 1974 a 1991
 - (ii) p'un a yw'r achos yn awgrymu'r angen i adolygu ar fyrder a lle bo angen diwygio neu newid y gweithdrefnau presennol
 - (iii) penderfynu ar unrhyw gamau y mae angen i PAP Rhondda Cynon Taf eu cymryd er mwyn sicrhau y gweithredir ar unrhyw wersi a ddysgwyd³.
- Dof i'r casgliad yr aethpwyd i'r afael â phob un ohonynt, ac i'r argymhellion perthnasol ac angenrheidiol gael eu gwneud.
- 18.5 Sefydlodd PAP Rhondda Cynon Taf banel adolygu achosion difrifol yn cynnwys aelodau o'r awdurdod addysg lleol, y gwasanaethau cymdeithasol (adran plant a phobl ifanc) a Heddlu De Cymru.
- 18.6 Cynhaliodd pob awdurdod statudol adolygiad mewnol i'w hymatebion i'r honiadau a wnaed gan bobl ifanc yn erbyn Mr Owen. Derbyniwyd adroddiadau'r adolygiad gan banel adolygu achosion difrifol a chomisiynwyd person proffesiynol annibynnol, gydag arbenigedd ym maes amddiffyn plant, i ysgrifennu adroddiad trosolwg. Yn yr adroddiad hwn dadansodwyd yr adroddiadau unigol a gwnaed argymhellion.

- 18.7 Nid oedd awdur yr adroddiad trosolwg yn rhan o'r grŵp adolygu o'r cychwyn. Gwnaeth sylwadau y bu'n rhaid iddi weithio gyda:

"gohebiaeth ysgrifenedig heb y fantais o gael gwybodaeth reolaidd yn deillio o drafodaethau rhyngasiantaethol y grŵp adolygu. Gallai hyn fod wedi arwain at leihad yn y wybodaeth a dderbyniwyd ac roedd yn golygu na ddefnyddiodd y grŵp adolygu sylwadau annibynnol parti allanol yn ystod camau cynnar yr adolygiad"⁴.

- 18.8 Mae'r adroddiad yn rhoi enghreifftiau o'r pryderon a godwyd gan CBAC gyda'r ysgol ym 1988 a 1990 ynglŷn â'r sgriptiau a berfformiwyd mewn arholiadau ac yr ymddengys nad aed ar drywydd y pryderon hyn.⁵ Synnaf nad argymhellodd yr adroddiadau y dylai'r PAAP gysylltu â CBAC i ganfod a oedd y gweithdrefnau a'r polisiau amddiffyn plant o fewn yr asiantaeth honno yn ddigonol. Ymdriniaf â'r materion hyn ym Mhennod 15: Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru.

- 18.9 Mae'r adroddiad yn nodi anawsterau wrth geisio canfod manylion yr hyn a ddigwyddodd oherwydd i gofnodion gael eu dinistrio. Mae hyn yn sail i sawl argymhelliad allweddol⁶.

- 18.10 Noda'r adroddiad fod gweithdrefnau amddiffyn plant a gweithdrefnau cam-drin plant PAP Morgannwg Ganol ar gyfer addysg:

"yn annigonol...anghydnaws â'r angen i ymgymryd â gwaith rhyngasiantaethol a sicrhau gweithdrefnau pendant wrth ymdrin â honiadau yn erbyn pobl broffesiynol. Yr oedd yn gamgymeriad dybryd a fu'n gyfrifol, fwy na thebyg, am osod y cywair ar gyfer y ffordd yr ymdriniwyd â'r mater"⁷.

Aiff ymlaen i ddweud ei bod yn bosibl na chafodd y broses o gyflwyno gweithdrefnau newydd yng Nghyngor Sir Morgannwg Ganol ei chyfleu yn effeithiol i ysgolion⁸. Erbyn hyn mae disgwyliad pendant i PAAPau gymryd cyfrifoldeb dros fonitro'r broses o weithredu gweithdrefnau amddiffyn plant yn effeithiol.

- 18.11 Noda'r adroddiad trosolwg nad oedd yr adroddiadau adolygu unigol yn gallu pennu sut, pam a phryd y cysylltwyd â'r heddlu⁹. Nid yw'n ymchwilio i'r rheswm pam na cheisiodd yr heddlu, ar ôl iddynt dderbyn yr honiadau am Mr Owen, gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol.

- 18.12 Noda fod gan rai aelodau o'r staff o fewn yr ysgol bryderon eisoes am Mr Owen, ond eu bod yn teimlo na allent weithredu arnynt nes i'r disgyblion wneud cwyn. Aiff yr adroddiad ymlaen i ddweud nad oedd gweithdrefnau amddiffyn plant 1990 yn rhoi cyngor ar sut y gallent wneud hyn¹⁰. Er y nodir hyn fel maes sensitif, nid yw'r adroddiad trosolwg yn ei drafod ymhellach. Dylid bod wedi

cynnwys cyfeiriad at bolisiau a gweithdrefnau datgelu cyfrinachau Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Gwnaf argymhellion ynghylch datgelu cyfrinachau ym Mhennod 11: Staff Ysgol Gyfun Rhydfelen.

- 18.13 Mae'r adroddiad trosolwg yn gwneud deuddeg argymhelliad i gyd i PAP Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Grŵp Adolygu Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Mae'r rhain oll wedi helpu i lywio fy argymhellion yn y bennod hon. Gwnaf fy argymhellion i gadeiryddion pob PAAP unigol gan y deallaf mai eu cyfrifoldeb hwy yw sicrhau y cânt eu rhoi ar waith.
- 18.14 Noda argymhelliad un: "O fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn dylai aelodau o PAP Rhondda Cynon Taf adolygu'r holl weithdrefnau presennol sy'n ymwneud â 'Honiadau yn erbyn Pobl Broffesiynol' er mwyn sefydlu ymatebion clir wrth ymdrin â honiadau. Dylai polisïau, gweithdrefnau ac arferion fod yn eglur, yn realistig ac ni ddylent wrthdaro â gweithdrefnau asiantaethau lleol neu genedlaethol"¹¹.
- 18.15 Rwyf yn ymwybodol bod Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd yn adolygu ac yn diwygio canllawiau blaenorol a bod eu hadran addysg a dysgu gydol oes yn datblygu canllawiau tebyg yn ymwneud â honiadau o gam-drin yn erbyn staff ysgolion. Yn y cyfamser, cyn i'r ddwy ddogfen hon gael eu cyhoeddi, cymeradwyaf yr argymhelliad uchod.

Argymhelliad

- 18.16 **O fewn 6 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn argymhellaf y dylai cadeiryddion pob PAAP yng Nghymru adolygu eu gweithdrefnau presennol sy'n ymwneud â Honiadau yn Erbyn Pobl Broffesiynol er mwyn sefydlu ymatebion clir wrth ymdrin â honiadau o'r fath. Dylai polisïau, gweithdrefnau ac arferion fod yn eglur, yn realistig ac ni ddylent wrthdaro â gweithdrefnau asiantaethau lleol neu genedlaethol.**
- 18.17 Noda argymhelliad dau: "Dylai pob asiantaeth a gynrychiolir gan PAP Rhondda Cynon Taf adolygu dulliau a therfynau amser eu hasiantaeth ar gyfer cadw a storio dogfennau a allai fod yn berthnasol i honiadau a wnaed yn erbyn oedolyn y mae ei gyflogaeth yn rhoi mynediad i blant iddo. Dylai'r terfynau amser hyn ar gyfer cadw dogfennau gael eu cynnwys yng Ngweithdrefnau Amddiffyn Plant Rhondda Cynon Taf"¹². Cymeradwyaf yr argymhelliad hwn.
- 18.18 Noda argymhelliad tri: "Dylai pob asiantaeth a gynrychiolir ar PAP Rhondda Cynon Taf sicrhau bod unrhyw bolisi, gweithdrefn neu ganllaw sy'n ymwneud ag amddiffyn plant yn nodi'n glir:

- (i) y dyddiad cyhoeddi
- (ii) awdur y dogfennau
- (iii) dogfennau blaenorol y mae'r dogfennau newydd yn eu disodli.

Wrth i ddogfennaeth newydd gael ei chyflwyno dylai asiantaethau feddu ar weithdrefn glir sy'n golygu bod staff yn cael gwared ar hen bolisiau ac yn defnyddio'r hyn sy'n gyfredol¹³ a "Dylai Pwyllgor Amddiffyn Plant Rhondda Cynon Taf gytuno ar bolisi a gweithdrefn ar gyfer storio ac archifo hen ddogfennau sy'n ymwneud â pholisïau, gweithdrefnau ac arferion amddiffyn plant"¹⁴. Cymeradwyaf yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad

18.19 Argymhellaf y dylai cadeiryddion pob PAAP sicrhau bod pob asiantaeth a gynrychiolir ar eu PAAPau yn sefydlu o fewn 6 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn bod unrhyw bolisi, gweithdrefn neu ddogfennau canllaw sy'n ymwneud ag amddiffyn plant yn nodi'n glir:

- (i) y dyddiad cyhoeddi**
- (ii) awdur y dogfennau**
- (iii) dogfennau blaenorol y mae'r dogfennau newydd yn eu disodli**

Wrth i ddogfennaeth newydd gael ei chyflwyno dylai asiantaethau feddu ar weithdrefn glir ar gyfer storio ac archifo hen bolisiau gan sicrhau bod staff yn defnyddio'r hyn sy'n gyfredol.

18.20 Noda argymhelliad pedwar: "Os bydd yn rhaid i PAP Rhondda Cynon Taf ymgymryd ag adolygiad o achos difrifol arall dylid comisiynu awdur annibynnol yr adroddiad trosolwg i gyfranogi yng nghyfarfodydd y grŵp adolygu"¹⁵. Cymeradwyaf yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad

18.21 Argymhellaf i gadeiryddion PAAPau os ymgwymerir ag adolygiad o achos difrifol y dylai awdur annibynnol yr adroddiad trosolwg gyfranogi yng nghyfarfodydd y grŵp adolygu.

18.22 Noda argymhelliad pump: "Dylai'r PAAP gynhyrchu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad trosolwg, eu gweithredu a'u

gwerthuso"¹⁶. Byddaf yn gofyn am gael gweld Cynllun Gweithredu PAP Rhondda Cynon Taf a byddaf yn monitro'r broses o weithredu'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad trosolwg.

18.23 Noda argymhelliad chwech: "Er mwyn atal troseddwy'r posibl rhag osgoi unrhyw gamau disgyblu posibl dylai'r Gwasanaeth Addysg:

- (i) sicrhau, pan fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi Gweithdrefnau Disgyblu Staff diwygiedig Llywodraeth Cynulliad Cymru, bod proses ac amserlen gytûn ar gyfer eu dosbarthu a darparu hyfforddiant i bob ysgol a Chorff Llywodraethu mewn perthynas â'r gweithdrefnau hyn¹⁷
- (ii) cytuno ar ganllawiau clir y gallai cyrff llywodraethu eu mabwysiadu pe credid bod aelod o staff wedi ymddiswyddo er mwyn osgoi camau disgyblu, a'u dosbarthu"¹⁸.

Gwnaf argymhellion ynglŷn â Chamau Disgyblu ym Mhennod 14: Llywodraethwyr Ysgol Gyfun Rhydfelen, a fyddai'n newid y system bresennol yn sylweddol.

18.24 Noda argymhelliad saith: "Er mwyn bod yn sicr y caiff personél addysg hyfforddiant amddiffyn plant sy'n berthnasol i'w rôl a'u cyfrifoldebau dylai'r cyngor:

- (i) sefydlu a chynnal cronfa ddata ganolog yn ymwneud â phob ysgol gan nodi enw'r athro cyswllt amddiffyn plant penodedig, lefel yr hyfforddiant a gafwyd a dyddiadau'r hyfforddiant¹⁹
- (ii) datblygu cynllun gweithredu a'i roi ar waith er mwyn sicrhau y caiff yr holl staff a gyflogir ym maes addysg a gwasanaethau plant sydd â chysylltiad uniongyrchol â phlant a phobl ifanc a'r bobl hynny sydd â rôl polisi/rheoli, mewn perthynas ag ysgolion a'r gwasanaeth addysg, hyfforddiant amddiffyn plant sy'n gymesur â'u dyletswyddau²⁰
- (iii) cynnal archwiliad o bob ysgol yn Rhondda Cynon Taf i nodi'r llywodraethwr enwebedig ar gyfer amddiffyn plant. Ar ôl i'r wybodaeth hon gael ei chasglu dylid rhoi rhaglen ar waith i sicrhau y caiff llywodraethwyr enwebedig gyfle i fynychu unrhyw hyfforddiant amddiffyn plant perthnasol, sy'n cynnwys honiadau yn erbyn staff sy'n addysgu a staff nad ydynt yn addysgu. Yn ogystal, dylid rhoi cyfle i bob llywodraethwr ysgol fynychu hyfforddiant amddiffyn plant perthnasol"²¹.

Cymeradwyaf yr argymhelliad hwn, a chyfeiriaf at natur yr hyfforddiant y dylid ei ddarparu i athrawon ym Mhennod 11: Staff Ysgol Gyfun Rhydfelen.

Argymhelliad

18.25 **Argymhellaf y dylai pob Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Addysg yng Nghymru neu'r rhai sy'n cyfateb iddynt, o fewn 3 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn:**

- (i) **sefydlu a chynnal cronfa ddata ar gyfer yr awdurdod cyfan yn ymwneud â phob ysgol, gan nodi enw'r athro cyswllt amddiffyn plant penodedig, lefel yr hyfforddiant a gafwyd a dyddiadau'r hyfforddiant**
- (ii) **datblygu cynllun gweithredu a'i roi ar waith er mwyn sicrhau y caiff yr holl staff a gyflogir ym maes addysg a gwasanaethau plant sydd â chysylltiad uniongyrchol â phlant a phobl ifanc a'r bobl hynny sydd â rôl polisi/rheoli, mewn perthynas ag ysgolion a'r gwasanaeth addysg, hyfforddiant amddiffyn plant sy'n gymesur â'u dyletswyddau**
- (iii) **cynnal archwiliad o bob ysgol i nodi'r llywodraethwr enwebedig ar gyfer amddiffyn plant. Ar ôl i'r wybodaeth hon gael ei chasglu, dylid rhoi rhaglen ar waith i sicrhau y caiff llywodraethwyr enwebedig gyfle i fynychu unrhyw hyfforddiant amddiffyn plant, sy'n cynnwys hyfforddiant i ymdrin â honiadau yn erbyn staff sy'n addysgu a staff nad ydynt yn addysgu. Yn ogystal, dylid rhoi cyfle i bob llywodraethwr fynychu hyfforddiant amddiffyn plant.**

18.26 Noda argymhelliad wyth y dylid adolygu systemau gofal bugeiliol mewn ysgolion ac ystyried cyflwyno cynllun eiriolaeth. Yr wyf wedi gwneud argymhellion perthnasol ym Mhennod 20: Plant Ysgol Gyfun Rhydfelen²².

18.27 Noda argymhelliad naw: "Dylid penodi Cydlynnydd Amddiffyn Plant gyda chyfrifoldeb penodol yn ymwneud ag ysgolion, er mwyn gwella gallu'r awdurdod addysg lleol i gefnogi a datblygu materion amddiffyn plant sy'n gysylltiedig ag ysgolion"²³. Cymeradwyaf yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad

18.28 **Argymhellaf y dylai pob Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Addysg yng Nghymru neu'r rhai sy'n cyfateb iddynt benodi cydlynnydd amddiffyn plant o fewn 6 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn gyda chyfrifoldeb penodol dros ysgolion, er mwyn gwella gallu awdurdodau lleol i gefnogi a datblygu materion amddiffyn plant sy'n gysylltiedig ag ysgolion.**

18.29 Gwnaed argymhelliad deg i Grŵp Adolygu Amddiffyn Plant Cymru Gyfan roi "Ystyriaeth...i ehangu'r adran ar gadw cofnodion (2.1.5) yng Ngweithdrefnau

Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Dylai'r ychwanegiad roi canllawiau ar gadw a storio dogfennau a phennu terfyn amser cytûn. Dylai hyn ganiatáu i achosion gael eu hadolygu'n hanesyddol"²⁴.

Mae'r argymhelliad hwn yn ymhelaethu ar argymhelliad dau a wnaed i PAP Rhondda Cynon Taf (gweler uchod) yr wyf eisoes wedi ei gymeradwyo ac argymhell y dylai cadeiryddion presennol pob PAAP yng Nghymru ei weithredu.

Argymhelliad

- 18.30 **Argymhellaf y dylai cadeiryddion PAAPau sicrhau y caiff Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan eu diwygio o fewn 6 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn er mwyn rhoi canllawiau ar gadw a storio dogfennau a fyddai'n caniatáu i achosion gael eu hadolygu fel y bo'n briodol dros gyfnod maith.**
- .

Chapter 19

Rhieni'r Plant

- 19.1 Mae'n gwbl amlwg mai rhieni a gofalwyr yw prif amddiffynwyr posibl plant a phobl ifanc, ym mhob lleoliad, yn cynnwys yr ysgol.
- 19.2 Mae gan rieni a gofalwyr hefyd hawl i ddisgwyl y bydd ysgolion a staff addysg yn ymgymryd â'u rhwymedigaethau o dan 'ddyletswydd gofal' yn briodol ac yn gydwbodol pan fyddant yn ymwneud ag unrhyw fath o weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r ysgol.
- 19.3 Mae'r ysgol yn arwyddocaol iawn yn hyn o beth. Bob dydd, mae degau o filoedd o rieni a gofalwyr yn anfon eu plant i ysgolion ar hyd a lled Cymru, yn ffyddiog y gofelir amdanynt ac y cânt eu hamddiffyn yn briodol, yn ogystal â chael eu haddysgu'n dda.
- 19.4 Fodd bynnag, nid yw'r ffydd gyffredinol hon yng ngallu a pharodrwydd yr awdurdodau priodol i amddiffyn, yn ddiamod. Os yw plant yn wynebu risg benodol wrth ymgymryd â gweithgareddau ysgol, mae gan rieni a gofalwr hawl a dymuniad naturiol i wybod am hynny ac i gael mynediad i systemau sy'n eu galluogi i ymyrryd. Mae dadl gref hefyd, os oes deunydd sy'n tueddu i ddangos y gall eu plant fod wedi cael eu cam-drin, y dylid datgelu'r deunydd hwnnw i rieni.
- 19.5 Mae'n amlwg nad oedd gan rieni disgyblion yn Ysgol Gyfun Rhydfelen, yn ystod y blynyddoedd hyd at 1991, ac yn cynnwys y flwyddyn honno, wybodaeth lawn am yr hyn yr oedd Mr Owen yn ei wneud i'w plant, nac am ddigwyddiadau yn awgrymu'r hyn yr oedd yn ei wneud. Honnir ymhellach nad oedd unrhyw systemau effeithiol ar waith i alluogi rhieni i ymyrryd.

Manylaf ar y materion hyn isod.

Yr Hyn a Wyddai'r Rhieni

- 19.6 Mae'n amlwg na fu i'r cyn-ddisgyblion sydd yn awr yn honni iddynt gael eu cam-drin yn ddifrifol gan Mr Owen rannu eu pryderon gyda'u rhieni ar y pryd. (Er iddynt ddweud digon wrth rai athrawon i sicrhau bod systemau'n cael eu defnyddio a oedd yn gofyn am archwiliad mwy trylwyr a chyson gan yr awdurdod addysg lleol). Mae'r ffaith mai dim ond yn anaml y bydd plant yn ymddiried ynddynt, hyd yn oed mewn achosion o gamdriniaeth rywiol ddifrifol iawn, yn bryder cyffredin i rieni a gofalwyr. Er bod rhieni yn beirniadu eu hunain

yn aml mewn achosion lle caiff y gamdriniaeth ei datgelu, anaml iawn y caiff hyn ei gyfiawnhau ac ni chanfûm unrhyw enghreifftiau o ymddygiad gan rieni y gellir ei feirniadu yn ystod fy ymchwiliad. Mae amryw o resymau pam nad yw plant yn datgelu gwybodaeth i rieni a dyna'r achos ym mhob math o deuluoedd beth bynnag eu ffurf, waeth pa mor dda yw'r berthynas rhyngddynt hwy a'u rheini (gweler Pennod 3: Mr John Arwyn Owen, Pennod 10: Rhybuddion Cynnar a Phennod 20: Plant Ysgol Gyfun Rhydfelen).

- 19.7 Hefyd nid yw'n glir i'r plant yn aml mai camdriniaeth yw'r hyn sy'n digwydd ac felly maent yn annhebygol o'i hysbysu felly i'w rhieni. Serch hynny, mynegodd llawer o rieni y teimlad a gyflëwyd mor gryno gan un ohonynt "Byddwn wedi hoffi pe bai fy mab wedi gallu dod ataf a dweud i hyn ddigwydd, oherwydd ein bod wedi cael perthynas dda iawn"¹.
- 19.8 Yn achos Mr Owen yn y cyfnod dan sylw, ni chafodd y rhan fwyaf o rieni fawr ddim rheswm i amau ei gymhellion yn ei ymwneud â'u plant.
- 19.9 Yr argraff a gawsant o Mr Owen oedd ei fod yn "ddyn oedd yn meddu ar gymaint o garisma"², roedd yn "rhywun a oedd yn gwneud gwaith gwych ym mhob ffordd"³.
- 19.10 Fel llawer o'r plant, roedd y rhieni dan yr argraff fod gan Mr Owen statws uwch yn yr ysgol nag yr oedd ganddo mewn gwirionedd "Rwyf wedi dod i ddeall yma nad Mr Owen oedd Pennaeth yr Adran Ddrama. Cefais fy synnu'n llwyr gan hynny. Roeddwn yn credu mai ef oedd 'Duw Hollalluog' yn yr adran ddrama honno. Roedd yn sicr yn ymddwyn felly"⁴.
- 19.11 Disgrifiwyd ei amlygrwydd yn yr ysgol, ac yn y gymuned, gan un arall fel "yr unig athro o Rydfelen yr wyf wedi gwybod ei enw erioed oedd John Owen"⁵.
- 19.12 Daeth Mr Owen yn gyfaill i rieni rhai plant a honnodd yn ddiweddarach iddynt gael eu cam-drin yn ddifrifol iawn. Croesodd y ffiniau sydd fel arfer yn bodoli rhwng rhieni ac athrawon. Yn yr achosion hyn "doedd hi fawr o dro cyn inni alw ein gilydd yn John a X yn hytrach na Mr Owen a Mr X"⁶.
- 19.13 Sefydlodd Mr Owen berthynas agos â'r rhieni i'r fath raddau bod "Ysgol Rhydfelen a'r adran ddrama yn chwarae rhan fawr yn ein bywydau cymdeithasol"⁷. Disgrifiodd un sut y bu i'w gŵr "wneud llawer o waith i John. Roedd yn gwneud ei ardd, roedd yn arfer helpu drwy wneud gwaith ar y set"⁸.
- 19.14 Disgrifiodd dau riant o'r fath sut y byddai Mr Owen yn ymweld â'u cartrefi yn rheolaidd⁹ a disgrifiodd un sut y byddent yn mynd am dripiâu i theatrau ac eisteddfodau gyda Mr Owen a'u mab "yn eithaf aml"¹⁰. Yn erbyn y cefndir hwn, cam bach oedd caniatáu i Mr Owen fynd â phlant am deithiau ar eu pen eu

hunain gydag ef "gan fy mod yn teimlo'n gyfforddus ei fod yn mynd gyda John, felly gadawais iddo fynd"¹¹.

- 19.15 Roedd rhieni yn ystyried bod Mr Owen yn berson llwyddiannus, roedd disgyblion oedd yn rhan o'i ddramâu yn ennill gwobrau. Wrth ymdrin â rhieni'r disgyblion sydd yn awr yn honni iddynt gael eu cam-drin yn ddifrifol, pwysleisiodd Mr Owen allu a rhagolygon posibl y disgybl dan sylw "Gwnaeth John argraff arnaf drwy ddweud bod gan fy mab dalent a oedd ychydig yn ddisgleiriach na'r lleill"¹².
- 19.16 Roedd y 'dalent arbennig' hon yn helpu i gyfiawnhau triniaeth arbennig, drwy wersi a theithiau un i un "cretais mai'r rheswm am hyn oedd bod Disgybl C yn fachgen talentog a dyna'r cyfan"¹³.
- 19.17 Yn y ffordd hon roedd Mr Owen yn defnyddio esboniad cyson a dilys iawn o'r hyn a fyddai fel arall wedi gallu cael ei ystyried fel lefelau a mathau anarferol ac amheus o gyswllt gyda disgyblion.
- 19.18 Mae pob rhiant sydd â bwriadau da am feddwl bod gan eu plentyn 'dalent arbennig', yn yr un modd ag y mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion am gael eu disgrifio felly.
- 19.19 Pwysleisiaf nad yw defnydd Mr Owen o esboniadau o'r fath yn tynnu oddi wrth y ffaith bod rhai o'r disgyblion yn amlwg yn dalentog, fel y mae eu gyrfaedd dilynol wedi profi. Fy mhwrpas yma yw dangos sut y bu i Mr Owen leddfuo unrhyw amheuan a allai fod wedi codi ym meddyliau'r rhieni fel arall.
- 19.20 Roedd ymdrechion Mr Owen i ennyn ymddiriedaeth y rhieni yn llwyddiannus ar y cyfan. Er gwaethaf y ffaith bod ganddynt berthynas dda yn gyffredinol gyda'u plant ac amrywiol gyfleoedd i'w arsylwi'n rheolaidd ac yn fanwl nid oedd y rhan fwyaf o'r rhieni yn ymwybodol o unrhyw ymddygiad amhriodol tuag at eu plant. Nid oedd y rhan fwyaf yn ymwybodol ychwaith o gynnwys sesiynau drama ymarferol na hyd yn oed yr arholiadau "nid oeddem ni fel rhieni yn ymwybodol o gwbl o'r deunydd a ddefnyddiwyd"¹⁴. (Gwnaf argymhellion ym Mhennod 15: Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru, i helpu i leihau'r tebygolrwydd y bydd hyn yn digwydd eto).
- 19.21 Yn wir, mae parch aruthrol y rhieni at Mr Owen, gan gynnwys rhieni rhai o'r plant a honnodd yn ddiweddarach iddo eu cam-drin yn ddifrifol, yn amlwg gan i fwy nag ugain ysgrifennu i'w gefnogi wedi i'w ymddiswyddiad gael ei gyhoeddi.

Clywais dystiolaeth mai Mr Owen ei hun a achosodd i rai o'r llythyrau cefnogaeth hyn gael eu hysgrifennu (ac ef oedd y gwir awdur mewn un achos) ond ymddengys i'r rhan fwyaf gael eu hysgrifennu'n ddigymhelliant¹⁵.

- 19.22 Saif y llythyrau hyn, efallai, fel rhybudd i ni oll i beidio neidio i amddiffyn rhywun yn rhy frwdfrydig pan na wyddom beth yw'r dystiolaeth.
- 19.23 Cafodd awduron y llythyrau o gefnogaeth eu camarwain yn fawr gan ddatganiadau cyhoeddus camarweiniol Mr Roberts a gweithredoedd Mr Matthews fel y nodir ym Mhennod 4: Mr Edwin Roberts a Phennod 5: Mr David Matthews.
- 19.24 Er gwaethaf hyn oll, codwyd rhai amheuron ym meddyliau rhai o berthnasau'r plant. Disgrifiodd un rhiant y ffaith bod ei mam yn amheus iawn o Mr Owen ac iddi ddweud wrthi'n benodol "na ddylai (Mr Owen) ddod â'i hŵyr adref yn ei gar o dan unrhyw amgylchiadau"¹⁶ ar ôl y clwb ieuenctid.
- 19.25 Rhoddodd rhiant arall dystiolaeth iddi deimlo'n anniddig pan oedd yng nghartref Mr Owen a phan sylwodd ar ffotograff maint poster o'i mab yn cael ei arddangos yn amlwg ar wal ystafell fyw Mr Owen: "Meddyliais, beth mae'r llun o Disgybl C yn ei wneud ar y wal? Wel, doeddwn i ddim yn hapus a dywedodd "o, peidiwch â bod yn wirion.... Dim ond ffotograff ydyw, pwy sydd i wybod mai Disgybl C ydyw"¹⁷.
- 19.26 Ac eithrio'r materion yr ymdrinnir â hwy yn 'Cwynion Rhieni' isod, ni chlywais fawr ddim dystiolaeth arall am rieni yn amheus o weithgareddau Mr Owen. Fodd bynnag, sylwodd un athro ar berthynas Mr Owen gyda rheini a chredu ei bod yn hynod "Sylwais ar lawer o rieni yn, wel cilwenu yw'r unig beth y gallaf ei alw, ar Mr Owen a meddwl, fel athro "dyna ryfedd"...roedd llawer o giglan gyda Mr Owen". Roedd yr athro o'r farn ei fod yn "eithaf amhriodol i rieni ac athro...nid oeddwn yn ei ddeall"¹⁸.
- 19.27 Mae'n werth nodi y byddai Mr Owen wedi ei chael yn llawer anoddach i fwynhau perthynas o'r fath gyda rhieni pe baent wedi bod yn ymwybodol o'r deunydd drama yr oedd yn ei ddefnyddio a'r pryderon a godwyd gan arholwyr gyda CBAC. Mae eu hanwybodaeth am y materion hyn yn deillio o fethiant pobl eraill a barodd iddynt beidio â chael y wybodaeth a fyddai wedi codi amheuron yn eu meddyliau o bosibl a rhoi'r cyfle iddynt amddiffyn eu plant.

Rhoddwyd cryn dipyn o sylw yn y gorffennol, a hynny'n haeddiannol, i bwysigrwydd asiantaethau yn rhannu gwybodaeth ymysg ei gilydd. Ni ddylid anwybyddu pwysigrwydd rhannu gwybodaeth gyda rhieni byth eto.

Cwynion Rhieni

- 19.28 Ymdriniaf â chwyn a wnaed gan fam Disgybl T, drwy lythyr, at y Pennaeth, Mr Jones ar 15 Gorffennaf 1988 ym Mhennod 10: Rhybuddion Cynnar. Roedd

yn cwyno am y ffordd y cafodd ei mab ei wahardd o'r ysgol yn ddiseremoni ar ôl galw Mr Owen yn 'bugger', ymhlith pethau eraill.

- 19.29 Fel yr wyf eisoes wedi ei amlinellu cwynodd mam Disgybl T yn ei llythyr am y cyfarfod dilynol a gafodd gyda'r Pennaeth, Mr Jones (9 Mehefin 1988) ac aeth ymlaen i godi pryderon dybryd am Mr Owen. Ni ddangosodd yr ysgol y cwртеisi o ateb ei llythyr hyd yn oed.
- 19.30 Mae'n amlwg i mi y dylai cwyn mor ddifrifol â hyn fod wedi ysgogi rhyw fath o ymchwiliad, ac y dylai'r rhiant fod wedi cael ei hysbysu o'r cynnydd a'r canlyniad.
- 19.31 Ysgrifennodd mam Disgybl T lythyr arall at y Cyfarwyddwr Addysg, Mr Roberts, ar 18 Mawrth 1991, yn amgáu copi o'r llythyr a ysgrifennodd ym 1988. Ni chydabuwyd y llythyr hwn ychwaith. Ysgrifennodd Mr Askey ar ben ei llythyr nad oedd "i'w gynnwys fel tystiolaeth"¹⁹.
- 19.32 Felly ni chafodd cwynion mam Disgybl T eu cydnabod ac ni weithredwyd arnynt ym 1988, nac ym 1991, sydd efallai yn peri mwy o syndod.
- 19.33 Ysgrifennodd rhiant arall, Mrs Phillips, y bu i'w chadernid a'i thrylwyrredd chwarae rhan allweddol yn y digwyddiadau ym 1991, lythyr cwyn maith at y Pennaeth dros dro yn Ysgol Gyfun Rhydfelen ar 9 Ionawr 1991. Ymdrinnir yn llawnach â'r llythyr hwn mewn man arall yn fy adroddiad. Fe'i hysgrifennwyd o ganlyniad i sgwrs rhwng y Pennaeth dros dro, Mr Jeffreys a Mrs Phillips, ac yn ystod y sgwrs honno bu i Mr Jeffreys ei chynghori "na ellid gweithredu arnynt (y cwynion) heb gwyn ffurfiol gan rywun y tu allan i'r ysgol"²⁰.
- 19.34 Nid oedd hwn yn ddisgrifiad cywir o'r amgylchiadau oedd yn bodoli ar y pryd. Fel Pennaeth dros dro, roedd gan Mr Jeffreys rym o dan RhYLI i gynnal ymchwiliad disgyblu i unrhyw fater perthnasol. Serch hynny, ysgrifennodd Mrs Phillips yn dilyn sgwrs dros y ffôn gyda Mr Jeffreys, gan ddechrau gyda'r geiriau "Yn dilyn ein trafodaeth ddydd Mercher, Ionawr 9fed, 1991, hoffwn gyflwyno cwyn ffurfiol"²¹.
- 19.35 Nododd llythyr Mrs Phillips y ffordd y bu i Mr Owen drin ei merch fel prif achos ei chwyn ond aeth ymlaen i honni:-
- (i) ei fod yn dangos ffafriaeth amlwg tuag at grŵp bychan dethol ar draul disgyblion eraill
 - (ii) y naws rywiol amlwg a gyflwynodd i'r dramâu
 - (iii) mai dim ond megis dechrau oedd yr honiadau a oedd yn dod i'r amlwg.

- 19.36 Ni chafodd Mrs Phillips unrhyw gydnabyddiaeth ffurfiol o'i llythyr cyntaf. Ymatebwyd i'w hail lythyr gan Gadeirydd y Llywodraethwyr a ddywedodd wrthi bod y mater wedi ei gyfeirio i'r Cyfarwyddwr Addysg.
- 19.37 Er i lythyr cyntaf Mrs Phillips arwain at atal Mr Owen o'i swydd, ni roddwyd rhagor o wybodaeth briodol iddi o ganlyniad i wneud cwyn ffurfiol. Cafodd ei hail lythyr ei gydnabod ond unwaith eto, ni ddilynwyd unrhyw weithdrefn a roddodd wybodaeth iddi am gynnydd yr ymchwiliad a ysgogwyd gan ei llythyr. Ysgrifennodd ei hail lythyr dyddiedig 4 Chwefror 1991 mewn ymateb i adroddiadau yn y wasg am ymddiswyddiad Mr Owen.
- 19.38 Anfonodd Mrs Phillips lythyr cwyn at Ysgrifennydd CBAC hefyd ar 6 Chwefror 1991. Ymatebodd Mr Clayton Heycock ar 21 Chwefror 1991 gan ddweud iddo ofyn i'w gydweithwyr yn yr adran arholiadau ymchwilio i'r mater yn fanylach. Ar 13 Mawrth 1991 ysgrifennodd Mrs Phillips lythyr arall. Ar 15 Mawrth 1991, ymatebodd Mr Heycock eto i lythyr cyntaf Mrs Phillips. Ymateb Mr Heycock i'w hail lythyr oedd "Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Mawrth, nodwyd y cynnwys"²².
- 19.39 Nid ystyriwyd y cwynion a wnaed gan riant Disgybl T, na chwynion Mrs Phillips, o fewn gweithdrefn gwyno ffurfiol gan yr ysgol, nac yn achos Mrs Phillips gan weithdrefn debyg gan yr awdurdod addysg lleol a CBAC. Nid oedd yr un o'r rhieni yn ymwybodol o weithdrefnau o'r fath. Mantais gweithdrefn gwyno yw nodi materion o'r fath fel y llwybrau ar gyfer gwneud cwynion, y cyfrifoldeb dros ymchwilio iddynt a gweithredu arnynt, amserlenni ar gyfer y broses a'r systemau a ddefnyddir er mwyn i'r achwynydd gael ei hysbysu am y cynnydd a'r canlyniad.
- 19.40 Sicrhaodd cadernid a chryfder Mrs Phillips na adawodd i faterion fynd yn angof wrth iddi frwydro i amddiffyn buddiannau ei merch. Ni fydd person fel Mrs Phillips ar gael i wneud hyn ym mhob achos. Rhaid i systemau ar gyfer cwynion fod ar gael i rieni disgyblion mewn ysgolion, a rhaid iddynt fod yn addas at y pwrpas ac yn hysbys a dealladwy i bawb.
- 19.41 Paratowyd rheoliadau drafft a'u cyhoeddi i ymgynghori arnynt ym 1999 o dan 'Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998'. Ni weithredwyd y rheoliadau hyn erioed, ond roeddent yn cwmpasu gweithdrefnau gwyno i lywodraethwyr ysgolion.
- 19.42 O dan Ddeddf Addysg 2002, mae'n rhaid i bob ysgol feddu ar weithdrefn gwyno. Ym mis Mawrth 2003, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Canllawiau Drafft ar Weithdrefnau ar gyfer Ymdrin â Chwynion i Gyrrff Llywodraethu"²³. Daeth gofyniad Deddf Addysg 2002 i rym ar 1 Medi 2003, er nad yw'r Cylchlythyr Canllawiau sy'n seiliedig ar y drafft y cyfeiriwyd ato uchod wedi ei gyhoeddi eto.

- 19.43 Mae'r Canllawiau Drafft ar Weithdrefnau ar gyfer Ymdrin â Chwynion i Gyrrff Llywodraethu yn gynhwysfawr ac yn fanwl ac mae'n cynnwys cyngor ar ymdrin â chwynion gan rieni. Mae'n fenter i'w chroesawu a bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru yw eu cyhoeddi fel canllawiau statudol (argymhellaf mewn man arall y dylid rhoi yr un statws statudol i Ganllawiau'r Cynulliad Cenedlaethol ar 'Cwynion yn Ymwneud â Disgyblion').
- 19.44 Cynigiad y sylwadau canlynol ar y Canllawiau Drafft, gan ddisgwyl y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynd i'r afael â hwy:
- (i) nid yw'n sôn yn benodol o gwbl am amddiffyn plant h.y. sut y dylid ymdrin â materion os bydd y gŵyn gan riant yn codi pryderon ynghylch esgeulustod neu gamdriniaeth. Mae hwn yn fwlch difrifol. Er bod polisiâu a chanllawiau eraill mewn grym ynghylch amddiffyn plant, mae fy Ymchwiliad wedi dangos yn glir yr angen i wneud pethau'n gwbl glir. Mae cwyn yn gyfrwng tebygol iawn i riant godi pryderon yn ymwneud ag amddiffyn plant (fel y gwnaeth Mrs Phillips ym 1991 ac wedi hynny) a dylai'r gweithdrefnau priodol y dylid eu dilyn fod yn rhan annatod o unrhyw weithdrefn gwyno.
- 19.45 Rhoddodd uwch swyddogion yr awdurdod addysg lleol priodol dystiolaeth i'm Hymchwiliad am eu dryswch ynghylch y rhyngberthynas rhwng gweithdrefnau disgyblu a gweithdrefnau amddiffyn plant. Gwnaf argymhellion mewn man arall ynglŷn â hynny, ond hoffwn sicrhau bod polisiâu a gweithdrefnau cwyno ysgolion yng Nghymru yn cynnwys canllawiau statudol eglur a phendant ynghylch yr hyn y dylai'r partïon dan sylw ei wneud os bydd cwyn yn codi materion yn ymwneud ag amddiffyn plant.

Argymhelliad

- 19.46 **Argymhellaf y dylai 'Canllawiau ar Weithdrefnau ar gyfer Ymdrin â Chwynion i Gyrrff Llywodraethu' Llywodraeth Cynulliad Cymru gael eu diwygio i gynnwys canllawiau eglur a phendant ar gyfrifoldebau'r partïon perthnasol os bydd cwyn yn codi pryderon yn ymwneud ag amddiffyn plant.**
- 19.47 Ar dudalen 11 paragraff 45 o'r Canllawiau Drafft, nodir yn gywir nad oes gan yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol hawl i gymryd rhan mewn cwynion yn ymwneud ag ysgolion. Mae hynny'n gywir, ond byddai'n ddefnyddiol i achwynwyr, cyrrff llywodraethu, athrawon a disgyblion gael gwybod bod gan swyddfa Comisiynydd Plant Cymru hawl i wneud hynny.

Argymhelliad

- 19.48 **Argymhellaf y dylid diwygio 'Canllawiau ar Weithdrefnau ar gyfer Ymdrin â Chwynion i Gyrff Llywodraethu' Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn ei gwneud yn glir bod gan Gomisiynydd Plant Cymru bwerau, o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001, i adolygu'r gweithdrefnau cwyno mewn ysgolion ac adolygu achosion unigol.**
- 19.49 Parhaf i bryderu bod angen i Benaethiaid a Llywodraethwyr ysgolion weithredu fel ymchwilyr a barnu ar ffeithiau a chanlyniadau dilynol o dan y Canllawiau arfaethedig. Mae fy mhryderon yn deillio o ystyriaethau sy'n cyfateb yn agos â'r rhai a nodais ym Mhennod 14: Llywodraethwyr Ysgol Gyfun Rhydfelen lle yr ymdriniais ag ymchwiliadau disgyblu.
- 19.50 **Dengys 'Canllawiau ar Weithdrefnau ar gyfer Ymdrin â Chwynion i Gyrff Llywodraethu' Llywodraeth Cynulliad Cymru ymwybyddiaeth o'r anawsterau a wynebir o ran sicrhau annibyniaeth ddigonol ym mhob cam o'r broses o ymchwilio i gŵyn, ac o ran dyfarnu mewn ysgolion, yn arbennig ysgolion bach. Rhannaf y pryder hwn ond nid wyf yn argyhoeddedig y bydd y camau unioni arfaethedig yn ymarferol ac yn effeithiol. Serch hynny, credaf y dylid rhoi'r cyfle i'r trefniadau arfaethedig, ar ôl eu diwygio fel yr awgrymwyd gennyf, gael eu profi ac felly y dylent, ynghyd â 'Cwynion yn Ymwneud â Phlant' gael eu cyhoeddi fel canllawiau statudol yn ddioed, a heb fod yn hwyrach na 1 Medi 2004.**

Bydd fy swyddfa yn adolygu'r trefniadau hyn wedi iddynt fod mewn grym am flwyddyn.

Pennod 20

Plant Ysgol Gyfun Rhydfelen

- 20.1 Yn y rhan hon o'm hadroddiad archwiliad nifer o faterion sy'n ymwneud â phlant Ysgol Gyfun Rhydfelen yn y blynyddoedd yn arwain at 1991 ac yn cynnwys y flwyddyn honno.
- 20.2 Am resymau a nodir ym Mhennod 2: Canfyddiadau Ffeithiol, ni wnafr unrhyw ganfyddiadau ffeithiol unigol am honiadau penodol o gamdriniaeth rywiol gan Mr Owen.
- 20.3 Mae'r canfyddiadau ffeithiol cyffredinol ar ddechrau fy adroddiad, ynghyd â'm hystyriaeth o dystiolaeth berthnasol, yn rhoi sail ddigonol i'r casgliadau y dof iddynt.
- 20.4 Yn ystod fy Ymchwiliad, cyflwynwyd tystiolaeth i mi am y materion canlynol ynghylch plant yr ysgol sy'n berthnasol iawn i'm Cylch Gorchwyl:
- (i) camddefnyddiodd Mr Owen y grym sy'n gynhenid yn y berthynas rhwng disgybl ac athro
 - (ii) nid oedd y disgyblion yn glir ynghylch sut y gallent gwyno eu bod yn cael eu cam-drin gan Mr Owen ac nid oedd ganddynt lawer o hyder y byddai unrhyw un yn eu credu pe baent yn cwyno
 - (iii) pan wnaed cwynion, nid ymdriniwyd â hwy yn gywir gan na chydabuwyd pryderon yn ymwneud ag amddiffyn plant ac nad oedd canfyddiad o bryderon o'r fath, neu fe'u hanwybyddwyd
 - (iv) roedd y gofal bugeiliol yn yr ysgol yn annigonol
 - (v) roedd canlyniadau (iii) a (iv) uchod yn ddinistriol i rai o'r plant dan sylw
 - (vi) ni chafodd y plant a ddywedodd iddynt gael eu cam-drin gan Mr Owen unrhyw wybodaeth am ganlyniad yr ymchwiliad ac ni roddwyd gwybodaeth ychwaith i'r disgyblion yn gyffredinol
 - (vii) ni roddwyd canllawiau i'r plant yn yr ysgol ynghylch beth oedd ymddygiad rhywiol a chorfforol amhriodol gan unrhyw oedolyn.

Camddefnyddio Grym a Chwynion gan Blant

- 20.5 Mae'r dystiolaeth i Mr Owen gamddefnyddio ei rym fel athro yn aruthrol. Noda'r adroddiad hwn sut y bu iddo wneud hyn, yn ogystal â'r dystiolaeth sy'n cefnogi fy nghanfyddiadau ffeithiol cyffredinol.
- 20.6 Ni roddodd unrhyw gyn-ddisgybl o Ysgol Gyfun Rhydfelen dystiolaeth ei fod yn ymwybodol sut y gallai gwyno am hyd yn oed y camymddygiad amhriodol mwyaf dybryd gan athro.
- 20.7 Ar bob achlysur pan fwriwyd amheuaeth ar ymddygiad Mr Owen, deilliodd hyn o'r ffaith i oedolyn ddehongli adroddiadau a wnaed gan ddisgyblion, neu iddynt fod yn dyst uniongyrchol i ddigwyddiadau a achosodd bryder iddynt. Deilliodd yr ymchwiliad cymharol drylwyr a gynhaliwyd gan uwch athrawon yn yr ysgol ar ddiwedd 1990 a dechrau 1991 o'r ffaith bod disgyblion chweched dosbarth yn gofyn am roi'r gorau i'w cwrs drama Safon Uwch. Dim ond pan gawsant eu holi ymhellach gan y staff y bu iddynt 'gwyno' am ymddygiad Mr Owen, (er y dylai'r heddlu fod wedi cael eu galw ar unwaith).
- 20.8 Deilliodd ymchwiliadau eraill (a oedd yn aml yn annigonol) i bryderon ynghylch Mr Owen o ddigwyddiadau yr oedd pobl yn dyst uniongyrchol iddynt, fel cogyddes yr ysgol yn gweld plentyn ar lin Mr Owen yn hanner noeth ym mis Tachwedd 1983 a chynnwys arholiadau drama ymarferol yn brawychu arholwyr CBAC.
- 20.9 Bydd gwylidwriaeth oedolion (ac yn arbennig pobl broffesiynol) bob amser yn elfen hanfodol a phwysig o amddiffyn plant a gwnaf sawl argymhelliad yn fy adroddiad gyda'r nod o wella hyn.
- 20.10 Fodd bynnag, un elfen mewn cyfres o amgylchiadau a alluogodd i Mr Owen ymddwyn fel y gwnaeth oedd absenoldeb system glir a dealladwy y gallai plant ei defnyddio i wneud cwynion. Fel y dywedodd un cyn-ddisgybl "Credaf y dylai rhywbeth fod wedi cael ei sefydlu lle y dylai pobl ifanc naif fod wedi cael y cyfle i...leisio ein barn mewn rhyw ffordd...neu bryderon"¹.
- 20.11 Credaf fod hwn yn gais rhesymol a gorgynnil. Roedd yr honiadau y gallai'r plant fod wedi eu gwneud ar y pryd yn cynnwys treisio, treisio rhesymol, sodomiaeth, ymgais i gyflawni sodomiaeth, ymosodiad anwedus gan gynnwys cyfathrach eneuol a mastwrbio, ac ymosodiadau. Yr isafswm sy'n ofynnol yw bod plant yn deall system glir ac effeithiol y gallant ei defnyddio i wneud cwyn am bethau o'r fath mewn sefyllfa addysgol. Mae'r dystiolaeth yn fy Ymchwiliad yn awgrymu nad dyma'r sefyllfa.

- 20.12 Cydnabyddaf fod gan rieni bellach hawl i gwyno drwy systemau a sefydlwyd yn ddiweddar mewn ysgolion a gwnaf argymhellion ynglŷn â'r rhain ym Mhennod 19: Rhieni'r Plant, ond mae gennyf dystiolaeth na fydd rhai plant o leiaf am ddweud wrth eu rhieni am nifer o resymau, a nodaf rai o'r rhesymau hyn isod.
- 20.13 Cydnabyddaf hefyd y gall fod amryw o resymau pam na fydd plant yn defnyddio system o'r fath, hyd yn oed os ydynt yn cael eu cam-drin yn sylweddol (gweler isod). Nid yw hyn yn rheswm dros beidio â chael system ar gyfer y rhai a fyddai, o bosibl, yn ei defnyddio. Yn wir, dof i'r casgliad bod angen system o'r fath er mwyn creu amgylchedd lle y mae plant yn fwy tebygol o ddweud am y pethau hyn. Yng ngeiriau un cyn-ddisgybl wrth gyfleu un o'r prif resymau pam na fu iddynt leisio eu cwynion "Nid oeddwn yn credu y byddai unrhyw un wedi ein cymryd ni o ddifrif i ddechrau a'i wrthsefyll (Mr Owen)"².
- 20.14 Mae angen i'r system y gall plant eu hunain ei defnyddio i wneud cwynion ganiatáu hefyd am y ffaith ei bod yn anarferol, fel y dengys y dystiolaeth ger fy mron, i blant gyfaddef honiadau llawn ar unwaith. Am y rheswm hwn mae angen i'r hawl i wneud cwyn fod yn gyffredinol ac ni ddylid ei chyfyngu i honiadau uniongyrchol o gamdriniaeth neu gamymddygiad proffesiynol yn unig.
- 20.15 Yn ogystal â chaniatáu i blant gwyno ar lefel sy'n ddiogel yn eu barn hwy, bydd hyn hefyd yn helpu i greu amgylchedd lle y gall plant ddeall bod byd oedolion yn rhoi rhywfaint o hawliau iddynt (e.e. i beidio â chael eu cam-drin) ac y bydd eu cwynion yn cael eu cymryd o ddifrif. Nid yw amgylchedd lle nad yw plant yn credu yr ymdrinnir yn briodol ag unrhyw anghyfiawnder canfyddedig yn un y maent yn debygol o fod â hyder ynddo fel amgylchedd y gellir rhannu materion difrifol ynddo yn ddiogel.
- 20.16 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cydnabod hyn ac wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori 'Gweithdrefnau ar gyfer Cwynion sy'n Ymwneud â Disgyblion'³.
- 20.17 Mae'r fenter ragorol hon, gyda'i sail benodol yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sydd i'w chroesawu, yn nodi'r cynigion ar gyfer ymdrin â chwynion gan blant ym mhob ysgol yng Nghymru.
- 20.18 Pe bai ei holl elfennau yn cael eu mabwysiadu gan bob ysgol yng Nghymru, yna byddai'r rhan fwyaf o'r pryderon yr wyf wedi eu codi yn cael eu datrys. Fodd bynnag, dim ond dwy elfen sy'n statudol o dan Ddeddf Addysg 2002.
- 20.19 Mae hyn yn achos pryder. Mae adrannau eraill yn ymdrin â materion pwysig iawn fel cyfrinachedd, eiriolaeth ac arferion da ac ni fwriedir i'r rhain fod yn statudol ar hyn o bryd.
- 20.20 Mae'r dystiolaeth sydd ger fy mron yn dangos o leiaf un achos ble y bu i ddisgybl adael Ysgol Gyfun Rhydfelen i fynd i ysgol arall oherwydd ei phrofiad ar ôl iddi

wneud cwyn. Nid yw'n amlwg i mi, o dan yr hyn a gynigir, a fyddai ganddi lwybr clir i wneud cwyn yn ei hysgol newydd am yr hyn a ddigwyddodd yn ei hen ysgol.

- 20.21 Hefyd, mae rhoi sail statudol i elfennau cyfyngedig o'r canllawiau yn debygol o arwain at ysgolion gwahanol yn datblygu gweithdrefnau gwahanol iawn. Gall hyn beri dryswch i ddisgyblion sy'n newid ysgolion, ac i blant o'r un teulu sy'n mynychu ysgolion gwahanol. Yn ddealladwy, gallai athrawon sy'n symud o un ysgol i'r llall ddrysu a thrwy hynny byddai effeithiolrwydd y system yn cael ei leihau.

Argymhelliad

- 20.22 **Argymhellaf y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gymryd y camau angenrheidiol i sicrhau y caiff pob cynnig o fewn ei dogfen ymgynghori 'Gweithdrefnau ar gyfer Cwynion yn Ymwneud â Disgyblion' ei wneud yn statudol.**

O safbwynt y plant a'r bobl ifanc (a hefyd o safbwynt athrawon, rhieni ac eraill), mae system gyffredin ar gyfer gwneud cwynion mewn ysgolion yng Nghymru yn llawer mwy tebygol o gael ei deall a'i derbyn yn gyffredinol.

- 20.23 Yr wyf yn parhau i bryderu bod y system arfaethedig yn dal i roi'r cyfrifoldeb dros ymchwilio i gwynion plant a dyfarnu arnynt ar Benaethiaid a llywodraethwyr. Fel y dywedais, mae rhai o'm pryderon yn debyg i'r rhai a godwyd mewn perthynas â disgyblu staff a barn debygol y plant ynghylch annibyniaeth y Pennaeth a/neu'r llywodraethwyr.
- 20.24 Serch hynny, mae'r fenter hon gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'w chroesawu a chynigiad y dylai fy swyddfa ddefnyddio pwerau i adolygu'r systemau hyn flwyddyn wedi iddynt gael eu rhoi ar waith. (Bydd yr adolygiad hwn yn ffurfio rhan o'r adolygiad o ganllawiau cysylltiedig i gael eu cyhoeddi ar 'Weithdrefnau ar gyfer Ymdrin â Chwynion i Gyrrff Llywodraethu').

Cwynion, Gwybodaeth a Chanlyniadau o Safbwynt y Plant

- 20.25 Nodaf ym Mhennod 11: Staff Ysgol Gyfun Rhydfelen, fy nghanfyddiadau ynghylch yr ymchwiliad a gynhaliwyd gan uwch athrawon yn Ysgol Gyfun Rhydfelen ym mis Ionawr 1991. Disgrifiodd y rhan fwyaf o'r tystion a oedd yn ddisgyblion ar y pryd y broses hon yn ffafriol.
- 20.26 O safbwynt y plant, prin iawn oedd y wybodaeth bellach a gawsant ac eithrio'r ffaith i Mr Owen gael ei atal o'i swydd. Dywedodd Mr Matthews wrth uwch

athrawon Ysgol Gyfun Rhydfelen nad oeddent i drafod materion yn ymwneud â'r ymchwiliad gyda'r disgyblion - nac yn wir gydag unrhyw un arall - ar unrhyw adeg (gweler Pennod 11: Staff Ysgol Gyfun Rhydfelen). Roedd y Llywodraethwyr dan waharddiad tebyg gan Mr Roberts (gweler Pennod 14: Llywodraethwyr Ysgol Gyfun Rhydfelen). Ni roddwyd gwybodaeth bellach i'r plant - y bu i nifer ohonynt ddangos cryn ddewrder drwy ddweud y cyfan a wyddent - drwy unrhyw sianeli ffurfiol. Fel y dywedodd un uwch athro "bu i ni gau fel cragen gocos"⁴.

- 20.27 Yn wir, rhoddwyd rhai o'r plant hyd yn oed yn y sefyllfa annymunol o orfod mynd ar daith ysgol gyda Mr Owen ar ôl iddo gael ei atal o'i swydd o ganlyniad i'r dystiolaeth y bu iddynt ei rhoi yn ei erbyn, mynychodd eraill ymarferion yn ei gartref.
- 20.28 Dioddefodd rhai plant hefyd ymosodiad geiriol llym gan uwch athro yn yr ysgol, a'u cyhuddodd yng ngŵydd disgyblion eraill o fradychu Mr Owen (gweler Pennod 13: Mr Peter Davies). Roedd rhai hefyd yn destun ymddygiad amhriodol gan athrawes arall (gweler Pennod 12: Miss Theda Williams).
- 20.29 Y digwyddiad nesaf, wedi i'r plant roi tystiolaeth ac wedi i Mr Owen gael ei atal o'i swydd, oedd cyhoeddi ei ymddiswyddiad. Ymddengys fod y disgyblion wedi clywed am hyn drwy amrywiol ffynonellau, ond ni roddwyd rhesymau yn uniongyrchol iddynt. Dywedodd Mr Roberts wrth y cyfryngau am yr ymddiswyddiad ar 25 Ionawr 1991. Er ei bod yn rhyddhad i lawer o'r disgyblion bod "yr unben mawr a chomander yr ysgol wedi mynd"⁵, nid oedd modd iddynt gael gwybod y rhesymau dros hynny.
- 20.30 Bu i'r camau a gymerwyd gan Mr Roberts a Mr Matthews yn arbennig helpu i sicrhau nad oedd 'canfyddiadau ffeithiol' ynghylch yr hyn yr oedd y plant wedi ei honni ac i amgylchiadau godi yn sgîl hynny a arweiniodd at ffurfio dwy garfan wahanol ac ar brydiau, anwybodus iawn, ymysg y llywodraethwyr, yr athrawon a'r disgyblion.
- 20.31 Parhaodd hyn drwy gydol ymchwiliad yr heddlu a hyd yn oed wedi i Mr Owen adael. Disgrifia un disgybl ei deimladau: "Teimlais fod yr heddlu, yr ysgol a'r awdurdodau wedi fy siomi. Ymddengys nad oedd gennyf unlle i fynd ac ni wyddwn beth ddeuai i'm rhan yn y dyfodol"⁶. Disgrifiodd un arall y sefyllfa yn sgîl y mater hwn a oedd heb ei ddatrys gan ddweud: "Roeddech yn tueddu i barchu pobl oedd yn hŷn na chi a pharchu aelod o staff a pho fwyaf yr aeth hyn ymlaen y mwyaf o gywilydd oedd arnaf a'r mwyaf o euogrwydd yr oeddwn yn ei deimlo a dechreuais feddwl bod yr hyn yr oeddwn wedi ei wneud yn anghyfiawn a dechreuais fod yn edifar i mi agor fy ngheg a dweud unrhyw beth"⁷.

Casgliadau

20.32 Mae'n amlwg i mi mai gweithredoedd ac anweithiau Mr Roberts a Mr Matthews ac ymddygiad Mr Davies a Miss Williams, nad oeddent yn ymwybodol o'r sefyllfa wirioneddol, sy'n gyfrifol am y trallod a'r dryswch a ddioddefodd y plant yr effeithiwyd arnynt fwyaf yn ystod ac ar ôl ymchwiliad 1990 a dechrau 1991.

Mae yr un mor amlwg i'r ffaith na roddwyd unrhyw wybodaeth i'r plant ychwanegu'n sylweddol at ddioddefaint rhai plant a gafodd eu cam-drin yn rhywiol yn ddifrifol gan Mr Owen.

20.33 Mae'n amlwg y bydd parodwydd plant i gwyno eu bod yn cael eu cam-drin yn cael ei lywio, i ryw raddau, gan y ffordd y byddant yn gweld sut y caiff plant sydd wedi cwyno eu trin.

20.34 Mae cyfyngiadau ar yr hyn y gellir ei rannu yn ystod ymchwiliad ac, wrth gwrs, mae'n rhaid dilyn proses deg. Fodd bynnag, mae'n bosibl darparu gwybodaeth ffethiol am y broses a'r canlyniad ac mae hyn yn rhywbeth buddiol.

Gofal Bugeiliol/Cymorth Emosiynol

20.35 Roedd Mr Jeffreys yn aelod o'r staff yn Ysgol Gyfun Rhydfelen am flynyddoedd lawer ac ef oedd y Pennaeth dros dro yn ystod y cyfnod sydd fwyaf arwyddocaol i'm Hymchwiliad, sef ar ddiwedd 1990 a dechrau 1991.

20.36 Dywedodd Mr Jeffreys "Fi oedd yn gyfrifol am sefydlu'r system fugeiliol yn yr ysgol ym 1975 ac roedd system ofal yn bodoli lle y rhoddwyd amser a chyfle i bob athro dosbarth gwrdd ag un o ddisgyblion ei ddosbarth bob wythnos"⁸.

20.37 Dywedodd Miss Williams, aelod hirsefydlog arall o staff yr ysgol, "Roedd ethos Ysgol Gyfun Rhydfelen yn golygu bod y berthynas gyfeillgar hon rhwng staff a disgyblion yn rhan werthfawr o fywyd yr ysgol ac yn un a gâi ei derbyn"⁹.

20.38 Dywedodd Dr Ellis, uwch athro arall "roedd yr ysgol yn ymfalchïo'n fawr yn y system oedd gennym...roedd pwyslais mawr ar bob math o ofal bugeiliol...roeddwn yn teimlo bod y system yn gryf ac yn eithaf arloesol"¹⁰.

20.39 Er gwaethaf y datganiadau didwyll hyn gan y staff a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â'r mater, rhoddodd y mwyafrif o'r cyn ddisgyblion a roddodd dystiolaeth bersbectif gwahanol iawn ar ofal bugeiliol yn yr ysgol. Nid oedd llawer ohonynt, a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â Mr Owen, yn ymwybodol bod system o ofal bugeiliol yn bodoli, na bod unrhyw blant eraill yn yr ysgol yn ymwybodol o system o'r fath.

20.40 Gall y term 'gofal bugeiliol' gwmpasu amryw fathau o gefnogaeth i bobl ifanc mewn sefyllfaoedd addysgol. Gall hyn amrywio o gymorth addysgu ychwanegol ar gyfer astudiaethau i roi cyngor unigol ar anawsterau emosiynol. Mae dwy elfen o 'ofal bugeiliol' sy'n berthnasol iawn i'm Hymchwiliad a byddaf yn eu hystyried yn unigol. Mae'r cyntaf yn berthnasol iawn i faterion amddiffyn plant ac mae'r ail yn ymwneud yn fwy cyffredinol â lles plant. (Mae cysylltiadau rhwng y ddau a nodaf y rheini pan fo angen).

Rôl Gofal Bugeiliol yng nghyd-destun Amddiffyn Plant

20.41 Yn y rhan hon o'm hadroddiad ystyriaf sut yr oedd disgyblion yn teimlo ynglŷn â gwneud honiadau, yn rhannol neu'n llawn, ynglŷn â Mr Owen ym 1990 a 1991.

20.42 Mae rhai o'r rheini sydd yn awr yn honni iddynt gael eu cam-drin yn disgrifio pam na fyddent wedi dweud wrth unrhyw oedolyn beth oedd yn digwydd iddynt¹¹. Dywedodd un arall "Dywedais gelwydd wrth yr heddlu a'r athrawon am nad oeddwn am i neb wybod beth yr oedd wedi ei wneud i mi"¹².

20.43 Roedd ofn ar rai disgyblion hefyd y byddai adrodd eu profiadau yn achosi loes i'w rhieni: "Nid oeddwn am frifo fy rhieni mewn unrhyw ffordd"¹³ ac "Nid oeddwn am frifo fy mam"¹⁴. Mae'r dymuniad hwn i amddiffyn eu rhieni weithiau'n nodwedd o gam-drin plant. Mae'n amlwg yn ei gwneud yn anoddach i rieni eirioli a chefnogi eu plant. Yng nghyd-destun disgyblion drama yn Ysgol Gyfun Rhydfelen ym 1991, roedd yn gyson â chyfarwyddiadau Mr Owen na ddylai'r hyn oedd yn digwydd mewn sesiynau drama ymarferol gael ei rannu gyda'r rhieni. Mae cyfrinachedd yn elfen gyffredin yng ngweithgaredd y rhan fwyaf o bobl sy'n cam-drin plant.

20.44 Roedd rhai cyn-ddisgyblion yn fwy cadarnhaol am y posibilrwydd o ddatgelu iddynt gael eu cam-drin pe bai staff wedi eu nodi'n benodol y gellid datgelu hynny iddynt. Teimlai un disgybl, er na fyddai seicolegydd allanol wedi ei hannog i adrodd ei phrofiadau, efallai y byddai "cynghorydd annibynnol"¹⁵ yr oedd eisoes yn ei adnabod wedi gwneud hynny. Mynegodd un arall y farn y byddent wedi bod yn fwy tebygol o siarad "pe bai rhywun a fyddai wedi ein cymryd o ddifrif i ddechrau ac wedi ei wrthsefyll (Mr Owen)"¹⁶.

20.45 Roedd llawer yn ystyried Miss Williams fel "y math o berson y gallech siarad â hi pe bai gennych broblemau"¹⁷ a soniodd rhai wrthi hi, neu wrth Mr Davies, Pennaeth yr Adran Ddrama a'r Dirprwy Bennaeth Mrs Eirlys Pritchard Jones, am anawsterau gyda Mr Owen.

20.46 Fodd bynnag, credai rhai disgyblion fod Miss Williams a Mr Davies yn rhy agos at Mr Owen i gael eu hystyried fel pobl i ymddiried ynddynt gyda materion o'r pryder mwyaf.

- 20.47 Pan ystyrir pa drefniadau sydd fwyaf tebygol o sicrhau y bydd plant yn fodlon hysbysu rhywun eu bod yn cael eu cam-drin, mae'n amlwg bod angen i bobl ifanc adnabod yr oedolyn ac ymddiried ynddo, ond maent yn llai tebygol o ymddiried mewn oedolion sydd ag awdurdod o fewn hierarchaeth yr ysgol.
- 20.48 Dof i'r casgliad er bod angen i athrawon ac ysgolion wneud pob ymdrech i ddarparu cymorth bugeiliol cryf, gan gynnwys cymorth emosiynol, mae eu hawdurdod dros y disgyblion yn golygu bod angen i oedolion annibynnol eraill fod ar gael. Yn y ffordd hon byddwn yn cynyddu'r i'r eithaf, y tebygolrwydd y bydd plant yn hysbysu rhywun.
- 20.49 Nid yw gwneud hyn yn disodli gwyliadwriaeth gan oedolion mewn unrhyw ffordd, nac ychwaith weithdrefnau priodol wedi i bryderon gael eu codi. Rhaid i ni ddatblygu rhwydweithiau gofal bugeiliol sy'n gwneud i blant fod yn fwy tebygol o ddatgelu iddynt gael eu cam-drin, ond ni ddylem dybio y byddant yn gwneud hynny.
- 20.50 Cyn nodi casgliadau'r adran hon dyfynnaf gyn-ddisgybl: "Byddai wedi bod yn braf clywed rhywun yn dweud 'Rwy'n dy gredu di'"¹⁸.

Gyda'r amcanion hyn mewn cof, argymhellaf y canlynol:

Argymhelliad

- 20.51 **Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru lunio strategaeth genedlaethol ar gyfer darparu gwasanaeth cynghori annibynnol i blant a phobl ifanc mewn addysg gan gynnwys darparu cefnogaeth briodol i blant yn ystod prosesau disgyblu, amddiffyn plant, cwynion a gwahardd, o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.**

Dylai'r strategaeth genedlaethol hon hefyd ystyried sgiliau, hyfforddiant a chefnogaeth gofal bugeiliol athrawon a'r priod rolau yng nghyd-destun gofal bugeiliol staff addysgu, cynghorwyr a staff lles addysg.

- 20.52 Credaf hefyd y byddai mewnbwn seicolegwyr plant sydd â phrofiad o ymdrin â phlant wedi eu cam-drin yn amhrisiadwy yn y maes hwn.

Bydd yr argymhelliad hwn o gymorth i blant ac asiantaethau amddiffyn plant gyda materion y tu hwnt i amgylchedd yr ysgol, gan y gallai plant ddatgelu pryderon o unrhyw fath.

- 20.53 Bydd angen i'r trefniadau a gynigaf gael eu hintegreiddio'n llawn i weithdrefnau amddiffyn plant a bydd angen i athrawon a chynghorwyr annibynnol gael

cysylltiadau clir a ffurfiol gyda'r gwasanaethau iechyd meddwl perthnasol i blant a'r glasod e.e. seicotherapi, seicoleg plant ac ati.

Gall y trefniadau hyn hefyd ganiatáu ar gyfer gwahanol lefelau o gyfrinachedd.

Rôl Gofal Bugeiliol yng nghyd-destun Lles Plant

- 20.54 Wedi i'r plant wneud datganiadau i Mr Matthews ym 1991, ni chynigiwyd cymorth personol arwyddocaol iddynt. Cydnabu un neu ddau i athrawon unigol fod yn garedig tuag atynt: "Tynnodd Mr (Roy) Davies fi i un ochr un diwrnod a dywedodd wrthyf fy mod yn ddewr"¹⁹ ond fel arall prin oedd y gefnogaeth emosiynol a oedd ar gael.
- 20.55 Ym 1991 gadawyd plant a oedd yn honni iddynt gael eu cam-drin mewn sefyllfa lle y bu i ddisgyblion eraill a rhai athrawon eu hanwybyddu, nid oeddent yn gallu rhannu'r hyn a ddigwyddodd iddynt gyda'u rhieni ac ni ddygwyd y dyn yr oeddent wedi ei gyhuddo o flaen ei well, heb sôn am gael ei farnu. Disgrifiodd un o'r disgyblion hyn sut deimlad oedd hyn: "Roedd arnaf ofn mynd i'r ysgol, roeddwn wedi'm brawychu. Roeddwn yn isel iawn fy ysbryd...encillais gryn dipyn ac euthum yn eithaf mewnblyg a gwnaeth hynny i mi deimlo'n waeth"²⁰. Dywed un arall am y cyfnod hwn "Ar y pryd...teimlais fy mod wedi fy ynysu'n gyfan gwbl oddi wrth bawb a phopeth, nid oedd neb y gallem ymddiried ynddo, neb y gallem siarad â hwy"²¹. Dywed trydydd "Ar y pryd roeddwn mor isel nes i mi deimlo fel lladd fy hun. Ni wnaeth neb fy amddiffyn fel yr addawyd"²².
- 20.56 Mae diffyg cymorth penodedig i'r plant hyn yn peri mwy o syndod byth gan cydnabuwyd bod anghenion o ran cefnogaeth yn gynnar iawn yn y digwyddiadau hyn. Dywedodd yr adroddiad gan yr uwch athrawon ym mis Ionawr 1991 am un disgybl "oni ddilêir yr anghyfiawnder a deimla, mae'n debygol o golli ei chyfle o ennill lle mewn Prifysgol a bydd hyn yn cael effaith seicolegol ddifrifol arni"²³.
- 20.57 Rwyf yn ymwybodol bod problemau gydag achosion troseddol ynghylch darparu gwasanaeth cwnsela a chymorth tebyg i dystion sy'n blant. Er y gallai fod ar gael mewn mannau pryderaf mai bratiog yw'r ddarpariaeth ledled Cymru. Mae llai o broblemau yn gysylltiedig â darparu cymorth o'r fath yn ystod achosion disgyblu ac nid oes rhwystr i ddarpariaeth o'r fath wedi i'r rhain gael eu cwblhau.
- 20.58 Argymhellaf mewn man arall mai'r awdurdod lleol a thribiwnlysoedd annibynnol ddylai fod yn gyfrifol am ymchwiliadau a gwrandawladau disgyblu yn y drefn honno.

Dealltwriaeth Plant o Gamdriniaeth

- 20.59 Clywais dystiolaeth gan nifer o gyn-ddisgyblion i Mr Owen wneud y ffiniau o ymddygiad derbyniol mor annelwig nes eu bod yn aneglur pa elfennau oedd yn golygu camdriniaeth. "Ni feddyliais amdano fel camdriniaeth,"²⁴ "Nid oeddwn yn gwybod a oedd yn gyfiawn neu'n anghyfiawn...ond fe gytunais, cydymffurfiais ag ef gan mai ef oedd fy mentor"²⁵ ac "Roedd yn arfer cyfeirio ataf fel rhywun arbennig ac roeddwn yn credu fy mod yn arbennig iddo. Rwy'n dal i'w chael yn anodd derbyn mai camdriniaeth ydoedd"²⁶.
- 20.60 Rhoddodd cyn-ddisgyblion dystiolaeth hefyd am rai o'r pethau y credant yn awr a allai fod wedi eu hamddiffyn yn well, "mae'n ymwneud ag addysgu plant os bydd rhywun yn gwneud hyn i chi ei fod yn anghywir, nid yw'n ymwneud â chael eich cofleidio neu gael cwtsh, mae'n ymwneud ag os bydd rhywun yn ceisio cyffwrdd ag unrhyw ran o'ch organau rhywiol, unrhyw ran o rannau preifat eich corff nad ydych am iddynt gael eu cyffwrdd yna dylech ddweud, dylech ddweud wrth rywun"²⁷. Dywed un arall "Mae angen i blant fod yn ymwybodol o'u hawliau. Wyddwn i ddim mai camdriniaeth ydoedd"²⁸.
- 20.61 Ceir cryn gytundeb y dylai cyngor o'r math hwn fod ar gael i blant gan y bydd yn helpu i'w hamddiffyn, "pe baech yn sylweddoli nad chi sy'n gwneud y peth anghywir yna byddwch yn teimlo bod gennych fwy o rym i ddweud rhywbeth"²⁹.
- 20.62 Cytunaf â'r farn hon, ar ôl i mi glywed digonedd o dystiolaeth o'r ffordd y defnyddiodd Mr Owen ddrama i fanteisio ar ddiffyg dealltwriaeth amlwg y plant o gamdriniaeth. Cytunaf hefyd gyda'r anhawster o ddarparu gwybodaeth a chyngor o'r fath yn y ffordd gywir. Fel y nododd dau dyst: "Mae hyn mor frawychus, mae dysgu'r pethau hyn i blant yn dinistrio eu diniweidrwydd"³⁰ a "Credaf ei bod yn anodd iawn rhybuddio plant am gamdriniaeth yn yr ysgol. Mae'r ffin yn denau iawn rhwng amddiffyn plant a pheri iddynt golli eu diniweidrwydd. Ni fyddech am i blant amau pob oedolyn sy'n dal swyddi ag awdurdod"³¹.
- 20.63 Mae hynny'n wir. Serch hynny mae'n rhaid i ni nodi'r 'ffin denau' honno os ydym am amddiffyn ein plant yn briodol, ac os am roi grym i blant amddiffyn eu hunain. Rwyf yn ymwybodol o rai prosiectau sy'n ceisio gwneud hyn yn ein hysgolion (e.e. NSPCC a ChildLine). Mae profiad ChildLine hefyd yn dystiolaeth y bydd yn well gan rai plant o leiaf rannu eu pryderon gan ddefnyddio'r ffôn sy'n sicrhau eu bod yn ddienw, ac y bydd rhai na fyddent yn awyddus i gael cyswllt wyneb yn wyneb yn gwneud hyn.

Argymhellion

- 20.64 **Argymhellaf y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru o fewn 3 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn ei gwneud yn ofynnol i bob corff llywodraethu ysgol sicrhau bod plant yn cael eu hysbysu yn eu hysgol o argaeledd a phwrpas gwasanaethau perthnasol, gan gynnwys ChildLine, Llinell Gymorth Amddiffyn Plant yr NSPCC, gwasanaethau cymdeithasol, swyddfa Comisiynydd Plant Cymru a gwasanaethau eirioli.**
- 20.65 **Argymhellaf y dylai ACCAC, o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn adolygu ei Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol yng ngoleuni fy adroddiad a phenderfynu a oes angen gwneud newidiadau neu ychwanegiadau.**
- 20.66 Bwriad yr argymhellion yr wyf wedi eu gwneud yn yr adran hon o'm hadroddiad yw gwella'r cyfleoedd i blant adnabod camdriniaeth, gwneud cwyn amdani a chael cefnogaeth briodol. Mae'r ffaith nad ydynt yn canolbwyntio arni yn benodol yn deillio o'm dealltwriaeth bod angen i blant gael hyder cyffredinol yn eu gwerth, eu hawliau a'r gefnogaeth y gallant ei disgwyl os ydym am obeithio y byddant yn dweud wrthym pan fo pethau'n mynd o chwith. Byddai wedi bod yn anos i Mr Owen weithredu fel y gwnaeth pe bai'r adnoddau a'r systemau yr wyf yn eu hargymell wedi bod ar gael i'r disgyblion. Efallai na allwn atal pawb sy'n camddefnyddio eu hawdurdod, ond efallai y gallwn atal mwy.
- 20.67 Cafodd plant Ysgol Gyfun Rhydfelen eu siomi'n fawr yn ystod y blynyddoedd yn arwain at 1991 ac yn y flwyddyn honno. Bu i nifer ohonynt herio Mr Owen ar y pryd (hyd yn oed pan na wnaeth rhai athrawon hynny) ac mae llawer wedi aros tan fy Ymchwiliad i adrodd eu hanes yn llawn. Rhaid i ni sicrhau y caiff eu dewrder a'u cadernid eu gwobrwyo. Mae eu gweithredoedd wedi fy nghynorthwyo i lunio argymhellion a fydd yn gwella'r systemau amddiffyn plant presennol a thrwy hynny yn amddiffyn plant ymhellach rhag pobl a allai eu camdrin.

Pennod 21

Argymhellion

Pennod 9: Ymchwiliad yr Heddlu

- 21.1 Mewn unrhyw ymchwiliad amddiffyn plant, argymhellaf y dylid canfod dymuniadau a barn y plentyn ar y modd y cynhelir y cyfweliad, gan gynnwys eu dymuniadau o ran natur y gefnogaeth a fyddai orau ganddynt, mewn modd sensitif a'u cofnodi, gan ffurfio rhan o'r broses o gynllunio'r cyfweliad ac y dylid diwygio Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn unol â hynny o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.
- 21.2 Argymhellaf y dylai'r heddlu ystyried hysbysu'r plentyn ei hun o ganlyniad ymchwiliad gan yr heddlu bob amser, gan ofalu eu bod yn esbonio'r hyn a ddigwyddodd ac y caiff Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan eu diwygio yn unol â hynny o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

Pennod 11: Staff Ysgol Gyfun Rhydfelen

- 21.3 Argymhellaf y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru a'r DfES gymryd camau i sicrhau bod athrawon yn derbyn gwybodaeth arbenigol yn eu rhaglen hyfforddi cymhwyso proffesiynol ynglŷn â'r modd y mae'r rheini sy'n cam-drin yn gweithredu a bod canfyddiadau'r adroddiad hwn yn ffurfio rhan o'r hyfforddiant hwnnw, ac y dylid gweithredu'r argymhelliad hwn o fewn 2 flynedd i gyhoeddi'r adroddiad hwn.
- 21.4 Argymhellaf y dylai awdurdodau addysg lleol a Phwyllgorau Ardal Amddiffyn Plant ystyried sut y gellir darperir hyfforddiant sefydlu, mewnol a gloywi ym maes amddiffyn plant yn rheolaidd.
- 21.5 Argymhellaf y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi canllawiau o fewn 6 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn er mwyn ei gwneud yn ofynnol bod gan lywodraethwyr pob ysgol, boed yn ysgol gymuned, yn cael ei rhedeg â chymorth gwirfoddol, wedi'i rheoli'n wirfoddol, yn ysgol sylfaen neu'n ysgol annibynnol a cholegau addysg bellach, bolisi datgelu cyfrinachau ar waith ac y rhoddir gwybod i'r holl athrawon a staff nad ydynt yn addysgu ynglŷn â'r modd y'i gweithreidir.
- 21.6 Argymhellaf y dylai pob athro ac aelod o staff nad ydynt yn addysgu, o gael ei benodi mewn unrhyw ysgol neu goleg addysg bellach yng Nghymru, dderbyn

cyfarwyddyd ysgrifenedig ac ar lafar ar weithdrefnau datgelu cyfrinachau a'r modd i'w gweithredu. Dylid atgyfnerthu hyn yn rheolaidd wedi hynny.

Pennod 14: Llywodraethwyr Ysgol Gyfun Rhydfelen

21.7 Argymhellaf y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi canllawiau ar sut y dylid ymchwilio i honiadau o gam-drin plant a wneir yn erbyn staff sy'n addysgu a staff nad ydynt yn addysgu o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn. Dylai'r canllawiau ystyried:

- (i) Cyd-ganllawiau NEOST/Undebau Athrawon, sef Education Staff and Child Protection: Staff Facing an Allegation of Abuse
- (ii) Practice Guide to Investigating Allegations of Abuse against a Professional or Carer in Relation to Looked After Children
- (iii) Gweithdrefnau Amddiffyn Plant PAAP Cymru gyfan
- (iv) Canllawiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant'.

21.8 Argymhellaf:

- (i) y dylai'r cyfrifoldeb dros benderfynu p'un a ddylid cyflwyno cyhuddiadau a chynnal ymchwiliad a gwrandawriad gael ei drosglwyddo i'r awdurdod addysg lleol, oherwydd ei berthynas gydag athrawon, aelodau o'r staff nad ydynt yn addysgu a'i aelodaeth o'r Pwyllgorau Ardal Amddiffyn Plant yng Nghymru
- (ii) os cychwynnir ymchwiliad, dylai un o swyddogion personél arbenigol yr awdurdod lleol ei gynnal a dylai'r swyddog hwnnw hefyd gyflwyno'r achos oni chyfarwyddir cyfreithiwr neu gwnsler
- (iii) y dylid sefydlu pedwar tribiwnlys annibynnol newydd, yn cwmpasu pedair rhan o Gymru, wedi eu cadeirio gan berson â chymwysterau cyfreithiol gyda dau aelod arall arnynt, un yn gynrychiolydd undeb llafur athrawon a enwebwyd a'r llall yn llywodraethwr enwebedig i glywed y dystiolaeth ac i lunio canfyddiadau ffeithiol ar sail pwysau tebygolrwydd. Dylai'r rhai sy'n cadeirio tribiwnlysoedd o'r fath gael eu penodi drwy broses sy'n cynnwys undebau llafur athrawon a'r awdurdodau addysg lleol.

21.9 Argymhellaf y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu grŵp gorchwyl o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, gyda chynrychiolwyr o bob parti â

diddordeb yn gyfrifol am gyflwyno cyfres o gynigion i weithredu'r argymhelliad yr wyf wedi ei wneud o ran tribiwnlysoedd disgyblu ysgolion. Dylai'r partïon â diddordeb gynnwys:

- (i) holl undebau llafur athrawon
- (ii) cynrychiolwyr o blith y llywodraethwyr
- (iii) swyddogion yr awdurdod addysg lleol
- (iv) arbenigwyr amddiffyn plant ac arbenigwyr cyfreithiol
- (v) plant a phobl ifanc
- (vi) cynrychiolwyr o'r Cyngor Addysgu Cyffredinol
- (vii) Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- (viii) yr heddlu.

Ymhlith y materion y dylai'r grŵp gorchwyl eu hystyried mae'r trothwy ar gyfer cyfeiriadau, apeliadau, rheolau tribiwnlys, y cydberthnasau ag ymchwiliadau'r heddlu a chofnodi ymchwiliadau ar ffeiliau athrawon ac aelodau o'r staff nad ydynt yn addysgu.

Pennod 15: Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru

21.10 Argymhellaf y dylai CBAC adolygu ei weithdrefnau disgyblu mewnol a'i gontractau gydag arholwyr allanol ar fyrder a sicrhau bod argymhelliad (20) 'Ar Goll Mewn Gofal', Syr Ronald Waterhouse yn cael ei ymgorffori ynddynt o fewn 6 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

21.11 Argymhellaf y dylai CBAC lunio canllawiau, polisiâu a gweithdrefnau amddiffyn plant manwl i arholwyr a'i gyflogeion a sicrhau y darperir hyfforddiant priodol o fewn 6 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn. Dylai'r polisi a'r gweithdrefnau gyfeirio at y canlynol:

- (i) Canllawiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 'Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant' a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan
- (ii) allgyfeirio i'r gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu
- (iii) rhannu gwybodaeth

- (iv) cofnodi a storio gwybodaeth am bryderon yn ymwneud ag amddiffyn plant
- (v) yr angen am rôl cydlynedd amddiffyn plant penodedig a chylch gorchwyl ar ei chyfer
- (vi) hyfforddiant amddiffyn plant
- (vii) y rhyngberthynas rhwng ymchwiliadau amddiffyn plant a gweithdrefnau disgyblu
- (viii) monitro ac adolygu'r trefniadau
- (ix) cylchdroi arholwyr.

21.12 Argymhellaf y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn partneriaeth â'r DfES, ACCAC a'r awdurdodau cwricwlwm ac asesu cymwys cyfatebol yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr, ystyried rôl cyrff arholi ledled y DU o ran trefniadau amddiffyn plant o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

21.13 Argymhellaf y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn partneriaeth â'r DfES, ACCAC a'r awdurdodau cwricwlwm ac asesu cymwys cyfatebol yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr, ystyried y ffordd yr addysgir ac yr arholir drama mewn ysgolion a cholegau addysg bellach, gyda'r nod o gynhyrchu canllawiau arfer o fewn 2 flynedd i gyhoeddi'r adroddiad hwn a fydd yn cynnwys rhoi ystyriaeth i'r materion canlynol:

- (i) dethol testunau drama priodol mewn addysg ac arholiadau
- (ii) cyfranogiad oedolion mewn dramâu ysgol ac arholiadau drama ymarferol
- (iii) addysgu drama yn ddiogel, yn arbennig rôl yr athro mewn sesiynau byrfyfyr ac actio method
- (iv) lleoliadau ac amseroedd ar gyfer arholiadau ac ymarferion drama
- (v) recordio plant a phobl ifanc mewn ymarferion drama ac arholiadau ymarferol ar fideo a'r angen i gael caniatâd y rhieni
- (vi) yr arfer o gynnwys plant iau o fewn sesiynau drama ymarferol disgyblion hŷn
- (vii) monitro sgriptiau a gosod cosbau am sgriptiau a gaiff eu cyflwyno yn hwyr i fyrddau arholi ar gyfer arholiadau ymarferol

- (viii) canllawiau pendant ynghylch cynnwys ac iaith rywiol, cyswllt corfforol agos a noethni mewn arholiadau a gwersi drama ymarferol
- (ix) dyletswyddau rheolwyr ysgolion a cholegau wrth fonitro'r ffordd y cedwir at y canllawiau a'r ffordd y cânt eu rhoi ar waith.

Pennod 16: Ar ôl Ysgol Gyfun Rhydfelen

- 21.14 Argymhellaf y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi canllawiau, o fewn 12 mis o gyhoeddi'r adroddiad hwn, ynglŷn â gwybodaeth y gellid ei rhannu lle ceir honiadau o gam-drin plant p'un a wnaed canfyddiadau ai peidio. Dylai canllawiau o'r fath gynnwys pa wybodaeth y gellir ei rhannu gyda'r sector gwirfoddol ac unrhyw gorff arall lle mae gan yr unigolyn gysylltiad â phlant, neu lle y gallai gael cysylltiad â phlant.

Pennod 17: 'Pam Fi Duw?'

- 21.15 Argymhellaf y dylai pob rhan o'r cyfryngau yng Nghymru ymgorffori polisïau, gweithdrefnau a hyfforddiant amddiffyn plant effeithiol yn eu systemau presennol ac enwebu person penodedig i dderbyn ac ystyried unrhyw bryderon. Dylai gweithdrefnau amddiffyn plant gynnwys arfer da mewn perthynas ag asesu risgiau a gweithdrefnau disgyblu lle y gwneir honiadau o gam-drin plant, ac yn arbennig dylent ymgorffori Argymhelliad (20) Adroddiad Syr Ronald Waterhouse, 'Ar Goll Mewn Gofal', o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.
- 21.16 Argymhellaf y dylai pob awdurdod addysg lleol gadw cofrestr o warchodwyr y mae eu cofrestriad yn amodol ar gael eu gwirio gan y swyddfa cofnodion troseddol, cael cyfeiriadau boddhaol, hyfforddiant amddiffyn plant sylfaenol a gwybodaeth am eu dyletswyddau cyfreithiol a'u cyfrifoldebau, o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.
- 21.17 Argymhellaf y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu Rheoliadau Plant (Perfformiadau) 1968 a'r canllawiau iddynt er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau a amlinellir yn fy adroddiad yn y trefniadau presennol ar gyfer diogelu lles plant yng Nghymru wrth berfformio ar deledu neu gyfryngau eraill, o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.
- 21.18 Argymhellaf y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyhoeddi canllawiau i awdurdodau addysg lleol ar arferion gorau er mwyn cyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau presennol o dan Reoliadau Plant (Perfformiadau) 1968, o fewn 6 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

Pennod 18: Pwyllgor Amddiffyn Plant Rhondda Cynon Taf - Adolygiad o Achos Difrifol

21.19 O fewn 6 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn argymhellaf y dylai cadeiryddion pob PAAP yng Nghymru adolygu eu gweithdrefnau presennol sy'n ymwneud â Honiadau yn Erbyn Pobl Broffesiynol er mwyn sefydlu ymatebion clir wrth ymdrin â honiadau o'r fath. Dylai polisïau, gweithdrefnau ac arferion fod yn eglur, yn realistig ac ni ddylent wrthdaro â gweithdrefnau asiantaethau lleol neu genedlaethol.

21.20 Argymhellaf y dylai cadeiryddion pob PAAP sicrhau bod pob asiantaeth a gynrychiolir ar eu PAAPau yn sefydlu o fewn 6 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn bod unrhyw bolisi, gweithdrefn neu ddogfennau canllaw sy'n ymwneud ag amddiffyn plant yn nodi'n glir:

- (i) y dyddiad cyhoeddi
- (ii) awdur y dogfennau
- (iii) dogfennau blaenorol y mae'r dogfennau newydd yn eu disodli.

Wrth i ddogfennaeth newydd gael ei chyflwyno dylai asiantaethau feddu ar weithdrefn glir ar gyfer storio ac archifo hen bolisïau gan sicrhau bod staff yn defnyddio'r hyn sy'n gyfredol.

21.21 Argymhellaf i gadeiryddion PAAPau os ymgwymerir ag adolygiad o achos difrifol y dylai awdur annibynnol yr adroddiad trosolwg gyfranogi yng nghyfarfodydd y grŵp adolygu.

21.22 Argymhellaf y dylai pob Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Addysg yng Nghymru neu'r rhai sy'n cyfateb iddynt, o fewn 3 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn:

- (i) sefydlu a chynnal cronfa ddata ar gyfer yr awdurdod cyfan yn ymwneud â phob ysgol, gan nodi enw'r athro cyswllt amddiffyn plant penodedig, lefel yr hyfforddiant a gafwyd a dyddiadau'r hyfforddiant
- (ii) datblygu cynllun gweithredu a'i roi ar waith er mwyn sicrhau y caiff yr holl staff a gyflogir ym maes addysg a gwasanaethau plant sydd â chysylltiad uniongyrchol â phlant a phobl ifanc a'r bobl hynny sydd â rôl polisi/rheoli, mewn perthynas ag ysgolion a'r gwasanaeth addysg, hyfforddiant amddiffyn plant sy'n gymesur â'u dyletswyddau
- (iii) cynnal archwiliad o bob ysgol i nodi'r llywodraethwr enwebedig ar gyfer amddiffyn plant. Ar ôl i'r wybodaeth hon gael ei chasglu, dylid rhoi rhaglen

ar waith i sicrhau y caiff llywodraethwyr enwebedig gyfle i fynychu unrhyw hyfforddiant amddiffyn plant, sy'n cynnwys hyfforddiant i ymdrin â honiadau yn erbyn staff sy'n addysgu a staff nad ydynt yn addysgu. Yn ogystal, dylid rhoi cyfle i bob llywodraethwr fynychu hyfforddiant amddiffyn plant.

- 21.23 Argymhellaf y dylai pob Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Addysg yng Nghymru neu'r rhai sy'n cyfateb iddynt benodi cydlynedd amddiffyn plant o fewn 6 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn gyda chyfrifoldeb penodol dros ysgolion, er mwyn gwella gallu awdurdodau lleol i gefnogi a datblygu materion amddiffyn plant sy'n gysylltiedig ag ysgolion.
- 21.24 Argymhellaf y dylai cadeiryddion PAAPau sicrhau y caiff Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan eu diwygio o fewn 6 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn er mwyn rhoi canllawiau ar gadw a storio dogfennau a fyddai'n caniatáu i achosion gael eu hadolygu fel y bo'n briodol dros gyfnod maith.

Pennod 19: Rhieni'r Plant

- 21.25 Argymhellaf y dylai 'Canllawiau ar Weithdrefnau ar gyfer Ymdrin â Chwynion i Gyrrff Llywodraethu' Llywodraeth Cynulliad Cymru gael eu diwygio i gynnwys canllawiau eglur a phendant ar gyfrifoldebau'r partion perthnasol os bydd cwyn yn codi pryderon yn ymwneud ag amddiffyn plant.
- 21.26 Argymhellaf y dylid diwygio 'Canllawiau ar Weithdrefnau ar gyfer Ymdrin â Chwynion i Gyrrff Llywodraethu' Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn ei gwneud yn glir bod gan Gomisiynydd Plant Cymru bwerau, o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001, i adolygu'r gweithdrefnau cwyno mewn ysgolion ac adolygu achosion unigol.
- 21.27 Dengys 'Canllawiau ar Weithdrefnau ar gyfer Ymdrin â Chwynion i Gyrrff Llywodraethu' Llywodraeth Cynulliad Cymru ymwybyddiaeth o'r anawsterau a wynebir o ran sicrhau annibyniaeth ddigonol ym mhob cam o'r broses o ymchwilio i gŵyn, ac o ran dyfarnu mewn ysgolion, yn arbennig ysgolion bach. Rhannaf y pryder hwn ond nid wyf yn argyhoeddedig y bydd y camau unioni arfaethedig yn ymarferol ac yn effeithiol. Serch hynny, credaf y dylid rhoi'r cyfle i'r trefniadau arfaethedig, ar ôl eu diwygio fel yr awgrymwyd gennyf, gael eu profi ac felly y dylent, ynghyd â 'Cwynion yn Ymwneud â Phlant' gael eu cyhoeddi fel canllawiau statudol yn ddioed, a heb fod yn hwyrach na 1 Medi 2004.

Bydd fy swyddfa yn adolygu'r trefniadau hyn wedi iddynt fod mewn grym am flwyddyn.

Pennod 20: Plant Ysgol Gyfun Rhydfelen

21.28 Argymhellaf y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gymryd y camau angenrheidiol i sicrhau y caiff pob cynnig o fewn ei dogfen ymgynghori 'Gweithdrefnau ar gyfer Cwynion yn Ymwneud â Disgyblion' ei wneud yn statudol.

21.29 Argymhellaf y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru lunio strategaeth genedlaethol ar gyfer darparu gwasanaeth cyngori annibynnol i blant a phobl ifanc mewn addysg gan gynnwys darparu cefnogaeth briodol i blant yn ystod prosesau disgyblu, amddiffyn plant, cwynion a gwahardd, o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai'r strategaeth genedlaethol hon hefyd ystyried sgiliau, hyfforddiant a chefnogaeth gofal bugeiliol athrawon a'r priod rolau yng nghyd-destun gofal bugeiliol staff addysgu, cyngorwyr a staff lles addysg.

21.30 Argymhellaf y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru o fewn 3 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn ei gwneud yn ofynnol i bob corff llywodraethu ysgol sicrhau bod plant yn cael eu hysbysu yn eu hysgol o argaeledd a phwrpas gwasanaethau perthnasol, gan gynnwys ChildLine, Llinell Gymorth Amddiffyn Plant yr NSPCC, gwasanaethau cymdeithasol, swyddfa Comisiynydd Plant Cymru a gwasanaethau eirioli.

21.31 Argymhellaf y dylai ACCAC, o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn adolygu ei Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol yng ngoleuni fy adroddiad a phenderfynu a oes angen gwneud newidiadau neu ychwanegiadau.

Pennod 22

Cronoleg

CRONOLEG

Blwyddyn	Dyddiad	Digwyddiad	Pennod Berthnasol o'r Adroddiad
1974	Medi	Penodwyd Mr John Owen fel athro yn Ysgol Gyfun Rhydfelen.	Pennod 3
1980 - 1987		Yn ystod y cyfnod hwn cwynodd rhai disgyblion i'r dirprwy Bennaeth, Mrs Pritchard Jones, fod Mr Owen yn eu bwlio. Siaradodd ag ef ar sawl achlysur. Ni dderbyniodd y feirniadaeth ac ni newidiodd ei ymddygiad. Cadarnhawyd y ffaith bod Mr Owen yn bwlio disgyblion gan Miss Theda Williams, Pennaeth yr Adran Saesneg.	Pennod 10
1981	Mai	Rhodddwyd statws uwch athro i Mr Owen.	Pennod 3
1983		Penodwyd Mr Peter Davies yn Bennaeth yr Adran Ddrama yn Ysgol Gyfun Rhydfelen yn 23 oed.	Pennod 13
1983		Dywedodd Peggy Newbury - 'Anti Peggy' (aelod o staff y gegin yn Ysgol Gyfun Rhydfelen) - wrth Mrs Mary Evans (rhiant disgybl yn Ysgol Gyfun Rhydfelen) iddi fynd i ystafell Mr Owen a gweld Disgybl B yn hanner noeth yn eistedd ar lin Mr Owen. Dywedodd 'Anti Peggy' wrth Mrs Evans iddi hysbysu Mrs Eiriys Pritchard Jones ynghylch y mater. Holodd Mrs Pritchard Jones Mr Owen ynghylch y mater. Dywedodd fod Disgybl B wedi anafu ei gefn a'i fod yn ei archwilio. Hysbysodd Mrs Pritchard Jones y Pennaeth, Mr Jones. Fe'i holodd ynghylch y mater eto rai dyddiau yn ddiweddarach. Rhoddwyd sicrwydd iddi yr ymdriniwyd â'r mater. Aeth Mrs Evans ar drywydd y mater gyda Mrs Pritchard Jones.	Pennod 10

CRONOLEG

Blwyddyn	Dyddiad	Digwyddiad	Pennod Berthnasol o'r Adroddiad
1983 - 1984		Roedd Disgybl B yn aros dros nos yn aml yn nhŷ Mr Owen gyda chaniatâd y Pennaeth. Roedd Mrs Pritchard Jones a Miss Theda Williams ac athrawon eraill yn ymwybodol o hyn. Ni chafodd rhieni Disgybl B eu hysbysu o'r digwyddiad cynharach.	
1986		Honnodd Disgybl B yn 1991 i Mr Owen ei gam-drin yn rhywiol yn ddirifol yn ystod y cyfnod hwn.	Pennod 10
		Mynychodd Ms Daloni Rees (arholwraig drama allanol CBAC) arholiad drama ymarferol Lefel O. Cafodd ei brawychu o weld disgybl yn noeth ac yn efelychu cyfathrach rywiol, ac ataliodd yr arholiad gan fynnu gweld y Pennaeth, Mr Jones. Ffoniodd CBAC i gael arweiniad ac fe'i cynghorwyd i barhau gyda'r arholiad ymarferol ac i nodi ei phryderon mewn adroddiad ac y byddai CBAC yn ymdrin â hwy.	
		Gwnaeth hynny ond ni chafodd ateb gan CBAC.	Pennod 10
1987		Penodwyd Mr Edwin Roberts yn Gyfarwyddwr Addysg Awdurdod Addysg Lleol Cyngor Sir Morganwg Ganol.	Pennod 4
1987		Penodwyd Mr Roy Davies yn Bennaeth y Chweched Dosbarth yn Ysgol Gyfun Rhydfelen.	Pennod 11
1987	16 Medi	Penodwyd Mr Owen yn Ddirprwy Bennaeth dros dro Ysgol Gyfun Rhydfelen.	Pennod 3

CRONOLEG

Blwyddyn	Dyddiad	Digwyddiad	Pennod Berthnasol o'r Adroddiad
1987		Eisteddodd Mr Malcolm Burnell (Prif Arholwr Drama CBAC ar gyfer TGAU) drwy arholiad drama TGAU yn Ysgol Gyfun Rhydfelen. Cyflwynodd adroddiad am ddeunydd anaddas i Mr Arthur Parker (swyddog pwnc drama CBAC). Ni chymerodd CBAC unrhyw gamau.	Pennod 15
1988		Deddf Diwygio Addysg (Rheoli Ysgolion yn Lleol).	
1988		Cwynodd Ms Carys Tudor Williams (arholwraig drama TGAU CBAC) wrth Mr Parker am gynnwys anaddas sgript ddrama a gyflwynwyd yn hwyr gan Ysgol Gyfun Rhydfelen. Dywedodd Mr Parker wrthi ei bod yn rhy hwyr i weithredu ar hyn.	Pennod 15
1988		Cyflwynodd Mr Burnell a Ms Carol Clarke (Dirprwy Brif Arholwraig Drama TGAU CBAC) eu pryderon ynghylch y deunydd drama TGAU "graifig" yn Ysgol Gyfun Rhydfelen i Mr Parker. Dywedodd Mr Parker (ar ôl ymgynghori â chydweithiwr) y byddai'r deunydd yn cael ei dderbyn. Gwrthododd Mr Burnell a Ms Clarke gymryd rhan yn y broses arholi.	Pennod 15

CRONOLEG

Blwyddyn	Dyddiad	Digwyddiad	Pennod Berthnasol o'r Adroddiad
1988		Bu i Mr Gwynn Roberts (arholwr drama CBAC) atal arholiad drama TGAU yn Ysgol Gyfun Rhydfelen gan y credai fod y sgriptiau, yr oedd wedi eu derbyn yn hwyr, yn anllad ac yn amhriodol. Yr oedd eisoes wedi codi ei bryderon gyda CBAC cyn arholi. Bu i Mr Owen ei geryddu, gan ddweud na fyddai Mr Roberts byth yn arholi drama eto. Amlinellodd Mr Roberts ei bryderon dybryd mewn adroddiad i CBAC. Ni chafodd ateb ysgrifenedig gan CBAC ac ni chafodd wahoddiad i arholi eto.	Pennod 15
1988	28 Mai	Ysgrifennodd Mr Mel Jones (Ysgrifennydd Arholiadau CBAC) at y Pennaeth, Mr Jones, yn cydnabod yr amharwyd ar y disgyblion yn sgîl gweithredoedd Mr Roberts ac yn gofyn am amcan o'r graddau ar gyfer y disgyblion dan sylw.	Pennod 15
1988	Gorffennaf (cyn-9fed)	Ymatebodd Disgybl T i gerydd gan Mr Owen gyda "thoreth o iaith anllad". Honnir i Mr Owen ddweud wrth Ddisgybl T na ddylai ddychwelyd i Ysgol Gyfun Rhydfelen.	Pennod 10
1988	9 Gorffennaf	Galwyd mam Disgybl T a'i gŵr i gyfarfod byr yn yr ysgol gyda'r Pennaeth, Mr Jones, a ddlywedodd wrthynt o ganlyniad i'r digwyddiad uchod na ddylai eu mab, Disgybl T, ddychwelyd i'r ysgol.	Pennod 10
1988	15 Gorffennaf	Ysgrifennodd mam Disgybl T at y Pennaeth, Mr Jones a llywodraethwyr yr ysgol yn mynegi ei siom nad oedd y Pennaeth wedi gofyn am gael clywed ochr Disgybl T i'r stori a'i fod eisoes wedi penderfynu gwahardd Disgybl T cyn y cyfarfod ar 9 Gorffennaf. Nid anfonwyd ateb ati.	Pennod 10

CRONOLEG

Blwyddyn	Dyddiad	Digwyddiad	Pennod Berthnasol o'r Adroddiad
1989	31 Awst	Dychwelodd Mr Owen i statws uwch athro.	Pennod 3
1990		Penodwyd Mr Owen yn Bennaeth Blynyddoedd 2 a 3 yn Ysgol Gyfun Rhydfelen.	Pennod 3
1990		Adolygodd PAP Morganwg Ganol y gweithdrefnau amddiffyn plant a gyflwynwyd.	
1990	Ebrill	Cyflwynwyd Rheoli Ysgolion yn Lleol (Deddf Diwygio Addysg 1988) yn llawn gan Awdurdod Addysg Lleol Morgannwg Ganol.	Pennod 4
1990		Cyflwynodd Mr Richard Carter (swyddog pwnc drama CBAC) ei bryderon ynghylch sgriptiau arholiad TGAU annerbyniol yn Ysgol Gyfun Rhydfelen i Mr Brian Evans (Uwch Ysgrifennydd Cynorthwyol (TGAU))	Pennod 15
1990	23 Ebrill	Ysgrifennodd Mr Evans at y Pennaeth, Mr Jones, yn mynegi pryder bod natur llawer o'r testunau drama yn amhriodol i'w hastudio a'u perfformio gan ymgeiswyr ar lefel TGAU.	
		Gofynnodd Mr Evans am amcangyfrif o farciau arholiad ymarferol ar gyfer y myfyrwyr cyfredol.	Pennod 15

CRONOLEG

Blwyddyn	Dyddiad	Digwyddiad	Pennod Berthnasol o'r Adroddiad
1990	Haf	<p>Aeth Mr Gwyn Pritchard Jones (yr athro a oedd yn gyfrifol am arholiadau yn Ysgol Gyfun Rhydfelen) a Mr Peter Davies (Pennaeth yr Adran Ddrama yn Ysgol Gyfun Rhydfelen) i gyfarfod yn swyddfeydd CBAC.</p> <p>Roedd Mr Evans a Mr Carter o CBAC o'r farn bod y dyfyniadau a ddewiswyd ar gyfer rhai disgyblion yn annerbyniol oherwydd y cyfeiriadau rhywiol a'r rhegfeydd a dywedasant na ddylai'r dyfyniadau gael eu perfformio fel rhan o'r arholiad drama ymarferol ar unrhyw gyfrif ac y byddai'r disgyblion yn cael marciau amcangyfrifedig. Nid oedd Mr Pritchard Jones yn ymwybodol o'r cwynion cynharach a godwyd gyda CBAC.</p>	Pennod 15
1990		<p>Cytunodd is-bwyllgor CBAC i anfon cylchlythyr i ysgolion ac ychwanegwyd brawddeg newydd i ganllawiau'r meysydd llafur yn cynghori y dylid rhoi ystyriaeth deilwng i briodoldeb y deunydd ac oed ac aeddfedrwydd yr ymgeisydd.</p>	Pennod 15
1990	Haf	<p>Adroddiad Gwasanaeth Ymgynghorol Morgannwg Ganol ar Ysgol Gyfun Rhydfelen a fethodd godi unrhyw bryderon ynghylch y ffordd yr addysgwyd neu y rheolwyd drama yn Ysgol Gyfun Rhydfelen.</p>	Pennod 13
1990	19 Rhag	<p>Aeth Disgybl 4 at Mr Roy Davies (Pennaeth y Chweched Dosbarth) a dweud ei bod yn dymuno rhoi'r gorau i'w chwrs drama Safon Uwch ddyddiau yn unig cyn ei harholiad ymarferol Safon Uwch. Roedd ei hesboniad gwreiddiol yn cynnwys cwynion bod Mr Owen yn fwi ac am natur rywiol gignoeth y testunau a'r arholiadau drama ymarferol.</p> <p>Dywedodd Mr Davies wrth Miss Ruth Evans (Dirprwy Bennaeath) am hyn a bu iddynt ymdrechu (yn aflwyddiannus) i'w chael i newid ei meddwl.</p>	Pennod 11

CRONOLEG

Blwyddyn	Dyddiad	Digwyddiad	Pennod Berthnasol o'r Adroddiad
1990	20 Rhag	Y diwrnod canlynol dychwelodd Disgybl 4 at Mr Davies a dweud ei bod yn dal yn benderfynol o roi'r gorau i'w chwrs drama Safon Uwch.	
		Dywedodd Mr Davies wrth Mr Hywel Jeffreys (Pennaeth dros dro).	Pennod 11
1990	20 Rhag	Siaradodd Mr Davies â Mr Owen a ddywedodd nad oedd Disgybl 4 wedi dysgu ei geiriau ar gyfer ei harholiad drama ymarferol Safon Uwch ac mai ei phenderfyniad hi ydoedd.	Pennod 11
1990	20 Rhag	Ffoniodd Mr Davies Mrs Phillips (Mam Disgybl 4) a ddywedodd ei bod yn barod i fynd â'r mater ymhellach.	Pennod 11
1990	21 Rhag	Cyfarfu'r tri dirprwy Bennaeth a Mr Roy Davies i drafod y mater. Roedd pob un ohonynt o'r farn y dylid cyfeirio'r mater i'r Pennaeth cyn gynted â phosibl ar ddechrau tymor y Pasg.	Pennod 11
1991	8 Ion	Gwelodd Mr Davies Ddisgybl 4 a gofynnodd iddi a oedd wedi newid ei meddwl ynghylch rhoi'r gorau i'w chwrs drama Safon Uwch. Nid oedd wedi gwneud hynny.	Pennod 11

CRONOLEG

Blwyddyn	Dyddiad	Digwyddiad	Pennod Berthnasol o'r Adroddiad
1991	9 Ion	<p>Aeth Disgybl U at Mr Davies a dweud ei fod am roi'r gorau i'w gwrs drama Safon Uwch gan nodi gormod o bwyslais ar ryw fel ei brif bryder a'r pwysau i actio rhannau rhywiol gan roi adroddiad manwl amdanynt.</p> <p>Trafododd Mr Davies y mater gyda Miss Evans a Mr Jeffreys.</p> <p>Penderfynodd Mr Jeffreys y byddai ef, Mr Davies a Miss Evans yn cymryd datganiadau gan nifer o'r disgyblion.</p>	Pennod 11
1991	9 Ion	<p>Cymerodd Miss Evans, Mr Davies a Mr Jeffreys ddatganiadau gan chwe disgybl: Disgybl U, Disgybl 4, Disgybl V, Disgybl D, Disgybl 3 a Disgybl G.</p> <p>Yn y datganiadau hyn honnwyd bod noethni yn elfen reolaidd o'r gwersi, bod gweithredoedd rhywiol yn cael eu hefelychu a'u cyflawni rhwng disgyblion, i Mr Owen ymosod yn rhywiol ar ddisgybl a bod pawb yn ymwybodol bod un disgybl a Mr Owen yn cael perthynas a ddisgrifiwyd fel 'full blown husband and wife job'.</p>	Pennod 5
1991	9 Ion	Cyfarfu Mr Jeffries â Mrs Phillips. Gofynnodd iddi gyflwyno ei chwyn yn ysgrifenedig.	Pennod 11

CRONOLEG

Blwyddyn	Dyddiad	Digwyddiad	Pennod Berthnasol o'r Adroddiad
1991	10 Ion	<p>Cwyn ffurfiol gan Mrs Phillips i Ysgol Gyfun Rhydfelen (derbyniwyd ar 10 Ionawr, ysgrifennwyd ar 9 Ionawr)</p> <p>I grynhoi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • agwedd ac ymddygiad Mr Owen a'r pryder difrifol ynghylch lles rhai disgyblion • oherwydd Mr Owen gorfu i'w merch roi'r gorau i'w chwrs drama Safon Uwch • mewn blwyddyn o ddilyn cwrs drama Safon Uwch gyda Mr Owen roedd ei merch wedi newid o fod yn ferch hapus, uchelgeisiol oedd â'i bryd ar ddilyn gyrfa i fod yn anhapus, oriog, isel ei hysbryd ac i deimlo fel cyflawni hunanladdiad • roedd disgyblion wedi gadael y chweched dosbarth o ganlyniad uniongyrchol i'r ffordd y bu i Mr Owen eu trin • dioddefodd plant niwed seicolegol o'i herwydd, roedd yn gwneud iddynt deimlo embaras, cywilydd ac yn dinistrio eu hunan-hyder • nid oedd yn trin pob plentyn yn gyfartal gan ganolbwyntio ei sylw ar griw dethol, a dangos ffatriaeth amlwg • roedd ei merch yn ofni y byddai Mr Owen yn ei chosbi pe bai'n creu ffwdan • roedd Mr Owen yn codi cywilydd ac yn achosi embaras i'w merch yn fwriadol ac mewn ffordd wrthnysig • naws rywiol gignoeth ym mhob agwedd ar y ddrama • gofynnwyd i fechgyn dynnu eu dillad yn y dosbarth • dim ond megis dechrau oedd y rhain. 	Pennod 11
1991	10 Ion	<p>Cafodd Mr Jeffreys, Miss Evans a Mr Davies drafodaeth a phenderfynodd alw ar Mr David Matthews (Swyddog Addysg Rhanbarthol Awdurdod Addysg Lleol Cyngor Sir Morgannwg Ganol).</p> <p>Ffoniodd Mr Jeffreys Mr Matthews i ofyn iddo ddod i'r ysgol.</p>	Pennod 11
1991	10 Ion	<p>Cyrhaeddodd Mr Matthews Ysgol Gyfun Rhydfelen.</p>	Pennod 5

CRONOLEG

Blwyddyn	Dyddiad	Digwyddiad	Pennod Berthnasol o'r Adroddiad
1991	11 Ion	<p>Cyfarfu Mr Matthews a Mr George Askey (Dirprwy Gyfarwyddwr Addysg Cyngor Sir Morgannwg Ganol) yn Ysgol Gyfun Rhydfelen gyda Mr Jeffreys.</p> <p>Rhoddodd Mr Askey gyfarwyddiadau i Mr Matthews ymgymryd â'r ymchwiliad.</p> <p>Roedd y chwe datganiad a gymerwyd eisoes gan y disgyblion wedi cael eu cyfieithu i Mr Matthews a'u trosglwyddo iddo.</p> <p>Ffoniodd Mr Askey Mr Graham Dunne (swyddog addysg cynorthwyol yn adran personél Awdurdod Addysg Lleol Morgannwg Ganol) i ofyn am gyngor.</p> <p>Ni chyfeiriwyd y mater at yr heddlu na'r gwasanaethau cymdeithasol.</p>	Pennod 5
1991	11-15 Ion	Dywedodd Mr Matthews wrth y Pennaeth dros dro a'r uwch athrawon am beidio â siarad â neb am yr honiadau.	
1991	11 Ion	Cynhaliodd Mr Matthews gyfweiliad arall (yn Saesneg) gyda Disgybl 3, Disgybl 4 a Disgybl V. Ailadroddodd y disgyblion eu datganiadau gwreiddiol.	Pennod 5

CRONOLEG

Blwyddyn	Dyddiad	Digwyddiad	Pennod Berthnasol o'r Adroddiad
1991	11 Ion	Cafodd Mr Owen ei atal o'i swydd a'i gynghori i beidio â mynd ar daith ysgol i Lundain gyda'r disgyblion. Dywedodd na allai dderbyn y cyngor.	Pennod 11
1991	11 Ion	Hysbysodd Mr Owen Mr Peter Davies (Pennaeth yr Adran Ddrama) ei fod wedi ei atal o'i swydd. Gwaeddodd Mr Peter Davies ar rai o'r disgyblion a oedd wedi gwneud honiadau yn erbyn Mr Owen, ac yna eu taflu allan o'r dosbarth. Gadawodd Disgybl 3 Ysgol Gyfun Rhydfelen ar ôl hyn, yn rhannol o ganlyniad i'r digwyddiad hwn.	Pennod 13
1991	12-13 Ion	Aeth Mr Owen gyda disgyblion ar daith i Lundain. Roedd un o'r disgyblion a wnaeth honiadau difrifol iddo gael ei gam-drin yn rhywiol gan Mr Owen ar y daith ysgol.	Pennod 11
1991	14 Ion	Rhoddodd Disgybl W ddatganiad ysgrifenedig i Mr Matthews. Roedd hyn yn cynnwys honiad i Mr Owen ymosod arno'n gorfforol gyda'r bwriad o'i dreisio.	Pennod 5
1991	14 Ion	Ailgyfwelodd Mr Matthews (yn Saesneg) â Disgybl U, Disgybl G a Disgybl D. Ailadroddodd y disgyblion eu datganiadau gwreiddiol.	Pennod 5
1991	15 Ion	Cyfwelodd Mr Matthews â Disgybl 16 a Disgybl 17. Roedd y datganiadau hyn yn cynnwys honiadau i Mr Owen ymosod yn rhywiol arnynt.	Pennod 5

CRONOLEG

Blwyddyn	Dyddiad	Digwyddiad	Pennod Berthnasol o'r Adroddiad
1991	Ion	<p>Adroddiad Uwch Staff Ysgol Gyfun Rhydfelen</p> <p>Datganiad wedi'i deipio a baratowyd gan y Pennaeth dros dro, Mr Jeffreys, a'i lofnodi ganddo ef a phob uwch athro, Mr Davies, Miss Evans, Dr Ellis a Mr Pritchard Jones, yn nodi pam bod achos difrifol i'w ateb gan gynnwys</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gofyn i ferched roi mwgwd dros eu llygaid, gorwedd ar y llawr gyda'u coesau ar led a Mr Owen yn procio rhannau preifat eu corff gyda ffon • Gofyn i ddisgyblion y drydedd a'r bedwaredd flwyddyn dlawnsio'n noeth ac actio teimladau cyfunrywiol • Gofynnwyd i Ddisgybl 4 aros o'r golwg a gwranddo ar Ddisgybl 3 yn gwrthod awgrym Mr Owen y dylai gyffwrdd â rhannau preifat Disgybl D. <p>Rhoddwyd yr adroddiad hwn i Mr Matthews. Roedd yn datgelu i droseddau gael eu cyflawni yn erbyn plant. Ni alwodd Mr Matthews yr heddlu.</p>	Pennod 5
1991	15 Ion	Cyfarfu Mr Dunne â dau swyddog UCAC, Ms Siân Morgan Ellis a Mr Wyn James yn Neuadd y Sir, Caerdydd.	Pennod 6
1991	15 Ion (amcangyfrif)	Ffoniodd Mr Roberts, Cyfarwyddwr Addysg Awdurdod Addysg Lleol Cyngor Sir Morgannwg Ganol y Barnwr Phillip Richards, Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gyfun Rhydfelen. Dywedodd Mr Roberts y byddai'r awdurdod addysg lleol yn ymchwilio ac na allai ddatgelu natur yr honiadau na'r manylion.	Pennod 14

CRONOLEG

Blwyddyn	Dyddiad	Digwyddiad	Pennod Berthnasol o'r Adroddiad
1991	16 neu 17 Ion	Aeth Disgybl G i dŷ Mr Owen gyda'r nos i ymarfer ar gyfer drama a oedd i'w pherfformio y tu allan i'r ysgol. Roedd gan Mr Owen gopiau o'r datganiadau a wnaed gan y disgyblion eraill. Heriwyd Disgybl G gyda chopi o'i ddatganiad. Teimlodd o dan fygythiad. Roedd ei ddatganiad yn cynnwys honiadau icddo gael ei gam-drin yn rhywiol gan Mr Owen.	Pennod 12
1991	22 Ion	Cofnodion cyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Gyfun Rhydfelen Eitem 26: Eglurodd Mr Matthews wrth y llywodraethwyr y dylai o leiaf 3 aelod eistedd ar unrhyw is-bwyllgor a ddirprwyir i ddatrys materion disgyblu a bod angen iddynt ddewis is-bwyllgor newydd. Roedd achos i'w drafod ac efallai y byddai angen i'r pwyllgor gyfarfod yn y dyfodol agos.	Pennod 14
1991	23 Ion	Cyfarfu Mr Roberts, y Cyfarwyddwr Addysg, â Mr Owen.	Pennod 4

CRONOLEG

Blwyddyn	Dyddiad	Digwyddiad	Pennod Berthnasol o'r Adroddiad
1991	24 Ion	<p>Ysgrifennwyd llythyr ymddiswyddiad gan Mr Owen at Mr Roberts (Cyfarwyddwr Addysg).</p> <p>Nododd y llythyr y byddai ei ymddiswyddiad yn dod i rym ar 30 Ebrill 1991.</p> <p>Ychwanegodd Mr Roberts nodiadau at y llythyr yn rhoi cyfarwyddiadau i Mr Dunne</p> <ul style="list-style-type: none"> • derbyn ymddiswyddiad Mr Owen a fyddai'n dod i rym ar unwaith ond trefnu i gyflog gael ei dalu hyd 30 Ebrill 1991 • set gyfan o bapurau i gael eu cadw ar ffeil Mr Owen a'i throsglwyddo iddo • cyfeirio'r mater at UCAC fel y nododd • awgrymu y dylai Mr Askey ateb yn Gymraeg. 	Pennod 4
1991	25 Ion	Cynhaliwyd cyfarfod rhwng Mr Owen, Ms Siân Morgan Ellis, Mr Dunne a Mr Roberts pan dderbyniodd Mr Roberts ymddiswyddiad Mr Owen.	Pennod 4
1991	25 Ion - 7 Chwef	Rhoddodd Mr Roberts ddatganiadau i'r wasg yn dweud bod Mr Owen wedi ymddiswyddo ac i sawl llythyr yn cefnogi Mr Owen ddod i law.	Pennod 4
1991	24 Ion -1 Chwef	Ffoniodd Mr Roberts y Barnwr Richards i ddweud wrtho fod Mr Owen wedi ymddiswyddo ac er mwyn i'r ymddiswyddiad gael ei dderbyn bod angen i is-bwyllgor disgyblu llywodraethwyr yr ysgol dderbyn y dylai Mr Owen gael ei dalu tan 30 Ebrill 1991 ac na ddylid cynnal gwrandawriad disgyblu.	Pennod 14

CRONOLEG

Blwyddyn	Dyddiad	Digwyddiad	Pennod Berthnasol o'r Adroddiad
1991	29 Ion	Llythyr gan Mr Roberts at y Barnwr Richards, Cadeirydd Llywodraethwyr yr Ysgol yn ei hysbysu y byddai ymddiswyddiad Mr Owen yn dod yn weithredol o 30 Ebrill 1991. Nododd llythyr Mr Roberts y byddai'n derbyn yr ymddiswyddiad ar unwaith fel nad oedd raid i Mr Owen ddychwelyd i'r ysgol ond y byddai cyflog yn cael ei dalu iddo hyd at 30 Ebrill 1991. Gofynnodd Mr Roberts am gadarnhad bod llywodraethwyr yr ysgol yn cytuno y dylai Mr Owen gael ei esgusodi o'r ysgol am weddill y tymor ac na fyddai'r llywodraethwyr yn mynnu cynnal ymchwiliad disgyblu.	Pennod 14
1991	24 Ion -1 Chwef	Ffoniodd Mr Roberts Mr Bryant, un o lywodraethwyr yr ysgol i ofyn am ei gytundeb i'r cynnig a amlinellir uchod. Ni chynhaliwyd cyfarfod o'r is-bwyllgor disgyblu.	Pennod 14
1991	31 Ion	Ymatebodd Mr Owen i'r honiadau yn ei erbyn mewn dogfen fanwl wedi'i theipio gan Miss Williams.	Pennod 12

CRONOLEG

Blwyddyn	Dyddiad	Digwyddiad	Pennod Berthnasol o'r Adroddiad
1991	1 Chwef	Llythyr oddi wrth y Barnwr Richards at Mr Roberts yn cadarnhau bod y llywodraethwyr yn cytuno y dylid esgusodi Mr Owen o'r ysgol am weddill y tymor ac nad oedd is-bwyllgor disgyblu'r llywodraethwyr yn mynnu cynnal ymchwiliad.	
1991	1 Chwef - 31 Mawrth	Derbyniodd Mr Roberts lythyrau yn cefnogi Mr Owen. Rhoddwyd cyfarwyddiadau i'r staff eu hateb mewn memo (heb ddyddiad) gan Mr Roberts a oedd yn nodi <ul style="list-style-type: none"> • y derbyniwyd un llythyr o gŵyn ynghylch dulliau addysgu Mr Owen • derbyniwyd sawl llythyr o gefnogaeth • bod y llywodraethwyr wedi sefydlu is-bwyllgor i ystyried y gŵyn • bod Mr Owen wedi nodi ei ddymuniad i ymddiswyddo. 	
1991	3 Chwef	Llythyr at Mr Roberts gan athrawon yn Ysgol Gyfun Rhydfelen: Miss Theda Williams (Pennaeth yr Adran Saesneg) Ms Llinos Jones (Pennaeth yr Ysgol Isaf) Mr Peter Davies (Pennaeth yr Adran Ddrama) Ms Menna Lewis (Tiwtor Blwyddyn) a oedd yn cofnodi eu cefnogaeth lwyr i Mr Owen.	Pennod 12

CRONOLEG

Blwyddyn	Dyddiad	Digwyddiad	Pennod Berthnasol o'r Adroddiad
1991	4 Chwef	<p>Llythyr oddi wrth Mrs Phillips at Mr Matthews yn amgáu sgrïpt yr oedd disgwyl i'r disgyblion ei hactio mewn arholiad Safon Uwch. Cododd y cwestiynau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • roedd Mr Owen yn parhau i gael ei gyflogi a dylai'r holl dystiolaeth fynd gerbron is-bwyllgor disgyblu llywodraethwyr yr ysgol • roedd iaith bornograffig y sgrïpt Safon Uwch a'r hyn yr oedd disgwyl i'r disgyblion ei actio yn ei brawychu ac roedd wedi ei ffeiddio ganddi • cwyno am y ffaith i Mr Peter Davies weiddi ar y plant hynny a leisiodd eu cwynion • mynegi pryder ynghylch Mr Emyr Edwards (arholwr Safon Uwch CBAC) yn arholi sgrïptiau pornograffig • gofyn i gopi o'r sgrïpt ddrama dan sylw gael ei anfon at CBAC. <p>Ni chymerodd Mr Matthews unrhyw gamau.</p>	
1991	4 Chwef	<p>Llythyr gan Mrs Phillips at y Barnwr Richards yn codi amheuan ynghylch y camau a gymerodd llywodraethwyr yr ysgol mewn perthynas ag ymddiswyddiad Mr Owen ac yn cwyno am ei ddulliau addysgu a'r deunyddiau.</p>	
1991	5 Chwef	<p>Adroddiad Mr Edwin Roberts (Cyfarwyddwr Addysg) i Lywodraethwyr Ysgol Gyfun Rhydfelen</p> <p>Yn yr adroddiad i gorff llywodraethu'r ysgol nodwyd canfyddiad Mr Roberts o'r digwyddiadau a arweiniodd at ymddiswyddiad Mr Owen. Nododd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • i gŵyn ddod i law gan riant ynghylch dulliau addysgu Mr Owen • i lythyrau yn ei gefnogi ddod i law hefyd. <p>Roedd yr adroddiad yn anghywir, yn gamarweiniol ac yn gryf o blaidd derbyn ymddiswyddiad Mr Owen.</p>	Pennod 4
1991	6 Chwef	<p>Ffoniodd y Barnwr Richards Mr Roberts i drafod llythyr cwyn Mrs Phillips dyddiedig 4 Chwefror 1991. Cyfeiriodd Mr Roberts at ei llythyr fel "sgrïpt ddrama".</p>	Pennod 4

CRONOLEG

Blwyddyn	Dyddiad	Digwyddiad	Pennod Berthnasol o'r Adroddiad
1991	6 Chwef	Llythyr oddi wrth y Barnwr Richards at Mr Roberts yn amgáu copi o lythyr Mrs Phillips dyddiedig 4 Chwefror 1991. Anfonodd Mr Roberts y llythyr hwn at Mr Askey gyda chyfarwyddiadau i gysylltu â Chlerc y Sir 'i gael cyngor cyfreithiol'. Ysgrifennwyd y canlynol arno: " nid oes brys mawr yn hyn o beth - i gyrraedd 30 Ebrill a dyddiad yr ymddiswyddiad "	
		Nid atebodd Mr Roberts lythyr Mrs Phillips.	Pennod 4
1991	6 Chwef	Llythyr oddi wrth y Barnwr Richards at Mrs Phillips mewn ymateb i'w llythyr dyddiedig 4 Chwefror 1991. Fe'i hysbysodd iddo gyfeirio'r llythyr at y Cyfarwyddwr Addysg.	
1991	6 Chwef	Ysgrifennodd Mrs Phillips lythyr cwyn at CBAC: <ul style="list-style-type: none"> • yn gofyn am ymchwiliad trylwyr • yn codi amheuaeth ynghylch rôl y Prif Arholwr, Mr Edwards • yn amgáu copi o'r sgrïpt Safon Uwch (na chafodd ei pherfformio yn yr arholiad Safon Uwch) • yn cwyno i'r iaith a'r hyn y disgwyliwyd iddi ei actio ffieldio ei merch gymaint nes iddi roi'r gorau i astudio'r pwnc yn gyfan gwbl. 	Pennod 15

CRONOLEG

Blwyddyn	Dyddiad	Digwyddiad	Pennod Berthnasol o'r Adroddiad
1991	7 Chwef	<p>Dygodd y Barnwr Richards lythyr Mrs Phillips dyddiedig 4 Chwefror 1991 i sylw'r is-bwyllgor disgyblu.</p> <p>Cofnodion cyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Gyfun Rhydfelen</p> <p>Eitem 28: Rhoddwyd datganiad a baratowyd gan y Cyfarwyddwr Addysg yn ymwneud ag atal Mr Owen o'i swydd i aelodau o'r corff llywodraethu.</p> <p>Eitem 29.11: Trafododd yr aelodau yr anhawster gyda hyd yn oed "derbyn" yr ymddiswyddiad heb wybod beth oedd cynnwys yr achos a luniwyd gan yr awdurdod. Cyfunodd Mr Matthews i ymchwilio i'r mater hwn drwy'r Cyfarwyddwr Addysg.</p>	Pennod 14
1991	21 Chwef	<p>Llythyr oddi wrth Mr Clayton Haycock, Ysgrifennydd CBAC at Mrs Phillips.</p> <p>Cydnabu wrth y Cadeirydd iddo dderbyn ei llythyr (dyddiedig 6 Chwefror 1991) a nododd iddo ofyn i gydweithwyr yn yr adran Arholiadau edrych yn fanylach ar y mater.</p>	Pennod 15
1991	22 Chwef	<p>Dywedodd mam Disgybl 3 wrth Mrs Phillips bod ei merch yn cael ei fictimeiddio gan Miss Williams. Dywedodd Disgybl 4 hefyd wrth Mrs Phillips ei bod yn cael ei fictimeiddio gan Miss Williams.</p> <p>O ganlyniad, trefnodd Mr Roy Davies i Ddisgybl 4 fynychu'r ysgol ar gyfer ei gwersi Safon Uwch yn unig. Yn dilyn hynny gadawodd Disgybl 3 Ysgol Gyfun Rhydfelen.</p>	Pennod 12
1991	28 Chwef	<p>Llythyr oddi wrth Mr Matthews at Mr Roberts yn mynegi pryder llywodraethwyr Ysgol Gyfun Rhydfelen ynghylch y diffyg gwybodaeth oedd ar gael iddynt am ymddiswyddiad Mr Owen.</p> <p>Ysgrifennwyd nodyn ar y llythyr gan Mr Roberts fel a ganlyn: "Mr Askey - a fydddech mor garedig ag ymdrin â hyn?"</p>	

CRONOLEG

Blwyddyn	Dyddiad	Digwyddiad	Pennod Berthnasol o'r Adroddiad
1991	8 Mawrth	<p>Cofnodion cyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Gyfun Rhydfelen</p> <p>Eitem 13: Cyfarfod y Corff Llywodraethu 22/01/91 a 07/02/91 - adroddiad llafar gan y Pennaeth ei fod yn absennol o'r ysgol ar y pryd ac nad oedd yn ymwybodol o'r amgylchiadau a arweiniodd at atal Mr Owen o'i swydd.</p> <p>Eitem 13.2: Gofyn yn ffurfiol am gael gweld y llythyrau oedd yn cynnwys yr honiadau er mwyn ymchwilio yn llawn i'r arferion addysgu yn yr ysgol, gyda'r bwriad o osgoi sefyllfa debyg rhag codi yn y dyfodol.</p> <p>Ni chafodd y llywodraethwyr y wybodaeth hon.</p>	
1991	13 Mawrth	<p>Llythyr at CBAC oddi wrth Mrs Phillips.</p> <p>Gwnaeth Mrs Phillips gŵyn arall, gan amgáu copi o gân anllad a berfformiwyd fel darn cyswllit mewn arholiad Safon Uwch. Cododd amheuaeth ynghylch rôl yr arholwr Safon Uwch, Mr Edwards.</p>	Pennod 15
1991	15 Mawrth	<p>Llythyr oddi wrth CBAC at Mrs Phillips yn ymateb i'w llythyr dyddiedig 6 Chwefror 1991. Nododd y llythyr y byddai CBAC yn sefydlu is-bwyllgor i baratoi canllawiau i ysgolion ar ddewis gwaith i'w gyflwyno. Roedd y llythyr yn cynnwys gwybodaeth anghywir a charmarweiniol.</p>	Pennod 15
1991	15 Mawrth	<p>Cysylltodd Mrs Phillips â'r heddlu. Dechreuodd ymchwiliad yr heddlu tua'r adeg hon.</p>	Pennod 9

CRONOLEG

Blwyddyn	Dyddiad	Digwyddiad	Pennod Berthnasol o'r Adroddiad
1991	18 Mawrth	Llythyr oddi wrth fam Disgybl T at Mr Roberts. Nododd y llythyr ei bod yn bryderus iawn na ddylid caniatáu i Mr Owen ddysgu byth eto. Amgaeodd gopi o'r llythyr a anfonodd ar 15 Gorffennaf 1988 at y Pennaeth, Mr Jones, a llywodraethwyr yr ysgol. Ysgrifennodd Mr Askey nodyn ar ei llythyr yn rhoi'r cyfarwyddyd canlynol "dim ymateb a dim i'w gynnwys fel tystiolaeth".	Pennod 4
1991	21 Mawrth	Llythyr oddi wrth CBAC at Mrs Phillips yn cydnabod iddynt dderbyn ei llythyr dyddiedig 13 Mawrth. Nid ymchwiliodd CBAC i'w chwynion difrifol.	Pennod 15
1991	22 Mawrth	Cofnodion cyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Gyfun Rhydfelen Eitem 48: Mr Owen (i) adroddiad llafar y Cadeirydd i'r perwyl na eillid trafod y mater hwn ymhellach gan fod yr heddlu yn ymchwilio iddo ar hyn o bryd (ii) os na fyddai'r heddlu yn cymryd unrhyw gamau yn dilyn eu hymchwiliadau, yna gallai'r llywodraethwyr roi ystyriaeth bellach i'r mater ac i'r gweithdrefnau mewn materion o'r fath.	
1991	22 Mawrth	Llythyr oddi wrth Mr Roberts at Mr Matthews mewn ymateb i'w llythyr dyddiedig 28 Chwefror 1991 yn ei hysbysu bod Mr Roberts yn aros am gyngor gan Glerc y Sir ynghylch mynd ymlaen i gynnal ymchwiliad disgyblu yn dilyn ymddiswyddiad ac ochr yn ochr ag ymchwiliad yr heddlu. Anfonwyd copi o'r llythyr at y Barnwr Richards.	Pennod 4
1991	22 Mawrth	Ysgrifennodd Mr Roberts at y Barnwr Richards yn ei hysbysu ei fod yn mynd ar drywydd y mater a bod "ymyrraeth gan yr heddlu wedi disodli camau posibl gan y llywodraethwyr".	Pennod 4

CRONOLEG

Blwyddyn	Dyddiad	Digwyddiad	Pennod Berthnasol o'r Adroddiad
1991	26 Mawrth	Cyfelwyd Mr Roberts gan yr heddlu. Ni ofynnodd am friff gan ei staff, nid ymgynghorodd â Mr Matthews ac nid aeth â llythyr Mrs Phillips dyddiedig 4 Chwefror 1991 gydag ef.	Pennod 4
1991	27 Mawrth	Anfonodd Mr Matthews llythyrau at rieni yn Ysgol Gyfun Rhydfelen yn gofyn am ganiatâd ganddynt i rannu datganiadau'r disgyblion gyda'r heddlu.	
1991	28 Mawrth	Llythyr oddi wrth Mr Askey at y Ditectif Ringyll Thomas yn amgáu'r datganiadau a gymerodd Mr Matthews gan y disgyblion.	Pennod 9
1991	6-13 Ebrill	Teithiodd Mr Owen o amgylch Cymru gyda chynhyrchiad yr Urdd o Godspell, oedd yn cynnwys oddeutu ugain o bobl ifanc.	
1991	Ar ôl 30 Ebrill	Parhaodd Mr Owen i gael cyswllt â disgyblion o Ysgol Gyfun Rhydfelen, drwy roi gwersi i rai ohonynt o'i gartref.	Pennod 16
1991	Mai	Cyfarwyddodd a chynhyrchoedd Mr Owen sioe gerdd roc yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Nhaf Elái. Cynhaliwyd yr ymarferion dros gyfnod o fisoedd ac roedd yn cynnwys wyth deg o bobl ifanc. Yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd cyfarwyddodd Mr Owen 'Cwllwm'. Honnodd Disgybl J yn 2003 i Mr Owen ei gam-drin yn ystod y cyfnod hwnnw. Gofynnodd Cyfarwyddwr yr Urdd i Mr Owen drafod ei ymddiswyddiad a chafodd sicrwydd gan Mr Owen nad oedd dim i bryderu yn ei gylch. Codwyd sefyllfa Mr Owen ym Mhwylgor Gwaith Eisteddfod 1991. Penderfynwyd yn niffyg unrhyw gyhuuddiadau manwl y byddai'n annheg cymryd unrhyw gamau. Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth gan Gyngor Sir Morgannwg Ganol a oedd yn darparu cymorth grant sylweddol i gefnogi Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ac a fu'n ymwneud â'r gwaith o'i chynllunio am ddwy flynedd.	Pennod 16

CRONOLEG

Blwyddyn	Dyddiad	Digwyddiad	Pennod Berthnasol o'r Adroddiad
1991	10 Mai	<p>Hysbysodd y Ditectif Arolygydd Mears Mrs Phillips bod Gwasanaeth Erllyn y Goron wedi penderfynu peidio â pharhau â'r erlyniad yn erbyn Mr Owen.</p> <p>Llesteiriwyd ymchwiliad yr heddlu gan fethiant yr awdurdod addysg lleol i rannu'r holl wybodaeth. Ni roddwyd y canlynol i'r heddlu</p> <ul style="list-style-type: none"> • y datganiadau a wnaeth y disgyblion i'r athrawon • y nodiadau a gymerwyd gan yr athrawon am honiadau'r plant • adroddiad wedi'i lofnodi gan y Pennaeth dros dro a'r uwch athrawon • y datganiad gwrthbrawf a baratowyd gan Mr Owen • y llythyr Cymraeg a Saesneg gan Ddisgybl J yn ei lawysgrifen na'r fersiwn wedi ei deipio • datganiad Mr Roy Davies, athro, yn amgáu nodyn lle y dywedodd Mr Owen y byddai'n dweud celwydd wrth yr arholwr. <p>Ni hysbyswyd yr heddlu i Mr Owen weld datganiadau'r plant cyn cyfweiliadau'r heddlu.</p>	Pennod 9
1991	24 Mai	<p>Llythyr gan Mr Roberts at y Barnwr Richards. Nododd y llythyr nad oedd yr heddlu yn bwriadu cymryd unrhyw gamau ynghylch y gŵyn a dderbyniwyd yn erbyn Mr Owen a gan i Mr Owen ymddiswyddo ar 30 Ebrill ni ddylai'r llywodraethwyr gymryd unrhyw gamau pellach a dyna oedd diwedd y mater.</p>	Pennod 4

CRONOLEG

Blwyddyn	Dyddiad	Digwyddiad	Pennod Berthnasol o'r Adroddiad
1991	14 Mehefin	<p>Cofnodion cyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Gyfun Rhydfelen</p> <p>Eitem 68.1: Yn dilyn ymddiswyddiad Mr Owen bu digwyddiad yn yr ysgol a arweiniodd at ddisgybl yn trosglwyddo i Ysgol Gyfun Llanhari a derbyniwyd llythyr cwyn gan riant y disgybl dan sylw.</p> <p>Eitem 68.2: Dylid ystyried y mater hwn gan yr is-bwyllgor disgyblu.</p>	
1994		Ymdeolodd Mr Roberts o Gyngor Sir Morgannwg Ganol.	Pennod 4
1996		Ffilmio'r gyfres gyntaf o 'Pam fi Duw?' . Ffilmwyd y gyfres yn Ysgol Y Cymmer yn y Rhondda gyda phlant 10 oed a throsodd. Mr Owen oedd awdur y gyfres i ddechrau ac yna daeth yn awdur ac yn gyfarwyddwr.	Pennod 17

CRONOLEG

Blwyddyn	Dyddiad	Digwyddiad	Pennod Berthnasol o'r Adroddiad
2001	Mai	Dechreuodd yr heddlu ymchwiliad arall i honiadau yn erbyn Mr Owen. Roedd cynhyrhydd 'Pam fi Duw?' yn ymwybodol o'r ymchwiliad. Dywedodd y rheolwyr yn HTV ac S4C wrthi i "barhau fel ag o'r blaen."	Pennod 17
2001	13 Medi	Cafodd Mr Owen ei arestio a'i gyhuddo o gyflawni troseddau difrifol yn erbyn plant, dau gownt o ymosod yn anweddus, dwy ymgais i gyflawni sodomiaeth ac un cownt o sodomiaeth.	Pennod 2
2001	Hydref 4	Aeth y Ditectif Gwnstabl Orrell i garafán ym Mhorthcawl lle y cantuwyd Mr Owen yn farw.	
2001	Tachwedd	Cyhoeddodd Mr Peter Clarke, Comisiynydd Plant Cymru, ei fwrriad i gynnal ymchwiliad cyhoeddus i'r digwyddiadau a barodd i Mr Owen ymddiswyddo o Ysgol Gyfun Rhydfelen.	
2001	14 Rhag	Penderfynodd Pwyllgor Amddiffyn Plant Rhondda Cynon Taf gynnal Adolygiad o Achos Difrifol i'r ffordd yr ymdriniwyd â'r honiadau o gam-drin rhywiol a wnaed gan bobl ifanc yn erbyn Mr Owen.	
2002	Mawrth	Dechreuodd Mr Peter Clarke, Comisiynydd Plant Cymru, Ymchwiliad Clywch.	
2003	Mehefin	Cyhoeddwyd Adroddiad Pwyllgor Adolygu Achos Difrifol PAP Rhondda Cynon Taf a'r Adroddiad Trosolwg.	
2003	Tachwedd	Cwblhawyd gwrandawiadau cyhoeddus Ymchwiliad Clywch.	